

CANLLAWIAU ATHRAWON

CYNNWYS

Cyflwyniad		3
Deunyddiau rhyngweithiol		7
Cysylltiadau trawsgwricwlaidd		9
Uned 1		16
Rhan 1	Yn yr ardd	20
Rhan 2	Hedyn arbennig	28
Rhan 3	Y trêr bach	35
Rhan 4	Y Pod-antur Cymraeg	40
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	45
Uned 2		48
Rhan 1	Tom a Beca'n mesur	52
Rhan 2	Diwali	62
Rhan 3	Noson Tân Gwylt	68
Rhan 4	Drama'r Nadolig	74
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	78
Uned 3		81
Rhan 1	Padell ffrio fawr	85
Rhan 2	Powlen od	93
Rhan 3	Mynd i'r ysgol	99
Rhan 4	Tŷ mawr	105
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	113
Uned 4		116
Rhan 1	Problem!	120
Rhan 2	Yn y siop	127
Rhan 3	Pridd	131
Rhan 4	Compost	135
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	140
Uned 5		144
Rhan 1	Dŵr	148
Rhan 2	Glan-llyn	157
Rhan 3	Dŵr mewn potel	166
Rhan 4	Paid gwastraffu dŵr!	171
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	176
Uned 6		179
Rhan 1	Ble mae Bob?	183
Rhan 2	Bob, druan!	188
Rhan 3	Hadau aawns	192
Rhan 4	Paratoi	196
Rhan 5	Mynd adre	200

CYFLWYNIAD

Y Pod-antur Cymraeg - P-aC₃

Mae'r pecyn hwn wedi'i baratoi ar gyfer dysgu Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2. Y nod yw adeiladu ar batrymau iaith a geirfa sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac ym Mhecynnau 1 a 2, eu datblygu nhw ymhellach ac yna'u trosglwyddo nhw i gyd-destunau gwahanol, gan alluogi'r disgyblion i ddeall Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, i siarad ac i ysgrifennu mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol bwrpasau.

Fe'u hanogir, felly, i:

- **siarad** a rhyngweithio mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan weithio fel unigolion ac mewn parau a grwpiau
- **gwrando a gwyllo** o'n ofalus er mwyn deall ac ymateb i'r hyn a ddywedir
- **darllen** ystod eang o destunau er mwyn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol
- **ysgrifennu** yn unol â'r pwrpas a'r gynulleidfa.

Yn ogystal â datblygu sgiliau iaith, mae'r pecyn yn darparu cyfleoedd dilys i gyflwyno meysydd eraill o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n galluogi'r disgyblion i ddefnyddio a gwella sgiliau datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Tynnir sylw at y cyfleoedd hyn ar ddechrau pob uned. Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau pellach yn unol â hwnnw.

Cynnwys

Mae'r pecyn aml-gyfrwng hwn yn cynnwys y canlynol:

DVD

Mae'r DVD yn cynnwys chwe uned, pob un wedi'i rhannu'n bum rhan. Mae'r bum ran yn unedau 1-5 yn adolygu'r patrymau a'r eirfa sydd wedi'u defnyddio yn y pedair rhan gyntaf ac mewn sefyllfaoedd blaenorol.

Deunyddiau darllen

15 o lyfrau stori a llyfrau ffeithiol

15 o gardiau darllen

Mae pob llyfr / cerdyn darllen yn berthnasol i ran benodol o'r DVD.

Geiriadur

Mae hwn yn cynnwys geiriau a glywir ar y DVD fel bod disgyblion / athrawon yn gallu chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd maen nhw'n eu clywed. Nid yw'n cynnwys pob gair sydd yn y deunydd darllen gan fod geirfa gynhwysfawr yng nghefn pob llyfr ac ar bob cerdyn darllen.

50 o gardiau trafod

Mae'r rhain yn berthnasol i'r unedau ac maen nhw'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio geirfa a phatrymau sy'n cael eu cyflwyno ar y DVD mewn gwahanol sefyllfaoedd fel eu bod yn cynnig cyd-destunau dilys ar gyfer cyfathrebu. Mae pob cerdyn yn cynnwys cyfeiriad penodol ynglŷn â lle y dylid ei gyflwyno, e.e. **P-aC₃: Uned 1, Rhan 1**.

Gellid rhoi detholiad o gardiau addas i'r disgyblion unrhyw bryd fel eu bod nhw'n gallu adolygu'r patrymau a'r eirfa sy'n gysylltiedig â gwahanol sefyllfaoedd. Wrth i'r disgyblion fynd drwy bob pecyn, gellid ail-ddefnyddio cardiau trafod o becynnau blaenorol ar gyfer adolygu hefyd.

Gweithgareddau rhyngweithiol

Cysylltir gweithgareddau rhyngweithiol gyda'i gilydd mewn gêm ar y sgrin. Mae'r rhain yn gofyn i'r disgyblion gasglu llythrennau, ateb cwestiynau a llywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy storm o asteroidau a drwy ogof arallfydol.

Gweler yr adran **Deunyddiau rhyngweithiol** am fwy o fanylion.

Canllawiau athrawon

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau sy'n cyd-fynd â phob uned, h.y.

- nodau pob uned

- rhestr o'r brif eirfa a'r patrymau a ddefnyddir ar y DVD – y ffurfiau newydd a'r rhai cyfarwydd
- canllawiau dewisol sy'n cynnig cyfarwyddyd cam wrth gam ynglŷn â sut y **gellid** defnyddio'r DVD, e.e. sut i gyflwyno ac atgyfnerthu patrymau iaith Cymraeg, pryd i ddefnyddio'r deunyddiau darllen a'r cardiau siarad ac yn y blaen. Fodd bynnag, gan fod gan wahanol athrawon ddulliau gwahanol o ddysgu a gan fod amgylchiadau'n amrywio o ddosbarth i ddosbarth, dylid addasu'r canllawiau yn unol â'ch anghenion chi eich hun.
- cysylltiadau trawsgwricwlaidd ac awgrymiadau ynglŷn â datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif
- awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir trosglwyddo'r eirfa a'r patrymau i fywyd yr ysgol yn gyffredinol, e.e. sut i ofyn am wybodaeth yn gyffredinol, sut i ganmol, sut i ofyn am farn a sut i fynegi barn ac ati.

Patrymau Iaith P-aC₃

Yn y ddogfen hon, byddwch chi'n dod o hyd i eirfa a phatrymau iaith mae modd eu defnyddio mewn sefyllfaoedd pob dydd, e.e. wrth ofyn am wybodaeth a'i rhoi, wrth gyflwyno llyfr, wrth siarad am ddigwyddiad yn y gorffennol a.y.b. Yn ogystal, gellir eu defnyddio wrth gyfeirio at feysydd penodol o'r cwricwlwm, e.e. wrth ymgymryd â gwaith celf a dylunio, gwaith dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol, gweithgareddau cerddorol ac ati neu wrth ymgymryd â gwaith mwy penodol sy'n ymwneud â phobl Oes Fictoria ac ati.

Defnyddiwch y patrymau Cymraeg hyn gymaint ag y gallwch chi – yn achlysurol drwy gydol y dydd ac wrth gyflwyno gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Anogwch y disgyblion i siarad Cymraeg mor aml â phosib, e.e. **Ga i help os gwelwch yn dda?; Esgusodwch fi.** Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwybod yr eirfa berthnasol, anogwch nhw i ddefnyddio patrymau Cymraeg, e.e. **Dw i eisiau file os gwelwch yn dda.**

Defnyddio'r pecyn

Mae canllawiau penodol wedi cael eu paratoi ar gyfer pob uned ac mae'r rhain yn dangos sut y **gellid** defnyddio'r deunyddiau. Fodd bynnag, mae croeso i athrawon addasu'r rhain yn unol â'u harddull ddysgu eu hunain a gofynion eu dosbarthiadau. Dyma rai awgrymiadau cyffredinol:

- Defnyddiwch y deunydd yn rheolaidd.
- Chwaraewch y DVD mor aml â phosib – bydd gwrando a gwylio'n rheolaidd yn gwella ynganiad a dealltwriaeth.
- Paratowch y disgyblion cyn gwylio uned ar y DVD, e.e. cyflwynwch yr eirfa a'r patrymau iaith newydd. Bydd hyn yn gwneud y profiad yn un mwy ystyrlon a phleserus.
- Dylai'r disgyblion wylïo'r ffilm sawl gwaith. Mae dangos unedau blaenorol yn ffordd dda o adolygu patrymau a geirfa.
- Manteisiwch ar y cyfleoedd ar y DVD i'r disgyblion ryngweithio â'r cymeriadau, e.e. dylid eu hannog i ateb y cwestiynau sy'n cael eu cyfeirio atyn nhw.

Amrywiadau ieithyddol

Er mwyn ceisio sicrhau bod y pecyn yn berthnasol i ddisgyblion ledled Cymru, mae Beca yn defnyddio ffurfiau gogleddol ond mae Tom yn defnyddio ffurfiau sy'n gysylltiedig â De Cymru. Ni ddylai hyn achosi unrhyw anhawster oherwydd caiff y ffurfiau hyn eu cyflwyno a'u hailadrodd drwy gydol y pecyn, e.e.

Beca (Gogledd Cymru)	Tom (De Cymru)
rŵan	nawr
Mae'n ddrwg gen i.	Mae'n flin 'da fi / gyda fi.
Dos.	Cer.
Tyrd.	Dere.
llefrith	llaeth
deffro	dihuno

Sylwer:

DYLID YMGYMRYD Â PHOB GWEITHGAREDD YN UNOL Â PHOLISIÂU'R YSGOL A'R RHEOLIADAU IECHYD A DIOGELWCH PERTHNASOL.

Y Pod-antur Cymraeg₃

Mae'r DVD a'r holl ddeunydd ychwanegol sy'n cyd-fynd ag e wedi'u seilio ar y Pod-antur Cymraeg, peiriant teithio sy'n caniatáu i'r cymeriadau, Tom a Beca, deithio o le i le a thrwy amser. Wrth iddo deithio i wahanol leoliadau daearyddol a chyfnodau hanesyddol, mae'n rhoi cyfleoedd i dargedu amryw feysydd y cwricwlwm a sgiliau gwahanol. Yn gwyno, dyma'r 'stori':

Uned 1: Mae Tom, sy'n gweithio yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, yn dod o hyd i hedyn arbennig yn yr ardd ac mae'n ei hau. Yna, mae'n taflu darnau arian i mewn i lyn lwcus ac mae'n gwneud dymuniad. Mae'n dymuno cael antur yn ei fywyd. Ar unwaith, mae e a'r hedyn yn cael eu cymryd i'r Pod-antur Cymraeg.

Mae Beca'n beicio yn Eryri ac mae'n penderfynu mynd i fyny'r Wyddfa ar y trê'n bach. Fodd bynnag, mae'n colli'r trê'n ac mae'n teimlo'n drist gan ei bod hi'n dymuno teithio a chael antur. Ar unwaith, mae'n cael ei chymryd i'r Pod-antur Cymraeg lle mae'n cyfarfod â Tom.

Maen nhw'n dod i adnabod ei gilydd ac maen nhw'n dysgu am allu'r Pod-antur Cymraeg i'w cludo i wahanol leoedd ac i wahanol amseroedd. Ar ddamwain, mae Tom yn sefyll ar y cylch coch, sef y cylch sy'n eu galluogi i deithio o'r Pod-antur Cymraeg, ac mae'n teithio o blaned i blaned.

Uned 2: Mae'r planhigyn (sef yr hedyn yn Uned 1) wedi dechrau tyfu ac mae'r cymeriadau'n ei fesur. Maen nhw'n sylweddoli ei fod yn dioddef oherwydd prinder golau ac felly mae Beca'n teithio i ysgol lle mae'r plant yn gwneud addurniadau Diwali er mwyn chwilio am olau ac yna mae'r ddau gymeriad yn cymryd y planhigyn - sef Bob erbyn hyn - i'r Ddaear i'w osod yng ngolau'r haul. Mae Beca'n mynd i Noson Tân Gwyllt. Yn ogystal, yn yr uned hon, gwelwn blant ysgol yn perfformio drama o'r enw **Edrychwch ar y Golau**, sy'n seiliedig ar stori'r Nadolig.

Uned 3: Mae'r cymeriadau'n gwneud crempogau ac maen nhw'n dod o hyd i arteffactau Fictoraidd yn y Pod-antur Cymraeg. Mae Tom, sydd eisiau dysgu mwy am oes Fictoria yn teithio'n ôl i ysgol Fictoraidd ac yna i dŷ Fictoraidd.

Uned 4: Mae'r cymeriadau'n mesur y planhigyn eto ac maen nhw'n sylweddoli nad yw'n tyfu'n iawn gan ei fod mewn pot sy'n rhy fach iddo ac nad oes digon o bridd ynddo. Felly, maen nhw'n mynd i siop elusen i brynu pot mwy ac mae Beca'n mynd i gae i nôl pridd. Yno, mae hi'n cyfarfod â dyn rhyfedd - un o Ferched Beca. Mae hi'n cael braw ac felly mae'n rhuthro yn ôl i'r Pod-antur Cymraeg heb y pridd. Felly, mae'r ddau gymeriad yn mynd i ganolfan gompostio ac maen nhw'n gweld sut mae bwyd sydd wedi pydru a deunydd gwyrdd o'r ardd yn cael eu troi'n gompost.

Uned 5: Mae problem gyda'r cyflenwad dŵr yn y Pod-antur Cymraeg ac felly mae'r cymeriadau'n mynd yn ôl i'r ddaear i gael dŵr ar gyfer Bob, sydd bellach yn gwywo. Mae Tom yn mynd i Lan-llyn ond mae'n dod yn ôl i'r Pod-antur Cymraeg heb ddŵr gan ei fod yn teimlo'n ofnus ar ôl gweld bwystfil yn y llyn. Mae Beca'n mynd i ffatri potelu dŵr yn ne Cymru. Yn ogystal, rydyn ni'n gweld bod Tom yn gwastraffu dŵr yn ei fywyd dyddiol ac mae Beca'n dangos iddo sut y gall arbed dŵr.

Uned 6: Mae Bob yn cael ei herwgipio pan mae'n ymweld â Chymru. Mae Tom a Beca'n penderfynu achub y planhigyn ac felly maen nhw'n paratoi ar gyfer y sialens drwy baratoi brecwast iach a gwneud ymarferion cadw'n heini, er mwyn iddyn nhw fod yn gryf ac yn heini. Maen nhw'n achub Bob.

Ar ôl iddyn nhw ddychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg, mae'r planhigyn yn dechrau gwneud a gwasgaru hadau ac mae'r cymeriadau'n sylweddoli y dylen nhw fynd ag e i le lle bydd yr hadau'n gallu tyfu'n blanhigion cryf. Felly, maen nhw'n dychwelyd i Gymru, yn plannu Bob ac yna maen nhw'n dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg.

Cydnabyddiaethau

Diolch i'r canlynol am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth wrth gynhyrchu'r Pod Antur Cymraeg:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Ysgol Gynradd Parc Ninian
Fireworks Fiesta, Lavernock Road, Penarth, a drefnwyd ac a noddwyd gan y Rotary, y Round Table
a chlybiau rygbi Penarth
Llety'r Barnwyr, Llanandras
Park Hall The Countryside Experience, Croesoswallt
Rheilffordd yr Wyddfa
Parc Cenedlaethol Eryri
Cwm Environmental, Caerfyrddin
Llanberis Bike Hire
Parc Howard, Cyngor Sir Caerfyrddin
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Ysgol Rhoshelyg, Llangeitho, Tregaron
Ms Alison Tickner
Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn
Parc Gwlad Llyn Llech Owain, Caerfyrddin
Brecon Carreg, Trap
GHA Coaches Cyf., Wreccsam
Barnardos
Costumes To Go
Mrs Margaret Roberts
Mrs Eirian Hughes
Mr Alwyn Hughes

Deunyddiau Rhyngweithiol

Y stori

Yn y gêm rhyngweithiol, mae Tom yn teithio'n ôl i'r Pod-antur Cymraeg. Wrth iddo deithio, rhaid iddo gwblhau gweithgareddau a rhaid i'r disgyblion ei helpu.

Gêm rhyngweithiol - cyfarwyddiadau

Cliciwch ddwywaith ar eicon y gêm rhyngweithiol.

Cliciwch ar **Dechreuwch**.

Bydd cyfarwyddiadau'n ymddangos ar waelod y sgrin, e.e.

Taflwch y dis.

Symudwch.

Eiconau

Bydd sawl eicon i'w gweld ar fwrdd chwarae'r gêm:

- **Eicon y llong goch**

Bydd yr eicon hwn yn arwain at gêm rhyngweithiol, e.e. **Saethwr Sydyn, Glaniwr y Gofod** neu **Troellwr y Twnnel**.

Dyma sut mae eu chwarae:

Saethwr Sydyn

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **llygoden** i lywio'r Pod-antur Cymraeg drwy storm o asteroidau gan chwilio, yr un pryd, am greigiau gwyrdd sy'n cynnwys llythrennau sy'n sillafu gair. Os byddan nhw'n sillafu'r gair yn gywir, bydd Tom yn symud ymlaen (yr un nifer o gamau ag sydd o lythrennau yn y gair a sillafwyd). Fodd bynnag, os bydd y Pod-antur Cymraeg yn taro yn erbyn asteroid, bydd y gêm yn dod i ben a bydd Tom yn symud yn ôl (ar sail nifer y llythrennau).

Glaniwr y Gofod

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lanio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel a thrwy hynny gwblhau gair. Bydd glanio'n rhy gyflym, neu ar ongl wael, yn crasio'r Pod-antur Cymraeg ac felly bydd y gêm yn dod i ben. Bydd cwblhau'r gêm yn llwyddiannus yn golygu bod Tom yn cael symud ymlaen yr un nifer o sgwariau ag sydd o lythrennau yn y gair. Bydd peidio â chwblhau'r gêm yn symud Tom yn ôl yr un nifer o sgwariau.

Troellwr y Twnnel

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy'r ogof arallfydol. Rhaid iddyn nhw geisio osgoi cyffwrdd ag ochrau'r ogof a chasglu'r swigod sy'n cynnwys llythrennau. Os bydd y Pod-antur Cymraeg yn crasio, bydd y gêm yn dod i ben a bydd Tom yn symud yn ôl. Bydd nifer y sgwariau y bydd yn symud drostynt yn cyfateb i nifer y llythrennau sydd yn y gair mae'n ceisio'i sillafu. Bydd e'n symud ymlaen yr un nifer o gamau os bydd e'n casglu digon o swigod i sillafu gair.

- **Cardiau**

Dylai'r disgyblion glicio ar **Dangoswch** i gael gweld ydyn nhw'n cael symud ymlaen neu'n ôl.

- **Gweithgaredd – cogiau melyn**

Mae'r gweithgaredd hwn yn profi gwybodaeth am y ffilm. Caiff cwestiwn ei ddarllen ar goedd ac, ar ôl i'r ateb gael ei anfon, bydd adborth uniongyrchol ar gael.

Mewn rhai gweithgareddau, bydd rhaid i'r disgyblion gwblhau gweithgareddau ar ddwy neu dair sgrin. Pan fydd hyn yn digwydd, byddan nhw'n derbyn y cyfarwyddyd **Cliciwch ar y sgrin i symud ymlaen**. Caiff y geiriau hyn eu darllen yn uchel hefyd.

Os bydd cwestiwn yn cael ei ateb yn anghywir, bydd Tom yn symud un sgwâr yn ôl. Os bydd cwestiwn yn cael ei ateb yn gywir, bydd Tom yn symud un sgwâr ymlaen.

Er mwyn dychwelyd i'r prif fwrdd chwarae, dylai'r disgyblion glicio ar **'Nôl i'r gêm**.

- **Rhifau Positif a Negatif**

Os bydd y disgybl yn glanio ar sgwâr sy'n cynnwys rhif negatif neu positif, rhaid iddo / iddi symud yn ôl neu ymlaen, yn dibynnu ar y rhif a ddangosir ar y sgwâr.

- **Marc cwestiwn**

Bydd glanio ar farc cwestiwn yn golygu bod angen i'r disgyblion ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau uchod.

- **Sgwâr gwag**

Os bydd y disgybl yn glanio ar sgwâr gwag, rhaid iddo / iddi rollo'r dis unwaith eto.

Pryd i chwarae

Mae'r bwrdd chwarae wedi'i rannu'n dair rhan ac mae pob rhan yn gysylltiedig ag unedau penodol.

Gellid chwarae'r gêm ar ôl i'r disgyblion gwblhau'r ddwy uned berthnasol, e.e. ar ddiwedd uned 2, uned 4 neu uned 6, neu gallen nhw chwarae rhan o'r gêm ar ddiwedd pob uned. Gellid chwarae'r tair rhan ar ôl i'r disgyblion gyrraedd diwedd Uned 6.

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd

Mae'r grid isod yn dangos sut mae'r unedau'n perthyn i feysydd eraill o'r cwricwlwm. Am fwy o wybodaeth, gweler y canllawiau ar gyfer pob uned a'r Rhaglenni Astudio perthnasol.

	Uned 1 Yn yr ardd Hedyn arbennig Y trên bach Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Tom a Beca'n mesur Diwali Noson Tân Gwyllt Drama'r Nadolig Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Padell ffrio fawr Powlen od Mynd i'r ysgol Tŷ mawr Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Problem! Yn y siop Pridd Compost Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Dŵr Glan-llyn Dŵr mewn potel Paid gwastraffu dŵr! Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Ble mae Bob? Bob, druan! Hadau a dawns Paratoi Mynd adre
Celf a dylunio	- cynhyrchu gwaith celf sy'n cyfleu planhigyn ffantasi - cynhyrchu <i>collage</i> o'r planedau - cyfleoedd i astudio <i>Yr Heuwr</i> gan van Gogh ac i beintio yn arddull van Gogh - gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	- cynhyrchu gwaith celf ar gyfer taflenni sy'n ymwneud â thyfiant planhigion - cynhyrchu <i>collage</i> sy'n cyfleu Noson Tân Gwyllt - creu set ar gyfer y ddrama Edrychwch ar y Golau - creu 'ffenestr lliw' drwy ddefnyddio paent ar gyfer gwydr - gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	- tynnu llun neu gopïo arteffactau Fictoraidd - tynnu llun blodau a.y.b. fel yr arferai disgyblion Fictoraidd ei wneud - ymchwilio i bortreadau a thirluniau Fictoraidd a pheintio darnau tebyg - cymharu lluniau mewn llyfrau Fictoraidd gyda lluniau heddiw - gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	- cynhyrchu gwaith celf sy'n cyfleu Terfysgoedd Beca, gan ddefnyddio defnyddiau a gweadau gwahanol - tynnu lluniau i gyd-fynd â gwaith ysgrifenedig - gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	- cynhyrchu gwaith celf sy'n gysylltiedig ag idiomau am y tywydd - cynhyrchu gwaith celf sy'n cyfleu'r chwedl Dial!, e.e. <i>collage</i> - tynnu lluniau / diagramau i gyd-fynd â gwaith ysgrifennu, e.e. y cylch dŵr, y broses o botelu dŵr - gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	- gwneud mapiau, baneri, posteri sy'n gysylltiedig â gwledydd gwahanol - gwneud delweddau ar gyfer eu ryseitiai - gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion
Dylunio a thechnoleg	- cynllunio / creu bwâu addas ar gyfer gwahanol fathau o erddi - creu modelau 3D o wahanol fathau o blanhigion / gwrthrychau sy'n gysylltiedig â gerddi - cynllunio a chreu gwrthrych o boteli plastig	"cynllunio a chyflawni, mewn modd diogel a hylan, ystod eang o dasgau paratoi bwyd ymarferol", e.e. bwyd China - dylunio bwydlenni lliwgar	"cynllunio a chyflawni, mewn modd diogel a hylan, ystod eang o dasgau paratoi bwyd ymarferol", e.e. crempogau - cynllunio a gwneud <i>Welsh Not</i>	- cynllunio a chreu arddangosfa: Yn y Siop Elusen - creu Siop Elusen, e.e. posteri, modelau, taflenni, eitemau wedi'u huwchraddio, cacennau, bisgedi, brand ar gyfer y siop	- trefnu arddangosfeydd ar Tywydd Od a Dŵr - cynllunio bwrdd stori i ddynodi stori Dial! - gwneud model o delyn, pypedau bysedd - cynllunio poteli dŵr / labeli ar gyfer poteli dŵr	- cynhyrchu taflenni, posteri ar gyfer hyrwyddo Cymru - cynllunio gwisgoedd carnifal, fflôts carnifal - paratoi bwydydd syml, e.e. salad, reis, powlen o fiwsl

	Uned 1 Yn yr ardd Hedyn arbennig Y trê'n bach Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Tom a Beca'n mesur Diwali Noson Tân Gwylt Drama'r Nadolig Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Padell ffrio fawr Powlen od Mynd i'r ysgol Tŷ mawr Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Problem! Yn y siop Pridd Compost Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Dŵr Glan-llyn Dŵr mewn potel Paid gwastraffu dŵr! Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Ble mae Bob? Bob, druan! Hadau a dawns Paratoi Mynd adre
Dylunio a thechnoleg (parhâd)	• paratoi brechdanau iach • cynllunio dillad beicio • gwneud modelau / symudyn o'r planedau • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• cynllunio a gwneud rangoli, torran neu addurniadau eraill sy'n gysylltiedig â Diwali neu'r Nadolig • argraffu crysau T • gwneud modelau o'r cymeriadau sydd yn Edrychwch ar y Golau • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• gwneud gweithgareddau Fictoriaidd, e.e. gwasgu blodau, gwneud llyfrau lloffion, gwnïo sampleri a.y.b. • cynllunio a gwneud bwrdd y gêm Nadroedd ac Ysgolion	• cynllunio a gwneud bwrdd stori i gyfleu Terfysgoedd Beca • cynllunio a gwneud pypedau a modelau i'w defnyddio wrth ailadrodd stori Merched Beca • ymchwilio a chynllunio biniau compostio • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	
Saesneg	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig • ysgrifennu darn estynedig am blanhigyn ffantasi	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig • dysgu ac adrodd cerdd a oedd yn boblogaidd yng nghyfnod Fictoria	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • siarad a gwrando mewn grwpiau • cofnodi manylion yn ysgrifenedig
Daearyddiaeth	• adolygu pwyntiau'r cwm pawd • canfod a lleoli lleoedd / gwledydd ar glôb, atlas, map	• canfod a lleoli lleoedd / gwledydd / cyfandiroedd ar glôb, atlas, map		• adolygu pwyntiau'r cwm pawd • cyfleoedd i wneud gwaith map	• adolygu pwyntiau'r cwm pawd • cymharu a chyferbynnu bywyd yng Nghymru gyda bywyd yn Uganda	• adolygu pwyntiau'r cwm pawd • adolygu symbolau mapiau

	Uned 1 Yn yr ardd Hedyn arbennig Y trê bach Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Tom a Beca'n mesur Diwali Noson Tân Gwyllt Drama'r Nadolig Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Padell ffrio fawr Powlen od Mynd i'r ysgol Tŷ mawr Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Problem! Yn y siop Pridd Compost Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Dŵr Glan-llyn Dŵr mewn potel Paid gwastraffu dŵr! Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Ble mae Bob? Bob, druan! Hadau a dawns Paratoi Mynd adre
Daearyddiaeth (parhâd)	• defnyddio TGCh i ddarganfod a chyflwyno gwybodaeth • dilyn cyfarwyddiadau ar fap; defnyddio cyfesurynnau • Ghana • trafod ardal benodol, e.e. Eryri	• cymharu a chyferbynnu Cymru a China • chwilio am wybodaeth am China		• trafod gwarchod yr amgylchedd drwy ailgylchu	• gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas â Diffeithdir Sahara • trafod pwysigrwydd arbed dŵr	• defnyddio cyfesurynnau er mwyn lleoli mannau ar fap • trafod mannau yng Nghymru
Hanes	• cyfleoedd i astudio'r defnydd o berlysiâu / planhigion fel meddyginiaethau yn y gorffennol • cyfleoedd i astudio'r cestyll a leolir yn Eryri	• cyfle i ymchwilio i darddiad tân gwyllt • darllen am Guto Ffowc a Brad y Powdr Gwn a gwneud gweithgareddau priodol	• gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r cyfnod Fictoriaidd – arteffactau Fictoriaidd, bywyd yn y cyfnod Fictoriaidd, ysgol Fictoriaidd, hamdden cyfnod Fictoria • cymharu a chyferbynnu'r cyfnod Fictoriaidd gyda'r unfed ganrif ar hugain • cyfathrebu syniadau mewn ffyrdd amrywiol	• cyfle i astudio agweddau ar y 19eg ganrif ynghyd â chymeriadau hanesyddol o'r cyfnod • gwneud gwaith mewn perthynas â Therfysgoedd Beca	• cyfleoedd i adolygu'r cyfnod Fictoriaidd	• cyfleoedd i astudio agweddau ar hanes Cymru

	Uned 1 Yn yr ardd Hedyn arbennig Y trê'n bach Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Tom a Beca'n mesur Diwali Noson Tân Gwylt Drama'r Nadolig Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Padell ffrio fawr Powlen od Mynd i'r ysgol Tŷ mawr Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Problem! Yn y siop Pridd Compost Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Dŵr Glan-llyn Dŵr mewn potel Paid gwastraffu dŵr! Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Ble mae Bob? Bob, druan! Hadau a dawns Paratoi Mynd adre
TGCh	• "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir," e.e. gwybodaeth am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Eryri, Ghana, y fforest law • cynhyrchu darnau ysgrifenedig • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh e.e. er mwyn creu bwydlenni, posteri taflenni	• dylunio ac argraffu posteri, taflenni a chrysau T gan ddefnyddio meddalwedd priodol • "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh e.e. ffilmio sgysiau, eitem newyddion a pherfformiad o'r ddrama Edrychwch ar y Golau	• "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir," e.e. bwyd, dillad, gweithgareddau hamdden o gyfnod Fictoria, dillad • paratoi a chyflwyno cyflwyniad PowerPoint am fywyd pobl Fictoraidd • dylunio ac argraffu posteri a thaflenni • gwneud bwrdd gêm Nadroedd ac Ysgolion	• cynllunio a chreu arddangosfa Yn y Siop Elusen, e.e. logos, posteri, taflenni a.y.b. • "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir," e.e. mewn perthynas â Dr Barnardo, Merched Beca a chymeriadau hanesyddol eraill a biniau compostio • cynllunio bwrdd stori sy'n cyfleu Terfysgoedd Beca • creu cymeriadau cartŵn y gellid eu hanimeiddio	• chwilio am idiomau am y tywydd mewn ieithoedd gwahanol • animeiddio idiomau am y tywydd • paratoi a chyflwyno bwletin tywydd • cynhyrchu deunyddiau ar gyfer arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth • paratoi a chyflwyno cyflwyniad PowerPoint am Lan-llyn • recordio cyfweiliad • chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd • dylunio a chynhyrchu posteri, taflenni a.y.b.	• chwilio am wybodaeth o ffynonellau gwahanol • ffilmio hysbyseb i hyrwyddo Cymru, eu hardal, y miwsli maen nhw wedi'i baratoi

	Uned 1 Yn yr ardd Hedyn arbennig Y trê'n bach Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Tom a Beca'n mesur Diwali Noson Tân Gwylt Drama'r Nadolig Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Padell ffrio fawr Powlen od Mynd i'r ysgol Tŷ mawr Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Problem! Yn y siop Pridd Compost Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Dŵr Glan-llyn Dŵr mewn potel Paid gwastraffu dŵr! Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Ble mae Bob? Bob, druan! Hadau a dawns Paratoi Mynd adre
Mathemateg	• llunio a defnyddio holiaduron • creu ac egluro graffiau • mesur pellter • adolygu'r amser • cyfrifo biliau a rhoi newid	• mesur • cyfrif fesul pump • creu ac egluro graffiau • rhannu cylch yn 2 hanner a 4 cwadrant • gwneud onglau • gwneud trionglau hafalochrog • gwneud siapiau a phatrymau geometrig • cyfrifo prisiau a gweithio gydag arian • adolygu'r dyddiad a'r amser	• llunio a defnyddio holiaduron • creu ac egluro graffiau / diagramau Venn • pwyso a mesur cynhwysion • addasu ryseitiau drwy gyfrifo faint o gynhwysion sydd eu hangen ar gyfer nifer wahanol o bobl • datrys problemau a chyfrifiadau	• adolygu rhifau hyd at 100 • cyfrifo ac egluro cyfradd tyfiant planhigyn • trafod amserlenni, a thrwy hynny adolygu'r amser • adolygu arian • cyfrifo	• adolygu rhifau hyd at 100 • cyfrifo sawl gwydraid o ddŵr / cwpanaid o de a.y.b. sy'n cael eu hyfed mewn diwrnod • llunio a defnyddio holiaduron • creu ac egluro graffiau • adolygu arian mewn perthynas â siopa yng Nglan-llyn • adolygu canrannau	• llunio a defnyddio holiaduron • creu ac egluro graffiau • addasu ryseitiau ar gyfer nifer wahanol o bobl
Cerdd	• gwrando ar / gwerthuso mathau gwahanol o gerddoriaeth • gwrando ar / gwerthuso <i>Cyfres y Planedau</i> gan Gustav Holst	• gwrando ar ddarnau o gerddoriaeth draddodiadol China ac India a'u gwerthuso a dysgu am offerynnau cerdd China ac India	• mynegi barn am raps • cyfansoddi raps • dysgu caneuon Fictoraidd • gallai disgyblion sy'n gallu canu'r piano chwarae darn a oedd yn boblogaidd yn ystod y cyfnod Fictoraidd	• cyfansoddi, perfformio a gwerthuso raps • dewis darn o gerddoriaeth neu gyfansoddi darn sy'n cyfleu Terfysgoedd Beca	• cyfansoddi, perfformio a gwerthuso raps, caneuon y gellid eu canu yn y gawod • gwrando ar / gwerthuso darnau o gerddoriaeth telyn a cherddoriaeth sy'n cael ei pherfformio ar offerynnau eraill • dewis neu gyfansoddi darn sy'n cyfleu golygfeydd gwahanol yn Dial!	• gwrando ar gerddoriaeth jazz, Caribiaidd a band dur a'i gwerthuso • gwrando ar gerddoriaeth o rannau eraill o'r byd, nodi'r offerynnau a gwerthuso

	Uned 1 Yn yr ardd Hedyn arbennig Y trê bach Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Tom a Beca'n mesur Diwali Noson Tân Gwylt Drama'r Nadolig Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Padell ffrio fawr Powlen od Mynd i'r ysgol Tŷ mawr Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Problem! Yn y siop Pridd Compost Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Dŵr Glan-llyn Dŵr mewn potel Paid gwastraffu dŵr! Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Ble mae Bob? Bob, druan! Hadau a dawns Paratoi Mynd adre
Addysg gorfforol	• creu dawnsiau ar gyfer gwahanol fathau o gerddoriaeth • sgiliau beicio a diogelwch	• adnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffi syml er mwyn eu defnyddio • "i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud", e.e. mewn perthynas â bwystfil sy'n cysgu • <i>tai chi</i> a chadw'n heini • cymryd rhan mewn dawns o India	• dysgu am weithgareddau addysg gorfforol - Fictoraidd a chymryd rhan ynddyn nhw • cymharu a chyferbynnu'r gweithgareddau hyn gyda chadw'n heini ac yn iach yn yr unfed ganrif ar hugain	• llunio dawns i gyd-fynd gyda rap ac i bortreadu dicter y ffermwyr yn ystod Terfysgoedd Beca	• llunio gwahanol fathau o ddawnsiau sy'n berthnasol i'r parti yn y stori Dial! • portreadu'r stori drwy gyfrwng dawns	• llunio gwahanol fathau o symudiadau sy'n addas ar gyfer gorymdaith carnifal • astudio, ymarfer a pherfformio dawnsiau o rannau eraill o'r byd • creu a chymryd rhan mewn gweithgareddau cadw'n heini
Addysg grefyddol	• cyflwyno dameg yr Heuwr • trafod damhegion	• trafod dathliadau • astudio Diwali • perfformio Edrychwch ar y Golau, a gwneud gweithgareddau				
Gwyddoniaeth	• dysgu am rannau planhigyn a'u pwrpas • hau hadau / plannu bylbiau • trafod y ffactorau ar gyfer egino hadau / tyfu planhigion iach • trafod ffordd o fyw iach • y planedau / Cysawd yr Haul	• y planedau • gwneud pryd Tsieineaidd, trafod a yw'n iach • adolygu rhannau planhigyn sy'n blodeuo • cynnal arbrofion i ddangos effaith golau / tywyllwch neu olau haul / golau artiffisial ar blanhigyn	• trafod bwyd iach, sut i wneud pryd yn iachach • cyfle i drafod pam mae gormod o siwgr yn y diet yn ddrwg i chi	• y gofynion ar gyfer tyfiant iach mewn planhigyn • ymweld â chanolfan ailgylchu • gwneud compost	• pwysigrwydd dŵr mewn perthynas â thyfiant planhigyn a phobl • arbrofion sy'n gysylltiedig â dŵr • y tywydd, y cylch dŵr • gwastraffu ac arbed dŵr	• adolygu'r planedau • y gofynion ar gyfer tyfiant iach mewn planhigyn • trafod gwasgaru hadau • trafod grawnfwydydd iach • plannu blodau, planhigion, llwyni, planhigion llysiau

	Uned 1 Yn yr ardd Hedyn arbennig Y trê'n bach Y Pod-antur Cymraeg Ydych chi'n cofio?	Uned 2 Tom a Beca'n mesur Diwali Noson Tân Gwylt Drama'r Nadolig Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Padell ffrio fawr Powlen od Mynd i'r ysgol Tŷ mawr Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Problem! Yn y siop Pridd Compost Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Dŵr Glan-llyn Dŵr mewn potel Paid gwastraffu dŵr! Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Ble mae Bob? Bob, druan! Hadau a dawns Paratoi Mynd adre
Cymraeg Ail Iaith	- nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. Llafaredd: gwylio, gwrandao ac ymateb i ddeunydd clyweledol; gofyn ac ateb cwestiynau; cyflwyno gwybodaeth bersonol; mynegi barn; gweithio'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati. Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. cyflwyno gwybodaeth, ysgrifennu am brofiadau personol, ysgrifennu rhestri, bwydleni, posteri, taflenni, ryseitiau, deialogau, darnau ffeithiol, stori, ymateb personol i ddarlun gan van Gogh ac ati	- nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. Llafaredd: gwylio, gwrandao ac ymateb i ddeunydd clyweledol; gofyn ac ateb cwestiynau; chwarae rôl; mynegi barn cyflwyno gwybodaeth bersonol; cadarnhau a chofnodi manylion ac ati Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, cwestiynau, cwis, sloganau, disgrifiadau, posteri, taflenni, eitemau newyddion, cerddi, ffeithlen, deialog, ryseitiau ac ati	- nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. Llafaredd: gwylio, gwrandao ac ymateb i ddeunydd clyweledol; gofyn ac ateb cwestiynau, trafod gwybodaeth, rhoi cyfarwyddiadau, chwarae rôl ac ati Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati. Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, ryseitiau, posteri, darnau ffeithiol, gwahoddiadau, sylwebaeth ffilm, cyfarwyddiadau ac ati	- nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. Llafaredd: gwylio, gwrandao ac ymateb i ddeunydd clyweledol; gofyn ac ateb cwestiynau; cyfleu profiadau personol a gwybodaeth ffeithiol; chwarae rôl ac ati Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati Ysgrifennu: ysgrifennu mewn amryw ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, raps, deialogau, disgrifiadau, storïau, erthyglau nodwedd, cyfweiliadau, cyfarwyddiadau, darnau'n esbonio graffiau ac ati	- nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. Llafaredd: gwylio, gwrandao ac ymateb i ddeunydd clyweledol; mynegi barn a chyfleu gwybodaeth bersonol a ffeithiol; chwarae rôl ac ati Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa estynedig ac at amrywiaeth o bwrpasau, e.e.. rhestri, darnau personol a ffeithiol, deialogau, disgrifiad o ddigwyddiad yn y gorffennol, cerdd ac ati.	- nifer o gyfleoedd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. Llafaredd: gwylio, gwrandao ac ymateb i ddeunydd clyweledol; mynegi barn a chyfleu profiadau personol a dychmygus; rhoi ac ymateb i gyfarwyddiadau; chwarae rôl ac ati Darllen: darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac ymateb yn synhwyrol ac ati Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa estynedig ac at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, cardiau post, ryseitiau, posteri, taflenni, ysgrifennu ffeithiol, personol a pherswadiol, cofnodion mewn dyddiadur ac ati

Uned 1

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg ail iaith

Llafaredd

Anogir disgyblion i gyfathrebu ar lafar mewn amrywiaeth o amgylchiadau - fesul pâr ac mewn grŵp, e.e. pan fyddan nhw'n gwneud y tasgau a amlinellir ar y **Cardiau Siarad** ac yn chwarae rôl mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, megis prynu bwyd mewn tŷ bwyta, prynu tocyn trên a.y.b. ac mae cyfleoedd i actio rhai o'r golygfeydd yn y llyfr **Stori Llyn y Fan**. Maen nhw hefyd yn ymateb i sbardunau ar y ffilm ac i gwestiynau ei gilydd.

Maen nhw'n rhoi gwybodaeth bersonol yn ogystal â gwybodaeth ffeithiol sy'n seiliedig ar eu hymchwil bersonol. Maen nhw'n gofyn am farn ac am wybodaeth mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ac yn mynegi barn mewn perthynas â'r DVD, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, cerddoriaeth, y deunyddiau darllen a llun gan van Gogh.

Gofynnir iddyn nhw egluro sut i baratoi bwydydd gwahanol a phlannu bylbiau a hadau ac i ddisgrifio'r modelau maen nhw'n eu gwneud. Mae cyfleoedd hefyd i roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrandao'n ofalus ar y ffilm ac i nodi'r prif bwyntiau mewn dulliau amrywiol, e.e. drwy wneud gwaith llafar, drwy ysgrifennu ac ateb cwestiynau mewn cwis a thrwy gwblhau gridiau. Yn ogystal, gellid rhoi crynodeb o ran o'r ffilm i'r disgyblion gyda pheth ohono'n **gywir** a pheth yn **anghywir**. Yna, byddai angen iddyn nhw nodi'r camgymeriadau ar ôl gwyllo'r ffilm. Gallai'r disgyblion ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i ddeunyddiau darllen amrywiol, e.e. llyfr o'r enw **Ble mae'r hadau?**, sy'n seiliedig ar ddameg yr heuwr o'r Testament Newydd, llyfr stori o'r enw **O Blaned i Blaned**, a chwedl Gymreig, **Stori Llyn y Fan Fach**, ynghyd â dwy ffeithlen - **Sut i Blannu Bylbiau** ac **Eryri**.

Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd wrth i ddisgyblion ddarllen eu disgrifiadau o'u planhigyn dychmygol a'u disgrifiadau o'r planedau.

Mae cyfleoedd hefyd i ddarllen gwybodaeth ffeithiol ac i gasglu gwybodaeth o ddelweddau a diagramau sydd ar wefannau ac mewn deunyddiau printiedig mewn perthynas ag Eryri.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion lenwi gridiau, ysgrifennu rhestri, ryseitiau, deialogau a chwestiynau y gellid eu gofyn mewn cwis. Gofynnir iddyn nhw gwblhau ffurflen gofrestru ar ôl gofyn i'w partneriaid am wybodaeth ac i ysgrifennu capsiynau estynedig ar gyfer ffotograffau.

Mae cyfleoedd i ddisgrifio planhigyn dychmygol ac i gynnwys y manylion ar becyn hadau y gallai'r disgyblion ei ddylunio. Mae'r gwaith hwn yn cael ei atgyfnerthu pan ofynnir i'r disgyblion ysgrifennu cardiau i ddisgrifio'r planhigion fydd yn tyfu o'r hadau maen nhw wedi'u hau.

Gofynnir iddyn nhw ymateb i ddarlun gan van Gogh – ar lafar ac yn ysgrifenedig – ac i ddisgrifio'r planedau.

Mae'r disgyblion yn ysgrifennu darnau ffeithiol er mwyn labelu gwahanol rannau planhigyn sy'n blodeuo a pharagraffau byr er mwyn disgrifio pwrpas gwahanol rannau'r planhigyn. Mae cyfleoedd i ysgrifennu posteri, taflenni, cyflwyniadau neu sgript ffilm er mwyn hyrwyddo Eryri, annog pobl eraill i fwyta llysiau ac i roi cyngor ar ddiogelwch ar y ffordd.

Mae cyfleoedd i ysgrifennu am brofiadau personol yn ogystal, e.e. darn personol sy'n cofnodi'r profiad o feicio yn yr ysgol yn Rhan 1 a gwybodaeth personol i'w chynnwys ar fwrdd Pwy ydy Pwy?

Gallai'r disgyblion ailysgrifennu **Stori Llyn y Fan Fach** gan ddilyn y camau a awgrymir gan Pie Corbett.

Saesneg

Gofynnir i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Eryri, Ghana a'r planedau, i wneud nodiadau ac i rannu'r wybodaeth hon. Bydd hyn yn golygu chwilio drwy adnoddau Saesneg megis gwefannau a llyfrau.

Gallen nhw ysgrifennu darn estynedig yn Saesneg er mwyn disgrifio planhigyn dychmygol a gellid cynnwys y manylion canlynol:

- o ble mae wedi dod
- sut mae'n edrych
- pa mor fawr y bydd yn tyfu
- beth sydd ei angen arno er mwyn tyfu
- sut bydd yn atgynhyrchu

a.y.b.

Mathemateg

Gellid defnyddio adnoddau a gweithgareddau mathemategol er mwyn adolygu rhifau yn Gymraeg.

Mae cyfleoedd hefyd i greu holiaduron er mwyn darganfod pa lysiau mae'r disgyblion yn eu hoffi ac i lunio graffiau er mwyn dangos y canlyniadau. Gellid dehongli'r graffiau hyn yn syml:

Mae tri disgybl yn hoffi ...

Mae deg disgybl yn hoffi ...

Rhoddir cyfle i'r disgyblion fesur pa mor bell y gallan nhw daflu gwrthrych a gwneir mwy o waith mewn perthynas ag amser, e.e.

Mae hi'n bum munud wedi ...

a.y.b.

Caiff arian ei adolygu wrth gyfrifo biliau a rhoi newid mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Gwyddoniaeth

Yn yr uned hon, cyflwynir geirfa sy'n gysylltiedig â phlanhigion sy'n blodeuo ac eglurir swyddogaeth gwahanol rannau o'r planhigion. Trafodir y ffactorau sydd eu hangen fel bod planhigyn yn gallu tyfu'n iach a rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion blannu bylbiau a hau hadau.

Trafodir ffordd iach o fyw mewn perthynas â bwyta diet iach ac ymarfer.

Cyflwynir y planedau yn Rhan 4 a gellir gwneud gweithgareddau priodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Daearyddiaeth

Mae'r uned yn cynnwys cyfeiriadau at **gogledd, de, gorllewin a dwyrain** ac mae hyn yn cynnig cyfle i wneud mwy o weithgareddau sy'n gysylltiedig â phwyntiau'r cwmpawd.

Mae'r cyfeiriadau at goed sydd wedi cael eu cludo i Lanarthne o fforestydd glaw Ghana yn cynnig cyfleoedd i chwilio am wybodaeth am y wlad honno ac am fforestydd glaw.

Gwelir map o Eryri ar y daflen **Eryri** a gallai'r disgyblion ddefnyddio hon er mwyn ymarfer defnyddio cyfesurynnau ac atgyfnerthu eu dealltwriaeth o symbolau. Fe'u hanogir hefyd i ddefnyddio'r map wrth iddyn nhw ysgrifennu deunyddiau i hyrwyddo'r ardal.

Hanes

Mae cyfeiriadau at ddefnyddio planhigion ar gyfer trin cyflyrau meddygol yn y gorffennol.

Celf a dylunio

Mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod sesiynau celf a dylunio. Yn y rhan gyntaf, er enghraifft, gallai'r disgyblion ddylunio mathau gwahanol o fwâu ar gyfer mathau gwahanol o erddi, parciau neu fannau coediog.

Gellid annog y disgyblion i ddewis deunyddiau addas er mwyn tynnu llun planhigyn dychmygol ac ar ôl cwblhau'r gwaith dylid rhoi cyfle iddyn nhw werthuso'r gwaith yma. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃** er mwyn cael geirfa a phatrymau addas.

Mae'r llyfr **Ble mae'r hadau?**, sy'n cynnwys dameg yr heuwr, yn rhoi cyfleoedd i astudio darlun van Gogh, *Yr Heuwr*, ac i werthuso'r darlun gan ddefnyddio'r geiriau a'r patrymau sydd yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**. Gallai hyn roi cyfle i baentio llun tebyg ac i astudio gwaith van Gogh.

Addysg gorfforol

Gellid creu symudiadau dawns i fynd gyda gwahanol fathau o gerddoriaeth yn Rhan 1 a gellid cynnal sesiynau beicio ar dir yr ysgol.

Cerddoriaeth

Mae cyfleoedd yn Rhan 1 i drafod mathau gwahanol o gerddoriaeth ac i siarad am y math o gerddoriaeth mae'r disgyblion yn ei fwynhau. Gallai'r disgyblion wrando ar wahanol fathau o gerddoriaeth a'u gwerthuso gan ddefnyddio patrymau a gyflwynwyd eisoes ym Mhecyn 2.

Gellid chwarae rhannau penodol o gyfres y **Planedau** gan Gustav Holst a gellid gofyn i'r disgyblion ystyried pa blanedau sy'n cael eu portreadu yn y gwahanol rannau. Gallen nhw werthuso'r gerddoriaeth a nodi'r offerynnau.

Addysg Grefyddol

Cyflwynir dameg yr heuwr yn yr uned hon a gallai hyn arwain at drafodaeth am ddamhegion yn gyffredinol.

TGCh

Gofynnir i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Eryri, Ghana, y planedau a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, e.e. gallen nhw gasglu gwybodaeth gyffredinol neu gellid rhoi cwestiynau penodol iddyn nhw, megis

Faint mae'n costio i fynd i mewn i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol?

Pryd mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn agor / cau?

Beth sy yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol? Edrychwch ar y map / lluniau.

a.y.b.

Yna, dylai'r disgyblion adrodd yn ôl:

Mae'n costio ...

Mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn agor / cau am ...

Yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, mae ...

Mae cyfleoedd i ddylunio bwydlenni iach yn ogystal â deunyddiau ar gyfer hyrwyddo Eryri a phosteri a thafleddi sy'n rhoi cyngor ar ddiogelwch ar y ffordd (mewn perthynas â beicio).

Dylunio a Thechnoleg

Mae nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn ystod sesiynau dylunio a thechnoleg, e.e. yn y rhan gyntaf, gallen nhw ddylunio a gwneud mathau gwahanol o fwâu ar gyfer mathau gwahanol o erddi, parciau neu ar gyfer mannau coediog.

Gan ddefnyddio deunyddiau priodol, gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud modelau o fathau gwahanol o blanhigion / gwrthrychau a gellid eu defnyddio i greu arddangosfa o'r enw **Yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol**.

Ar ôl gweld y tŷ gwydr sydd wedi ei wneud o boteli plastig yn Rhan 1, gallai'r disgyblion gynllunio a chreu gwrthrych gan ddefnyddio poteli plastig.

Gallai'r disgyblion baratoi brechdanau iach a phrydau sy'n seiliedig ar lysiau yn ogystal â dylunio dillad beicio a gwneud modelau neu symudynnau o'r planedau.

ABCh

Mae cyfleoedd i drafod bywyd iach, y peryglon sy'n gysylltiedig â siarad â dieithriaid yn ogystal â diogelwch personol wrth feicio.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r uned hon yn targedu **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang** gan ei bod yn canolbwyntio i raddau helaeth ar dyfu bwyd a.y.b. ac mae disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am fywyd yn Ghana wrth iddyn nhw chwilio am wybodaeth am y wlad a'i fforest law.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae rhan helaeth o'r uned wedi ei ffilmio yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne ac yn Eryri ac felly mae disgyblion yn dysgu am y mannau hyn. Mae cyfeiriadau hefyd at Feddygon Myddfai ac at Lyn y Fan Fach.

Datblygu Meddwl

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau dilyniant a pharhad.

Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith disgyblion eraill, i werthuso llwyddiant ac i ystyried sut y gellir gwella'u gwaith (e.e. yn yr uned adolygu). Gofynnir iddyn nhw ystyried cliwiau er mwyn dyfalu pa blanedau y mae Tom wedi ymweld â nhw. Gofynnir iddyn nhw gymharu a chyferbynnu'r planedau yn ogystal.

Datblygu Cyfathrebu

Prif nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill ac ymateb iddyn nhw, i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i ddod o hyd i wybodaeth a dewis gwybodaeth berthnasol ac i ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwrdd ac i gyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf briodol, gan ddefnyddio meddalwedd briodol. Dylid eu hannog hefyd i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer gwaith ysgrifennu ac i ddrafftio ac ailddrafftio'u gwaith.

Datblygu Rhif

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy gasglu gwybodaeth mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys holiaduron, a chyflwyno data ar ffurf briodol, e.e. graffiau. Mae cyfleoedd i egluro'r rhain yn ogystal.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar unrhyw gyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 1: Rhan 1 – Yn yr ardd

Nodau

- Adolygu cyflwyno'ch hun yn Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, e.e. mynegi barn, **Pa fath o fiwsig wyt ti'n hoffi? Dw i'n hoffi...** ; disgrifio tôn a deinameg yn Gymraeg, e.e. **yn dawel; yn gryf; yn araf; yn gyflym**; trafod mathau gwahanol o gerddoriaeth, e.e. **miwsig rap; miwsig roc; miwsig pop; miwsig clasurol**
- Adolygu / cyflwyno geirfa a phatrymau sy'n gysylltiedig â'r amser: **Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n** (+ treigladd meddal), gan bwysleisio ffurfiau **wedi**
- Cyflwyno gwybodaeth am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Cyflwyno'r ymadroddion Cymraeg sy'n cyfeirio at wahanol rannau planhigyn a thrafod swyddogaeth y rhannau hyn
- Rhoi a dilyn cyfarwyddiadau, a fydd yn galluogi disgyblion i blannu bylbiau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'r miwsig wedi stopio. Dw i'n mwynhau ... Ydych chi'n mwynhau ...? Ydyn. / Nac ydyn. Beth ydy hon?*	yr Ardd Fotaneg Genedlaethol gweithio miwsig rap miwsig roc miwsig pop miwsig clasurol blodyn, blodau deilen, dail coesyn hedyn, hadau gwreiddiau tŷ gwydr poteli plastig pridd bwlb, bylbiau tiwlip, tiwlipau
Defnyddiwyd y patrwm hwn os ydych chi'n gwybod bod gwrthrych yn fenywaidd.	

Yr amser

Faint o'r gloch ydy hi?
Mae hi'n ddeg o'r gloch.
 bum munud wedi deg
 ddeg munud wedi deg
 chwarter wedi deg
 ugain munud wedi deg
 bum munud ar hugain wedi deg
 hanner awr wedi deg
Mae hi'n un ar ddeg o'r gloch.
Mae hi'n ddeuddeg o'r gloch.

Patrymau a geirfa gyfarwydd

Efallai bod y ffurfiau canlynol wedi eu cyflwyno yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac yn P-aC₁ a P-aC₂ eisoes.

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy ydych chi? ... ydw i. Sut ydych chi heddiw? Dw i'n ... Beth ydy'r rhain? Pa liw ydy'r ...? Gorchmynion Edrychwch. Rhaid rhoi cerrig bach yn y pot. Rhaid rhoi pridd yn y pot. Eraill Does dim miwsig. Mae'n hyfryd. Mae'n wych. Dim problem. Dw i'n defnyddio ...	De Cymru tacluso helpu eistedd gwrando ar fiwsig pot cerrig bach pridd plannu dŵr

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Faint o'r gloch ydy hi?; Mae hi'n ...

Edrychwch. Edrychwch ar y ...

Beth ydy hwn?; Beth ydy hon?; Beth ydy'r rhain?

Dw i'n defnyddio ...

Rhaid ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Gellid chwarae'r darn cyntaf, **Yn yr ardd** (Uned 1, Rhan 1) yn ei chyfanrwydd er mwyn cyflwyno Tom, sy'n gymeriad newydd, a'r lleoliad, **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**, neu, gallech chi gyflwyno'r ffilm fesul cam fel yr awgrymir isod.

Ar ôl gwylio, gallai'r disgyblion fynegi barn am y ffilm ac am yr ardd a.y.b.:

Wyt ti'n hoffi'r ffilm?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r ffilm.

Dw i'n hoffi'r ffilm. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r ffilm achos dw i'n hoffi garddio.

Dw i'n hoffi'r ffilm achos dw i'n hoffi Tom. Mae e'n / o'n ddoniol.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r ffilm.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm. Mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm achos dw i ddim yn hoffi garddio.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm achos dw i ddim yn hoffi Tom. Mae e'n / o'n wirion / dwp.

Yna, gallech chi wneud y canlynol:

- Dangoswch y darn cyntaf, **Yn yr ardd** (Uned 1, Rhan 1) hyd at y man lle y dangosir y map a'r darnau ffilm sy'n dangos Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Stopiwch y ffilm ar ôl i Tom eistedd ar y fainc.

Tynnwch sylw at leoliad Tom:

Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Llanarthne, De Cymru

Chwaraewch y darn eto er mwyn i'r disgyblion ymateb i'w gwestiynau. Byddai stopio'r ffilm ar adegau priodol yn rhoi cyfle iddyn nhw ymateb yn briodol.

- **Cwis:** Gallech chi ofyn cwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm mewn cwis. Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu eu cwestiynau eu hunain i'w gofyn yn y cwis a gellid rhoi marciau am gwestiynau da yn ogystal ag am atebion cywir, e.e.

Ble mae Tom?

Yn yr ardd. / Yn yr Ardd Fotaneg.

Beth mae Tom yn wneud ar ddechrau'r ffilm?

Mae e'n ... / o'n sefyll.

**mwynhau miwsig
gwrando ar fiwsig
cerdded**

Beth ydy'r broblem?

Does dim miwsig. / Mae'r miwsig yn stopio.

Sut mae Tom yn teimlo?

Mae e'n / o'n teimlo'n hapus.

Pam mae e'n / o'n teimlo'n hapus?

Achos mae e'n / o'n hoffi'r Ardd Fotaneg Genedlaethol.

Achos mae e'n / o'n hoffi miwsig (a dawnsio).

Beth mae Tom yn wisgo?

Crys T gwyrdd / llwyd a brown.

Mae e'n / o'n gwisgo ...

Beth sy yn yr ardd?

Dail.

Coed.

Planhigion.

Blodau.

Mae ... yn yr ardd.

Pa fath o ddail?

Dail gwyrdd tywyll.

Dail mawr, gwyrdd tywyll.

Dail hir.

Dail pigog.

Pa liw ydy'r blodau ar y ffilm?

Pinc. / Coch.

Ydy Tom yn hoffi'r ardd?

Ydy. (Mae Tom yn hoffi'r ardd.)

Wyt ti'n hoffi'r ardd?

Ydw, dw i'n hoffi'r ardd.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r ardd.

Dw i'n hoffi'r ardd achos mae'n hardd.

**lliwgar
hyfryd
gyffrous
hwyl**

Dw i ddim yn hoffi'r ardd achos mae'n ddiflas.

does dim llawer o flodau

- Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, e.e.
Ble mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol?
Beth sy yn yr Ardd?
Faint mae'n costio i fynd i mewn i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol?
Pryd mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn agor / cau?
Beth sy yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol? Edrychwch ar y map / lluniau.
a.y.b.

Yna, dylai'r disgyblion gyflwyno'r wybodaeth:

Mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn ne Cymru / ger ...
Yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, mae ...
Mae'n costio ... i fynd i mewn.
Mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn agor / cau am ...
Yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, mae

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Tom yn cyflwyno mathau gwahanol o gerddoriaeth ac oedwch ar ôl iddo gyfeirio at **fiwsig clasurol** ac mae'n tynnu'r clustffonau oddi ar ei glustiau.

Gofynnwch:

Beth mae Tom yn hoffi?
Pa fath o fiwsig mae Tom yn hoffi?
Mae Tom yn hoffi ...

Gellid gwneud mwy o waith mewn perthynas â cherddoriaeth, e.e. gallai'r dosbarth wrando ar wahanol fathau o gerddoriaeth, gan gategoreiddio a thrafod y mathau gwahanol. Yn ogystal, gallen nhw gymryd rhan mewn cwis cerddorol, pryd y gellid chwarae darnau byr o gerddoriaeth, gyda'r disgyblion yn dyfalu pa fath ydyn nhw. Gallen nhw ddweud rhywbeth am y gerddoriaeth efallai. Byddai hyn yn adolygu'r gwaith a wnaed ym Mhecyn 2 (Pecyn 2, Uned 5, Rhan 1.).

Pa fath o fiwsig?

Dw i'n hoffi / mwynhau ... achos mae'n wych.

hwyl
gyffrous
dawel
gryf

Dw i ddim yn hoffi / mwynhau ... achos mae'n drist.

ddiflas
ofnadwy
rhy gryf
rhy dawel
rhy araf
rhy gyflym

Dw i'n hoffi / mwynhau ... achos dw i'n teimlo'n hapus.

fywiog
wych

Dw i ddim yn hoffi / mwynhau ... achos dw i'n teimlo'n drist.

ddiflas
ofnadwy

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 1**.
Pa fath o fiwsig ydych chi'n mwynhau? Siaradwch am hyn.

Gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn, ynghyd â'r patrymau sy'n cael eu rhestru uchod, gofynnwch i'r disgyblion drafod pa fath o gerddoriaeth maen nhw'n ei hoffi. Gallen nhw enwi cantorion neu fandiau penodol yn ogystal â mathau gwahanol o gerddoriaeth.

- Gallai'r disgyblion greu symudiadau dawns gwahanol i gyd-fynd â mathau gwahanol o gerddoriaeth.

- Chwaraewch adran nesaf y ffilm, gan orffen gyda'r llun o'r bresych.
Gofynnwch i'r disgyblion:

Ble mae Tom?

Yn yr ardd.

Ar sedd yn yr ardd.

Pwysleisiwch y gair newydd – **sedd**.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Ydych chi'n cofio? Beth sy ar y sedd?

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?

Ar ôl tua munud, gofynnwch:

Ydych chi wedi gorffen?

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?

Faint? / Sawl un?

Rhestrwch yr eitemau gyda'r disgyblion:

het

bag

fforch

rhaw

bylbiau

bwced

menig

can dŵr (hwyaden)

i-pod

- Chwaraewch y darn eto fel bod y disgyblion yn gallu gwirio'u rhestri. Yn ogystal, gofynnwch iddyn nhw restru tri llysieuyn sy'n tyfu yn yr ardd – yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol. Os nad yw'r disgyblion yn gyfarwydd â'r geiriau Cymraeg, cyflwynwch nhw:

ffa

winwns (De Cymru) / **nionod** (Gogledd Cymru)

bresych

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall pam mae Tom yn yr ardd. Gallech chi chwarae rhan ddechreuol y darn hwn eto er mwyn procio'r cof.

Beth mae Tom yn wneud yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol?

Mae e'n / o'n tacluso.

helpu

gweithio

- Yn yr adran hon, mae Tom yn gofyn, **Faint o'r gloch ydy hi?**

Gofynnwch i'r disgyblion ymateb:

Mae hi'n ddeg o'r gloch.

Yna, gallech chi adolygu'r amser yn Gymraeg. Gofynnwch i'r disgyblion am y geiriau Cymraeg am:

5: **pump** – ond **pum** mewn perthynas â'r amser ar ôl yr awr (**pum munud wedi**)

10: **deg**

¼: **chwarter**

½: **hanner**

20: **dau ddeg** – ond **ugain** mewn perthynas â'r amser (**ugain munud wedi**)

25: **dau ddeg pump** – ond **pum(p) ar hugain** mewn perthynas â'r amser (**pum munud ar hugain wedi**)

Faint o'r gloch ydy hi?
Mae hi'n ddeg o'r gloch.
bum munud wedi deg
ddeg munud wedi deg
chwarter wedi deg
ugain munud wedi deg
bum munud ar hugain wedi deg
hanner awr wedi deg
Mae hi'n un ar ddeg o'r gloch.
Mae hi'n ddeuddeg o'r gloch.

Gallech chi gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau er mwyn ymarfer y ffurfiau hyn ond yn bwysicach fyth, gallech chi ddefnyddio'r patrymau hyn fel y bo'n briodol drwy gydol y dydd fel bod y disgyblion yn eu clywed nhw ac yn ymgyswrtu â nhw.

- Chwaraewch y darn nesaf – lle mae Tom yn cerdded drwy'r ardd. Stopiwch ar ôl y llun sy'n dangos y blodau pinc – ar ôl y blodau oren.

Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando am gyfeiriadau at yr amser ac ateb cwestiynau Tom:

Faint o'r gloch ydy hi?

- Gofynnwch i'r disgyblion restru beth welon nhw yn yr ardd yn ystod y darn hwn. Gallech chi chwarae'r darn eto, wrth gwrs.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Ydych chi'n cofio? Beth sy yn yr ardd?

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?

Ar ôl tua munud, gofynnwch:

Ydych chi wedi gorffen?

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?

Faint? / Sawl un?

Rhestrwch yr eitemau gyda'r disgyblion:

letys

betys

blodau pinc, melyn, oren, gwyn

moron

Gallech chi dynnu sylw at y bwa a welir ar y ffilm hefyd:

bwa

Gofynnwch i'r disgyblion beth sydd yn y bwa:

Beth sy yn y bwa?

Ciwcymbr a moronen.

(**Moronen** yw ffurf unigol **moron**.)

Yna, gallech chi ofyn i'r disgyblion gynllunio mathau gwahanol o fwâu ar gyfer gerddi, parciau neu ar gyfer man coediog, e.e.

gardd flodau

gardd lysiau

gardd ddŵr

parc chwarae

parc blodau

y goedwig

Tra byddan nhw'n gweithio, dylai'r disgyblon ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud yn Gymraeg, gan ddefnyddio patrymau a geirfa maen nhw wedi'u dysgu eisoes. Rhestrir nifer o'r rhain yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**, e.e.

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n peintio.

Dw i'n tynnu llun ciwcymbr.

Dw i'n gludo.

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Pa liw ydy hwn?

Coch.

Gallen nhw ddisgrifio'u gwaith i aelodau eraill y grŵp, e.e.

Bwa mewn gardd flodau ydy hwn.

Edrychwch – dyma'r ...

Gallen nhw werthuso'r gwaith hefyd:

Dw i'n hoffi'r ... achos ...

Mae'r ... yn effeithiol.

Mae angen mwy o ... yma.

Yn yr un modd, gallen nhw gynllunio a gwneud modelau o fwâu, gan ddefnyddio patrymau iaith perthnasol (gweler uchod). Yna, gellid gwerthuso'r rhain, e.e.

Mae'r ... yn effeithiol.

Dw i'n hoffi'r ...

Mae angen mwy o ... yma.

- Chwaraewch ran nesaf y DVD, lle mae Tom yn cyflwyno rhannau planhigyn – hyd at y man lle mae'r rhannau animeiddiedig o'r planhigyn yn cael eu dangos.

Adolygwch yr eirfa. Gallech chi chwarae'r darn eto a gofyn i'r disgyblion ymateb i gwestiynau Tom:

Beth ydy hwn?

Beth ydy hon?

Beth ydy'r rhain?

Gan ddefnyddio diagram syml o blanhigyn sy'n blodeuo, gofynnwch iddyn nhw labelu:

blodyn, blodau

deilen, dail

coesyn

pridd

hadau

- Chwaraewch y darn eto fel bod y disgyblion yn gallu gwirio'u diagramau. Gofynnwch iddyn nhw ganolbwyntio ar swyddogaethau'r blodyn, y dail a'r coesyn. Gofynnwch iddyn nhw drafod hyn mewn grwpiau ac ysgrifennu'n syml:

Mae'r blodyn yn gwneud hadau.

Mae'r dail yn gwneud bwyd.

Mae'r bwyd yn mynd drwy'r coesyn [o'r dail i'r gwreiddiau].

Mae dŵr yn mynd drwy'r coesyn [o'r gwreiddiau i'r dail.]

Gallech chi ysgrifennu'r brawddegau ar y bwrdd gwyn er mwyn eu cynorthwyo nhw, gan ofyn iddyn nhw lenwi'r bylchau, e.e.

Mae'r blodyn yn gwneud)

Mae'r dail yn gwneud)

Mae'r bwyd yn mynd drwy'r) [o'r dail i'r]

Mae dŵr yn mynd drwy'r) [o'r gwreiddiau i'r]

Yna, gallen nhw dynnu llun saethau ar eu diagramau er mwyn dangos sut mae bwyd / dŵr yn cael ei gludo drwy'r coesyn i rannau gwahanol o'r planhigyn.

- Chwaraewch y darn olaf - lle mae Tom yn plannu bylbiau.

Tynnwch sylw at y tŷ gwydr sydd wedi cael ei wneud o boteli wedi'u hailgylchu.

Gallai'r disgyblion wneud prosiect dylunio a thechnoleg gan ddefnyddio poteli plastig glân er mwyn cynllunio a chreu gwrthrych neu ddarn o gelfyddyd. Yna, gellid treulio amser yn gwerthuso'r gwaith.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall yr amser ar ddiwedd y darn:

Mae hi'n ddeuddeg o'r gloch.

- Gallai'r disgyblion weithio mewn paru neu mewn grwpiau i blannu bylbiau, gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau sydd ar y ffeithlen **Plannu Bylbiau** ac ar y ffilm. Tra byddan nhw'n gwneud hyn, dylen nhw ofyn cwestiynau i'w gilydd a rhoi cyfarwyddiadau:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio

Beth ydy hwn?

Bwlb.

Beth ydy'r rhain?

Bylbiau.

Pa fath o fylbiau?

Tiwlipau.

Pa liw ydy'r tiwlipau?

Tiwlipau coch. / Dw i ddim yn gwybod.

Rhaid ...

Os yw'n briodol, gallech chi adolygu a defnyddio'r canlynol:

Yn gynta, rhaid ...

Yn ail, rhaid ...

Yn drydydd, rhaid ...

Yna, ...

- Os nad ydych chi wedi gwneud eisoes, gallech chi drafod y ffilm:

Wyt ti'n hoffi'r ffilm?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r ffilm.

Dw i'n hoffi'r ffilm. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r ffilm achos dw i'n hoffi garddio.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r ffilm.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm. Mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm achos dw i ddim yn hoffi garddio.

Uned 1: Rhan 2 – Hedyn arbennig

Nodau

- Cyflwyno, adolygu a datblygu geirfa a phatrymau y gellir eu defnyddio wrth chwarae rôl, e.e. prynu bwyd mewn sefyllfaoedd gwahanol er mwyn dangos sut y gellir trosglwyddo patrymau a ddysgwyd mewn un cyd-destun i gyd-destun arall
- Adolygu geirfa a phatrymau Cymraeg sy'n gysylltiedig ag arian: **Faint ydy(r) ...?; ... ceiniog; ... punt; newid**
- Adolygu pwyntiau'r cwmpawd a'u defnyddio gydag **O**, h.y. **O'r gogledd; O'r de; O'r gorllewin; O'r dwyrain**
- Rhoi a dilyn cyfarwyddiadau mewn perthynas â hau hadau
- Trafod y ffactorau sy'n angenrheidiol cyn y gall hadau egino
- Adolygu a defnyddio geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'r tŷ bwyta'n agor am ddeg o'r gloch. Mae hi'n bum munud wedi deuddeg. Ydych chi eisiau gweld mwy (o'r ardd)? Mae'r coed yma'n dod o Ghana. O ble mae'r hedyn wedi dod? O'r gogledd? O'r de? O'r gorllewin? O'r dwyrain?	planhigyn, planhigion jar, jariau fforest law Ghana

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Faint o'r gloch ydy hi nawr? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Pa fath? Ble ydw i? Beth sy yn y jariau? Ydych chi'n gallu clywed sŵn? Beth ydy hwn? Pa faint?; Bach?; Canolig?; Mawr? Dw i ddim yn gwybod. Gorchmynion Dewch gyda fi. Edrychwch ar y map. Rhaid taflu'r arian i mewn i'r dŵr. Eraill Dyma'r tŷ bwyta. I ginio, dw i eisiau ... Mae ... yn dda iawn i chi. Dw i'n hoffi ... Dw i'n hoffi brechdan salad achos mae'n flasus iawn.	Pardwn? ar agor brechdan salad plannu bylbiau blodau coed tatws moron pys betys letys winwns (De Cymru) nionod (Gogledd Cymru); hedyn, hadau pot cerrig bach pridd dŵr taflu lwcus deg ceiniog dau ddeg ceiniog tri deg ceiniog pedwar deg ceiniog pum deg ceiniog punt

	dwy bunt pum punt crys antur
--	---------------------------------------

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...

Beth wyt ti eisiau?; Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Faint o'r gloch ydy hi?; Mae hi'n ...

Edrychwch ar y ...

Pardwn?

Pa fath o ...?

Pa faint?

Rhaid ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm, **Hedyn arbennig** (Uned 1, Rhan 2) hyd at y man lle mae Tom yn gadael y tŷ bwyta gan ddweud, **Iawn, dewch gyda fi.**

Gallech chi ddilyn yr un fformat â Rhan 1 drwy gynnal cwis sy'n seiliedig ar y ffilm – gyda'r disgyblion yn ysgrifennu ac yn ateb cwestiynau, e.e.

Beth mae'r ferch yn wisgo?

Mae hi'n gwisgo ...

Pa fath o frechdan mae Tom eisiau?

Mae e / o eisiau brechdan salad.

Faint ydy'r frechdan?

Dwy bunt.

Faint o newid?

Saith punt.

a.y.b.

- Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar y patrymau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gofyn am bethau a thrafod prisiau:

Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Faint ydy'r sudd afal?

Adolygwch y geiriau sy'n gysylltiedig â bwyd a diod a gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu rhestr. Gallech chi ofyn iddyn nhw feddwl am adegau gwahanol o'r dydd pan fyddan nhw'n bwyta bwyd er mwyn procio'r cof:

amser brecwast

amser snac

amser cinio

amser te

amser swper

Adolygwch ddulliau eraill o ofyn am bethau yn Gymraeg:

... os gwelwch yn dda.

Ga i (+ treigladd meddal) ... os gwelwch yn dda?

Yna, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 2.**

A: Rwy't ti'n gweithio yn y tŷ bwyta.

B: Rwy't ti eisiau bwyd a diod.

Siaradwch.

Dylai'r disgyblion chwarae rôl drwy ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Gallai'r disgyblion greu bwydlenni ar gyfer tai bwyta a gallen nhw gynnwys y prisiau fel eu bod yn gorfod cyfrifo'r prisiau, rhoi newid a.y.b.

Gallech chi bwysleisio bod rhaid i'w bwydlenni fod yn rhai iach a gallai hyn arwain at drafodaeth am fwyd iach / llai iach, a fyddai, yn ei dro, yn adolygu patrymau megis:

Mae ... yn dda i chi.

Mae ... yn ddrwg i chi.

Mae gormod o ... yn ddrwg i chi.

a.y.b.

Gallai'r disgyblion wneud brechdanau iach yn yr ystafell ddosbarth a gallai hyn arwain at adolygu a defnyddio'r ffurfiau gorchmynnol:

Rhowch y menyn ar y bara.

Golchwch y letys.

Torrwch y tomato.

Rhowch y letys a'r tomato ar y bara.

Gallen nhw ddefnyddio **Rhaid** hefyd:

Rhaid rhoi'r menyn ar y bara.

Rhaid golchi'r letys.

Rhaid torri'r tomato.

Rhaid rhoi'r letys a'r tomato ar y bara.

Yna, gallai'r disgyblion ddefnyddio'r patrymau hyn wrth ysgrifennu'r ryseitiai ar gyfer y brechdanau hyn, ond dylen nhw gynnwys yr is-deitlau canlynol mewn mannau priodol hefyd:

Mae angen: (gan restru'r cynhwysion)

Dull: (gan egluro'r dull).

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 3** er mwyn trosglwyddo'r patrymau hyn i sefyllfa wahanol ac adolygu'r eirfa a'r patrymau a ddysgwyd eisoes, yn enwedig **Pa liw?** a **Pa faint?**, a fydd yn cael eu defnyddio'n ddiweddarach yn yr uned hon:

A: **Rwy't ti'n gweithio mewn siop hufen iâ.**

B: **Rwy't ti eisiau hufen iâ.**

Siaradwch.

Gallech chi drosglwyddo'r patrymau hyn i sefyllfaoedd tebyg eraill, wrth gwrs, e.e. gofyn am fwyd a diod amser cinio neu amser snac neu wrth ofyn am bethau yn yr ystafell ddosbarth.

- Dangoswch y darn nesaf, lle mae Tom yn dangos enghreifftiau o **blodau**, **coed**, **llwybr**, **planhigyn** a **planhigion**. Gorffennwch gyda'r darn sy'n dangos y fferyllfa a'r cyfeiriad at **fferyllfa**.

Tynnwch sylw at y **poteli** a'r **jariau** a gofynnwch beth sydd ynddyn nhw:

Beth sy yn y poteli?

Beth sy yn y jariau?

Perlysiau.

Ffisig (Gogledd Cymru); **Moddion** (De Cymru)

Eglurwch fod pobl yn arfer gwneud moddion drwy ddefnyddio perlysiau a phlanhigion gwahanol flynyddoedd yn ôl - gallech chi ddangos y pestl a morter er mwyn dangos sut y bydden nhw'n malu'r perlysiau. Eglurwch hefyd fod llawer o foddion heddiw yn seiliedig ar blanhigion.

Gallech chi drafod sut mae meddyginiaethau naturiol yn cael eu defnyddio heddiw, e.e. defnyddio mêl pan fydd gan rywun ddolur gwddf / peswch; defnyddio garlleg ar gyfer trin gwahanol gyflyrau; defnyddio dail tafol ar gyfer trin llosgiadau danadl poethion.

Gallech chi gyflwyno a thrafod hen ryseitiai ar gyfer meddyginiaethau gwahanol. Gallech chi gyfeirio hefyd at y meddygon enwog o Gymru – **Meddygon Myddfai** – a oedd yn arfer casglu a chofnodi llawer o ryseitiai hynafol. Mae chwedl sy'n gysylltiedig â'r meddygon hyn yn Rhan 5 yr uned hon.

- Cyn dangos y darn nesaf, adolygwch y geiriau Cymraeg am lysiau, e.e.
winwns (De Cymru) / **nionod** (Gogledd Cymru)
moron
bety
ffa
pys
cennin
tatws
letys
bresych
- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Tom yn parhau â'i daith o gwmpas yr ardd a gofynnwch i'r disgyblion restru'r llysiau sy'n cael eu dangos ar y ffilm. Stopiwch y ffilm ar ôl i Tom ddweud ei fod yn hoffi tatws, moron a chennin – **Maen nhw'n flasu iawn**.

Gofynnwch i'r disgyblion ymateb i gwestiynau Tom:

Ydych chi'n hoffi ...?

drwy ddweud naill ai

Ydw. / Nac ydw.

neu

Ydyn. / Nac ydyn.

Yna, gallai'r disgyblion lunio holiaduron ar gyfer darganfod faint o ddisgyblion sy'n hoffi pa lysiau. Ar ôl eu defnyddio yn y dosbarth, gallen nhw lunio graffiau i ddangos eu canfyddiadau a gallai'r rhain, wedyn, gael eu hegluro yn Gymraeg, e.e.

Mae deg disgybl yn hoffi moron.

Mae saith disgybl yn hoffi cennin.

Does neb yn hoffi ...

- Gallech chi ofyn:
Pryd wyt ti'n bwyta llysiau?
Dw i'n bwyta tatws a moron amser swper.
Dw i'n bwyta pys a moron gyda sosejis.
Dw i'n bwyta winwns / nionod ac india corn ar pizza.
a.y.b.
- Gallai'r disgyblion wneud bwyd llysieuol, e.e. reis a llysiau, *stir fry*, cawl a.y.b. Unwaith eto, byddai hyn yn golygu adolygu gorchmynion:
Golchwch y ...
Pliciwch / Piliwch y ...
Torrwch y ...
Rhowch y ... a'r ... yn y ...
Cymysgwch y ... a'r ...
Byddwch yn ofalus iawn.

Gallai'r disgyblion ddefnyddio **Rhaid** hefyd:

Rhaid golchi'r ...

Rhaid torri'r ...

Rhaid plicio / pilio'r ...

Rhaid rhoi'r ... a'r ... yn y ...

Rhaid cymysgu'r ... a'r ...

Rhaid bod yn ofalus iawn.

Yna, gallai'r disgyblion ddefnyddio'r patrymau hyn wrth ysgrifennu'r ryseitiai ar gyfer eu bwyd ond dylen nhw gynnwys yr is-deitlau canlynol yn y mannau priodol:

Mae angen:

Dull: .

- Ar ôl y darn sy'n dangos y llysiau, gallech chi dynnu sylw at amrywiaeth y llysiau sy'n cael eu tyfu yn y wlad hon:

Mae llawer o lysiau'n tyfu yng Nghymru.

Gallai'r disgyblion restru'r rhain.

Yn ogystal, gallech chi egluro:

Mae llysiau'n dda i chi.

Rhaid bwyta llysiau a ffrwythau bob dydd.

Yna, gallai'r disgyblion lunio deunyddiau sy'n annog pobl eraill i fwyta llysiau a gellid rhoi'r rhain mewn mannau addas yn yr ysgol. Gallai'r deunyddiau hyn gynnwys:

- cwestiynau rhethregol, e.e.

Ydych chi'n hoffi llysiau?

Ydych chi'n bwyta llysiau bob dydd?

Pryd ydych chi'n bwyta llysiau?

Beth am fwyta ...?

Beth am drio ...?

- datganiadau, e.e.

Mae ... yn dda i chi.

Mae ... yn flasus iawn, iawn.

Rhaid bwyta ... bob dydd.

- gorchmynion, e.e.

Bwytwch ddigon o ... bob dydd!

Cofiwch fwyta llysiau bob dydd.

Dywedwch "Os gwelwch yn dda!" i lysiau bob amser!

Peidiwch dweud "Dim diolch" i lysiau!

- Dangoswch ran nesa'r ffilm, sy'n dangos coed o Ghana, hyd at y man lle y dangosir map o Affrica.

Gallai'r disgyblion chwilio am Ghana ar fap o'r byd a chwilio hefyd am wybodaeth am y wlad os yw hyn yn briodol. Gallen nhw chwilio am luniau a gwybodaeth am **y fforest law** hefyd, e.e.

Pa anifeiliaid sy yn y fforest law yn Ghana?

Pa adar sy yn y fforest law yn Ghana?

Yna, gallen nhw rannu'r wybodaeth gyda'r grŵp.

Mae ... yn y fforest law yn Ghana.

Mae ... yn byw yn y fforest law yn Ghana.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Tom yn darganfod hedyn arbennig – hyd at y man lle mae e wedi ei hau, wedi crynhoi'r broses, wedi cyfeirio at y dŵr lwcus ac wedi dweud, **Dewch gyda fi.**

Gofynnwch y cwestiynau sydd i'w clywed ar y DVD i'r disgyblion.

O ble mae'r hedyn wedi dod?

Pa fath o hedyn?

Pa faint?

Pa liw?

Efallai mai'r ateb i bob un fydd **Dw i ddim yn gwybod** oherwydd nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei rhoi, ond gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu:

- O ble mae'r hedyn wedi dod?

- O ...; Mae'r hedyn wedi dod o ...**
- Pa fath o blanhigyn ydy e / o?
Planhigyn mawr / bach / lliwgar.
Mae e'n / o'n blanhigyn mawr / bach / lliwgar ...
- Ydy e'n / o'n gallu siarad / symud / dawnsio / canu ...?
Ydy. / Nac ydy.
 neu
- Pa fath o blanhigyn fydd e / o?
Planhigyn mawr / bach / lliwgar.
Bydd e'n / o'n blanhigyn mawr / bach / lliwgar ...

Yn ogystal, gallech chi ofyn i'r disgyblion ddychmygu pa fath o blanhigyn fydd yn tyfu, e.e. a fydd ganddo wyneb, dwylo, traed, nodweddion arbennig? Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu am y planhigyn dychmygol hwn – yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol.

Os yw'r gwaith yn cael ei wneud yn Saesneg, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu crynodeb yn Gymraeg, e.e.

Enw:
O ble: **Mae e'n / o'n dod o ...**
Pa liw: **Mae e'n / o'n lliwgar / goch / ddu a gwyn ...**
Pa faint: **Mae e'n / o'n fach / ganolig / fawr; 89 centimetr.**
Pa fath: **Mae'r dail yn wyrdd golau a melyn. Mae'r blodau'n fawr ac yn goch ac oren. Mae'r hadau'n las.**
Blodau: **Ym mis Mai.**

Gellid cynnwys y manylion hyn fel gwybodaeth ar becyn hadau – gallai'r disgyblion ddylunio'r pecyn. Gallen nhw ysgrifennu mewn paragraffau hefyd, wrth gwrs.

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen eu disgrifiadau i'r grŵp.

- Dangoswch y darn lle mae Tom yn hau'r hadau eto.
 Gallai'r disgyblion hau hadau yn yr ystafell ddosbarth wedyn, gan ddilyn y cyfarwyddiadau sydd ar y ffilm. Byddai hyn yn adolygu'r broses o blannu bylbiau a welwyd yn Rhan 1.

Tra byddan nhw'n gwneud hyn, gallai'r disgyblion ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud yn Gymraeg, e.e.

Dw i'n defnyddio ...
Dw i'n rhoi pridd yn y pot.
Dw i'n rhoi'r hadau yn y pridd.
 a.y.b.

Neu, gallen nhw roi cyfarwyddiadau i'w cyd-ddisgyblion, e.e.

Rhaid rhoi pridd yn y pot.
Rhaid rhoi hadau yn y pridd.
 a.y.b.

Yna, gallai'r disgyblion ddylunio labeli / cardiau i'w rhoi yn y pridd. Gellid cynnwys gwybodaeth am y planhigyn fydd yn tyfu, e.e.

Enw:
Pa liw: **Mae e'n / o'n lliwgar / goch / ddu a gwyn ...**
Pa faint: **Mae e'n / o'n fach / ganolig / fawr.**
Pa fath: **Mae'r dail yn wyrdd golau a melyn. Mae'r blodau'n fawr ac yn goch ac oren. Mae'r hadau'n las** a.y.b.
Blodau: **Ym mis ...**
Ffrwyth / Llysiau: **Ym mis ...**
 a.y.b.

Gallen nhw ysgrifennu'r wybodaeth hon ar ffurf paragraffau, wrth gwrs.

- Dangoswch ran ola'r ffilm, lle mae Tom yn taflu arian i mewn i'r llyn Iwcus ac yn gwneud tri dymuniad.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod tri pheth y bydden nhw'n hoffi'u cael mewn sefyllfa debyg:

Beth wyt ti eisiau?

Dw i eisiau ...

Yna, gallen nhw chwarae rôl: maen nhw'n taflu darnau arian ac yn gofyn am beth maen nhw eisiau.

- Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau taflu pethau ar ôl gweld Tom yn taflu arian i mewn i'r dŵr.
Bob tro y bydd un o'r disgyblion yn taflu eitem (e.e. bag ffa), gallai aelodau eraill y grŵp fesur y pellter, e.e.
Sawl metr?
... metr.
... metr a ... centimetr.

Gellid cofnodi'r canlyniadau er mwyn gweld pwy sydd wedi taflu bellaf, e.e.

Pwy sy'n gallu taflu bella?

- Yna, gellid cyflwyno'r llyfr **Ble mae'r hadau?** a gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yn y cefn. Gallech chi egluro mai dameg yw'r stori hon. Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n gwybod ystyr y gair a gofynnwch iddyn nhw feddwl am ddamhegion eraill.

Gellid gofyn i'r disgyblion egluro pa ffactorau sydd eu hangen er mwyn tyfu planhigyn iach, gan ddefnyddio'r stori fel sail i'w hatebion.

- Yna, gallech chi gyflwyno'r darlun, *Yr Heuwr* gan Vincent van Gogh, a gellid ei drafod yn Gymraeg, e.e.
Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?
Beth ydych chi'n gallu gweld yn y llun?
Pa liwiau sy yn y llun?
Beth ydy hwn?
Wyt ti'n hoffi'r llun?
Ydych chi'n hoffi'r llun?

Yna, gallen nhw ysgrifennu paragraff i ddisgrifio'r llun a mynegi barn amdano cyn peintio llun tebyg. Tra byddan nhw'n gwneud hyn, dylen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n wneud / ddefnyddio yn Gymraeg e.e.

Dw i'n peintio ...

Dw i'n defnyddio ...

Gallai'r disgyblion werthuso gwaith ei gilydd, gan ddefnyddio ymadroddion a phatrymau a gyflwynwyd ym Mhecyn 2 ac sydd i'w gweld yn y ddogfen, **Patrymau Iaith PaC₃**.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm:
Wyt ti'n hoffi'r ffilm?
Ydw.
Ydw. Dw i'n hoffi'r ffilm. Mae'n dda.
Dw i'n hoffi'r ffilm. Mae'n dda iawn.
Dw i'n hoffi'r ffilm achos mae'n gyffrous. Dw i eisiau gwybod mwy am yr hedyn.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r ffilm.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm achos mae'n ddiflas.

Uned 1: Rhan 3 – Y trê'n bach

Nodau

- Adolygu disgrifio ardal, gan gyfeirio'n benodol at **Eryri**
- Adolygu ffurfiau cwestiynau yn y trydydd person: **Pwy ydy hi?; Ble mae hi?**
- Adolygu rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg
- Adolygu a chymhwyso patrymau a ddysgwyd eisoes i sefyllfaoedd chwarae rôl gwahanol, a chyflwyno'r ymadrodd, **Rhywbeth arall?**
- Adolygu ymadroddion amser, drwy eu trosglwyddo i sefyllfa wahanol
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth ar y ddaear ydy hwn? Ble ar y ddaear mae Eryri? Pwy ydy hi? Ga i docyn? Cei. / Na chei. Cewch. / Na chewch. Faint ydy'r tocyn? Pryd mae'r trê'n yn mynd i fyny'r Wyddfa? Am ... Rhywbeth arall?	tyfu Eryri yr Wyddfa mynydd ucha Cymru Ewrop

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Wyt ti'n iawn? Pwy wyt ti? Ble mae ...? Ble wyt ti? Pwy ydych chi? Ble mae Eryri? Ydych chi'n gallu clywed sŵn? Faint o'r gloch ydy hi? Gorchmynion Edrychwch – dyma Eryri. Eraill Mae Eryri'n hardd. Mae Eryri'n hyfryd iawn.	mynydd, mynyddoedd llyn, llynnoedd castell, cestyll trê'n helmed esgidiau padiau brechdan sudd oren afal

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy hwn?; Beth ydy hon?

Beth ar y ddaear ydy hwn?

Pardwn?

Edrychwch - dyma ...

Faint o'r gloch ydy hi?; Mae hi'n ...

Rhaid ...

Ga i ... os gwelwch yn dda?; Cei. / Na chei; Cewch; / Na chewch.

Ydych chi eisiau ...?; Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.; Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm, **Y trê bach** (Uned 1, Rhan 3), hyd at y man lle mae Tom yn ceisio cofio enw Beca a ble mae hi. Tra bydd y disgyblion yn gwylio, anogwch nhw i ymateb i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Atgyfnerthwch y patrymau canlynol:

Pwy ydy hi?

Beca (ydy hi).

Ble mae hi?

(Mae hi) yn Eryri.

Beth mae hi'n wneud?

(Mae hi'n) beicio.

- Chwaraewch y darn sy'n dangos **Eryri** eto a stopiwch y ffilm er mwyn edrych ar y map. Eglurwch fod Eryri'n ardal fynyddig – gyda llawer o fynyddoedd a llynnoedd – mae'n ardal hardd. Cyflwynwch y geiriau canlynol:
mynydd, mynyddoedd
uchel
llyn, llynnoedd
- Dangoswch y darn nesaf, lle mae Sgrin yn disgrifio beth sydd i'w weld yn Eryri, gan orffen gyda Beca'n mynd i brynu tocyn trê, **Rhaid mynd i'r orsaf i brynu tocyn.**

Tynnwch sylw at y patrwm:

Mae ... yn Eryri.

Driliwch y patrwm hwn er mwyn cyflwyno atyniadau gwahanol, e.e.

mynyddoedd

llynnoedd

castell, cestyll

llwybrau beicio

trê bach

- Cyfeiriwch at y ffeithlen am **Eryri** a thynnwch sylw at nodweddion eraill ar y map, e.e.
traeth, traethau
gorsaf

Defnyddiwch y map hwn er mwyn atgyfnerthu'r gwaith uchod:

Beth sy yn Eryri?

Mae traethau yn Eryri.

Gallai'r disgyblion weithio mewn parau a gofyn i'w gilydd am gyfesurynnau er mwyn dod o hyd i leoedd a nodweddion penodol, e.e.

Ble mae'r Wyddfa?

Ble mae Betws-y-coed?

Ble mae'r traethau?

Yn ogystal, gallech chi gyflwyno / adolygu'r patrymau:

Mae'n bosib ...

Rydych chi'n gallu ... yn Eryri.

e.e.

Mae'n bosib cerdded yn Eryri.

hwylio

beicio

mynd ar y trê

Rydych chi'n gallu cerdded yn Eryri.

hwylio

beicio

mynd ar y trê

Edrychwch eto ar y map o **Eryri** a gofynnwch i'r disgyblion drafod beth gall pobl wneud yno. Anogwch nhw i feddwl am eiriau maen nhw'n eu gwybod eisoes, e.e.

cerdded
beicio
rhedeg
dringo
chwarae ...
nofio
padlo
sblasio
pysgota
teithio
cael picnic
bwyta

Gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth ychwanegol am yr ardal, e.e. ar wefan ddwyieithog Parc Cenedlaethol Eryri.

Yna, gallai'r disgyblion lunio taflenni / posteri / hysbysebion / sgript ffilm er mwyn denu ymwelwyr i Eryri, gan ddefnyddio'r patrymau uchod a'r farn sy'n cael ei mynegi ar y ffilm:

Mae Eryri'n grêt.
Mae Eryri'n wych.
Mae Eryri'n hardd.
Mae Eryri'n hyfryd iawn.

Gallech chi hefyd adolygu patrymau eraill mae'r disgyblion wedi'u dysgu, wrth gwrs, e.e.

Mae Eryri'n ddiddorol.
gyffrous
fendigedig
a.y.b.

Gallai'r disgyblion addasu'r patrymau hyn er mwyn ysgrifennu deunyddiau hyrwyddo, gan gynnwys mapiau, i ddenu ymwelwyr i'w hardal nhw eu hunain.

- Ailchwaraewch y darn lle mae Beca'n disgrifio beth mae'n ei wisgo ar gyfer mynd i feicio.

Gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 4**, dylai'r disgyblion roi cyngor i'w gilydd ynglŷn â beth y dylen nhw wisgo ar gyfer mynd i feicio:

Rydych chi'n mynd i feicio ond beth ydych chi'n mynd i wisgo?
Siaradwch am hyn.

Gallen nhw ddylunio a chynhyrchu posteri, taflenni neu wybodaeth ar gyfer gwefan, er mwyn rhoi cyngor i ddisgyblion iau ynglŷn â dillad beicio priodol.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion gynllunio dillad beicio, eu labelu a'u disgrifio. Yna, gellid gwerthuso'r cynlluniau hyn, e.e.

Dw i'n hoffi'r ...
Mae'r ... yn dda.
Mae angen ...
Beth am ...?

- Os yw'n briodol, gellid gwahodd y disgyblion i ddod â'u beiciau i'r ysgol – ynghyd â dillad priodol - a gellid gwneud gweithgareddau beicio amrywiol, e.e. gellid llunio cwrs lle byddai'n rhaid i'r disgyblion ddilyn cyfarwyddiadau penodol, megis:

**Beiciwch ...
syth ymlaen
i fyny ac i lawr
igam ogam
rhwng y conau
yn araf
yn ofalus**

Byddai hyn yn gyfle da i sicrhau bod y disgyblion yn gwybod sut i feicio'n ddiogel, e.e. gallech chi ofyn iddyn nhw gyflawni tasgau penodol:

Beiciwch ar y chwith.

Trowch i'r chwith: edrychwch tu ôl a dangoswch "i'r chwith".

Trowch i'r dde: edrychwch tu ôl a dangoswch "i'r dde".

Stopiwch wrth y golau coch.

Canwch y gloch.

Dim gwrando ar fiwsig!

Peidiwch gwrando ar fiwsig!

Peidiwch mynd yn rhy gyflym.

Beiciwch yn ofalus.

Yna, gallai'r disgyblion ddylunio ac ysgrifennu deunyddiau ar gyfer hyrwyddo beicio diogel.

Gallai'r disgyblion dynnu ffotograffau ac ysgrifennu am eu profiadau ar yr iard:

Dyma ni – rydyn ni'n beicio ar yr iard / y buarth.

Dyma ... yn mynd igam ogam rhwng y conau. Mae hi'n mwynhau. Mae beicio yn yr ysgol yn hwyl. Rhaid beicio'n ofalus. Rhaid ...

a.y.b.

Anogwch y disgyblion i ysgrifennu cymaint â phosib, gan ddefnyddio patrymau sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

- Chwaraewch y darn lle mae Beca'n prynu tocyn ar gyfer mynd ar y trê'n bach i gopa'r **Wyddfa**. Stopiwch y ffilm wrth iddi ddod allan o'r swyddfa docynnau.

Adolygwch y patrymau, yn enwedig

Faint ydy'r tocynnau?

Pryd mae'r trê'n yn mynd?

Am ...

Gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 5**, dylai'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfa debyg, e.e.

A: Rwy't ti'n gweithio yn yr orsaf.

B: Rwy't ti eisiau tocyn.

Siaradwch.

Gan ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn, ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion chwarae rôl y sefyllfa hon ddwywaith - fel eu bod yn cael cyfle i chwarae'r ddwy ran.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Beca'n prynu sudd oren, brechdan ac afal ac adolygwch y patrwm:
Ga i ...?

Cyflwynwch yr ymadrodd **Rhywbeth arall?** a gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa yma gan ddefnyddio'r patrymau sydd wedi eu rhestru ar **Cerdyn Siarad 2** a **Cherdyn Siarad 3**. Atgoffwch nhw fod angen iddyn nhw dalu am y bwyd – yn union fel y bydd Beca'n talu wrth y til.

Gallen nhw drosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd gwahanol, e.e. prynu pryd o fwyd mewn tŷ bwyta Tsieineaidd neu Indiaidd neu mewn caffi pizzas neu siop sglodion a.y.b.

- Chwaraewch y rhan olaf, lle mae Beca'n diflannu. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu ble mae hi:
Ble mae Beca nawr / rŵan?
 Gwrandewch ar eu syniadau a gorffennwch drwy ddweud:
Gawn ni weld.
- Gwyliwch y rhan hon eto (Rhan 3) ac yna gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Wyt ti'n hoffi'r DVD?
Ydw.
Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.
Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.
Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi dysgu am ... Mae'n ddiddorol.

Nac ydw.
Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.
Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi dysgu am ... Mae'n ddiflas iawn.

Uned 1: Rhan 4 – Y Pod-antur Cymraeg

Nodau

- Datblygu patrymau iaith sy'n gysylltiedig â rhoi gwybodaeth bersonol drwy gyflwyno **O ble wyt ti'n dod?**; **O ...** (+ treigladd meddal)
- Trafod hobiau'n fanwl
- Cyflwyno mwy o fanylion am Eryri
- Trafod beth y gellir ei wneud mewn lleoliad penodol drwy atgyfnerthu'r ymadrodd, **Mae'n bosib...**
- Defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer dysgu am y planedau
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
O ble wyt ti'n dod? O (+ treigladd meddal) Beth wyt ti'n mwynhau wneud? / Beth wyt ti'n mwynhau gwneud? Dw i'n mwynhau ... Mae'n bosib beicio. Ydy'r Haul yn blaned? Nac ydy. Seren ydy'r Haul. Tua pum can gradd Celsius. Mae dŵr yn bwysig. Beth ydy enw'r blaned yma?	planed, planedau seren, sêr yr Haul teithio o gwmpas cylch, cylchau gwyrddlas smotyn coch o blaned i blaned

Y Planedau

Mercher
Gwener
y Ddaear
Mawrth
Iau
Sadwrn
Wranws
Neifion

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy wyt ti? Ble wyt ti? Beth ydy hwn? Beth am fynd i ...? Pa liw ydy ...? Ydych chi eisiau dod i deithio? Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch. Gorchmynion Edrycha ar y sgrin. Eraill Mawredd mawr! Dw i'n gwybod. Dw i ddim yn gwybod. Dw i'n mwynhau garddio achos mae'n hwyl. Mae beicio'n dda i ti.	De Cymru Gogledd Cymru nofio chwarae pêl-droed darllen garddio gweithio tacluso helpu chwarae cysgu plannu bylbiau pot pridd hedyn beicio

Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi. Popeth yn iawn. Mae ... yn fach / yn oer / yn boeth. Mae hi'n boeth. Mae hi'n stormus. Mae hi'n wyntog.	dydd Sadwrn bwrdd cwpwrdd soffa cylch coch teithio antur hwyl a sbri poeth oer sych fel storm
--	---

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha ar y sgrin. [Hefyd: **Edrychwch ar y sgrin.**]

Dw i'n gwybod.; Dw i ddim yn gwybod.

Beth ydy hwn?; Beth ydy hon?

Beth ar y ddaear ydy hwn?; [Hefyd: Beth ar y ddaear ydy hon?]

Stopia. [Hefyd: **Stopiwch.**]

Beth sy'n digwydd?

Ble mae ...?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm, **Y Pod-antur Cymraeg** (Uned 1, Rhan 4) hyd at y man lle mae Beca'n ceisio drysu Sgrin drwy ddweud **mynd-ar-y-trên-bach-chwarae-yn-y-parc-a-nofio** ac mae Sgrin yn dweud, **Stopia**.

Tynnwch sylw at y cwestiynau sy'n cael ei gofyn ac at yr atebion sy'n cael eu rhoi wrth i'r cymeriadau ddod i adnabod ei gilydd. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu a'u hystrebu er mwyn annog disgyblion i ddatblygu ac ymestyn eu sgysiau nhw yn Gymraeg:

Pwy wyt ti? (Gallen nhw ddefnyddio **Beth ydy dy enw di?** hefyd.)

O ble wyt ti'n dod? (Maen nhw wedi bod yn defnyddio **Ble wyt ti'n byw?** hyd yma.)

O (+ treigladd meddal)*

Dw i'n dod o (Lanarthne).*

Ble mae Llanarthne?

De Cymru. (neu **Yn ne Cymru.**)

Ble mae Llanberis?

Gogledd Cymru (neu **Yng ngogledd Cymru.**)

Beth wyt ti'n mwynhau gwneud? (Maen nhw wedi bod yn defnyddio **Beth wyt ti'n hoffi gwneud?** hyd yma.)

Dw i'n mwynhau ...

Dw i'n mwynhau ... yn ...

Dw i'n mwynhau ... ar ddydd ... / ar nos ...

Dw i'n mwynhau ... achos

Mae ... yn grêt.

* Mae treigladd meddal ar ôl **O** bob amser.

Gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 6**, dylai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa a nodir ar y cerdyn, sef mae Tom a Beca'n dod i adnabod ei gilydd:

A: Tom wyt ti ac rwyt ti'n gweld Beca.

B: Beca wyt ti ac rwyt ti'n gweld Tom.

Siaradwch.

Yna, gallai'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw eu hunain newydd lanio yn y Pod-antur Cymraeg. Maen nhw'n cyfarfod â'i gilydd ac yn dod i adnabod ei gilydd. Anogwch nhw i

ddefnyddio cymaint o Gymraeg â phosib ac i ofyn cynifer o gwestiynau â phosib i'w gilydd – mae rhai wedi eu rhestru ar y Cerdyn Siarad. Dangoswch i'r disgyblion eu bod nhw'n gallu gofyn mwy o gwestiynau nag y mae Tom a Beca'n eu gofyn yn yr adran yma o'r ffilm.

Yn ogystal, gallech chi annog y disgyblion i ofyn cwestiynau i'w gilydd mewn sefyllfaoedd gwahanol, e.e. drwy ddychmygu eu bod nhw'n rhywun arall (e.e. cymeriadau o raglenni teledu / llyfrau a.y.b.)

Gallen nhw lunio ffurflenni cofrestru a'u defnyddio er mwyn gofyn i'w gilydd am y manylion hyn, e.e. gan weithio mewn parau, gallai un weithio yn y dderbynfa mewn **canolfan hamdden** a gallai'r llall ddod i mewn i ymuno ag un o'r clybiau chwaraeon. Byddai angen i'r person yn y dderbynfa lenwi ffurflen e.e.

FFURFLEN GOFRESTRU	
Enw:	
Cyfeiriad:	
	
Rhif ffôn:	
O ble:	
Hobïau:	
Manylion:	
	
	
	

Yn ogystal â'r patrymau sy'n cael eu rhestru uchod, bydd angen y patrwm canlynol ar y disgyblion er mwyn llenwi'r ffurflen:

Beth ydy dy rif ffôn di?

Os yw'n briodol, gallech chi addasu'r ffurflen er mwyn rhoi cyfle i ofyn:

Beth ydy dy oed di? / Faint ydy dy oed di?

Beth ydy dy ddyddiad geni di?

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 7**, sy'n annog disgyblion i ddweud cymaint â phosib am eu hobïau. **Siaradwch am eich hobïau chi.**

Yn gyntaf, dylid annog y disgyblion i feddwl am y pwnc ac i ysgrifennu pwyntiau bwled neu gynnwys gwybodaeth berthnasol ar fap meddwl cyn siarad, e.e.

Dw i'n mwynhau ...

yn ...

ar ddydd ... / nos ...

gyda ...

Dw i'n mwynhau ... achos ...

Os yw'n briodol, gallen nhw ddefnyddio'r amser gorffennol, e.e.

Es i ...

Ces i ...

Yn ogystal, gallen nhw feddwl am gwestiynau i ofyn i'w gilydd, e.e.

Ble? / Ble wyt ti'n ...?

Pryd? / Pryd wyt ti'n ...?

Gyda pwy? / Gyda pwy wyt ti'n ...?

Pam wyt ti'n mwynhau ...?

Yna, ar ôl siarad am y pwnc, gallen nhw ysgrifennu paragraffau er mwyn eu cyflwyno'u hunain a gellid eu harddangos ar fwrdd **Pwy ydy Pwy?**.

- Chwaraewch yr adran nesaf, lle mae'r cymeriadau'n dysgu am blanedau gwahanol. Stopiwch y ffilm pan fydd Beca'n dweud, **Dw i ddim eisiau mynd i Neifion achos mae hi'n wyntog iawn.**

Defnyddiwch yr ymadrodd **Mae'n bosib ...** er mwyn siarad am y Pod-antur Cymraeg:

Beth mae'n bosib gwneud yn y Pod-antur Cymraeg?

Mae'n bosib teithio ...

Mae'n bosib teithio i ...

Mae'n bosib cael antur ...

Gallai'r disgyblion feddwl am deithiau, anturiaethau a gweithgareddau o'r gorffennol a welwyd ym Mhecyn 1 a 2, e.e.

Mae'n bosib cael hwyl yn y Pod-antur Cymraeg.

bwyta

gwneud bwyd

darllen

tynnu llun

gwisgo dillad Cymru

a.y.b.

Pwysleisiwch:

Mae'n bosib mynd i'r planedau yn y Pod-antur Cymraeg.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall rhai o'r enwau Cymraeg am y planedau.

Atgoffwch nhw am ddyddiau'r wythnos:

Yna, rhestrwch yr enwau canlynol ar y bwrdd gwyn:

Yr Haul

Mercher

Gwener

Y Ddaear

Mawrth

Iau

Sadwrn

Wranws

Neifion

Pwysleisiwch fod nifer o'r enwau hyn yn gyfarwydd i'r disgyblion eisoes - dyddiau'r wythnos, er enghraifft, y gair Cymraeg **yr haul** - a dangoswch fod yr enw **Wranws** yn debyg i'r gair Saesneg, Uranus.

Mae'r disgyblion wedi dod ar draws yr ymadrodd **y ddaear** eisoes yn ogystal, sef yn y cwestiwn:

Beth ar y ddaear ...?

ac felly ni ddylai dysgu enwau'r planedau yn Gymraeg achosi gormod o broblemau.

- Dangoswch y darn lle mae Sgrin yn siarad am y planedau eto a stopiwch y ffilm ar ôl pob disgrifiad er mwyn gwirio bod y disgyblion wedi deall, e.e.

Pa liw?

Ydy ... yn boeth / yn oer?

Beth ydy enw'r blaned?
Oes dŵr ar y blaned ?
Sut mae'r tywydd ar y blaned yma?

Yna, gallai'r disgyblion wneud amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r planedau, e.e.

- Gallai pob disgybl ddewis planed ac ysgrifennu'n syml amdani yn Gymraeg. Yna, gallen nhw ddarllen eu disgrifiadau ar goedd fel bod y grŵp yn gorfod dyfalu pa blaned sy'n cael ei disgrifio.

- Gallen nhw chwilio am ragor o wybodaeth am un neu ragor o'r planedau. Efallai y gallen nhw lenwi grid y byddwch chi wedi'i roi iddyn nhw. Yna, gallen nhw ddefnyddio'r wybodaeth i ysgrifennu darn ar gyfer cylchgrawn / gwefan sy'n canolbwyntio ar y planedau.

- Gallen nhw gymharu a chyferbynnu planedau gwahanol, e.e. Wranws a Gwener.

- Gallen nhw wneud diagramau o Gysawd yr Haul a'u hegluro yn Gymraeg.

- Gallen nhw wneud symudyn o Gysawd yr Haul. Tra byddan nhw'n gweithio, dylen nhw egluro yn Gymraeg beth maen nhw'n ei wneud, gan ddefnyddio patrymau iaith sydd yn y ddogfen

Patrymau Iaith P-aC3. Gallen nhw werthuso gwaith ei gilydd hefyd.

- Gallen nhw ysgrifennu a pherfformio deialog rhwng cymeriad o blaned arall a pherson dynol a.y.b.

- Chwaraewch weddill y ffilm – lle mae Tom yn teithio o blaned i blaned – a gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu ble mae e. Stopiwch ar ôl i Beca grynhoi'r cliwiau bob tro a gofynnwch:

Pa blaned?

Pa blaned ydy hon? (Mae'r gair 'planed' yn fenywaidd, felly mae angen defnyddio **hon** yn hytrach na **hwn**.)

Beth ydy'r cliwiau?

Mae hi'n ...

a.y.b.

- Cyflwynwch y llyfr, **O Blaned i Blaned**. Ar ôl ei ddarllen, gallai'r disgyblion drafod mewn grwpiau pam mae'r planhigyn yn gwywo ger rhai planedau ac yn ffynnu ar y Ddaear. Gallai hyn arwain at drafodaeth ar yr amodau sydd eu hangen er mwyn i blanhigion ffynnu, e.e.

Beth sy'n bod ar y blaned yma?

Mae hi'n rhy boeth.

rhy oer
rhy sych
rhy stormus
rhy wyntog
rhy dywyll

Mae angen dŵr.

golau

gwres (ond dim gormod)

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm.

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw, dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddiddorol – dw i'n hoffi dysgu am y planedau.

Mae'r DVD yn ddiddorol iawn achos mae'n dysgu ni am y planedau.

Nac ydw.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas – dw i ddim yn hoffi dysgu am y planedau.

Uned 1: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Nodau

- Adolygu geiriau a phatrymau a gyflwynwyd yn Rhan 1-4
- Cyflwyno’r chwedl sy’n gysylltiedig â **Llyn y Fan Fach** a **Meddygon Myddfai**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydych chi’n cofio? Ydyn. / Nac ydyn. Beth ydy hwn? Beth ydy’r rhain? Faint o’r gloch ydy hi? Mae hi’n ... Beth wyt ti’n mwynhau wneud? / Beth wyt ti’n mwynhau gwneud? Dw i’n mwynhau ... Ydy Tom yn siarad yn “dda”, yn “dda iawn” neu yn “ardderchog”? Mae Tom yn ... Beth wyt ti eisiau? Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda. Pa fath? Gorchmynion Rhaid ... Eraill Eich tro chi nawr / rŵan. Dw i’n mwynhau ... achos mae’n ... Mae salad yn dda i chi.	defnyddio pot pridd bwlb dŵr aros brechdan salad sudd afal blasus dwy bunt

Trosglwyddo’r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy hwn?; Beth ydy hon?

Beth ydy’r rhain?

Rhaid ...

Faint o’r gloch ydy hi? Mae hi’n ...

Beth wyt ti’n wneud? Dw i’n ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o’r DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm, **Ydych chi’n cofio?** (Uned 1, Rhan 5) fesul cam, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf.
- Anogwch y disgyblion i ateb y cwestiynau.

- Ar ôl dangos y jariau, gallech chi egluro'u bod yn cynnwys meddyginiaethau perlysieuol. Trafodwch hyn ymhellach ac eglurwch fod llawer o'r moddion a'r tabledi sy'n cael eu defnyddio heddiw hyd yn oed, yn seiliedig ar blanhigion / perlyisiau.

- Cyflwynwch y llyfr stori, **Stori Llyn y Fan Fach**.

Ar ddiwedd y stori, eglurwch fod y teulu yn y stori wedi dod yn feddygon enwog a oedd yn dibynnu ar blanhigion / perlyisiau ar gyfer gwneud moddion i wella pobl sâl a bod llawer o'u 'ryseitiau' wedi cael eu cofnodi mewn hen lawysgrifau.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 8**.
A: Ti ydy'r dyn ifanc.
B: Ti ydy'r ferch, yn eistedd ar y dŵr.
Actiwch.

Dylai'r disgyblion actio'r sefyllfa mewn paru lle mae'r ddau gymeriad yn cyfarfod ar ddechrau'r stori.

Yna, gallai'r disgyblion ddewis rhannau eraill o'r stori i'w hactio, e.e. yr adran ar y diwedd, lle mae'r ferch yn dychwelyd i'r llyn ac mae ei meibion yn chwilio amdani.

Yn ogystal, gallech chi ddilyn y camau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett fel bod y disgyblion yn gwneud mapiau stori, yn dysgu'r chwedl, yn ailadrodd y chwedl, yn actio darnau ohoni ac yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau cyn ysgrifennu chwedlau newydd sy'n seiliedig ar yr un wreiddiol.

Gallai'r stori hon fod yn gyfle i drafod 'Perygl Dieithriaid'. Er bod y ddynes yn siarad â'r dyn ifanc ac yn derbyn darn o fara ganddo, gellid awgrymu ei bod hi wedi'i weld sawl gwaith o'r blaen a'i bod hi'n ei adnabod efallai, gan ei bod yn byw yn y llyn. Dylid pwysleisio na ddylai'r disgyblion byth siarad gyda rhywun nad ydyn nhw'n ei adnabod ac na ddylen nhw byth dderbyn bwyd – nac unrhyw beth arall – oddi wrth bobl ddieithr. Mewn gwirionedd, gallen nhw wneud poster i er mwyn pwysleisio hyn.

Adran 2

Pwrpas yr adran hon yw annog y disgyblion i roi cyfarwyddiau ar gyfer plannu bylbiau.

I ddechrau, rhaid iddyn nhw enwi'r eitemau gwahanol sydd eu hangen ac yna dylen nhw roi sylwebaeth er mwyn egluro'r camau:

Rhaid rhoi cerrig bach yn y pot.
Rhaid rhoi pridd yn y pot.
Rhaid rhoi'r bwlb yn y pridd.
Rhaid rhoi dŵr i'r bwlb.
Rhaid aros.

Adran 3

Yn yr adran hon, dylai'r disgyblion egluro faint o'r gloch ydy hi.

Adran 4

Beth ydych chi'n mwynhau wneud? / Beth ydych chi'n mwynhau gwneud?

Sylwer: Mae'r ddau gwestiwn uchod yn dderbyniol – gyda'r treiglau neu hebdo.

Pwrpas yr adran hon yw annog y disgyblion i ddweud cymaint â phosib amdany'n nhw'u hunain heb gymorth cwestiynau.

- Gwrandewch ar Tom wrth iddo ddisgrifio beth mae'n mwynhau'i wneud. Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin ofyn:
Ydy Tom yn 'dda' ... 'yn dda iawn' ... neu ... 'yn ardderchog'?

Chwaraewch yr adran hon eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth mae Tom yn ei ddweud. Trafodwch y cwestiwn uchod, gan roi rhesymau, a chynhaliwch bleidlais fel dosbarth.

Yna, cymharwch ei ail ymgais a thrafodwch pam mae'r ymateb hwn yn llawer gwell na'r un cyntaf.

Gwrandewch ar Beca wrth iddi ddisgrifio beth mae'n mwynhau'i wneud. Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin ofyn:

Ydy Beca'n 'dda' ... 'yn dda iawn' ... neu ... 'yn ardderchog'?

Chwaraewch yr adran hon eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth mae Beca'n ei ddweud. Trafodwch y cwestiwn uchod, gan roi rhesymau, a chynhaliwch bleidlais fel dosbarth.

Chwaraewch yr adran olaf er mwyn gweld beth mae'r thermomedr yn ei ddangos.

Eich tro chi nawr: Anogwch y disgyblion i ateb y cwestiwn olaf, gan roi cymaint o fanylion â phosib:

Beth ydych chi'n mwynhau wneud? / Beth ydych chi'n mwynhau gwneud?

Adran 5

Yn yr adran hon, gofynnwch i'r disgyblion wyllo a gwranddo ar y sefyllfa ar y ffilm yn ofalus – maen nhw wedi gweld y darn yma eisoes yn Rhan 2.

- Yna, gofynnir i'r disgyblion:
Ydych chi'n cofio?
a rhaid iddyn nhw ddweud yn Gymraeg y geiriau sydd wedi cael eu hepgor, h.y. rhaid iddyn nhw lenwi'r bylchau drwy lefaru'r geiriau coll.

Uned 2

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg ail iaith

Llafaredd

Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol i amrywiaeth o amgylchiadau ac i chwarae rôl wrth iddyn nhw ymgymryd â'r tasgau sydd ar y **Cardiau Siarad**. Gofynnir iddyn nhw gyfleu profiadau personol a dychmygol wrth iddyn nhw fynegi dymuniad mewn perthynas â ble yr hoffon nhw deithio yn y Podantur Cymraeg. Mae nifer o gyfleoedd i fynegi barn, e.e. mewn perthynas â rangolis, eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion. Yn ogystal, gwahoddir y disgyblion i gymryd rhan mewn sgwrs ffôn, i roi cyfarwyddiadau, i wahodd ac i ofyn am bethau. Mae cyfle hefyd i gymryd rhan mewn drama Gymraeg, **Edrychwch ar y Golau**.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrandao'n ofalus ar y ffilm ac i nodi'r prif bwyntiau mewn dulliau amrywiol, e.e. drwy wneud gwaith llafar, drwy ysgrifennu ac ateb cwestiynau mewn cwis a thrwy gwblhau gridiau. Yn ogystal, gellid rhoi crynodeb o ran o'r ffilm i'r disgyblion gyda pheth ohono'n **gywir** a pheth yn **anghywir**. Yna, byddai angen iddyn nhw nodi'r camgymeriadau ar ôl gwyllo'r ffilm. Gallai'r disgyblion ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Gofynnir iddyn nhw gofnodi manylion sgwrs ffôn yn ogystal.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i'r deunyddiau darllen sydd wedi cael eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r uned hon, h.y. llyfr ffeithiol am **Diwali**, llyfr stori / ffeithiol am **Guto Ffowc**, drama, **Edrychwch ar y Golau**, ffeithlen, **China** a cherdd o'r enw **Y Nadolig**. Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd, yn enwedig mewn perthynas â'r ddrama a'r cerddi y bydd y disgyblion eu hunain yn eu cyfansoddi.

Ysgrifennu

Mae cyfleoedd i ysgrifennu "at amrywiaeth o bwrpasau" wrth i'r disgyblion ysgrifennu rhestr (e.e. gwledydd a chyfandiroedd, dillad a welir ar y ffilm a geirfa sy'n gysylltiedig â **Noson Tân Gwylt**). Mae cyfleoedd i ysgrifennu cwestiynau cwis, slogans y gellid eu hargraffu ar grys T, lliain sychu llestri neu fag a disgrifiad o grys T ar gyfer catalog neu wefan marchnata ar y rhyngwyd, poster, taflenni, eitem newyddion a.y.b.

Anogir y disgyblion i ysgrifennu ffurfiau gwahanol gan ddefnyddio iaith addas, e.e. cerddi, poster, ffeithlen, taflen sy'n cynnwys cyngor am Noson Tân Gwylt, taflen sy'n dangos y ffactorau sy'n angenrheidiol ar gyfer tyfu planhigyn iach, gwerthusiadau o rangoli, deialog, poster, cofnod o arbrawf gwyddonol, rysâit ar gyfer bwyd Tsieinaidd, eitem newyddion am Diwali ac e-bost neu lythyr sy'n gwahodd ffrind i Noson Tân Gwylt neu i'r Gwasanaeth Nadolig.

Gellid defnyddio'r gerdd, **Y Nadolig**, er mwyn tynnu sylw at bwrpas dyfynodau a gellid gofyn i'r disgyblion awgrymu pwy sy'n siarad ym mhob pennill. Gallai'r disgyblion ysgrifennu cerdd debyg lle y byddai angen iddyn nhw ddefnyddio dyfynodau.

Saesneg

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth am China, pandas a rangolis. Byddai hyn yn golygu darllen llyfrau a gwefannau Saesneg.

Mathemateg

Mae'r cymeriadau'n defnyddio'r Gymraeg wrth iddyn nhw fesur a gwneud graff i ddangos tyfiant y planhigyn. Maen nhw'n tynnu llun cylch, yn ei rannu'n 2 hanner ac yn 4 chwarter ac yn tynnu llun ongl sgwâr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cyflwyno geirfa a phatrymau iaith y gallai'r disgyblion eu

dysgu a'u defnyddio wrth iddyn nhw wneud gwaith tebyg mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Yn wir, gellid datblygu'r gwaith hwn ymhellach, os yw'n briodol, a gellid gofyn i'r disgyblion haneru onglau 90 gradd drwy fesur onglau **pedwar deg pump gradd**.

Yn ogystal, gellid gofyn iddyn nhw dynnu llun trionglau hafalochrog drwy wneud llun onglau **chwe deg gradd** ac, mewn gwirionedd, gallen nhw ddylunio addurniadau Nadolig gan ddefnyddio nifer o drionglau hafalochrog wedi'u cysylltu â'i gilydd ar ddarn o llyn.

Tra byddan nhw'n gwneud rangolis, gellid annog y disgyblion i ddefnyddio siapiau a phatrymau geometrig gwahanol a gallai rhai o'r rhain fod yn gymesur.

Mae cyfle i adolygu arian wrth i'r disgyblion chwarae rôl mewn siop ac ar stondin cŵn poeth.

Yn ogystal, mae'r amser a'r dyddiad yn cael eu hadolygu drwy gydol yr uned:

Faint o'r gloch ydy hi?

Mae hi'n ...

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Hydref dau ddeg pump.

Tachwedd pump.

Gwyddoniaeth

Mae'r gwaith a wnaed eisoes ar y planedau yn cael ei adolygu wrth i'r cymeriadau ystyried teithio i blanedau gwahanol.

Ar ôl darllen y ffeithlen ar China, gallai'r disgyblion wneud pryd Tsieineaidd syml gan ddefnyddio cynhwysion iach, gan egluro pam mae'r bwyd yn iach.

Mae rhannau planhigion yn cael eu hadolygu yn yr uned hon ac mae'r disgyblion yn cael eu hannog i drafod a dylunio posteri / taflenni i ddangos y ffactorau sydd eu hangen cyn y gall planhigyn dyfu'n iach. Mae cyfleoedd i gynnal arbrofion er mwyn dangos effaith golau a thywyllwch ar blanhigyn ac i gymharu effaith yr haul a golau artiffisial.

Daearyddiaeth

Yn Rhan 1, anogir y disgyblion i geisio cofio'r enwau Cymraeg am y gwledydd a'r cyfandiroedd gwahanol a welwyd ym Mhecyn 1 a 2 ac, efallai, yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Gofynnir iddyn nhw hefyd gynllunio taith yn y Pod-antur Cymraeg gan ddefnyddio atlas Cymraeg i'w cynorthwyo.

Mae'r ffeithlen **China** yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am y wlad a gofynnir i'r disgyblion chwlio am leoliad y wlad hon ynghyd â lleoliad Cymru ar fap a chymharu'r ddwy wlad o ran eu maint.

Mae cyfleoedd i chwilio am ragor o wybodaeth am China, e.e.

- mewn perthynas â'r wlad yn gyffredinol – gellid gofyn cwestiynau penodol, megis **Beth ydy enw'r afon hira?** a.y.b.
- mewn perthynas â bywyd gwyllt – gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth am y panda a dylunio ffeithlen.
Dyma'r panda.
Mae e'n / o'n anifail (mawr, du a gwyn).
Mae e'n / o'n byw yn ... + map
Mae e'n / o'n bwyta ...
Heddiw, mae rhai pandas yn byw mewn sŵs.
Mae'r panda mewn perygl.
Gelid dilyn hyn gyda thrafodaeth am y ffaith fod pandas yn rhywogaeth sydd mewn perygl.
- mewn perthynas â beth mae'r wlad yn allforio i Gymru.

Hanes

Mae cyfeiriadau at y ffaith mai yn China, mwy na thebyg, y cafodd papur a thân gwyllt eu dyfeisio flynyddoedd yn ôl. Gellid gwneud ymchwil bellach i hanes y gwrthrychau hyn.

Mae'r llyfr darllen **Guto Ffowc** yn rhoi gwybodaeth am Guto Ffowc, Cynllwyn y Powdr Gwn a pham rydyn ni'n dathlu Noson Guto Ffowc.

Celf a Dylunio

Mae nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn ystod sesiynau celf a dylunio, e.e. wrth ddylunio a gwneud posteri / taflenni i ddangos yr anghenion ar gyfer tyfiant iach mewn planhigyn neu *gollage* sy'n dangos Noson Guto Ffowc neu set ar gyfer y ddrama, **Edrychwch ar y Golau** a.y.b.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion greu gwaith haniaethol ar y thema **Llachar**.

Ar ôl darllen a pherfformio'r ddrama, **Edrychwch ar y Golau**, gallai'r disgyblion greu darnau o waith celf i gyfleu un o'r golygfeydd. Gallen nhw beintio un o'r golygfeydd ar "wydr" hefyd, gan ddefnyddio paent arbennig a thryloywlun. Efallai y gellid gosod y rhain mewn ffenestr er mwyn creu effaith gwyrdd lliw.

Ar ôl cwblhau eu gwaith, dylid rhoi cyfle i'r disgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyddisgyblion. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃** am eirfa a phatrymau iaith addas.

Dylunio a thechnoleg

Mae nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn ystod sesiynau dylunio a thechnoleg.

Ar ôl darllen y ffeithlen **China**, gallai'r disgyblion wneud pryd neu snac iach Tsieineaidd ac yna cynhyrchu cerdyn rysait lliwgar a allai gynnwys delweddau, ffontiau gwahanol a.y.b.

Gallai'r disgyblion ddewis deunyddiau addas ar gyfer gwneud rangoli, torran, powlenni *papier maché* neu addurniadau eraill sy'n gysylltiedig â Diwali neu'r Nadolig. Gallen nhw wneud fferins / losin drwy ddilyn rysait sydd i'w weld yn y llyfr **Diwali** a gallen nhw gynllunio dillad addas ar gyfer dathlu Diwali hefyd. Yn ogystal, mae cyfle i ddylunio ac argraffu ar grysau T, lliainiau sychu llestri a bagiau.

Ar ôl darllen a pherfformio'r ddrama, **Edrychwch ar y Golau**, gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud modelau o'r cymeriadau a gellid rhoi'r rhain ar fwrdd er mwyn creu golygfa preseb y Nadolig neu gellid eu defnyddio er mwyn adrodd y stori i grŵp o ddisgyblion o ddosbarth arall.

Addysg gorfforol

Ar ddechrau Rhan 1, mae Tom a Beca'n mynd i mewn i'r Pod-antur Cymraeg ar flaenau eu traed fel nad ydyn nhw'n deffro Sgrin. Gallai'r disgyblion greu dawns lle maen nhw'n mynd ar flaenau eu traed yn ofalus fel na fydd creadur / anghenfil / Sgrin yn deffro. Fodd bynnag, yn sydyn, mae'r cymeriad yn deffro fel bod rhaid i'r disgyblion symud o'i ffordd yn gyflym iawn.

Gallai'r cyfeiriadau at *tai chi* a chadw'n heini ar daflen **China** roi cyfle i wneud ychydig o *tai chi* sylfaenol neu gellid creu rwtin cadw'n heini y gellid ei ddefnyddio ar ddechrau pob dydd.

Gallai'r disgyblion wyllo dawns o India hefyd, ar y we o bosib, ac yna gallen nhw ddyfeisio symudiadau tebyg.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth Tsieineaidd a'i gwerthuso ar ôl darllen y ffeithlen **China** neu wrando ar gerddoriaeth India tra byddan nhw'n astudio Diwali. Gellid cyflwyno offerynnau cerdd gwahanol o China ac India yn ogystal.

Addysg grefyddol

Anogir y disgyblion i drafod dathliadau sy'n bwysig iddyn nhw ac mae ail ran yr uned yn canolbwyntio ar ddathlu Diwali.

Mae'r ddrama **Edrychwch ar y Golau** yn seiliedig ar stori'r Nadolig.

TGCh

Mae cyfleoedd i chwilio am wybodaeth am China, pandas, rangolis a Diwali ac i gynllunio ac argraffu crysau T. Mae llawer o gyfleoedd i ddylunio posteri a thaflenni, e.e. er mwyn dangos yr anghenion ar gyfer tyfu planhigyn iach, rhoi cyngor ynglŷn â Noson Tân Gwylt. Yn ogystal, gallai'r disgyblion recordio neu ffilmio sgysiau ac eitem newyddion am Diwali yn ogystal â pherfformiad o **Edrychwch ar y Golau**.

ABCh

Mae cyfleoedd i drafod bwyd iach a chynghorir y disgyblion i gymryd gofal ar Noson Tân Gwylt.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r uned yn targedu Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang drwy gynnig cyfleoedd i ddysgu am China, Diwali a dathliadau eraill. Gellid datblygu'r gwaith hwn ymhellach wrth i'r disgyblion wneud ymchwil bellach. Anogir y disgyblion i ystyried hefyd o ble y daw'r eitemau maen nhw'n eu defnyddio yn eu bywyd pob dydd ac, efallai, sut y cyrhaeddodd nhw Gymru.

Datblygu Meddwl

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau cynnydd a pharhad.

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, i werthuso llwyddiant ac i ystyried sut y gellid gwella'r gwaith (e.e. yn yr uned adolygu ac wrth drafod sut i wella cerdd).

Gofynnir iddyn nhw feddwl am enw ar gyfer y planhigyn, i gytuno arno ac i ystyried y gofynion fel ei fod yn tyfu'n iach.

Datblygu Cyfathrebu

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar ddisgyblion eraill ac i ymateb iddyn nhw – ar lafar ac yn ysgrifenedig – ac i ddethol gwybodaeth ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwrdd ac i'w chyflwyno mewn dull priodol, gan wneud defnydd o feddalwedd priodol. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau, e.e. ffilmio'r ddrama, recordio'r gwaith grŵp a rhoi cyflwyniad PowerPoint. Dylid eu hannog i ddefnyddio'r cyfrifiadur ar gyfer gwaith ysgrifenedig ac i ddrafftio ac ail-ddrafftio'u gwaith.

Datblygu Rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhif yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, drwy drin arian a defnyddio mesurau. Mae angen iddyn nhw gyfeirio at y dyddiad a'r amser yn ogystal.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar unrhyw gyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 2: Rhan 1 – Tom a Beca'n mesur

Nodau

- Adolygu agweddau ar y gwaith a wnaed yn Uned 1, sef trafod rhannau planhigyn sy'n blodeuo a gwybodaeth sylfaenol am y planedau
- Defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun mathemategol, e.e. adolygu **mesur; Rhaid mesur o'r pwynt yma.; Sawl centimetr?; ... centimetr;** a chyfrif fesul pump: **pump, deg, un deg pump ...**
- Cyflwyno ffracsiynau mewn perthynas â chylch – **hanner; chwarter**
- Cyflwyno geirfa fathemategol a fydd yn galluogi'r disgyblion i ddefnyddio protractor i wneud onglau drwy gyfrwng y Gymraeg: **protractor; ongl; gradd; Sawl gradd?**
- Adolygu disgrifio drwy gyfuno ansoddeiriau, **crys bach melyn; crys mawr pinc;** adolygu **rhy fawr; rhy fach** a.y.b.; a chyflwyno ansoddeiriau newydd, e.e. **llachar; perffaith;**
- Adolygu'r dyddiad yn Gymraeg: **Beth ydy'r dyddiad heddiw? Hydref dau ddeg pump**
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Newidia'r crys. Mae e'n tyfu. Hydref dau ddeg pump. Mae'r hedyn bach yn blanhigyn. Beth am feddwl am enw i'r planhigyn? Dw i wedi newid. Sut wyt ti'n gwneud rangoli? Dw i'n gwneud cylch mawr ... Dw i'n gwneud llinell drwy'r canol. Bydd fy ffrindiau i'n hapus. * Mae'n well. * Cyflwynwyd Bydd eisoes mewn perthynas â'r tywydd: Bydd hi'n braf.	rhy stormus dim nawr / dim rŵan chwaith llachar perffaith rangoli ar draws cwm pawd siapiau papur gleiniau protractor ongl naw deg gradd chwarter, chwarteri

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydy Sgrin yn cysgu? Ydy. / Nac ydy. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n hoffi'r crys? Ydyn. / Nac ydyn. Oes dillad yn y Pod-antur Cymraeg? Oes. / Nac oes. Ble mae'r dillad? Yn y bocs dillad. Sawl centimetr? Deg centimetr. Ga i weld? Cei. / Na chei. Gawn ni fynd? Cewch. / Na chewch. Pam?	rhy boeth rhy oer het sanau crys bach canolig mawr Ych a fi! hedyn planhigyn llinell centimetr graff anrheg patrwm llawr cerdyn

Achos ... Pa liw? Beth? Beth am fesur y planhigyn? Syniad da. Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ... Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ... Beth sy yn y bocs dillad? Beth ydy'r dyddiad heddiw? Beth ydy rangoli? Eraill Dw i eisiau mynd i'r planedau. Rydyn ni eisiau mynd i deithio. Dw i'n hoffi'r crys. Dw i ddim yn hoffi'r crys. Mae e'n effeithiol iawn. Gorchmynion / Cyfarwyddiadau Edrycha. Rhaid mesur o'r pwynt yma. Rhaid tacluso. Rhaid newid y crys yna.	glas tywyll glas golau porffor pinc riwler pensil sialc cylch hanner cylch tynnu llinell gludo yfory
--	---

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth am ... (+ treigladd meddal)?

Wyt ti'n barod?; Ydw. / Nac ydw.; Ydych chi'n barod?; Ydyn. / Nac ydyn.

Ga i weld y ... os gwelwch yn dda?; Cei. / Na chei.

Gawn ni weld y ... os gwelwch yn dda?; Cewch. / Na chewch.

Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...; Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...

Edrychwch!; Edrycha!

Rhaid mesur o'r pwynt yma.

Yn ofalus.

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Beth am feddwl am ...?

Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ...

Sut wyt ti'n gwneud ...?

Mae e'n wych.

Mae e'n effeithiol iawn.

Rhaid tacluso.

Hyfryd!

Gwych!

Ffantastig!

Ardderchog!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch ran gyntaf y ffilm, **Tom a Beca'n mesur** (Uned 2, Rhan 1) hyd at y man lle mae Sgrin yn gweld eu bod nhw ar fin neidio i mewn i'r cylch coch.

Ydych chi'n cofio?

Dechreuwch drwy adolygu'r stori hyd yn hyn. Rhannwch y disgyblion yn dimau a gofynnwch y cwestiynau canlynol:

Ar y dechrau ...
Ydy Sgrin yn dawnsio?
Ydy Sgrin yn neidio?
Ydy Sgrin yn canu?
Ydy Sgrin yn garddio?
Ydy Sgrin yn cysgu?

Ydy. / Nac ydy.

Yna, gofynnwch:

Ble mae Beca eisiau mynd?
I blaned Gwener. / Mae hi eisiau mynd i blaned Gwener.
I blaned Mawrth. / Mae hi eisiau mynd i blaned Mawrth.
I'r Ddaear. / Mae hi eisiau mynd i'r Ddaear.
I China. / Mae hi eisiau mynd i China.
I Everest. / Mae hi eisiau mynd i Everest. / Mae hi eisiau dringo Everest.

Yna, dywedwch:

Mae Beca eisiau mynd i blaned Gwener ond beth ydy'r problem?
Rhy boeth. / Mae Gwener yn rhy boeth. / Mae planed Gwener yn rhy boeth.
Mae Beca eisiau mynd i blaned Mawrth ond beth ydy'r problem?
Rhy oer. / Mae Mawrth yn rhy oer. / Mae planed Mawrth yn rhy oer.
Rhy sych. / Mae Mawrth yn rhy sych. / Mae planed Mawrth yn rhy sych.
Mae Beca eisiau mynd i blaned Iau ond beth ydy'r problem?
Rhy stormus. / Mae Iau yn rhy stormus. / Mae planed Iau yn rhy stormus.

Rhowch farciau am atebion cywir a gofynnwch i bob tîm:

Sawl marc?

Yna, gofynnwch:

Pwy sy wedi ennill?

Gallech chi ymestyn y cwis drwy ofyn i'r disgyblion restru lleoedd eraill (yn Gymraeg) y gallai'r Pod-antur Cymraeg ymweld â nhw.

Meddylwch am leoedd eraill – yn Gymraeg.

Anogwch nhw i geisio cofio enwau'r cyfandiroedd a'r gwledydd maen nhw wedi dod ar eu traws ym Mhecyn 1 a 2, e.e. **Ffrainc, Y Swistir, Yr Eidal, Affrica** a.y.b. Gallech chi hefyd ailddarllen y llyfr **Teithio** (Pecyn 1) ac **Izzy'n Teithio** (Pecyn 2) lle mae sawl gwlad yn cael ei chrybwyll.

- Chwaraewch y darn hwn eto fel bod y disgyblion yn gallu clywed yr atebion i'r cwestiynau uchod ac ymglyfarwyddo â'r ddeialog. Tynnwch sylw at y ffeithiau canlynol:

Mae Beca eisiau mynd i China.

Mae Tom eisiau mynd i China hefyd.

Cyflwynwch y ffeithlen **China**.

Anogwch y disgyblion i chwilio am leoliad China ar fap o'r byd. Yna, anogwch nhw i chwilio am leoliad Cymru. Eglurwch:

Mae China'n fawr. Mae China'n fawr iawn.

Mae Cymru'n fach. Mae Cymru'n fach iawn.

Wedyn, gallai'r disgyblion chwilio am ragor o wybodaeth am China, e.e.

Bwyd China

Anifeiliaid China

Mynd i'r ysgol yn China

Y panda

Bydd y wybodaeth yn Saesneg mwy na thebyg, ond gallai'r plant ysgrifennu darn syml yn Gymraeg, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Byddai hyn, wedyn yn

galluogi'r disgyblion i drosglwyddo patrymau maen nhw wedi'u dysgu eisoes mewn perthynas â'u hardal eu hunain i gyd-destun ehangach:

Mae ... yn China ...

Mae llawer o ... yn China.

Mae pobl China yn hoffi ...

Mae plant China yn mynd i'r ysgol am ... o'r gloch.

Mae'r panda'n anifail ...

Mae'r panda'n byw yn ...

Mae'r panda'n bwyta ...

- Efallai y gallech chi gynnig ychydig o fwyd Tsieineaidd i'r disgyblion ac yna gofynnwch iddyn nhw:

Wyt ti'n hoffi bwyd China?

Ydw. / Nac ydw.

Ydych chi'n hoffi bwyd China?

Ydyn. / Nac ydyn.

Dangoswch gynhwysion y pryd a phwysleisiwch fod reis yn rhan bwysig iawn o brydau Tsieineaidd:

reis

llysiau ...

Wyt ti'n / Ydych chi'n hoffi reis?

Gallen nhw drafod ydy'r pryd yn un iach:

Ydy'r bwyd yn iach?

Ydy'r bwyd yn dda i chi?

Ydy. / Nac ydy.

Mae fitaminau / ffibr / protein / braster yn y bwyd.

Gallai'r disgyblion wneud pryd Tsieineaidd iach syml yn y dosbarth, gan ddefnyddio patrymau iaith maen nhw wedi'u dysgu eisoes:

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...?

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n golchi ...

Dw i'n torri ...

Dw i'n pilio / plicio ...

Dw i'n cymysgu ...

Dw i'n rhoi ...

Yna, gallen nhw rannu'r pryd:

Wyt ti eisiau ...?

Ydw, os gwelwch yn dda.

Nac ydw, dim diolch.

Gallen nhw fynegi barn:

Mae'n flasus.

Dw i'n hoffi'r ... Mae'n flasus iawn.

Mae'r ... yn dda iawn.

Mae'r ... yn fendigedig.

Yn ogystal, gallen nhw greu cardiau ryseitiau yn Gymraeg, gan dynnu ffotograffau o'r camau gwahanol efallai. Gallen nhw ddefnyddio un o'r templedi canlynol:

<i>Teitl</i>
Rhaid cael: <i>[Rhestr cynhwysion]</i> Dull: <i>y cyfarwyddiadau</i> 1. Golchwch y ... 2. Torrwch y ... 3. Rhowch y ...

<i>Teitl</i>
Mae angen: neu Cynhwysion: <i>[Rhestr cynhwysion]</i> Dull: <i>y cyfarwyddiadau</i> 1. Rhaid golchi'r ... 2. Rhaid torri'r ... 3. Rhaid rhoi'r ...

- Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth draddodiadol o China a'i gwerthuso, yn ogystal ag ymchwilio i offerynnau cerdd traddodiadol China.
- Gallen nhw wneud gwaith ymchwil mewn perthynas â'r amryw eitemau sy'n cael eu mewnfario o China a gwneud arddangosfa o'r eitemau hyn.
- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 9**.
A: Beca wyt ti. Rwy't ti eisiau mynd i deithio yn y Pod-antur Cymraeg.
B: Tom wyt ti. Rwy't ti eisiau mynd i deithio hefyd – ond i ble?
Siaradwch.

I ddechrau, gallai'r disgyblion actio'r sefyllfa sydd ar y ffilm.

Yna, gofynnwch iddyn nhw ddychmygu eu bod yn y Pod-antur Cymraeg. Gan ddefnyddio atlas Cymraeg os oes modd, gofynnwch iddyn nhw gynllunio taith yr hoffen nhw fynd arni yn y Pod-antur Cymraeg:

Dw i eisiau mynd i ... ac yna ... ac yna ...
Dw i eisiau gweld ...
Dw i eisiau bwyta ...

Gallen nhw ddewis mynd i China, wrth gwrs.

- Chwaraewch y darn hwn eto a thynnwch sylw at y ffaith fod y cymeriadau'n symud **yn dawel** **yn araf** **yn ofalus** fel nad ydyn nhw'n deffro Sgrin.

Yna, pan maen nhw'n dawnsio o flaen Sgrin, maen nhw'n creu dawns ar frys er mwyn ceisio'i dwyllo.

Gallai'r disgyblion actio sefyllfa debyg, lle mae'n rhaid iddyn nhw symud yn dawel ac yn ofalus fel nad ydyn nhw'n deffro rhywun / rhywbeth, ond yn sydyn, maen nhw'n llawn panig pan fydd e / hi yn deffro.

Symudwch yn dawel / yn ofalus.
Symudwch fel llygod.
Symudwch fel cath.
Yna, symudwch yn gyflym.
Symudwch fel ...

- Chwaraewch y darn nesaf, hyd at y man lle mae Tom yn mynd i newid ei grys.

Gofynnwch:

**Beth ydy'r broblem gyda'r crys?
Ydych chi'n hoffi'r crys?
Wyt ti'n hoffi'r crys?**

Tynnwch sylw at y gair **llachar**.
Wyt ti'n hoffi lliwiau llachar?
Pa liwiau wyt ti'n hoffi?

Gofynnwch i'r plant gynllunio patrwm **llachar**. Gallen nhw ddefnyddio lliwiau llachar neu batrymau cryf neu gyfuniad o'r ddau. Gellid defnyddio'r rhain, wedyn, i'w hargraffu ar grysau T a gellid ychwanegu sloganau addas, e.e.

Llachar!
Dw i'n hoffi lliwiau llachar.
Lliwiau llachar llawen
Mae bywyd yn llachar.
Mae Cymraeg yn llachar.
Mae llachar yn cŵl.
Mae'r Pod-antur Cymraeg yn cŵl.
Dw i'n hoffi'r Pod-antur Cymraeg.

Yna, dylai'r disgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd, gan ddefnyddio'r patrymau sydd yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃** ynghyd â geiriau megis **patrymau** a **siapiau** – efallai bod y rhain wedi cael eu cyflwyno mewn cyd-destunau eraill (megis mathemateg), e.e.

Mae'r crys T yn llachar iawn.
ardderchog
ffantastig
Mae'r (porffor ac oren) yn effeithiol.
Mae'r glas tywyll yn effeithiol iawn yma.
Mae'r patrymau'n anhygoel.
Mae'r siapiau'n gyffrous.
Mae'r blodau / dail yn wych.

Chwaraewch y darn eto a thynnwch sylw at y dillad mae Beca'n eu cymryd o'r bocs dillad.
Gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n cofio ystyr

bach
canolig
mawr

a gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r dillad sydd ar y ffilm.

crys T bach gwyn
crys mawr pinc
crys T glas tywyll canolig

- Nawr, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu disgrifiad byr o'r crys T maen nhw wedi'i gynllunio uchod fel pe baen nhw'n ei werthu ar wefan marchnata ar y rhyngwrdd neu mewn catalog. Gallen nhw gyfeirio at ei faint, ei liw, gan ddefnyddio'r geiriau **tywyll**, **golau** a **llachar** a gallen nhw gyfeirio hefyd at y patrwm. Yn ogystal, gallen nhw awgrymu pris, e.e.

Crys T bach / canolig / mawr, glas golau a melyn llachar gyda dail gwyrdd golau a blodau pinc.
Pris: £100

Yna, gallai'r disgyblion fodelu'r dillad hyn o flaen y dosbarth / ysgol ac felly byddai'n rhaid iddyn nhw eu cyflwyno eu hunain:

... ydw i ...
Dw i ym Mlwyddyn ...
Dw i'n hoffi ...
Heddiw, dw i'n gwisgo ...
Edrychwch ar y slogan / lliwiau / siapiau / patrymau.

- Chwaraewch y darn nesaf, hyd at ddiwedd y darn sy'n ymdrin â thyfiant planhigion, lle mae Beca'n gwneud graff ac mae Tom yn edrych arno.

Gan ddefnyddio'r ymadroddion sydd i'w clywed ar y ffilm, gallai'r disgyblion fesur eitemau gwahanol mewn paru, e.e.

Sawl centimetr?

... centimetr.

Yna, gellid defnyddio'r ymadroddion hyn mewn unrhyw gyd-destun lle mae angen i'r disgyblion fesur rhywbeth.

Yn yr un modd, gellid defnyddio'r eirfa a'r patrymau sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas â gwneud graff mewn gwaith mathemateg, e.e.

papur graff

llinell i lawr

llinell ar draws

a gellid ysgrifennu geiriau Cymraeg ar echelin X ac Y.

- Defnyddiwch ddelwedd briodol er mwyn gwirio ydy'r disgyblion yn cofio'r enwau Cymraeg am rannau planhigyn, e.e.

hedyn

coesyn

deilen

dail

blodyn

planhigyn.

Ailadroddwch y brawddegau canlynol, sydd i'w clywed ar y DVD, a gwnewch yn siŵr fod y disgyblion wedi'u deall:

Mae'r hedyn yn tyfu.

Mae'r hedyn yn blanhigyn.

- Cyn chwarae'r darn nesaf, tynnwch sylw at y ffaith nad oes gan y planhigyn enw. Bydd y cymeriadau'n rhoi enw iddo yn y darn nesaf, ond pa enw fyddai'r disgyblion yn ei ddewis? Gofynnwch iddyn nhw feddwl am enw addas:

Beth ydy enw'r planhigyn?

Dw i'n hoffi'r enw ...

Na, dw i ddim yn hoffi ...

Beth am ...?

Mae ... yn enw da.

Syniad da.

Na, dw i ddim yn meddwl.

Gofynnwch iddyn nhw benderfynu ar un enw fel grŵp.

Rhaid dewis un enw.

Pa enw?

Gofynnwch i'r disgyblion am eu hawgrymiadau.

Beth ydy enw'r planhigyn?

- Chwaraewch y rhan nesaf - canolbwyntiwch ar yr enw mae'r cymeriadau wedi'i ddewis, stopiwch y ffilm a gofynnwch:

Ydych chi'n hoffi'r enw?

Ydw. / Nac ydw.

Dw i'n hoffi'r enw – mae'n grêt.

Dw i ddim yn hoffi'r enw – mae'n ofnadwy / ddiflas.

Faint sy'n hoffi'r enw?

Cyfrwch yn Gymraeg.

- Dangoswch y ffilm – hyd at y man lle mae Sgrin yn dweud **Edrychwch ar y we i weld patrymau rangoli.**

Tynnwch sylw at y ffaith nad yw Tom a Beca'n gwybod beth yw rangoli.

Os yw'r disgyblion wedi dod ar draws rangolis o'r blaen, gofynnwch iddyn nhw

Beth ydy rangoli?

Ymhlith yr atebion posibl y mae:

Patrwm.

Patrwm ar y llawr.

Llun.

Llun ar y llawr.

Os nad ydyn nhw'n gwybod beth yw rangolis, gofynnwch iddyn nhw chwilio am wybodaeth ac argraffu enghraifft oddi ar y rhyngwyd.

- Edrychwch ar yr enghreifftiau mae'r disgyblion wedi'u hargraffu. Dangoswch nhw i'r grŵp a gofynnwch:

Pa liw?

Pa siâp?

Beth ydy hwn?

Wyt ti'n hoffi'r patrwm?

Wyt ti'n hoffi'r rangoli?

Pam?

Mae'n lliwgar.

hardd

hyfryd

cŵl

llachar

effeithiol iawn

Anogwch nhw i fynegi barn am y rangolis drwy ddefnyddio'r patrymau maen nhw'n eu defnyddio i werthuso'u gwaith fel arfer.

Eglurwch mai patrymau wedi'u gwneud ar y llawr, yn yr ystafell fyw neu tu allan i'r tŷ, yn ystod Diwali yw rangolis – gŵyl Hindŵaidd a gynhelir ym mis Hydref neu fis Tachwedd fel arfer. Fel arfer, maen nhw'n cael eu gwneud o dywod, paent powdr, reis lliw, blawd lliw neu betalau blodau a'u pwrpas yw gwahodd Lakshmi, duwies Hindŵaidd cyfoeth a ffyniant, i'r cartref.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu darn byr i gyd-fynd â'r rangoli er mwyn ei ddisgrifio a mynegi barn, e.e.

Dyma rangoli.

Mae'r rangoli'n hardd / hyfryd / wych. a.y.b.

Yn y rangoli, mae patrwm ...

siâp ...

blodyn ...

cylch

sgwâr

Mae'r gwyrdd yn effeithiol iawn.

Dw i'n hoffi'r rangoli achos mae'n lliwgar iawn.

Trwy wneud hyn, bydd y disgyblion yn trosglwyddo i gyd-destun newydd eirfa a phatrymau a ddysgwyd ganddyn nhw'n wreiddiol mewn sefyllfaoedd gwahanol.

- Chwaraewch yr adran nesaf, lle mae Beca'n gwneud rangoli.

Eglurwch y canlynol, gan ddefnyddio deunyddiau priodol:

cylch (Mae'r gair hwn wedi cael ei ddefnyddio eisoes yn y Cyfnod Sylfaen ac ym Mhecyn 1 a 2.)

hanner cylch (Mae'r ymadrodd hwn wedi cael ei ddefnyddio eisoes yn y Cyfnod Sylfaen ac ym Mhecyn 1 a 2.)

chwarter cylch

Os yw'n briodol, defnyddiwch wyneb cloc ac eglurwch fod **hanner** a **chwarter** yn cael eu defnyddio i ddweud yr amser yn Gymraeg hefyd:

hanner awr wedi

chwarter wedi

chwarter i

Dangoswch y darn lle mae Beca'n rhannu cylch yn haneri ac yn chwarteri eto a chanolbwyntiwrch ar yr iaith:

Dw i'n tynnu llinell drwy'r canol.

Dw i'n rhoi'r protractor ar y llinell – yn y canol.

Dw i'n mesur ongl – naw deg gradd.

Rhowch ddelweddau o gylchoedd i'r disgyblion a gofynnwch iddyn nhw wneud hyn. Gwnewch yn siŵr bod y patrymau iaith wrth law hefyd.

Os yw'n briodol, gallen nhw rannu'r onglau 90 gradd hefyd, drwy wneud onglau

pedwar deg pump.

Beth sy'n bwysig yma yw bod y disgyblion yn gallu trosglwyddo rhai o'r ymadroddion hyn i sefyllfaoedd real lle y bydd angen iddyn nhw fesur onglau e.e. mewn gwaith mathemateg:

Sawl gradd?

Naw deg gradd.

Chwe deg gradd.

Tri deg gradd.

Pedwar deg pump gradd.

Cyn gwneud y gwaith hwn, fodd bynnag, gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn gallu cyfrif i 90 o leiaf.

Yn ogystal, gellid gofyn i'r disgyblion wneud llun o drionglau hafalochrog drwy wneud onglau **chwe deg gradd**. Mewn gwirionedd, gallen nhw gynllunio addurniadau Nadolig sy'n cynnwys nifer o drionglau hafalochrog wedi'u cysylltu â'i gilydd ar ddarn o linydd.

- Chwaraewch yr adran hon eto, gan ofyn i'r disgyblion ganolbwyntio ar y rangoli.

Yna, gallen nhw gynllunio a gwneud rangolis gyda deunyddiau o'u dewis eu hunain, gan siarad cymaint o Gymraeg â phosibl yr un pryd, e.e.

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n gwneud rangoli.

Wyt ti'n hoffi'r patrwm?

**cylch
blodyn**

Ydw. / Nac ydw.

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Yna, gellid rhoi cyfle iddyn nhw werthuso gwaith ei gilydd, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.

Yn ogystal, dylen nhw ysgrifennu darn byr i ddisgrifio'r rangoli ac i fynegi barn neu werthuso'r gwaith, gan ddefnyddio'r patrymau a restrwyd eisoes.

- Chwaraewch yr adran eto, ond y tro hwn, tynnwch sylw at y ffaith fod Tom yn gadael er mwyn ateb ei ffôn.

Gofynnwch sut y byddai'n ateb y ffôn yn Gymraeg:

Helo.

Bore da. / Prynhawn da.

Tom yma.

Tom sy'n siarad.

Gofynnwch i'r disgyblion pwy allai fod ar y ffôn a beth mae e/o / hi eisiau.

Trafodwch syniadau.

Pwy sy'n ffonio?

Pam?

Beth mae ... eisiau?

Mae ... eisiau ...

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 10:**

Pwy sy ar y ffôn?

A: Rwyf ti'n ffonio Tom.

B: Tom wyt ti.

Siaradwch.

Gan ddefnyddio'r ymadroddion sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn, ynghyd ag unrhyw batrymau sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion greu'r sgwrs ffôn hon. Gallen nhw ysgrifennu'r sgwrs os oes rhaid neu gallen nhw ddechrau sgwrs lafar ar unwaith.

Yna, gallai'r disgyblion wrando ar sgysiau ei gilydd.

- Gwylwch ddarn o'r ffilm eto a gwahoddwch y disgyblion i fynegi barn, gan roi rhesymau priodol:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n hoffi gwneud rangolis.

Ydw, achos dw i wedi dysgu sut i wneud rangoli.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ddiflas.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi gwneud rangolis.

Nac ydw, achos dw i ddim yn mwynhau gwyllo DVDs.

Uned 2: Rhan 2 - Diwali

Nodau

- Trafod y ffactorau sy'n angenrheidiol fel y gall planhigyn dyfu'n iach: **Mae angen golau.; Mae ... angen golau.**
- Adolygu geirfa a phatrymau sy'n gysylltiedig ag amser, **Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n** (+ treigladd meddal)
- Siarad am **ddathlu**, gan gyfeirio'n benodol at Diwali
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Does dim golau yn y cwpwrdd. Mae Bob angen golau. Brysia. Ble oedd Bob?	rhy wlyb rhy sych paratoi at Diwali diva (lamp fach) gwneud twll mowldio llaeth cyddwys (De Cymru)*; llefrith cyddwys (Gogledd Cymru)* coconyt dawns *Gallai'r disgyblion ddefnyddio'r ymadrodd Saesneg hefyd, sef <i>condensed milk</i>

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion: Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n hanner awr wedi naw. Ydy Bob ar y bwrdd? Ydy. / Nac ydy. Beth sy'n bod (ar Bob)? Ydy e'n / o'n rhy boeth? Ydy. / Nac ydy. Beth am fynd i chwilio am olau? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth wyt ti'n ddefnyddio? Dw i'n defnyddio ... Beth ydy'r rhain? Eraill Mae'n wlyb. Mae'n sych. Maen nhw'n lliwio. Maen nhw'n gwneud patrymau lliwgar. Gorchmynion / Cyfarwyddiadau Edrycha ar y golau.	rhy boeth rhy oer bwrdd bin cwpwrdd clai siwgr losin (De Cymru) / fferins (Gogledd Cymru) patrwm traed siswrn pensil dillad lliwgar

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth am ... (+ treigladd meddal)?

Faint o'r gloch ydy hi?; Mae hi'n ... (+ treigladd meddal)
Ydy ... ar y bwrdd / o dan y bwrdd?; Ydy.; Nac ydy.
Beth sy'n bod?; Beth sy'n bod ar ...?
Gawn ni fynd i ... os gwelwch yn dda?; Cewch.; Na chewch.
Ga i fynd i ... os gwelwch yn dda?; Cei.; Na chei.
Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ... ; [Hefyd: Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...]
Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...; [Hefyd: Beth ydych chi'n ddefnyddio?; Rydyn ni'n defnyddio ...]

Yn ogystal, gallech chi ddefnyddio'r canlynol mewn perthynas â gweithgareddau dylunio a thechnoleg:
Sut wyt ti'n gwneud ...? Dw i'n ...
Pam wyt ti'n gwneud ...? Achos ...
Da iawn.
Mae'n hyfryd.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y darn **Diwali**, (Uned 2, Rhan 2) hyd at y man lle mae Beca'n gadael y Pod-antur Cymraeg. Eglurwch nad yw Bob yn edrych mor iach ag o'r blaen a gofynnwch:

Ydych chi'n cofio?
Beth ydy'r broblem?
Mae ... yn sâl.
Mae ... angen golau.

Canolbwyntiwch ar gwestiynau Beca:

Ydy o'n rhy boeth?
Ydy o'n rhy oer?
Ydy o'n rhy wlyb?
Ydy o'n rhy sych?
Beth sy'n bod?
Beth sy'n bod ar Bob?

Tynnwch sylw at y gair **rhy**, a gyflwynwyd eisoes mewn perthynas â dillad – **rhy fach, rhy fawr**, ac â'r planedau – **rhy oer, rhy boeth, rhy sych**. Yma, mae'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas â thyfiant planhigyn.

- Cyflwynwch / adolygwch ffactorau sy'n angenrheidiol fel y gall planhigyn dyfu'n iach.

Yna, gallai'r disgyblion wneud posteri / taflenni i ddangos y ffactorau hyn:

Mae angen gwres.
Mae angen dŵr.
Mae angen golau.

Yn ogystal, gallen nhw dynnu lluniau o blanhigion sy'n dioddef o'r canlynol:

rhy oer
rhy boeth
rhy sych
rhy dywyll

- Er mwyn pwysleisio'r angen am olau, gallai'r disgyblion gymryd dau blanhigyn sydd yr un fath, gosod y naill ar sil y ffenestr, neu mewn man golau arall, a rhoi'r llall mewn lle tywyll. Dylen nhw gymharu'r ddau blanhigyn ymhen wythnos / pythefnos a.y.b.

Gallen nhw ddefnyddio'r ymadroddion a'r patrymau canlynol – mae pob un wedi cael ei gyflwyno o'r blaen:

Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n gwneud arbrawf.
Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio dau blanhigyn.

Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n rhoi'r planhigyn yma yn y ffenest.
Dw i'n rhoi'r planhigyn yma yn y cwpwrdd.
Dw i'n aros.
Edrychwch.
Mae'r planhigyn yma'n wych.
Mae'r planhigyn yma'n sâl.

Gallen nhw gofnodi'r arbrawf gan ddefnyddio'r patrymau uchod.

Gellid cynnal arbrawf tebyg gyda hadau:

hedyn, hadau

e.e. gallai'r disgyblion hau **dau hedyn** ffa – y naill mewn potyn o gompost a'i roi yn yr haul a'r llall mewn potyn o gompost sy'n cael ei roi mewn lle tywyll.

- Tynnwch sylw'r disgyblion at y ffilm eto a gofynnwch i ble mae Beca'n mynd:

Ble mae Beca'n mynd?

Mae Beca'n mynd i chwilio am olau.

Mae hi'n mynd i chwilio am olau.

Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu ble mae hi'n mynd, e.e.

Mae hi'n mynd i'r siop i brynu tortsh / lamp.

Mae hi'n mynd i'r Ddaear.

a.y.b.

Yna, eglurwch ei bod hi, mewn gwirionedd, yn mynd i ysgol lle mae'r disgyblion yn paratoi ar gyfer dathliad arbennig. Dywedwch:

Mae hi'n mynd i ysgol.

Mae hi'n siarad â'r plant.

Mae'r plant yn mynd i ddathlu.

- Cyflwynwch y gair **dathlu** a gofynnwch i'r disgyblion:

Beth wyt ti'n ddathlu?

Ymhlith yr atebion posibl y mae:

Pen-blwydd

Nadolig

Noson Tân Gwylt

Sut wyt ti'n dathlu?

Dw i'n cael parti.

Dw i'n cael parti yn y pwll nofio. a.y.b.

Dw i'n mynd i'r sinema.

Gofynnwch iddyn nhw ddod â ffotograff o ddathliad a thrafodwch y ffotograffau yn yr ystafell ddosbarth:

Dyma Mam.

Dyma fi.

Dw i'n cael parti yn y pwll nofio. a.y.b.

- Eglurwch fod y disgyblion ar y ffilm yn paratoi ar gyfer dathlu **Diwali** – dathliad Hindŵaidd, gyda Hindŵiaid dros y byd yn ei ddathlu.
 Sylwer: Mae'r ffilm yn canolbwyntio'n bennaf ar baratoi ar gyfer y dathliad ac mae'r llyfr, **Diwali**, yn canolbwyntio ar y dathliad ei hun. Gallech chi gyflwyno agweddau eraill ar Diwali, wrth gwrs – yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol.
- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae disgyblion yn paratoi ar gyfer Diwali:
Maen nhw'n paratoi at Diwali.
Maen nhw'n lliwio.
Maen nhw'n gwneud lampau.

Maen nhw'n gwneud losin / fferins.
Maen nhw'n dawnsio.

Gallai'r disgyblion greu eu lampau eu hunain – gallen nhw roi a dilyn y cyfarwyddiadau canlynol:

Rhaid defnyddio clai.
Rhaid mowldio'r clai.
Rhaid gwneud twll.

neu gallen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud yn Gymraeg:

Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n gwneud lamp.
Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio ...

Dylai'r disgyblion gael cyfle i werthuso'u gwaith a gwaith eu cyd-ddisgyblion fel arfer, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith sydd i'w gweld yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.

- Yn ogystal, gallen nhw wneud gweithgareddau celf a dylunio neu gynllunio a thechnoleg eraill drwy wneud powlenni *papier maché*, losin / fferins (gweler y llyfr, **Diwali**). Dylen nhw ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu wrth wneud y gwaith hwn.

Gallen nhw wneud torran hefyd a byddai hyn yn adolygu'r gwaith a wnaed yn Rhan 1. Gallech chi ofyn i'r disgyblion gynnwys cylchoedd wedi'u rhannu'n haneri neu'n chwarteri a'u haddurno'n briodol ac, os yw'n briodol, gallech chi ofyn iddyn nhw gynnwys trionglau hafalochrog hefyd. Byddai hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw fesur onglau 60 gradd.

Dw i'n gwneud triongl.
Dw i'n mesur yr ongl – chwe deg gradd.
Sawl gradd?
Chwe deg gradd.

Byddai'r gwaith hwn yn rhoi cyfle rhagorol i drosglwyddo'r Gymraeg i feysydd eraill y cwricwlwm ac i adolygu patrymau.

- Gallai'r disgyblion wneud **losin / fferins** gan ddefnyddio'r cynhwysion sy'n cael eu dangos ar y ffilm a dilyn y rysât isod, neu, gallen nhw wneud losin / fferins eraill – gweler y llyfr, **Diwali**.

Y cynhwysion ar y ffilm yw:

Ilaeth / llefrith cyddwys neu **Ilaeth / llefrith tew** - er, gallai'r disgyblion ddefnyddio'r ymadrodd Saesneg, *condensed milk*
siwgr (eisin)
coconyt

Barfi

Mae angen:
175 gram o goconyt
200 gram o laeth / lefrith
cyddwys / condensed milk
225 gram o siwgr eisin

Dull:

- 1. Cymysgwch y coconyt, y siwgr a'r condensed milk yn dda.**
- 2. Rhewch y gymysgedd mewn casys papur.**
- 3. Arhoswch am 2-3 awr.**

- Chwaraewch y darn olaf eto, sy'n dangos y merched yn dawnsio. Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddisgrifio'r dillad a chyflwyno'r gair **sari**.

Gallai'r disgyblion sôn am y lliwiau a chwilio am ddelweddau o ddillad eraill sy'n gysylltiedig â dathlu Diwali. Gallen nhw chwilio'n benodol am ddillad y mae bechgyn yn eu gwisgo yn ystod y dathliad ac yna gallen nhw gynllunio dillad Diwali ar gyfer bachgen neu ferch, gan eu labelu a'u disgrifio yn Gymraeg, e.e.

Mae'r (trowsus) yn borffor*.

Mae gleiniau ar y top.

* Mae ansoddeiriau, sef geiriau sy'n disgrifio, yn treiglo ar ôl **yn** ac **'n** fel arfer.

Yna, gallai'r disgyblion ganolbwyntio ar symudiadau'r ddawns ar y ffilm a gallen nhw greu dawnsiau tebyg. Efallai y gallen nhw berfformio'r rhain yn ystod gwasanaeth yn yr ysgol.

- Gellid cyflwyno'r llyfr **Diwali** nawr a gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yn y cefn.
- Yn ogystal, gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth am ddathlu Diwali ac yna gallen nhw rannu'r wybodaeth gyda'u cyd-ddisgyblion. Gallen nhw ysgrifennu darnau i ddisgrifio'r dathliad, e.e. taflenni, posteri, paragraffau, cyfweiliad gyda rhywun sy'n dathlu'r achlysur. Byddai hyn yn rhoi cyfle rhagorol i ddefnyddio llawer o'r patrymau iaith sy'n gyfarwydd iddyn nhw eisoes, e.e.

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Beth wyt ti'n hoffi (g)wneud?

Dw i'n ...

Wyt ti'n hoffi dathlu Diwali?

Ydw. / Nac ydw.

Pam wyt ti'n hoffi dathlu Diwali?

Achos ...

Sut wyt ti'n dathlu?

Dw i'n ...

Ble?

Yn ...

Gyda pwy?

Gyda ...

Beth wyt ti'n wisgo?

Beth wyt ti'n fwyta?

Beth wyt ti'n yfed?

Yn ogystal, gallen nhw ofyn:

Sut wyt ti'n paratoi?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

a.y.b.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 11**:
A: Rwyd ti'n dathlu Diwali.
B: Rhaid i ti ofyn cwestiynau i A.
Siaradwch.

Gallai **Partner B** chwarae rôl cyflwynydd teledu neu newyddiadurwr papur newydd sy'n paratoi eitem am Diwali. Yma, mae e/o / hi'n cyfweild **Partner A** er mwyn ceisio darganfod sut mae e/o / hi'n dathlu Diwali.

Gallai'r disgyblion chwarae'r ddwy rôl yn eu tro fel eu bod yn cael cyfle i ofyn ac i ateb y cwestiynau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn a defnyddio unrhyw batrymau iaith eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu eitem newyddion fer sy'n disgrifio Diwali. Gallen nhw actio a ffilmio'r eitem maen nhw'n ei hysgrifennu hefyd.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'n ddiddorol – dw i'n mwynhau dysgu am Diwali.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas – dw i ddim yn hoffi dysgu am Diwali.

Uned 2: Rhan 3 – Noson Tân Gwylt

Nodau

- Cyflwyno / adolygu geirfa a phatrymau iaith sy'n gysylltiedig â **Noson Tân Gwylt**
- Atgyfnerthu'r ffaith fod angen **golau'r haul** ar blanhigion er mwyn tyfu'n iach
- Adolygu'r tywydd – yn y presennol a'r dyfodol
- Ymestyn y defnydd o **bydd**, a ddefnyddiwyd gyda'r tywydd eisoes
- Adolygu'r synhwyrchau yn Gymraeg
- Adolygu'r dyddiad yn Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i ddim yn barod. Mae'n berffaith. Mae Bob angen golau. Mae Bob yn gynnes. Edrycha am gliwiau. Dydy hi ddim yn oer. Dw i'n gynnes. Mae Bob yn well. Cer di i'r Noson Tân Gwylt ac yna dere 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg wedyn.	golau'r haul mwy o olau Tachwedd pump cotiau Noson Tân Gwylt tân gwylt heno anfon

Y dyfodol

Bydd hi'n oer heno.
Bydd Bob yn oer o dan y goeden heno.
Bydd Bob yn oer iawn.
Bydd Bob yn gynnes yn y Pod-antur Cymraeg.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion: Gawn ni fynd i'r Ddaear? Cewch / Na chewch. Ga i weld os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Oes bag yn y Pod-antur Cymraeg? Oes. / Nac oes. Ble ydyn ni? Ar y Ddaear. Ble ar y ddaear ydyn ni? Dw i ddim yn gwybod. Ble mae'r siopau? Beth? Beth sy'n bod? Beth ydy'r dyddiad heddiw? Beth am roi Bob ar y ddaear – o dan y goeden? Other Mae Bob angen golau. Rhaid cael golau'r haul. Mae hi'n oer ar y Ddaear. Mae hi'n braf / heulog.	rhy boeth rhy fawr rhy fach y Ddaear cot sgarff bocs dillad perffaith cliwiau coed siglen cyflym ych a fi winwns (De Cymru) / nionod (Gogledd Cymru) ci poeth byrgyr / byrger sos coch sos brown blasus

Dw i'n oer rŵan. Gorchmynion / Cyfarwyddiadau Edrycha – sgarff! Helpa fi. Gwranda ar y tân gwyllt. Rhaid gofyn i Sgrin. Bydda'n ofalus. Cer. (De Cymru.) / Dos. (Gogledd Cymru.) Dere. (De Cymru.) / Tyrd. (Gogledd Cymru.)	
--	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Mae'r (lamp) yn hyfryd. Da iawn!

Beth sy'n bod?; Beth sy'n bod ar ...?

Ga i fynd i ... os gwelwch yn dda?; Cei. / Na chei.; Gawn ni fynd i ... os gwelwch yn dda?;

Cewch. / Na chewch.

Dim problem.

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Edrychwch!; Edrycha!

Ble mae'r ...?; Yn y ...; Ar y ...

Helpa fi.

Wyt ti'n iawn?

Beth ydy hwn?

Edrycha ar y ...; Edrychwch ar y ...

Gwranda ar y ...; Gwrandewch ar y ...

Rhaid ...

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm, **Noson Tân Gwyllt** (Uned 2, Rhan 3) hyd at y man lle mae'r cymeriadau a Bob yn gadael y Pod-antur Cymraeg.

Adolygwch y ffactorau sy'n angenrheidiol fel y gall planhigyn dyfu'n iach (Gweler Rhan 2).

Mae Sgrin yn pwysleisio bod angen **golau'r haul** ar Bob. Gellid cynnal arbrawf tebyg i'r un a gynhaliwyd yn Rhan 2 er mwyn darganfod ydy golau haul yn fwy llesol na golau artiffisial. Y tro hwn, fodd bynnag, gellid rhoi un planhigyn yng ngolau'r haul a'r llall mewn man lle mae golau artiffisial. Gellir defnyddio'r un patrymau iaith, ynghyd â:

Dw i'n rhoi'r planhigyn wrth y lamp.

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu am yr arbrawf, gan ddefnyddio'r patrymau syn cael eu rhestru yn Rhan 2.

- Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn cofio ystyr **y ddaear**.
- Gofynnwch i'r disgyblion wrando am y dyddiad:
Beth ydy'r dyddiad heddiw?
Tachwedd pump.

Gofynnwch iddyn nhw beth yw arwyddocâd **Tachwedd 5** ac yna gofynnwch iddyn nhw restru cynifer o eiriau sy'n gysylltiedig â Noson Tân Gwyllt â phosib.

Gwnewch restr.

Dywedwch wrthyn nhw y dylen nhw feddwl am bob math o eiriau, e.e. geiriau sy'n gysylltiedig â:

- lliwiau
- bwyd

- dillad
 - anifeiliaid
 - y tywydd
- a.y.b.

Yna, gallech chi dynnu sylw at y gair Cymraeg **tân gwyllt**.

Yna, gofynnwch:

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?
Sawl gair?

- Chwaraewch y darn sy'n ymdrin â dillad eto. Gofynnwch i'r disgyblion fynegi barn am y dillad sy'n cael eu dangos ar y sgrin ac yna gofynnwch iddyn nhw beth ddylen nhw wisgo ar Noson Tân Gwyllt. Gallen nhw ddefnyddio'r patrwm:

Rhaid gwisgo ...

Sylwer: Mae ffurf fenywaidd y gair **gwyrdd** yn cael ei defnyddio ar y ffilm gan fod y gair **cot** yn enw unigol benywaidd. Mae enwau unigol benywaidd yn achosi treigladau meddal yn Gymraeg hefyd.

cot werdd
cot ddu

Gallai'r disgyblion restru dillad addas ac yna gallen nhw chwarae rôl mewn sefyllfa lle mae un ohonyn nhw'n wisgo dillad anaddas ac mae'r partner arall yn dweud wrtho / wrthi beth ddylai wisgo, e.e.

Beth wyt ti'n wisgo? / Beth ar y ddaear wyt ti'n wisgo?

Dw i'n wisgo ...

Ond mae hi'n oer. Rhaid gwisgo ...

Rhaid gwisgo ... achos mae hi'n oer.

Dylid eu hannog i ddefnyddio'r geiriau am liwiau ac unrhyw ansoddeiriau addas sy'n gyfarwydd iddyn nhw, e.e. **cynnes**.

Gellid rhoi'r wybodaeth hon ar wefan yr ysgol os yw'n briodol.

- Yna, gellid gofyn i'r disgyblion gynhyrchu taflen am **Noson Tân Gwyllt**, e.e. gellid plygu tudalen A4 yn hanner a gelid dylunio clawr lliwgar ar un o'r ochrau hyn.

Ar y dudalen nesaf, gellid rhoi'r teitl

Noson Tân Gwyllt – Dillad

neu

Noson Tân Gwyllt – Beth i wisgo

Yna, gallai'r disgyblion roi cyngor ynglŷn â dillad addas. Gallen nhw hefyd dynnu lluniau cartŵn a chynnwys deialog, fel uchod, neu gallen nhw gynnwys ffurfiau gorchmynnol neu ffurfiau

Rhaid ynghyd â delweddau addas. Dylid gadael y ddwy ochr arall yn wag am y tro.

Gellid defnyddio meddalwedd priodol er mwyn gwneud y gwaith hwn, wrth gwrs.

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae'r cymeriadau'n glanio - hyd at y man lle maen nhw'n gadael er mwyn chwilio am siop sy'n gwerthu menig. Cyn iddyn nhw wyllo'r ffilm, dywedwch wrth y disgyblion fod rhaid iddyn nhw ddefnyddio'r cliwiau ar y ffilm er mwyn dyfalu ble mae'r cymeriadau wedi glanio:

Edrychwch ar y cliwiau.

Efallai y gallech chi stopio'r DVD mewn man addas a gofyn i'r disgyblion beth yw'r cliwiau a ble mae'r cymeriadau:

Beth ydy'r cliwiau?

Ble mae Tom a Beca?

Tynnwch sylw at y poster a gofynnwch:

Pryd mae'r Noson Tân Gwylt?

Heno. / Mae'r Noson Tân Gwylt heno.

Ble mae'r Noson Tân Gwylt?

Yn y parc. / Mae'r Noson Tân Gwylt yn y parc.

Nawr, gallen nhw wneud posteri tebyg er mwyn hysbysebu Noson Tân Gwylt yn eu hardal nhw.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 12**

A: Rwy't ti'n gwahodd B i'r Noson Tân Gwylt.

B: Rwy't ti eisiau gwybod mwy am y Noson Tân Gwylt.

Siaradwch.

Gofynnwch i'r disgyblion sut y bydden nhw'n gwahodd ei gilydd i'r Noson Tân Gwylt.

Wyt ti eisiau dod / mynd i ...?

Ydw, os gwelwch yn dda.

Nac ydw, dim diolch.

Gofynnwch iddyn nhw pa wybodaeth arall y dylen nhw ofyn amdani, e.e.

Ble?

Ble mae'r Noson Tân Gwylt?

Pryd?

Pryd mae'r Noson Tân Gwylt?

Am faint o'r gloch?

Am faint o'r gloch mae'r Noson Tân Gwylt?

Beth wyt ti'n wisgo?

Yn ogystal, gallen nhw ofyn:

Oes tân gwylt?

Oes coelcerth?

Oes bwyd?

Oes gemau?

a.y.b.

Yr atebion i'r cwestiynau hyn yw **Oes** a **Nac oes**.

Gallai'r disgyblion wahodd ei gilydd i'w Noson Tân Gwylt gan ddefnyddio'r posteri maen nhw wedi'u gwneud. Gallen nhw ysgrifennu e-bost neu anfon llythyr at ffrind arall yn gwahodd y person hwnnw hefyd.

- Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando ar y tywydd:

Mae hi'n braf.

Mae hi'n heulog.

Mae hi'n gynnes.

Dydy hi ddim yn oer.

Bydd hi'n oer heno.

Tynnwch sylw at y ffaith fod amodau'n **berffaith** ar gyfer Bob ar hyn o bryd.

Tynnwch sylw arbennig at y ffurf negyddol oherwydd gallai hwn fod yn newydd. Defnyddiwch adnoddau priodol i'w ymarfer. Gallech chi ddefnyddio'r patrwm hwn bob dydd wrth i chi siarad am y tywydd.

Yn ogystal, gwiriwch eu bod yn deall ystyr **Bydd hi'n ...**, a gyflwynwyd ym Mhecyn 2.

Yna, gallai'r disgyblion greu deialogau er mwyn ymarfer y patrymau hyn, h.y. gallen nhw drafod dillad a.y.b. wrth baratoi ar gyfer **Noson Tân Gwylt**:

Bydd hi'n oer – rhaid gwisgo sgarff.
wlyb cot
rhewi menig
bwrw eira welis
bwrw glaw
niwlog
gymylog

- Ar ddiwedd y darn hwn, mae Tom a Beca'n gadael er mwyn chwilio am siop sy'n gwerthu menig.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 13**:

A: Rwy't ti'n gweithio yn y siop hetiau a menig.

B: Tom wyt ti. Rwy't ti eisiau het a menig.

C: Beca wyt ti. Rwy't ti eisiau menig.

Siaradwch.

Dylai'r disgyblion weithio mewn grwpiau o dri i chwarae rôl yn y sefyllfa hon, gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau iaith sydd ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eiriau a phatrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Dylid eu hannog i ddweud cymaint â phosib, e.e. gallen nhw wneud y canlynol cyn gofyn am yr het a'r menig:

- cyfarch ei gilydd
- gofyn i'w gilydd sut maen nhw
- gwneud sylw am y tywydd – nawr ac yn y dyfodol: **Bydd hi'n ... heno.**

Yna, gallai'r disgyblion recordio / ffilmio deialogau ei gilydd.

- Chwaraewch y darn nesaf hyd at y man lle mae Tom a Bob yn dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg.

Tynnwch sylw penodol at ffurfiau'r dyfodol yn y darn hwn a gofynnwch i'r disgyblion restru'r rhesymau pam mae Tom eisiau dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg:

Bydd hi'n oer heno.

Bydd Bob yn oer o dan y goeden heno.

Bydd Bob yn oer iawn.

Bydd Bob yn gynnes yn y Pod-antur Cymraeg.

Yna, tynnwch sylw at y ffaith fod Beca'n bwriadu mynd i'r Noson Tân Gwylt a gofynnwch iddyn nhw ddychmygu

Beth fydd Beca'n wneud yn y Noson Tân Gwylt?

Bydd Beca'n gweld ...

Bydd Beca'n clywed ...

Bydd Beca'n bwyta ...

Bydd Beca'n siarad â ...

Bydd Beca'n prynu ...

- Chwaraewch y darn olaf, lle mae Beca'n mynd i'r Noson Tân Gwylt.

Adolygwch y geiriau canlynol, sy'n cyfeirio at y synhwyrau:

gweld

clywed

arogli

blasu

Gallech chi baratoi grid fel yr un isod a gofyn i'r disgyblion lenwi pob rhes fel yr awgrymir isod:

Gweld	
Clywed	
Arogli	
Blasu	

Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth mae Beca'n ei **weld**. Yna, gallen nhw lenwi'r rhes briodol yn y grid.

Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth mae Beca'n ei **glywed**. Yna, gallen nhw lenwi'r rhes briodol yn y grid.

Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth mae Beca'n ei **arogli**, ac yn ei **flasu** ac i gofnodi'r wybodaeth yn y grid. Yna, cymharwch y gridiau.

Yna, gallech chi ddarllen y gerdd **Tân Gwylt** o'r gyfrol **Hwyl a Sbri!*** yng Nghyfres Ddarllen **Fflic a Fflac**. Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn ei deall.

Rhestrwch beth sy'n cael ei weld, ei glywed, ei arogli, ei fwyta a'i deimlo ac anogwch y disgyblion i feddwl am bethau eraill sy'n apelio at y synhwyrau ar **Noson Tân Gwylt**.

[* Lois Gwenllian, **Hwyl a Sbri!**, Cyfres Ddarllen Fflic a Fflac, 2013, t.8]

Yna, gallen nhw ysgrifennu cerdd debyg, ond gan fod y gerdd wreiddiol wedi'i hanelu at blant iau, dywedwch wrthyn nhw y dylen nhw geisio ysgrifennu cerdd "well" na hon. Gofynnwch iddyn nhw sut y gallen nhw wneud hyn, e.e. gallen nhw

- ychwanegu mwy o ansoddeiriau, yn enwedig lliwiau
- gyflwyno ffurfiau negyddol – **Dw i ddim yn hoffi arogli mwg**.
- ychwanegu mwy o fanylion.

Pan fydd y disgyblion wedi drafftio, ail-ddrafftio a chwblhau eu cerddi, dylen nhw gopïo'r drafft terfynol ar drydedd dudalen y daflen maen nhw wedi bod yn ei chreu. Yna, dylen nhw ddylunio'r gerdd.

Chwaraewch y darn sy'n dangos Beca'n prynu ci poeth eto. Canolbwyntiwch ar y patrymau:

Beca: **Ga i gi poeth a nionod a sos coch os gwelwch yn dda?**

Gwerthwr: **Iawn. Unrhyw beth arall?**

Beca: **Na, dw i'n iawn diolch.**

Gwerthwr: **Ci poeth ...**

Beca: **Diolch yn fawr ... Mmm, blasus!**

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 14**:

A: **Rwy't ti'n gweithio ar y stondin cŵn poeth a byrgys.**

B: **Beca wyt ti. Rwy't ti eisiau ci poeth.**

Siaradwch.

Dylai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa hon, gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eiriau a phatrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw:

- cyfarch ei gilydd
- gofyn i'w gilydd sut maen nhw
- gwneud sylw am y tywydd.

- Yna, gallai'r disgyblion ddarllen y gyfrol **Guto Ffowc**. Rhoddir awgrymiadau am weithgareddau y gallai'r disgyblion eu gwneud yng nghefn y llyfr.

- Gwylwch ddarn o'r Uned eto ac yna gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Wyt ti'n hoffi'r DVD?

Ydw.

Ydw. Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD. Mae'n gyffrous iawn.

Dw i'n hoffi'r DVD achos dw i'n mwynhau mynd i'r Noson Tân Gwylt.

Nac ydw.

Nac ydw. Dw i ddim yn hoffi'r DVD.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas.

Uned 2: Rhan 4 – Drama’r Nadolig

Nodau

- Rhoi cyfle i’r disgyblion berfformio stori’r Nadolig, e.e. yn ystod gwasanaeth yn yr ysgol neu yn y gwasanaeth Nadolig
- Adolygu’r dyddiad: **Beth ydy’r dyddiad heddiw?**
- Ymestyn y defnydd o **roedd**, drwy fynegi barn am y perfformiad ar y ffilm: **Roedd y plant yn actio’n dda.; Roedd y bugeiliaid yn wych.** a.y.b.
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae Bob yn edrych yn hapus. Esgusoda fi. Roedd y gwasanaeth yn dda iawn. Roedd y plant yn actio’n dda. Roedd y dillad yn dda iawn. Roedd y bugeiliaid yn wych. Roedd y brenhinoedd yn dda iawn. Roedd Mair a Joseff yn ffantastig. Roedd y gwasanaeth yn fendigedig!	gwasanaeth Nadolig Gweler yr eirfa sydd yng nghefn y gyfrol Edrychwch ar y Golau.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion: Pryd? Ble? Am faint o’r gloch? Am ... Beth? Beth am fesur? Beth ydy’r dyddiad heddiw? Gorchmynion / Cyfarwyddiadau Edrycha. Edrychwch.	ffôn

Trosglwyddo’r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy’r dyddiad heddiw?

Wyt ti eisiau ...? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.; [Hefyd: **Ydych chi eisiau ...? Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch.**
Edrychwch!

Awgrymiadau gam wrth gam:

Dangoswch y ffilm, **Drama’r Nadolig** (Uned 2, Rhan 4)– hyd at y man lle maen nhw’n mynd i’r Gwasanaeth Nadolig.

- Tynnwch sylw at y geiriau gofynnol a ddefnyddir pan fydd Tom ar y ffôn:
Beth?
Pryd?
Ble?

ac at y cwestiynau:

Ble mae'r gwasanaeth Nadolig?
Beth ydy'r dyddiad?
Am faint o'r gloch?

Chwaraewch y darn eto er mwyn atgyfnerthu'r patrymau hyn. Yna, gallai'r disgyblion greu eu neges ffôn eu hunain, neges sy'n esbonio bod digwyddiad i'w gynnal ar amser penodol mewn man penodol, e.e.

Mae / Bydd + digwyddiad	lleoliad	dyddiad ac amser	amser
Mae cyngerdd Mae parti Bydd sioe Bydd gêm	yn yr ysgol yn y tŷ yn yr ysgol yn y dre	ar Ragfyr 3 ar Ragfyr 8 ar Ragfyr 10 ar Ragfyr 15	am chwech o'r gloch. am bedwar o'r gloch. am hanner awr wedi chwech. am hanner awr wedi dau.

Yna, mewn grwpiau o dri, gallai'r disgyblion ffonio'i gilydd fel a ganlyn:
Mae **Partner 1** yn ffonio **Partner 2** i ddweud wrtho / wrthi am y digwyddiad.
Mae **Partner 2** yn cofnodi'r manylion, gan ofyn i Partner 1 gadarnhau'r manylion drwy ofyn y cwestiynau uchod. Yna, mae e/o / hi yn dweud wrth **Partner 3** am y digwyddiad.
Mae **Partner 3** yn cofnodi'r manylion am y digwyddiad, gan ofyn am gadarnhad wrth gofnodi.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 15** er mwyn adolygu rhoi a derbyn gwahoddiad:
A: Rwyf ti'n gwahodd B i'r gwasanaeth Nadolig.
B: Rwyf ti eisiau gwybod mwy am y gwasanaeth Nadolig.
Siaradwch.

Gofynnwch i'r disgyblion sut y bydden nhw'n gwahodd ei gilydd i'r gwasanaeth.
Wyt ti eisiau dod / mynd i ...?
Ydw, os gwelwch yn dda.
Nac ydw, dim diolch.

Gofynnwch iddyn nhw pa wybodaeth arall y gallen nhw ofyn amdani cyn ymateb i'r gwahoddiad, e.e.

Ble?
Ble mae'r gwasanaeth Nadolig?
Pryd?
Pryd mae'r gwasanaeth Nadolig?
Am faint o'r gloch?
Am faint o'r gloch mae'r gwasanaeth Nadolig?
Beth wyt ti'n wisgo?

Yna, gofynnwch iddyn nhw chwarae rôl yn y sefyllfa sydd ar y cerdyn.

Gallen nhw ysgrifennu neges e-bost / llythyr at ffrind arall yn ei (g)wahodd i'r digwyddiad.

- Yna, gallen nhw wneud posteri / taflenni i hysbysebu digwyddiad yn yr ysgol a gellid defnyddio'r rhain er mwyn gwahodd ei gilydd.
- Cyn symud ymlaen at y ddrama, **Edrychwch ar y Golau**, dangoswch ddetholiad o gardiau Nadolig sy'n dangos y Geni.

Cyflwynwch y geiriau Cymraeg am y cymeriadau:

Pwy ydy hwn?
Pwy ydy hon?
Pwy ydy'r rhain?
Dyma Joseff.
Dyma'r Iesu. / Dyma'r babi.
Dyma Mair.

Dyma'r bugeiliaid.
Dyma'r brenhinoedd.

Gallech chi ofyn iddyn nhw dynnu llun y Geni ac i labelu'r cymeriadau gwahanol.
Efallai y bydd angen y geiriau canlynol arnyn nhw hefyd:

seren
llety
stabl

- Cyflwynwch y ddrama, **Edrychwch ar y Golau**. Darllenwch hi ar goedd gyda'r disgyblion a gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n ei deall.
- Chwaraewch y DVD hyd at ddiwedd perfformiad y plant a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Wyt ti'n hoffi'r ddrama?

Ydw.

Ydw, dw i'n hoffi'r ddrama. Mae'n dda iawn.

Dw i'n hoffi'r ddrama achos mae'r plant yn actio'n dda.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae'r bugeiliaid yn wych.

Nac ydw.

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r ddrama.

Dw i ddim yn hoffi'r ddrama. Mae'n ofnadwy.

Dw i ddim yn hoffi'r ddrama achos mae'n ddiflas.

- Eglurwch fod y disgyblion yn mynd i ddysgu a pherfformio'r ddrama hon eu hunain. Dewiswch ddisgyblion i chwarae rhan y cymeriadau gwahanol:

Pwy ydy Bugail 1?

Pwy ydy Angel 2?

Pwy ydy'r dyn yn y llety?

Gellid addasu'r cast at anghenion y dosbarth, e.e. gallech chi gael mwy / llai o angylion, bugeiliaid a.y.b. na'r nifer sydd yn y llyfr.

- Rhowch gynifer o gyfleoedd â phosib i'r disgyblion ddarllen y ddrama ar goedd ac i ymarfer ei hactio fel eu bod yn ymglyfarwyddo â'r llinellau.
- Gallai'r disgyblion wneud props, set, dillad a.y.b. er mwyn paratoi ar gyfer eu perfformiad, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sydd yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.
- Gallai'r disgyblion ddylunio a gwneud posteri er mwyn hysbysebu'r perfformiad / gwasanaeth Nadolig a gallen nhw wahodd disgyblion o ddosbarthiadau eraill. Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu llythyron, negeseuon e-bost a.y.b. er mwyn gwahodd pobl eraill o'r ardal i'w perfformiad, e.e.

Rydyn ni'n perfformio'r ddrama "Edrychwch ar y Golau" yn yr ysgol, Rhagfyr ... am ... o'r gloch. Ydych chi eisiau dod?

- Gellid ffilmio'r perfformiad fel cofnod o'r gwaith a gellid defnyddio hyn at bwrpas gwerthuso hefyd.
- Mae mwy o awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau perthnasol eraill yng nghefn y llyfr.
- Chwaraewch ran ola'r ffilm, lle mae Tom a Beca'n dychwelyd o'r gwasanaeth. Tynnwch sylw at y patrymau iaith canlynol:

Roedd y gwasanaeth yn dda iawn.

Roedd y plant yn actio'n dda.

Roedd y dillad yn dda iawn.

Roedd y bugeiliaid yn wych.

Roedd y brenhinoedd yn dda iawn.

**Roedd Mair a Joseff yn ffantastig.
Roedd y gwasanaeth yn fendigedig.
Ardderchog!**

Eglurwch fod y disgyblion wedi dod ar draws **roedd** eisoes – mewn perthynas â'r tywydd ac wrth fynegi barn am ddigwyddiad yn y gorffennol:

Roedd hi'n braf.

Roedd e'n / o'n grêt.

Yn y patrymau sy'n cael eu rhestru uchod, mae'r defnydd o **roedd** yn cael ei ymestyn fel ei fod yn rhoi barn am agweddau penodol ar berfformiad. Gallai'r disgyblion ddefnyddio'r patrymau hyn er mwyn ysgrifennu am ddigwyddiad penodol, megis sioe neu wasanaeth Nadolig. Yna, mewn parau, gallen nhw ddarllen eu darnau i'w gilydd a gallai un ohonyn nhw gytuno drwy ddweud **Ardderchog** ar ôl pob datganiad – fel y mae Beca'n ei wneud ar y ffilm.

Uned 2: Rhan 5 –Ydych chi’n cofio?

Nodau

- Adolygu’r eirfa a’r patrymau a gyflwynwyd yn Rhan 1-4
- Cyflwyno cerdd yn Gymraeg
- Adolygu’r gwaith a wnaed ar y planedau eisoes

Patrymau a geirfa newydd:

Patrymau	Prif eirfa
Beth maen nhw’n wneud? Maen nhw’n ...	

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion: Beth am fynd i’r Ddaear? Sawl centimetr? ... centimetr. Beth ydy hwn? Ble mae’r Noson Tân Gwyllt? Pryd mae’r Noson Tân Gwyllt? Am faint o’r gloch mae’r Noson Tân Gwyllt? Eraill Dw i’n hoffi’r lliwiau. Mae’r patrwm yn hyfryd. Mae’r gleiniau’n effeithiol iawn.	rhy boeth rhy oer rhy sych y Ddaear centimetr cylch hanner chwarter rhoi gwneud rangoli dillad smart bwyd blasus anrhegion Noson Tân Gwyllt

Trosglwyddo’r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth am ... (+ treigladd meddal)?

Sawl centimetr? ... centimetr.

Beth ydy hwn?

Wyt ti’n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw.

Ydych chi’n hoffi ...? Ydyn. / Nac ydyn.

Dw i’n hoffi’r lliwiau.

Mae’r patrwm yn hyfryd.

Mae’r gleiniau’n effeithiol iawn.

Ga i fynd i ... os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei.

Gawn ni fynd i ... os gwelwch yn dda? Cewch. / Na chewch.

Beth wyt ti’n wneud? Dw i’n ...

Beth ydych chi’n wneud? Rydyn ni’n ...

Beth wyt ti’n ddefnyddio? Dw i’n defnyddio ...

Beth ydych chi’n ddefnyddio? Rydyn ni’n defnyddio ...

Sut wyt ti’n gwneud ...? Dw i’n ...

Pam wyt ti’n gwneud ...? Achos ...

Da iawn.

Mae’n hyfryd.

Edrychwch!

Rhaid mesur o’r pwynt yma.

Yn ofalus.

Beth ydy'r dyddiad heddiw?
Beth am feddwl am ...?
Mae e'n/o'n wych.
Mae e'n/o'n effeithiol iawn.
Rhaid tacluso.
Hyfryd!
Gwych!
Ffantastig!
Ardderchog!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas rhan hon y DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm, **Ydych chi'n cofio?** (Uned 2, Rhan 5) fesul rhan, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf.

- Gofynnir i'r disgyblion:
Beth ydy'r problem?

Dylen nhw wrando'n ofalus ar y ddeialog a dweud y geiriau Cymraeg sydd wedi cael eu gadael allan, h.y. dylen nhw lenwi'r bylchau ar lafar.

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ddarllen ffeithlen **China** eto neu baratoi pryd Tsieineaidd efallai.

Adran 2

Sawl centimetr?

- Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i adolygu mesur drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai'r disgyblion ddweud sawl centimetr sydd i'w weld ar y tâp mesur.

Adran 3

- Dylai'r disgyblion egluro beth maen nhw'n ei weld ar y sgrin, gan ddefnyddio'r geiriau **hanner** a **chwarter**.

Adran 4

Bwriad yr adran hon yw annog y disgyblion i ddweud cymaint â phosib pan fyddan nhw'n mynegi barn.

- Dangoswch y darn lle mae Tom yn mynegi barn am rangoli. Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin ofyn: **Blant, ydy Tom 'yn dda' ... 'yn dda iawn' ... neu ... 'yn ardderchog'?**

Chwaraewch yr adran hon eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar beth mae'n ei ddweud. Trafodwch y cwestiwn uchod, gan roi rhesymau, a chynhaliwch bleidlais yn yr ystafell ddosbarth.

Chwaraewch yr adran sy'n dangos "Da iawn" ar y thermomedr a gofynnwch sut y gall Tom wella'i ateb.

Chwaraewch yr adran nesaf a gofynnwch i'r disgyblion pam mae ei ymateb yn well na'r un cyntaf.

Adran 5

Beth maen nhw'n wneud?

Yn yr adran hon, mae'r disgyblion yn cael cyfle i ymarfer defnyddio **maen nhw**, ffurf maen nhw wedi dod ar ei thraws mewn llyfrau darllen yn y pecynnau blaenorol.

Adran 6

- Mae disgwyl i'r disgyblion ateb y cwestiynau yn yr adran hon.
- Yn ogystal, gallen nhw ddylunio a gwneud posteri er mwyn hysbysebu digwyddiad yn yr ysgol yn y dyfodol a gallen nhw ddefnyddio'r rhain er mwyn gwahodd ei gilydd neu eu defnyddio mewn cwis, e.e.
Pryd mae'r ... ?
Ble mae'r ... ?
a.y.b.

- Yna, gallech chi gyflwyno'r gerdd **Y Nadolig**, ond cyn gwneud hynny, adolygwch y geiriau sy'n cyfeirio at y synhwyrâu:
gweld
clywed
arogli
blasu
teimlo

Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn deall y gerdd a gofynnwch iddyn nhw restru'r eitemau neu'r disgrifiadau sy'n apelio at synhwyrâu gwahanol. Gallen nhw gofnodi'r rhain mewn grid sy'n debyg i'r un a welir yn Rhan 3.

Ar ôl trafod beth maen nhw'n ei weld, glywed ac ati adeg y Nadolig, ac ar ôl rhestru'r eirfa angenrheidiol, gallai'r disgyblion ysgrifennu cerdd debyg neu gallen nhw ychwanegu mwy o fanylion i'r gerdd yma, e.e.

- Gallen nhw restru anrhegion a geiriau disgrifio ym mhennill 4. Gallen nhw gyflythrennu, hyd yn oed:
Lori i Lewis
Doli i Donna
Car coch i Cai
Gemau gwyd i Gareth
a.y.b.
- Gallen nhw ddisgrifio cinio Nadolig gwahanol ym mhennill 5 neu ychwanegu pennill tebyg er mwyn disgrifio te Nadolig a phenderfynu ble y dylen nhw roi'r pennill hwnnw.
- Gallen nhw ychwanegu pennill sy'n disgrifio gweithgaredd arall, e.e.
 - mynd am dro yn y prynhawn – efallai eu bod nhw'n gwisgo menig, sgarff a het newydd – pa liw? Sut mae'r tywydd? Ydyn nhw'n gallu cyferbynnu'r tywydd oer â'u dillad cynnes?
 - gorwedd yn y gwely ar Nos Nadolig, chwarae gêm o dan y dwfe, neu fwyta ychydig o siocled Nadolig, efallai
a.y.b.
- Yna, gallech chi adolygu'r amser drwy ofyn iddyn nhw ddychmygu:
Pennill 1: Faint o'r gloch ydy hi?
Pennill 2: Faint o'r gloch ydy hi?
Gofynnwch i'r disgyblion am eu syniadau a pham maen nhw wedi dewis yr amser hwn:
Mae hi'n dri o'r gloch (y bore) achos mae pawb yn cysgu.
Mae hi'n bump o'r gloch achos mae pawb yn codi.
- Yna, gallai'r disgyblion drafod:
Wyt ti'n hoffi'r Nadolig? **Ydw. / Nac ydw.**
Pam?
Dw i'n hoffi'r Nadolig achos dw i'n hoffi'r anrhegion / cinio / gemau / goeden Nadolig a.y.b.
- Gallech chi ddefnyddio'r gerdd hon er mwyn tynnu sylw at y dyfynodau. Trafodwch pam maen nhw wedi cael eu defnyddio a gofynnwch pwy sy'n siarad yn y penillion gwahanol.

Uned 3

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Llafaredd

Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a hynny mewn gwaith pâr a gwaith grŵp. Maen nhw'n dweud wrth ei gilydd sut i wneud crempogau a sut i chwarae *Snakes and Ladders*. Maen nhw'n gofyn am farn ac yn mynegi barn mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan ddefnyddio patrymau newydd a geirfa a ddysgwyd eisoes ac maen nhw'n chwarae rôl mewn sefyllfaoedd gwahanol, e.e. pan fydd Tom yn glanio mewn ysgol Fictoraidd neu yng nghyd-destun cinio moethus mewn tŷ Fictoraidd. Maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gadair goch, e.e. gofyn i blant o'r cyfnod Fictoraidd am y *Welsh Not* a thrafod bywyd yn yr ysgol yn ystod cyfnod Fictoria. Yn ogystal, gofynnir i'r disgyblion drafod beth maen nhw'n ei ddysgu o ffotograffau ac i roi gwybodaeth ffeithiol.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrando'n ofalus ar y ffilm ac i nodi'r prif bwyntiau mewn dulliau amrywiol, e.e. drwy wneud gwaith llafar, drwy ysgrifennu ac ateb cwestiynau mewn cwis a thrwy gwblhau gridiau. Yn ogystal, gellid rhoi crynodeb o ran o'r ffilm i'r disgyblion gyda pheth ohono'n **gywir** a pheth yn **anghywir**. Yna, byddai angen iddyn nhw nodi'r camgymeriadau ar ôl gwyllo'r ffilm. Gallai'r disgyblion ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Gofynnir i'r disgyblion wrando'n ofalus ac ysgrifennu patrymau penodol sydd i'w clywed ar y ffilm ac i wrando am gyfeiriadau at gyd-destun hanesyddol yr uned.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar rannau penodol o'r ffilm i'r disgyblion a gellid gofyn iddyn nhw gofnodi'r wybodaeth angenrheidiol, e.e. gwybodaeth am fywyd yn yr ysgol / ystafell ddosbarth nodweddiadol o'r cyfnod Fictoraidd. Yn ogystal, gallai'r disgyblion ysgrifennu am adrannau penodol o'r ffilm.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i ddeunyddiau darllen amrywiol megis rysâit, ffeil ffeithiau am arteffactau Fictoraidd, llyfrau ffeithiol am fywyd yn yr ysgol ac yn y cartref yn ystod y cyfnod Fictoraidd a ffeil ffeithiau sy'n rhoi gwybodaeth am wreiddiau'r gêm *Snakes and Ladders*. Mae cwestiynau cyffredinol y gallen nhw eu gofyn i'w gilydd neu y gallech chi eu gofyn iddyn nhw yn cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**, ac mae rhestr o gwestiynau penodol sy'n berthnasol i bob llyfr ar gael yng nghefn y llyfrau.

Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd ar ôl i'r disgyblion ysgrifennu sylwebaeth ar gyfer ffilm sy'n dangos cartref Fictoraidd.

Ysgrifennu

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ysgrifennu rhestri, rysâit, poster neu daflen mewn perthynas â bwyd iach, disgrifiadau o arteffactau Fictoraidd a bywyd oes Fictoria, ynghyd â brawddegau a pharagraffau sy'n cymharu a chyferbynnu bywyd yn oes Fictoria a bywyd heddiw, neu fywydau grwpiau o bobl yn ystod oes Fictoria. Gallai'r disgyblion ysgrifennu gwahoddiad sy'n gwahodd grŵp o ffrindiau i wledd foethus ac yna gallen nhw ysgrifennu llythyr sy'n derbyn neu'n gwrthod y gwahoddiad. Yn ogystal, gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu sylwebaeth ar gyfer darnau o'r ffilm yn ogystal ag ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer chwarae'r gêm *Snakes and Ladders*. Gofynnir iddyn nhw gwblhau gridiau ac yna i ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y gridiau er mwyn ysgrifennu am bobl oes Fictoria.

Saesneg

Anogir y disgyblion i gynhyrchu arddangosfa ddosbarth sy'n cynnwys gwybodaeth am bobl oes Fictoria. Felly, mae angen iddyn nhw chwilio am wybodaeth ar wefannau Saesneg ac mewn llyfrau Saesneg ac yna i drafod y wybodaeth hon mewn grwpiau. Yn ogystal, gallen nhw ddysgu ac adrodd cerdd Saesneg a oedd yn boblogaidd yn oes Fictoria.

Mathemateg

Gallai'r disgyblion lunio a defnyddio holiaduron, e.e. wrth drafod barn am grwpiau / bandiau / llyfrau / chwaraeon / rhaglenni teledu a.y.b. Yna, gallen nhw gofnodi'u canfyddiadau ar ffurf graffiau, siartiau cyfrif neu ddiagramau Venn a gellid egluro'r rhain yn syml yn Gymraeg.

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion gyfrifo canrannau hefyd, e.e.

Mae deg y cant o'r dosbarth yn meddwl bod ... yn wych.

Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion bwyso a mesur cynhwysion ar gyfer gwneud crempogau / bwyd Fictoraidd ac i addasu rysâit fel bod y cynhwysion yn ddigonol ar gyfer creu pryd o fwyd i nifer wahanol o bobl. Byddai hyn yn golygu bod angen adolygu rhifau mawr cyn dechrau ar y dasg.

Yn yr un modd, gallai'r disgyblion gyfrifo sawl cyllell / fforc / llwy / plât a.y.b. byddai ei angen ar gyfer cinio ar gyfer 4, 8, 10 person a.y.b.

Gan fod addysg oes Fictoria'n canolbwyntio'n sylweddol ar 'arithmetic', gellid rhoi nifer o dasgau rhif i'r disgyblion, e.e. datrys problemau, cyfrifo a.y.b.

Gwyddoniaeth

Mae cyfleoedd i drafod bwyd iach wrth i'r disgyblion ystyried sut y gallen nhw wella ar rysâit sylfaenol am grempogau er mwyn creu crempogau iachach ac wrth iddyn nhw drafod pa wahanol fathau o dopin iach y gallen nhw eu hychwanegu. Mae'r patrwm:

Mae gormod o siwgr yn ddrwg i chi.

yn cael ei gyflwyno ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i drafod pam mae gormod o siwgr yn ddrwg iddyn nhw.

Hanes

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar y cyfnod Fictoraidd, e.e. arteffactau Fictoraidd, bywyd yn ystod y cyfnod Fictoraidd, ysgol Fictoraidd, cartrefi Fictoraidd. Yn ogystal, rhoddir gwybodaeth am wreiddiau'r gêm *Snakes and Ladders*.

Gofynnir i'r disgyblion gymharu ffordd o fyw yng nghyfnod Fictoria a'r ffordd o fyw yn yr unfed ganrif ar hugain ac i gofnodi'r gwahaniaethau. Gwneir hyn drwy ganolbwyntio'n benodol ar fywyd yn y cartref a'r ysgol. Gofynnir iddyn nhw chwilio am wybodaeth am y cyfnod Fictoraidd, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, ac i ofyn ac ateb cwestiynau mewn perthynas ag arteffactau Fictoraidd. Maen nhw'n edrych ar agweddau ar fywyd pobl gyfoethog a phobl dlawd yn ystod y cyfnod. Yn ogystal, gofynnir iddyn nhw "gyfathrebu syniadau mewn dulliau amrywiol", gan gwblhau gridiau, ysgrifennu paragraffau a darnau hirach a gwneud modelau, lluniau, a.y.b.

Celf a dylunio

Gofynnir i'r disgyblion wneud llun / copi o arteffactau Fictoraidd er mwyn eu cynnwys mewn arddangosfa dosbarth ac i dynnu lluniau o flodau, pryfed a.y.b., fel yr arferai plant Fictoraidd ei wneud. Yna, gellid gwerthuso'r gwaith.

Mae cyfleoedd i astudio a gwerthuso portreadau a thirluniau Fictoraidd a gallai'r disgyblion gynhyrchu eu portreadau a'u tirluniau eu hunain - gellid cynnwys y rhain yn yr arddangosfa dosbarth. Yn ogystal, gallai'r disgyblion astudio lluniau sydd i'w gweld mewn llyfrau darllen o'r cyfnod a'u cymharu gyda lluniau mewn llyfrau heddiw.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃** am restr o batrymau iaith y gellid eu defnyddio wrth wneud y gwaith celf ac wrth werthuso'r gwaith.

Dylunio a thechnoleg

Mae cyfleoedd i wneud crempogau, i drïo topinau gwahanol ac i addasu rysáit - yn ogystal â pharatoi bwyd Fictoraidd.

Gallai'r disgyblion wneud *Welsh Not* a gellid ei ddefnyddio mewn sefyllfa chwarae rôl ac fel rhan o'r arddangosfa Fictoraidd yn yr ystafell ddosbarth. Maen nhw'n cael eu hannog i gynllunio a gwneud modelau mewn perthynas â bywyd Fictoraidd. Yn ogystal, gallen nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau yr arferai pobl cyfnod Fictoria eu mwynhau e.e. sychu a gwasgu blodau, gwneud llyfrau lloffion, gwnïo sampleri, a.y.b.

Gallai'r disgyblion gynllunio a chreu byrddau *Snakes and Ladders* a allai gynnwys enghreifftiau o ymddygiad derbyniol ac annerbyniol – yn debyg i'r rhinweddau a'r drygioni y cyfeirid atyn nhw ar y gêm fwrdd wreiddiol.

Addysg gorfforol

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn ymarferion dril tebyg i ddriliau Fictoraidd. Yna, gallen nhw gymharu a chyferbynnu eu sesiynau ymarfer corff arferol gyda'r driliau hyn.

Cerddoriaeth

Yn Rhan 1, mae Tom yn perfformio rap sy'n gysylltiedig â gwneud crempogau ac yn Rhan 2, mae'n canu pan fydd e yn y bath. Gallai'r disgyblion fynegi barn a chyfansoddi raps / caneuon tebyg, efallai'n seiliedig ar eiriau ac ymadroddion y byddwch chi'n eu rhoi iddyn nhw.

Gallai'r disgyblion ddysgu cân Fictoraidd draddodiadol a gallai disgyblion sy'n gallu canu'r piano chwarae darn a oedd yn boblogaidd yn ystod y cyfnod Fictoraidd.

TGCh

Mae cyfleoedd i ddylunio posteri a thaflenni sy'n rhoi gwybodaeth am fwyta'n iach ac am beryglon bwyta gormod o siwgr.

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngwrwyd er mwyn chwilio am wybodaeth am fwyd, dillad a gweithgareddau hamdden yn ystod y cyfnod Fictoraidd a.y.b. a gofynnir iddyn nhw chwilio am enghreifftiau o bortreadau a thirluniau Fictoraidd ar y rhyngwrwyd. Yn ogystal, gallen nhw baratoi a rhoi cyflwyniad *PowerPoint* am fywyd grwpiau o bobl o'r cyfnod.

Gallen nhw greu byrddau *Snakes and Ladders* sy'n cynnwys enghreifftiau o ymddygiad da a drwg ac yna gellid defnyddio'r rhain i chwarae'r gêm.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar y cyfnod Fictoraidd a gallai'r disgyblion ddefnyddio dogfennau hanesyddol sy'n ymwneud â Chymru wrth iddyn nhw chwilio am wybodaeth, e.e. dogfennau'n ymwneud â thlotai Cymru, yr ardal leol, a.y.b.

ABCh

Mae bwyd iach yn cael ei drafod mewn perthynas â gwneud crempogau ac mae peryglon bwyta gormod o siwgr yn cael eu trafod. Anogir y disgyblion i gymryd gofal wrth goginio yn ymyl mannau poeth. Fe'u hanogir hefyd i rannu ac mae'r gêm draddodiadol, *Snakes and Ladders*, a oedd yn canolbwyntio ar enghreifftiau o ymddygiad da a drwg yn wreiddiol, yn rhoi cyfle i drafod mathau o ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol.

Datblygu Meddwl

Mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei wybod eisoes drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith disgyblion eraill. Fe'u hanogir i ystyried ac i drafod cynhwysion gwahanol y gellid eu hychwanegu at grempogau ac i'w rhestru ar sail pa mor iach ydyn nhw ym marn y disgyblion (rhestr ddiemwnt).

Ar ôl gweld nifer o arteffactau Fictoraidd ar y sgrin, gallai'r disgyblion ystyried beth oedd eu pwrpas.

Datblygu Cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny, sicrheir cynnydd a pharhad yn y gwaith.

Prif nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, maen nhw'n cael nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i ddod o hyd i wybodaeth a'i dethol, ac i ymateb i beth sy'n cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a'i chyflwyno mewn dull priodol, gan wneud defnydd priodol o feddalwedd. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg at sawl pwrpas, e.e. ffilmio rhagolygon y tywydd a.y.b.

Datblygu rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu'u sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau amrywiol, gan gynnwys holiaduron a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar unrhyw gyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 3: Rhan 1 – Padell ffrio fawr

Nodau:

- Gan fod Uned 3 yn canolbwyntio'n bennaf ar drafod agweddau ar fywyd yng nghyfnod Fictoria, un o nodau rhan hon yr uned yw cyflwyno arteffact Fictoraidd a fydd, yn ei dro, yn arwain at gyflwyno mwy o arteffactau yn Rhan 2.
- Gwneud gweithgaredd dylunio a thechnoleg drwy gyfrwng y Gymraeg – **gwneud crempog** a thrwy hynny adolygu rhoi a dilyn cyfarwyddiadau: **Rhaid ...**; pwysu a mesur cynhwysion: **pwysu, mesur, gram a mililitr**
- Adolygu **Paid** ... mewn dull ysgafn
- Datblygu'r cysyniad o ofyn am farn a mynegi barn yn Gymraeg drwy gyflwyno patrwm newydd: **Beth wyt ti'n feddwl o ...?**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Paid defnyddio ... fel ... Paid defnyddio'r badell ffrio fel bat. Pum deg gram. Cant pum deg mililitr. Rhaid dal y gogr yn uchel. Beth wyt ti'n feddwl o(r) ...? Mae'n edrych yn neis iawn. Mae gormod o ... yn ddrwg i ti. Mae gormod o siwgr yn ddrwg i ti. mwy o flawd mwy o laeth / lefrith	coginio padell ffrio metal / metel pren brifo plastr bat clwb golf ciw snwcer drych blawd llwy bren sbatwla gogr clorian / tafol chwisg chwisgo offer swigod aer hob taflu sudd lemwn gormod dim gormod enfawr

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Beth sy yn y bocs? Bwyd. Beth arall sy yn y bocs? Blawd. Beth sy'n bod? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n coginio. Wyt ti'n iawn? Ydw.; Ydw, dw i'n iawn. / Nac ydw.; Nac ydw,	fel crempog, crempogau llefrith / llaeth wy, wyau pwysu mesur yn gynta(f) yna / wedyn plat, platiau fforc, ffyrc napcyn

dw i ddim yn iawn. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Faint? Pum deg gram. Ga i dro? Cei. / Na chei. Gorchmynion Paid ... Dim rapio os gwelwch yn dda. Rhaid pwyso'r blawd. Rhaid rhoi'r blawd yn y bowlen. Rhaid cymysgu. Rhaid bod yn ofalus iawn. Eraill Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi. Dw i eisiau taflu'r gremnog.	siwgr mwy
---	--------------

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... [Hefyd: **Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ...**]

Beth sy yn y (bocs / llun / llyfr?)

Beth arall sy yn y (bocs / llun / llyfr?)

Beth ydy hwn? [Hefyd: **Beth ydy hon?**; **Beth ydy'r rhain?**]

Wyt ti'n iawn?; **Ydw.**; **Ydw, dw i'n iawn.** / **Nac ydw.**; **Nac ydw, dw i ddim yn iawn.**; [Hefyd: **Ydych chi'n iawn?**]; **Ydyn.**; **Ydyn, rydyn ni'n iawn.** / **Nac ydyn.**; **Nac ydyn, dydyn ni ddim yn iawn.**

Beth wyt ti'n feddwl o(r) ...?; **Mae'n (ddiddorol).**

Ga i ...?, e.e. **Ga i dro os gwelwch yn dda?**

Cei. / Na chei.

Wyt ti eisiau (helpu)?; **Ydw, os gwelwch yn dda.**; **Nac ydw, dim diolch.** [Hefyd: **Ydych chi eisiau ...?**; **Ydyn, os gwelwch yn dda.** / **Nac ydyn, dim diolch.**]

Rhaid pwyso ... / mesur ... / cymysgu ...

Rhaid bod yn ofalus iawn.

Paid ...

Mae'n edrych yn (neis iawn / dda iawn / flasus iawn.)

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dangoswch ddechrau'r ffilm **Padell ffrio fawr** (Uned 3, Rhan 1), lle mae Tom yn disgrifio'r gwrthrych mae e wedi baglu drosto:

Bobl bach! Beth ydy hwn?

Mae e'n fawr. Mmm ... metel – copr dw i'n meddwl – a ... pren.

Mawredd mawr ... Beth ydy e?

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y cliwiau a cheisio dyfalu beth yw'r gwrthrych – derbyniwch awgrymiadau yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol. Gofynnwch:

Beth ydy e / o?

ac ar ôl iddyn nhw roi eu hawgrymiadau, dywedwch:

Gawn ni weld.

- Chwaraewch y rhan nesaf, hyd at y man lle mae Bob yn ymateb i'r cwestiynau:

Beth wyt ti'n feddwl o'r miwsig, Bob?

Wyt ti'n hoffi'r miwsig?

- Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion restru'r offer coginio a welir ar y sgrin:

Pwy sy'n cofio? Beth ydy'r offer ar y sgrin?

(Eglurwch ystyr **offer** sef *utensils*)

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?
Sawl un?

Cymharwch y rhestri:

Offer
padell ffrio
powlen
llwy bren
sbatwla
clorian (hefyd **tafol**)
gogr

- Dilynwch broses debyg a gofynnwch i'r disgyblion restru'r cynhwysion a welir ar y sgrin:
Pwy sy'n cofio? Beth ydy'r cynhwysion ar y sgrin?
(Eglurwch ystyr **cynhwysion** sef *ingredients*)

Cymharwch y rhestri:

Cynhwysion
blawd
llefrith / llaeth
wyau

Dangoswch y rhan hon eto fel bod y disgyblion yn gallu gwirio'u rhestri.

- Tynnwch sylw at y patrwm newydd sydd ar ddiwedd y rhan hon:
Beth wyt ti'n feddwl o'r miwsig?

Adolygwch y canlynol:

Mae'n grêt / wych.
Mae'n ddoniol.
Mae'n ddiddorol.
Mae'n hwyl.
Mae'n ofnadwy.
Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n hoffi'r miwsig achos mae'n ddoniol.
Dw i'n hoffi'r miwsig achos dw i'n hoffi rapio.
Dw i'n hoffi'r miwsig achos dw i'n mwynhau rapio.
Dw i ddim yn hoffi'r miwsig achos mae'n ddiflas iawn.

Os yw'n briodol, gallech chi gyflwyno'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y miwsig yn grêt / wych.
Dw i'n meddwl bod y miwsig yn ddoniol.
Dw i'n meddwl bod y miwsig yn ddiddorol.
Dw i'n meddwl bod y miwsig yn hwyl.
Dw i'n meddwl bod y miwsig yn ofnadwy.

Sylwer: Byddai'n well peidio â chyflwyno yma atebion sydd angen rhagenw (e.e. ei fod e/o; ei bod hi / eu bod nhw).

Gallech chi atgyfnerthu'r defnydd o'r patrwm hwn drwy symud ymlaen i fynegi barn mewn sefyllfaoedd eraill, e.e. am y cymeriadau sydd yn y ffilm, cymeriadau eraill mewn llyfrau neu ar y teledu, bwyd, lluniau, agweddau ar gwricwlwm yr ysgol, a.y.b.

Beth wyt ti'n feddwl o Tom?
Mae e'n / o'n ...

Beth wyt ti'n feddwl o Beca?
Mae hi'n ...

Beth wyt ti'n feddwl o grempogau?
Maen nhw'n ...
Beth wyt ti'n feddwl o (enw band)?
Maen nhw'n ...

Os bydd disgwyl i'r disgyblion ddefnyddio **Dw i'n meddwl bod ...**, byddai'n well peidio â defnyddio rhagenwau. Gallen nhw ddefnyddio enwau yn eu lle:

Dw i'n meddwl bod Tom yn ...
Dw i'n meddwl bod Beca'n ...
Dw i'n meddwl bod crempogau'n ...
a.y.b.

- Yn ogystal, gallech chi gyflwyno'r ffurf luosog wrth i chi gyfarch y dosbarth cyfan os yw'n briodol, e.e.

Beth ydych chi'n feddwl o'r miwsig?
ond byddai'r disgyblion yn parhau i ymateb fesul un drwy ddweud:
Dw i'n meddwl bod ... yn ...

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 16**, sy'n annog y disgyblion i fynegi barn am y Pod-antur Cymraeg, Tom a Beca:
Beth ydych chi'n feddwl o Tom a Beca?
Beth ydych chi'n feddwl o'r Pod-antur Cymraeg?

Yna, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 17**, sy'n annog y disgyblion i drafod pynciau eraill drwy drosglwyddo'r patrwm i gyd-destunau newydd:

Beth ydych chi'n feddwl o ...?
Beth ydych chi'n feddwl o'r ...?

Tynnwch sylw at y delweddau ar y cerdyn sy'n cyfeirio at gerddoriaeth, llyfrau, chwaraeon a rhaglenni teledu a gofynnwch i'r disgyblion drafod bandiau / grwpiau / llyfrau / chwaraeon / rhaglenni teledu penodol.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion lunio holiaduron a'u defnyddio i ofyn am farn disgyblion eraill. Gallen nhw gofnodi'r canfyddiadau ar ffurf graffiau, diagramau Venn a siartiau cyfrif ac yna gallen nhw egluro'r rhain yn Gymraeg, e.e.

Mae deg yn meddwl bod (enw llyfr) yn ddiddorol.
Mae chwech yn meddwl bod (enw llyfr) yn ddoniol.
Mae dau yn meddwl bod (enw llyfr) yn ofnadwy.
a.y.b.

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion gyfrifo canrannau, e.e.

Mae deg y cant (o'r dosbarth) yn meddwl bod ... yn wych.

- Dychwelwch at y ffilm a gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall pam mae Beca wedi dod ag offer a chynhwysion i mewn i'r Pod-antur Cymraeg. Beth mae hi'n mynd i'w wneud?
Beth mae Beca'n mynd i wneud?
Crempogau.
Mae Beca'n / hi'n mynd i wneud crempogau.

Atgoffwch y disgyblion am y cynhwysion:

blawd
llefrith / llaeth
wyau

a gofynnwch iddyn nhw weithio allan sut mae gwneud crempogau (bydd rhai disgyblion yn gwybod eisoes). Atgoffwch nhw am y geiriau allweddol:

pwysu
mesur

rhoi cymysgu

Pan fyddan nhw'n ateb, gallan nhw naill ai ffurfio gorchmynion drwy ychwanegu **-wch** at fôn y geiriau hyn neu gallen nhw ddefnyddio **Rhaid ...**

	Y ffurf orchmynnol – wch	Rhaid
pwysu	Pwyswch y ...	Rhaid pwysu'r ...
mesur	Mesurwch y ...	Rhaid mesur y ...
rhoi	Rhowch y ...	Rhaid rhoi'r ...
cymysgu	Cymysgwch y ...	Rhaid torri'r ...

Gofynnwch iddyn nhw gofnodi eu hawgrymiadau ac yna cymharwch yr awgrymiadau fel dosbarth.

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Beca'n gwneud y grempog, gan orffen gyda Tom yn moesymgrymu ar ôl taflu'r grempog i'r awyr.

Cymharwch y broses a welir ar y ffilm gydag awgrymiadau'r disgyblion. Gallech chi gyflwyno'r gair **chwisgo** yn ogystal â'r geiriau a ddefnyddir uchod.

- Chwaraewch ddechrau'r rhan hon eto, lle mae Beca a Tom yn pwysu'r cynhwysion a gofynnwch y cwestiynau canlynol:

Sawl wy?

Faint o flawd?

Pum deg gram.

Faint o laeth? / Faint o lefrith?

Cant pum deg mililitr.

Eglurwch fod y mesurau a ddangosir ar y sgrin yn ddigon ar gyfer gwneud dwy grempog. Gofynnwch i'r disgyblion gyfrifo sawl wy a faint o flawd a llaeth fyddai eu hangen ar gyfer:

pedair crempog

chwech crempog

wyth crempog

deg crempog a.y.b.

Efallai y bydd angen i chi gyflwyno / adolygu'r canlynol:

dau gant

dau gant pum deg

tri chant

tri chant pum deg

pedwar cant

pedwar cant pum deg

pum cant

pum cant pum deg

chwe chant

chwe chant pum deg

saith cant

saith cant pum deg

wyth cant

wyth cant pum deg

naw cant

naw cant pum deg

mil

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Tom a Beca'n bwyta'r grempog ac yn trafod beth maen nhw'n hoffi ei fwyta gyda chrempogau – hyd at y man lle maen nhw'n bwyta. Gofynnwch:
Beth mae Tom / Beca'n hoffi bwyta gyda crempog?

DRAFT

Yna, gofynnwch i'r disgyblion am eu syniadau nhw.

Beth wyt ti'n hoffi bwyta gyda crempog?

Dw i'n hoffi ...

Dw i'n bwyta ...

Tynnwch sylw at yr ymadroddion:

gormod o ...

dim gormod o ...

Mae gormod o siwgr yn ddrwg i ti.

Gallech chi ddefnyddio'r ymadroddion hyn wrth i'r disgyblion awgrymu cynhwysion megis **jam**, **past siocled**, **menyn cnau mwnci** a.y.b. a gallech chi ddefnyddio'r ymadroddion canlynol er mwyn awgrymu y byddai opsiynau eraill yn iachach:

Mae ffrwythau'n dda i chi.

Mae afalau'n dda i chi.

Mae banana'n dda i chi.

Mae ... yn well i chi.

Mae banana'n well i chi.

Yn ogystal, gallech chi drafod dulliau o wneud y crempogau eu hunain yn iachach, e.e.

Beth am roi afalau yn / ar y grempog?

Beth am roi banana yn / ar y grempog?

Beth am roi cyrens / syltanas yn / ar y grempog?

Beth am roi llai o siwgr a mwy o ffrwythau yn / ar y grempog?

Beth am ddefnyddio blawd brown?

Beth am ddefnyddio llaeth / llefrith sgim?

Yna, gallai'r disgyblion ystyried pedwar neu naw o gynhwysion y gellid eu hychwanegu at / bwyta gyda chrempogau er mwyn eu gwneud yn iachach a gallen nhw restru'r rhain yn ôl pa mor iach ydyn nhw yn eu barn nhw (rhestr ddiemwnt), e.e.

menyn cnau mwnci

past siocled

coco

afalau

bananas

syltanas

caws

siwgr

ham

mefus

hufen iâ

blawd brown

jam mefus

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 18:**
Sut mae gwneud crempog iach?
Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion drafod y cwestiwn mewn grwpiau, gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw ymadroddion eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Gallech chi ddarparu amrywiaeth o gynhwysion gwahanol yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu dangos ar y cerdyn er mwyn annog y disgyblion i drafod opsiynau gwahanol.

Gallai un aelod o'r grŵp gofnodi'r prif bwyntiau a rhoi adborth i'r dosbarth cyfan.

- Yna, gallai'r disgyblion wneud posteri sy'n dangos pa dopinau crempog sy'n dda i chi / sydd ddim cystal i chi, e.e.

Crempogau – blasus!
Beth am ddefnyddio ... yn y grempog?
Beth am fwyta ... ar y grempog?
Mae ... yn dda i chi.
Cofiwch: Dim gormod o ...
Mae gormod o ... yn ddrwg i chi.

- Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion wneud eu crempogau eu hunain, gan ddefnyddio'r cerdyn darllen **Crempogau**. Gallen nhw addasu'r rysáit fel y bo'n briodol.

Sylwer: Dylai'r disgyblion olchi'u dwylo, gwisgo ffedogau a dilyn arferion hylendid priodol wrth drin bwyd.

- Yna, gellid eu rhannu, e.e.
Wyt ti eisiau crempog?
Ydych chi eisiau crempog?
Beth ydych chi eisiau ar y grempog?

Yn ogystal, gallai'r disgyblion fynegi barn am y grempog maen nhw wedi ei bwyta, gan ddefnyddio'r patrwm newydd a gyflwynwyd yn yr uned hon, efallai, e.e.

Beth wyt ti'n feddwl o'r grempog?

Mae'n neis iawn.
hyfryd
flasus
fendigedig

Mae'r grempog yn flasus.
felys
rhy felys
feddal
galed
hyfryd
ddi-flas
ofnadwy

- Gallen nhw ysgrifennu ryseitiau i ddangos sut gwnaethon nhw baratoi eu crempogau. Os yw'n briodol, gallen nhw ddilyn y templed sy'n cael ei gynnig ar y cerdyn darllen, e.e.

<i>Teitl</i>
Mae angen <i>(rhestr o'r offer)</i>
Cynhwysion <i>(rhestr o'r cynhwysion)</i>
Dull <i>(rhestr, wedi'i rhifo, sy'n dangos y dull)</i> 1. Rhaid pwyso ... / Pwyswch ...

- Gallech chi ganolbwyntio eto ar y patrymau canlynol yn ogystal:
Dim gormod o ...
Mae gormod o siwgr yn ddrwg i ti.
a thrafod, yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol, pam mae gormod o siwgr yn ddrwg i chi. Gallai hyn arwain at ddylunio posteri / taflenni.

DRAFT

- Chwaraewch y rhan olaf, lle mae Tom yn dweud y byddai'n hoffi cael mwy – hyd at ddiwedd y darn.

Tynnwch sylw at yr ymadrodd **mwyr o** a cheisiwch ei ddefnyddio cymaint â phosib yn y dosbarth, ond cofiwch fod treigladd meddal yn dod ar ei ôl, e.e.

Wyt ti eisiau mwy o bapur?

Wyt ti eisiau mwy o baent?

Wyt ti eisiau mwy o lud?

Ydych chi eisiau mwy o bensiliau lliw?

Wyt ti eisiau mwy o greonau?

Dangoswch y berthynas rhwng y gair **mawr** ac **enfawr** a gofynnwch i'r disgyblion restru pethau sy'n **enfawr**.

Mae ... yn fawr.

Mae ... yn fawr ond mae ... yn enfawr.

Stopiwch y ffilm lle mae Tom yn cyfeirio at **padell ffrio enfawr** a gofynnwch i'r disgyblion beth allai hwn fod:

Beth ydy hwn?

Ystyriwch y syniadau gwahanol – yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol. Os nad yw'r ateb cywir yn cael ei roi, gallech chi ofyn i'r disgyblion geisio darganfod beth yw'r gwrthrych a beth yw ei bwrpas.

- I grynhoi, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm.

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddoniol.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn hwyl.

Dw i'n meddwl bod Tom yn ddoniol.

Uned 3: Rhan 2 – Powlen od

Nodau:

- Parhau gyda'r thema Fictoraidd drwy gyflwyno arteffactau Fictoraidd a dechrau trefnu arddangosfa Fictoraidd
- Cynhyrchu darnau ysgrifenedig, delweddau ac arteffactau y gellid eu cynnwys yn yr arddangosfa Fictoraidd
- Adolygu'r defnydd o **Roedd ... yn ... a Roedden nhw'n**, a gyflwynwyd eisoes ym Mhecyn 2 mewn perthynas â'r Tuduriaid, a chyflwyno **Doedd dim ...**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae Bob yn gwneud sŵn. Planhigyn ydy Bob. Bob ydy Bob. Dydy planhigion ddim yn chwerthin. Dydy planhigion ddim yn gwneud sŵn. Dyna neis! Dw i wedi ymolchi.	chwerthin copr handlen dweud pi-pi gwneud pi-pi pot pi-pi pot planhigyn matsio potel dŵr poeth glo cynhesu cynnes y Frenhines Fictoria tegell cebl plwg tapiau

Siarad am y gorffennol

Doedd dim ...

Doedd dim toiled ym mhob tŷ.
Doedd dim tap yn y tŷ.
Doedd dim sinc.
Doedd dim cebl.
Doedd dim hwyaden blastig.
Doedd dim tapiau.
Doedd dim plwg.

Roedd pobl yn ...

Roedd pobl yn gwneud pi-pi yn y pot.
Roedd pobl yn rhoi dŵr yn y jwg.
Roedd pobl yn poethi dŵr yn y tegell.
Roedd pobl yn rhoi hwn yn y gwely.
Roedd pobl yn rhoi glo poeth yn hwn.

Roedden nhw'n ...

Roedden nhw'n gweithio yma.
Roedden nhw'n rhoi(r) dŵr yn y bath.
Roedden nhw'n cael bath.
Roedden nhw'n rhoi hwn yn y gwely.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydy Bob yn chwerthin? Ydy. / Nac ydy. Faint o flawd? Dau gan gram. Beth sy'n bod? Beth ydy'r sŵn? Beth ydy'r rhain? Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n gwneud crempog. Beth sy o dan y gwely? Ble mae'r tywel? Gorchmynion Edrycha tu ôl i'r sofffa. Edrychwch ar y llun yma. Rhaid ymolchi. Eraill rhwng 1837 ac 1901 Dyna ti.	padell ffrio planhigyn, planhigion metel / metal pren pot rhyfedd / od gwneud sŵn jwg llaeth / llefrith blawd amser maith yn ôl powlen fel hyn hwn dŵr ymolchi cywir tywel yna

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha (ar y ...).; [Hefyd: **Edrychwch (ar y llun yma).**]

Beth ydy'r sŵn?

Beth ydy'r rhain?

Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ... [Hefyd: **Beth wyt ti'n wneud?; Dw i'n ...**]

Ble mae'r ...?

Mae'n ... / Mae hi'n ...

Dyna neis!

Allan â ti!; Allan â chi!

Pardwn?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Powlen od** (Uned 3, Rhan 2) hyd at y man lle mae Sgrin yn egluro mai **pot pi-pi** yw'r pot mae Tom wedi'i ddarganfod.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddoniol.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae Tom yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiflas.

Dw i'n meddwl bod Tom yn ddoniol.

Unwaith eto, byddai'n well peidio â chyflwyno atebion sydd angen rhagenw (e.e. ei fod e / hi) ar hyn o bryd.

Yn ogystal, gallech chi symud ymlaen i fynegi barn am y cymeriadau ar y DVD:

Beth wyt ti'n feddwl o Tom?

Beth wyt ti'n feddwl o Bob?

Mae e'n / o'n ...

Beth wyt ti'n feddwl o Beca?

Mae hi'n ...

Os ydych chi'n dymuno i'r disgyblion ddefnyddio **Dw i'n meddwl bod ...** yn y cyd-destun hwn, dylech chi osgoi defnyddio ymadroddion sy'n galw am ddefnyddio rhagenwau (e.e. fe / fo / hi) – gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio enwau neu enwau priod, e.e.

Dw i'n meddwl bod Tom yn ...

Dw i'n meddwl bod Bob yn ...

Dw i'n meddwl bod Beca'n ...

- Chwaraewch y darn eto, ond y tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion wrando am y geiriau Cymraeg am yr eitemau canlynol a'u hysgrifennu ar ddarn o bapur:

powlen

jwg

pot

Gallech chi ofyn cwestiynau am yr eitemau hyn, e.e.

Pa liw ydy'r bowlen?

Pa liw ydy'r jwg / pot?

Ydy'r jwg yn fach neu'n fawr?

Ydy Bob yn hoffi'r pot?

a.y.b.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ofyn cwestiynau am yr eitemau hyn i'w gilydd.

- Gallech chi ofyn i'r disgyblion ydyn nhw'n gwybod beth yw'r gwrthrychau sy'n cael eu dangos ar y sgrin neu beth yw eu pwrpas – yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Trafodwch eu syniadau.

- Eglurwch fod y darn nesaf yn canolbwyntio ar gyfnod yn y gorffennol - cyfnod o hanes - **amser maith yn ôl**.

Gallech chi egluro hefyd fod y disgyblion yn mynd i glywed y gair **roedd** sawl gwaith.

Gofynnwch ydyn nhw'n gallu cofio ystyr **roedd** – gallech chi gyfeirio at y tywydd ddoe i'w sbarduno nhw:

Roedd hi'n oer ddoe.

Roedd hi'n bwrw glaw ddoe.

a.y.b.

Eglurwch fod **roedd** yn cyfeirio at gyfnod yn y gorffennol ac eglurwch y ffurf negyddol hefyd:

Doedd dim ...

Gallech chi ofyn i'r disgyblion godi llaw bob tro y byddan nhw'n clywed **roedd** neu **doedd dim** yn y ffilm maen nhw ar fin ei gwyllo.

- Chwaraewch y darn lle mae Sgrin yn egluro pwrpas y pot pi-pi, y jwg a'r bowlen – hyd at y man lle mae Beca wedi ymolchi ac wedi sychu ei hwyneb.

Chwaraewch y darn sawl gwaith er mwyn galluogi'r disgyblion i ddeall mwy bob tro y byddan nhw'n ei glywed.

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu ar ddarn o bapur beth sy'n cael ei ddweud mewn perthynas â **doedd dim ...**

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu ar ddarn o bapur beth sy'n cael ei ddweud mewn perthynas â **Roedd pobl yn ...**

Cymharwch a thrafodwch y syniadau.

- Yna, gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus ar gyfres o ddatganiadau ac i gytuno neu anghytuno gyda beth sy'n cael ei ddweud. Gallen nhw naill ai ysgrifennu **Cytuno** neu **Anghytuno** ar fyrdau gwyn bach / eu hoffer electronig a'u dangos ar ôl pob datganiad neu gallen nhw ysgrifennu **Cytuno** ar un darn o gerdyn ac **Anghytuno** ar ddarn arall a'u dangos fel y bo'n briodol.

Y datganiadau:

Amser maith yn ôl:

Roedd toiled ym mhob tŷ. (x)

Doedd dim toiled ym mhob tŷ. (✓)

Roedd pot o dan y gwely. (✓)

Roedd pobl yn gwneud pi-pi yn y pot yn y nos. (✓)

Roedd pobl yn cario dŵr yn y bowlen. (x)

Roedd pobl yn rhoi sudd oren yn y jwg fawr. (x)

Roedd pobl yn rhoi sudd afal yn y jwg fawr. (x)

Roedd pobl yn rhoi dŵr yn y jwg fawr. (✓)

Roedd pobl yn ymolchi yn y jwg. (x)

Roedd pobl yn ymolchi yn y bowlen. (✓)

Roedd sinc o dan y gwely. (x)

Doedd dim tap yn y tŷ. (✓)

Yn dilyn hyn, gallai'r disgyblion greu eu brawddegau eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgaredd tebyg mewn grŵp.

- Cyn symud ymlaen i'r rhan nesaf, lle mae'r cynhesydd gwely'n cael ei drafod, gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth yw **potel dŵr poeth yn y Saesneg**.

Dangoswch enghraifft o botel dŵr poeth a gofynnwch:

Wyt ti'n hoffi cael potel dŵr poeth yn y gwely?

Eglurwch nad oedd gan bobl boteli dŵr poeth na blancedi trydan yn yr hen ddyddiau ac felly roedd y gwelyau'n gallu bod yn oer iawn, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf:

Roedd y gwely'n oer iawn.

- Chwaraewch y rhan nesaf, sy'n egluro sut roedd y cynhesydd gwely'n cael ei ddefnyddio – hyd at y man lle mae Beca'n dweud
... ac yna, roedd y gwely'n gynnes.

Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi brawddegau gan ddefnyddio **Roedd pobl yn ...** a **Doedd dim ...** – ond gofynnwch iddyn nhw hefyd i ysgrifennu brawddegau gan ddefnyddio **Roedden nhw'n ...**

Doedd dim potel dŵr poeth yn Oes Fictoria.

Roedd pobl yn rhoi hwn yn y gwely.

Roedd pobl yn rhoi glo yn hwn.

Roedd y glo'n boeth.

Roedden nhw'n rhoi hwn yn y gwely. (Gallech chi gyfeirio at y gwrthrych fel **pan cynnes**.)

Gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n deall y cysyniad.

- Cyn i chi chwarae'r darn nesaf, gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus ar y darn nesaf er mwyn gweld ydyn nhw'n gallu canfod y cyfnod mae'r arteffactau hyn yn perthyn iddo neu ydyn nhw'n gallu canfod enw brenin neu frenhines.

Chwaraewch y darn nesaf – hyd at y man lle mae Tom yn chwarae yn y bath.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi clywed cyfeiriad at gyfnod ac at frenhines:

Amser Fictoria

Oes Fictoria

y Frenhines Fictoria

Chwaraewch y darn eto ac yna gofynnwch iddyn nhw siarad mewn grŵp am y bath a'r tegell ac i gofnodi'n ysgrifenedig beth maen nhw wedi'i ddeall. Efallai y bydd rhaid i chi chwarae'r darn sawl gwaith er mwyn iddyn nhw fedru gwneud hyn.

Cymharwch y nodiadau.

Doedd dim tapiau.

Doedd dim plwg.

Doedd dim hwyaden blastig.

Roedd pobl yn poethi'r dŵr yn y tegell.

Roedden nhw'n rhoi'r dŵr yn y bath.

Roedden nhw'n cael bath.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 19:**
Beth oedd pobl Oes Fictoria yn wneud gyda hwn? Pam?

Gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw ymadroddion eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion ddisgrifio sut roedd y bath yn cael ei ddefnyddio a mynegi barn amdano.

Sylwer: Gallech chi egluro fod yr arteffactau hyn yn cael eu defnyddio gan rai pobl yn ystod oes Fictoria. Roedd gan rai pobl gyfoethog y cyfnod – yn enwedig tua diwedd y cyfnod – ystafell ymolchi a oedd yn cynnwys bath a sinc – fel y gwelir yn Rhan 4.

- I grynhoi ac adolygu, dangoswch yr arteffactau Fictoraidd a stopiwch y ffilm wrth i bob arteffact gael ei ddangos er mwyn caniatáu i grwpiau siarad am y gwrthrych.

Gofynnwch **Ydych chi'n cofio?** a gofynnwch i'r disgyblion egluro beth yw pob un a beth oedd ei bwrpas:

Dyma ...

Roedd pobl yn ...

Roedden nhw'n ...

Doedd dim ...

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ofyn am a mynegi barn:

Beth wyt ti'n feddwl o hwn?

Beth wyt ti'n feddwl o'r pot?

Beth wyt ti'n feddwl o'r bowlen?

Beth wyt ti'n feddwl o'r bath?

Gallech chi adolygu'r canlynol:

Mae e'n / o'n fawr / fach.

Mae e'n / o'n hyfryd / ofnadwy.

Mae e'n / o'n syniad da.

Dw i'n meddwl bod y bath yn fawr / fach.

Dw i'n meddwl bod y pot pi-pi yn hyfryd / ofnadwy.

Dw i'n meddwl bod y pot pi-pi yn syniad da.

DRAFT

- Cyflwynwch y cerdyn darllen, **Arteffactau o Oes Fictoria**.
Darllenwch y cerdyn, gan wahodd y disgyblion i ateb y cwestiynau wrth i chi ddarllen.
- Yna, gan ddefnyddio deunyddiau priodol, gallai'r disgyblion dynnu llun neu wneud model o un o'r arteffactau hyn - neu arteffact Fictoraidd priodol arall. Dylen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud wrth iddyn nhw weithio neu dylen nhw ddweud wrth rywun arall sut mae gwneud y model:
Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n gwneud model o ... o Oes Fictoria.
Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio ...

Dw i'n ...
Rhaid ...

Yna, gallen nhw werthuso'r gwaith, gan ddefnyddio'r patrwm newydd sydd wedi cael ei gyflwyno yn yr uned hon, ynghyd ag unrhyw batrymau cyfarwydd eraill:
Beth wyt ti'n feddwl o'r ...?

Mae'n dda.
 ddiddorol
 ardderchog
 effeithiol

Mae'r ... yn dda.
 ddiddorol
 ardderchog
 effeithiol

Dw i'n meddwl bod y ... yn dda.
 ddiddorol
 ardderchog
 effeithiol

Dw i'n hoffi'r ... achos ...

Mae angen mwy o (liw) yma.
- Gallai'r disgyblion ysgrifennu am yr arteffact hwn - neu am arteffact Fictoraidd gwahanol os yw'n well ganddyn nhw - gan ddisgrifio sut roedd yn cael ei ddefnyddio. Yna, gellid arddangos yr arteffact a'r darn ysgrifenedig mewn arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth, ynghyd â delweddau / arteffactau a llyfrau eraill.

Uned 3: Rhan 3 – Mynd i'r ysgol

Nodau:

- Parhau gyda'r thema Fictoraidd: ysgol Fictoraidd
- Cynhyrchu darnau ysgrifenedig, delweddau ac arteffactau y gellir eu cynnwys yn yr arddangosfa Fictoraidd
- Defnyddio ffurfiau amherffaith y ferf: **Roedd ... yn ...; Roedden nhw'n ...; Doedd dim ...**
- Annog y disgyblion i gymharu bywyd ysgol heddiw gyda bywyd ysgol yn ystod oes Fictoria
- Mynegi barn am yr ysgol Fictoraidd
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae Oes Fictoria'n ddiddorol iawn. Dw i'n gweld. Druan â fe! Beth ar y ddaear ydych chi'n wisgo? gormod o ddu Mae du'n drist.	cloch ffrog bob dydd chwifio

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ga i fynd 'nôl i Oes Fictoria? Cei. / Na chei. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Ble ydw i? Beth ydy hwn? Beth ar y ddaear ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Pwy ydy hon? Wyt ti'n iawn? Ydw. / Nac ydw. Gorchmynion Cer / Dos at y cylch coch. Eraill Dyma ... (+ treigladd meddal) Dyma ddesg fawr. Croeso i'r ysgol.	mynd 'nôl Oes Fictoria bath metel / metal pot pi-pi map desg, desgiau hir gwisgo jîns crys esgidiau dŵr pren llinyn

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ga i fynd i ...?; Cei.; Na chei.

Wyt ti'n barod?; Ydw. / Nac ydw.; [Hefyd: **Ydych chi'n barod?; Ydyn. / Nac ydyn.**]

Beth ydy hwn?; Beth ydy'r rhain?

Beth ar y ddaear ydy hwn?

Pwy ydy hwn?; Pwy ydy hon?

Awgrymiadau gam wrth gam:

Sylwer: Gellid cyflwyno cefndir hanesyddol addysg yn ystod y cyfnod Fictoraidd, h.y.
Yn un wyth wyth dim, roedd rhaid i blant o dan ddeg oed fynd i'r ysgol.
Yn un wyth naw naw, roedd rhaid i blant o dan un deg dau oed fynd i'r ysgol.

- Eglurwch:
Rydyn ni'n mynd i edrych ar ffilm o ysgol Fictoraidd.
Chwaraewch y ffilm **Mynd i'r ysgol** (Uned 3, Rhan 3) drwyddi.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Beth wyt ti'n feddwl o'r ysgol?

Mae'r ysgol yn ddiddorol.
Mae'r ysgol yn ofnadwy.
Mae'r ysgol yn ddiflas iawn.
Mae'r ysgol yn drist.
Dw i ddim yn hoffi'r ysgol achos mae'r athrawes yn ofnadwy.

Beth ydych chi'n feddwl o'r athrawes?
Gellid cyflwyno geiriau newydd er mwyn disgrifio'r athrawes:
Mae'r athrawes yn gas.
Mae'r athrawes yn greulon.
Mae'r athrawes yn llym.
Mae'r athrawes yn ddiflas.
Mae'r athrawes yn grac / yn flin.

Gellir defnyddio **Roedd** yn y brawddegau uchod, wrth gwrs:
Roedd yr athrawes yn gas.
Roedd yr athrawes yn greulon.
Roedd yr athrawes yn llym.
Roedd yr athrawes yn ddiflas.
Roedd yr athrawes yn grac / yn flin.

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ddefnyddio'r patrwm:
Dw i'n meddwl bod yr ysgol yn ddiddorol.
Dw i'n meddwl bod yr athrawes yn ofnadwy.

Dylid trafod cefndir y *Welsh Not*, h.y.

Darn o bren ar llyn, a oedd yn cael ei ddefnyddio fel cosb mewn ysgolion mewn rhannau o Gymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd y *Welsh Not*. Roedd e'n cael ei roi i blant a gâi eu dal yn siarad Cymraeg. Os oedd plentyn yn siarad Cymraeg, byddai'n cael y *Welsh Not* i'w wisgo o gwmpas ei wddf. Yna, drwy gydol y dydd, byddai'r plentyn hwnnw, ynghyd ag unrhyw blant eraill a oedd yn gwisgo'r *Welsh Not*, yn cael eu hannog i'w roi i unrhyw blentyn arall roedden nhw'n ei glywed yn siarad Cymraeg. Byddai'r plentyn a fyddai'n gwisgo'r *Welsh Not* ar ddiwedd y dydd yn cael ei guro gyda'r gansen.

- Gallai'r disgyblion wneud *Welsh Not* ac yna chwarae rôl lle mae un ohonyn nhw (Tom ar y ffilm) yn glanio mewn ysgol yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'n cyfarfod ag athro/athrawes gas. Mae'r athro/athrawes yn siarad Saesneg ond mae'r disgybl yn ateb yn y Gymraeg, e.e.
Who are you? **John ydw i.**
Where do you live? **Dw i'n byw yn ...**
What are you wearing? **Dw i'n gwisgo ...**

Ar y diwedd, rhaid iddo wisgo'r *Welsh Not*.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgaredd yn y gadair goch, gan ofyn i'r disgybl sy'n gwisgo'r *Welsh Not* am ei fanylion personol a sut mae e / hi'n teimlo, e.e.

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Wyt ti'n mynd i'r ysgol?

Ble wyt ti'n mynd i'r ysgol? / I ba ysgol wyt ti'n mynd? / Beth ydy enw'r ysgol?

Wyt ti'n mwynhau'r ysgol?

Ydw. / Nac ydw.

Pam?

Pam wyt ti'n gwisgo'r Welsh Not?

Achos dw i eisiau siarad Cymraeg.

Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i'n teimlo'n drist iawn.

Wyt ti'n teimlo'n ofnus?

Ydw, dw i'n teimlo'n ofnus iawn.

Nac ydw, dw i ddim yn teimlo'n ofnus.

- Cyflwynwch y llyfr, **Mynd i'r Ysgol**, er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth sydd yn y ffilm a chyflwyno mwy o wybodaeth.

Tynnwch sylw at y lluniau a gofynnwch i'r disgyblion eu trafod:

Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Beth ydych chi'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ...

Beth wyt ti'n ddysgu o'r llun?

Beth ydych chi'n ddysgu o'r llun?

Roedd y plant yn ...

Roedd yr athrawes yn ...

- Ailchwaraewch y darn o'r ffilm lle mae Tom yn glanio yn yr ysgol. Stopiwch y ffilm bob tro y bydd yn gofyn cwestiwn neu pan fydd gwrthrych yn cael ei ddangos. Gofynnwch i'r disgyblion nodi beth yw'r gwrthrychau a dweud rhywbeth amdany'n nhw. Rhewch atebion yn ôl yr angen. Derbyniwch eiriau Saesneg os nad yw'r disgyblion yn gallu cofio'r ymadroddion Cymraeg, ond rhewch y geiriau Cymraeg hefyd.

Y llechen: Roedd y plant yn ysgrifennu ar y llechen.

Y bwrdd du: Roedd yr athrawes yn ysgrifennu ar y bwrdd du.

Fictoria: Y Frenhines Fictoria. Roedd hi'n frenhines o un wyth tri saith (1837) tan un naw dim un (1901).

Abacws: Roedd y plant yn cyfri(f) gydag abacws.

- Yna, gallai'r disgyblion wneud amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod Fictoraidd:
 - Gallen nhw ymarfer ysgrifennu mewn arddull Fictoraidd – mae llawer o enghreifftiau ac ymarferion ar gael ar y we.
 - Gallen nhw dynnu lluniau o bryfed, blodau a.y.b. a'u disgrifio. Gallen nhw sychu blodau a'u defnyddio mewn llyfrau lloffion hefyd.
 - Gallen nhw ganu cân Fictoraidd draddodiadol neu gallai'r rhai sy'n gallu canu'r piano chwarae darn a oedd yn boblogaidd yn ystod y cyfnod Fictoraidd.
 - Gallen nhw ddysgu ac adrodd cerdd a oedd yn boblogaidd yn ystod y cyfnod.
 - Gallen nhw wneud gweithgareddau rhifedd, e.e. datrys problemau, mathemateg pen, yn Gymraeg.
 - Gallen nhw gymryd rhan mewn dril a chymharu eu sesiynau addysg gorfforol arferol gyda'r driliau hyn. Byddai hyn yn gyfle da i ymarfer gorchmynion Cymraeg, e.e.

Cerddwch yn eich unfan ... un ... dau ... tri ... pedwar, ... un ... dau ... tri ... pedwar

...

Chwifwch eich breichiau ... rownd a rownd ... rownd a rownd ...

Dwylo ar eich canol; trowch eich pen i'r chwith ... trowch eich pen i'r dde ... i'r chwith ... i'r dde.

Dwylo ar eich ysgwyddau ... dwylo allan ... dwylo ar eich ysgwyddau ... dwylo allan ... dwylo ar eich ysgwyddau.

a.y.b.

- Gallen nhw gymharu bywyd yr ysgol y pryd hwnnw gyda'r ysgol heddiw, e.e. gwersi addysg gorfforol, yr ystafell ddosbarth a.y.b.
- Gallen nhw gofnodi gwybodaeth am fywyd yr ysgol yn ystod y cyfnod mewn grid drwy ganolbwyntio ar gymeriad o'r cyfnod. Dylen nhw ysgrifennu am y cymeriad hwn yn y golofn gyntaf.

Enw: Dafydd	Fi:
Roedd Dafydd yn mynd i'r ysgol ar ddydd ...	Dw i'n mynd i'r ysgol ...
Roedd yr ysgol yn dechrau am ...	Mae'r ysgol yn dechrau am ...
Roedd yr ysgol yn gorffen am ...	
Roedd Dafydd yn (gwisgo / dysgu ...)	
Roedd Dafydd yn gwneud dril.	
Yn yr ystafell roedd ...	
Doedd dim ...	

Yna, gallen nhw ysgrifennu am eu profiadau eu hunain yn yr ail golofn.

Gallai hyn arwain at ysgrifennu paragraffau sy'n cymharu bywyd ysgol yn ystod yr unfed ganrif ar hugain gyda bywyd yr ysgol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

- Yn yr un modd, gellid cymharu'r ystafell ddosbarth Fictoriaidd gydag ystafell ddosbarth fodern. Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth ac ar ei chynnwys. Gofynnwch iddyn nhw gofnodi ar ffurf cyfres o bwyntiau bwled beth sydd i'w weld yn yr ystafell dosbarth (yn y golofn gyntaf):

Ysgol Oes Fictoria	Ysgol Heddiw
• desg	• bwrdd
• llun Fictoria	•
• map	•
•	•
•	•
•	•
•	•

Gofynnwch iddyn nhw gofnodi ar ffurf cyfres o bwyntiau bwled beth sydd i'w weld yn yr ystafell ddosbarth fodern (yn yr ail golofn). Yna, gallen nhw ysgrifennu paragraffau sy'n cymharu a chyferbynnu'r ddwy ystafell ddosbarth.

Yn Oes Fictoria, roedd ... Heddiw mae ...

Gallen nhw ddefnyddio dull *Comparison Alley* o gofnodi nodweddion sy'n debyg ac sy'n wahanol.

- Gan ddefnyddio deunyddiau priodol, gallai'r disgyblion dynnu llun neu wneud model o un o'r gwrthrychau a oedd mewn ystafell ddosbarth Fictoraidd neu arteffact Fictoraidd arall. Wrth iddyn nhw weithio, dylen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud neu roi cyfarwyddiadau Cymraeg fel y gall rhywun arall wneud y model:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n gwneud model o ... o Oes Fictoria.

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Dw i'n ...

Rhaid ...

Yna, gallen nhw werthuso'r gwaith hwn, gan ddefnyddio'r patrwm newydd sydd wedi cael ei gyflwyno yn yr uned hon, ynghyd â phatrymau cyfarwydd eraill:

Beth wyt ti'n feddwl o'r ...?

Mae'n dda.

ddiddorol

ardderchog

effeithiol

Mae'r ... yn dda.

ddiddorol

ardderchog

effeithiol

Dw i'n meddwl bod y ... yn dda.

ddiddorol

ardderchog

effeithiol

Dw i'n hoffi'r ... achos ...

Mae'r ... yn dda achos ...

Mae angen mwy o (liw) yma.

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu am yr arteffact maen nhw wedi gwneud llun neu fodel ohono a gellid gosod y lluniau neu'r modelau a'r darnau ysgrifenedig yn yr arddangosfa ynghyd â delweddau / arteffactau Fictoraidd priodol eraill fel y bo'n briodol.

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gadair goch er mwyn adolygu cynnwys yr uned, ond y tro hwn, gallen nhw ofyn am gymaint o wybodaeth â phosibl am fywyd yr ysgol yn ystod y cyfnod Fictoraidd. Gallai **Cerdyn Siarad 20** gynnig cefnogaeth ac annog y disgyblion i siarad am gyfnod hir. Byddai hyn yn gyfle da i adolygu nifer o batrymau a ffurfiau cwestiynau a ddysgwyd eisoes a'u trosglwyddo i gyd-destun Fictoraidd.

Rwyt ti'n byw yn Oes Fictoria. Rwyt ti'n eistedd yn y gadair goch. Rhaid ateb cwestiynau'r grŵp.

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Wyt ti'n mynd i'r ysgol?

Ble wyt ti'n mynd i'r ysgol? / I ba ysgol wyt ti'n mynd? / Beth ydy enw'r ysgol?

Wyt ti'n mwynhau'r ysgol?

Ydw. / Nac ydw.

Pam?

Beth wyt ti'n ddysgu yn yr ysgol?

Beth wyt ti'n wneud yn yr ysgol?

Beth wyt ti'n wisgo i'r ysgol?

Wyt ti'n ... yn yr ysgol?

Wyt ti'n cael cinio yn yr ysgol?

Pwy ydy dy ffrindiau di?

Ydy hi'n neis? / Ydy e'n / o'n neis?

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 21:**

A: Rwyd ti'n mynd adre o'r ysgol ac rwyd ti'n siarad â'r teulu am y "bachgen newydd" – Tom.

B: Mam / Dad wyt ti. Rwyd ti'n gofyn cwestiynau i A am y "bachgen newydd".

Gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw ymadroddion eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion chwarae rôl rhiant / plentyn sydd wedi cyrraedd gartref o'r ysgol a thrafod Tom, y "bachgen newydd".

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 22:**
Siaradwch am yr ysgol Fictoraidd.

Mewn grwpiau, a gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw ymadroddion eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion drafod beth maen nhw'n ei gofio am yr ysgol Fictoraidd. Gallai un ohonyn nhw gofnodi beth sy'n cael ei ddweud fel bod y grwpiau'n gallu cymharu gwybodaeth.

Uned 3: Rhan 4 – Tŷ mawr

Nodau:

- Parhau gyda'r thema Fictoraidd: cartref Fictoraidd (yn eiddo i deulu cyfoethog)
- Cynhyrchu darnau ysgrifenedig, delweddau ac arteffactau y gellir eu cynnwys yn yr arddangosfa Fictoraidd
- Defnyddio ffurfiau amherffaith y ferf: **Roedd ... yn ...; Roedden nhw'n ...; Doedd dim**
- Annog y disgyblion i gymharu bywyd heddiw gyda bywyd yn ystod oes Fictoria
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae athrawes ofnadwy yma. Mae hi'n greulon iawn. Mae hi'n gas iawn. Does neb yma. Dw i wedi anfon neges at ... Dyma ble roedden nhw'n ... Roedd rhaid cario'r can dŵr.	bwrw / taro ffon tŷ ffrindiau rheilin llen, llenni gwas, gweision morwyn, morynion lamp, lampau dreser pantri wal, waliau oergell; oergell bren i fyny'r grisiau anodd

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau dod nôl i'r Pod-antur Cymraeg? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. Wyt ti'n gallu gweld tŷ mawr? Ydw. / Nac ydw. Sawl ffenest wyt ti'n gallu gweld? Pwy ydy e / o? Beth sy ar y bwrdd Beth ydy hwn? Ble ydw i nawr? Beth am fynd i fyny'r grisiau? Gorchmynion Cer / Dos i mewn i'r tŷ. Edrychwch ar y ... Dewch gyda fi. Eraill Dw i ddim yn mynd 'nôl. Dim problem!	Oes Fictoria athrawes plât, platiau cyllell, cyllyll fforc, ffyrç llwy, llwyau cwpan, cwpanau cannwyll, canhwylau cwpwrdd llun, lluniau uwchben y gegin ystafell ymolchi bath tap, tapiau dŵr poeth can dŵr ystafell wely mwy gwely metel / metal pot pi-pi toiled

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau ...?; Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.; [Hefyd: **Ydych chi eisiau ...? Ydyn, os gwelwch yn dda.; Nac ydyn, dim diolch.**]

Sawl ...?; Sawl ... wyt ti'n gallu (g)weld?

Oes ... yn y ... / o flaen y ... / o dan y ... / uwchben y ...?

Edrychwch ar (y llun).; [Hefyd: **Edrycha ar y ...**]

Edrychwch – dyma'r ... [Hefyd: **Edrycha – dyma'r ...**]

Dyma'r ...

Beth sy yn ...?

Beth am ... ? (+ treigladd meddal)

Ble mae'r ...?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch:
Heddiw, rydyn ni'n mynd i edrych ar dŷ Fictoraidd.

Eglurwch fod y tŷ ar y ffilm yn nodweddiadol o dai pobl gyfoethog yn ystod oes Fictoria.

Chwaraewch y ffilm **Tŷ mawr** (Uned 3, Rhan 4) ar ei hyd. Eglurwch y bydd llawer o'r geiriau yn newydd ond y dylai'r disgyblion fedru deall y rhan fwyaf ohonyn nhw gan fod eu hystyr yn cael ei egluro ar y ffilm.

Cyflwynwch / adolygwch yr ymadroddion canlynol:

yr ystafell fwyta
ystafell y gweision a'r morynion
yr ystafell ymolchi
yr ystafell wely

- Gallech chi ofyn cyfres o gwestiynau mewn cwis er mwyn atgyfnerthu'r eirfa:
Ble oedd y bath?
Ble oedd y llenni coch?
Ble oedd y jwg a'r bowlen?
a.y.b.

Yna, gallai'r disgyblion greu eu cwestiynau eu hunain i'w gofyn mewn cwis.

- Chwaraewch y darn sy'n dangos **yr ystafell fwyta** eto a gofynnwch i'r disgyblion ymateb pan fydd Tom yn gofyn sawl cylllell, fforc, llwy, kannwyll a.y.b. sydd yno.
Sawl cylllell?
Sawl fforc?
Sawl llwy?
Sawl kannwyll?

Gofynnwch i'r disgyblion restru'r geiriau sy'n gysylltiedig â'r ystafell fwyta:

bwrdd
plât, platiau (crand)
cylllell, cyllyll
fforc, ffyrc
llwy, llwyau
kannwyll, canhwyllau
cwpwrdd
llun, lluniau
tân
llen, llenni

DRAFT

Yna, gallech chi ofyn iddyn nhw ydyn nhw'n cofio sawl un o'r eitemau uchod oedd ar y ffilm:

Sawl cylllell?

Sawl fforc?

Sawl llwy?

Sawl kannwyll?

a.y.b.

Gallech chi dynnu sylw at y ffaith fod y bwrdd wedi cael ei osod ar gyfer 4 person ac felly gallech chi ofyn i'r disgyblion gyfrifo:

Sawl cylllell sy ar y bwrdd?

Sawl fforc sy ar y bwrdd?

Sawl llwy sy ar y bwrdd?

- Canolbwyntiwch ar y portreadau a gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio beth maen nhw'n gallu'i weld:

Mae dyn yn y llun.

Mae e'n / o'n gwisgo ...

Tynnwch sylw at y lliwiau ac at y gair **tywyll** a gofynnwch iddyn nhw wneud sylwadau ar y lliwiau yn y portread.

Gallen nhw werthuso'r portread gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau sydd wedi'u rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**. Gallech chi eu hannog i ddweud fod y llun yn un **tywyll** / **yn dywyll** hefyd.

Mae'r llun yn dywyll.

Mae'r lliwiau'n dywyll.

- Eglurwch mai **portread** yw hwn.

Gofynnwch iddyn nhw chwilio ar y rhyngrwyd am bortreadau Fictoraidd eraill ac i'w gwerthuso mewn grwpiau.

Yna, gallen nhw beintio portreadau a disgrifio a gwerthuso'u gwaith, gan ddefnyddio patrymau sy'n cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.

Gallech chi egluro hefyd fod pobl cyfnod Fictoria'n hoffi tirluniau ac ar ôl chwilio am enghreifftiau ohonyn nhw a'u trafod, gallai'r disgyblion greu eu tirluniau eu hunain a'u gwerthuso.

- Gan fod y bwrdd wedi ei osod ar gyfer pryd o fwyd, gallai'r disgyblion wneud gwaith ymchwil er mwyn darganfod beth roedd pobl oes Fictoria yn ei fwyta. Yna, gallen nhw rannu'r wybodaeth hon gyda grwpiau eraill:

Roedd pobl yn bwyta ...

Roedden nhw'n bwyta ...

Gallen nhw ddylunio bwydlenni deniadol a gellid defnyddio'r rhain mewn sefyllfaoedd chwarae rôl:

Beth wyt ti eisiau i ginio?

Yn gynta(f), dw i eisiau ...

Yna, dw i eisiau ...

Yn ogystal, gallai'r disgyblion baratoi pryd Fictoraidd, gan ddefnyddio patrymau Cymraeg i ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud, e.e.

Dw i'n ...

Rhaid ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Gellid rhannu'r bwyd, e.e.

Wyt ti eisiau ...?

Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.
Ydych chi eisiau ...?
Ydyn, os gwelwch yn dda. / Nac ydyn, dim diolch.

Gallai'r disgyblion fynegi barn am y bwyd:

Blasus.

Blasus iawn.

Dw i'n meddwl bod y bwyd yn flasus iawn.

Mae'n flasus iawn.

Dw i ddim yn hoffi ...

Dw i ddim yn hoffi hwn.

Mae'n ofnadwy.

Ych a fi!

Mae angen mwy o ...

Mae angen llai o ...

- Yn ogystal, gan fod y bwrdd wedi cael ei osod ar gyfer 4 person, gallai'r disgyblion ysgrifennu gwahoddiadau i'r cinio:

Ydych chi eisiau dod i gael cinio gyda ni?

Pryd:

Amser:

Ble:

Bwydlen:

Atebwch os gwelwch yn dda:

Ydw, dw i'n gallu dod.

Nac ydw, dw i ddim yn gallu dod, mae'n ddrwg gen i.

Nac ydw, dw i ddim yn gallu dod, mae'n flin 'da fi.

- Gallai'r disgyblion roi eu gwahoddiadau i aelodau eraill y dosbarth a gallai'r disgyblion ofyn am gadarnhad neu am fwy o wybodaeth, e.e.

A: **Dyma ti – gwahoddiad i ginio.**

B: **Pryd mae'r cinio?**

A: *(Dyddiad)*

B: **Am faint o'r gloch mae'r cinio?**

A: *(Amser)*

B: **Ble mae'r cinio?**

A: *(Ble)*

B: **Beth sy ar y fwydlen?**

A: *(Y fwydlen)*

Wyt ti eisiau dod? / Wyt ti'n gallu dod?

Gallai Partner B egluro nad yw'n gwybod eto a fydd yn gallu bod yn bresennol:

Dw i ddim yn gwybod.

Ar ôl meddwl ymhellach, gallai ysgrifennu llythyr yn derbyn / gwrthod y gwahoddiad:

(Cyfeiriad)	(Cyfeiriad)
(Dyddiad)	(Dyddiad)
Annwyl ...	Annwyl ...
Diolch am y gwahoddiad i'r cinio yn ... ar ...	Diolch am y gwahoddiad i'r cinio yn ... ar ...
Dw i'n gallu dod.	Mae'n ddrwg gen i / mae'n flin 'da fi, dw i ddim yn gallu dod achos ...
Dw i'n edrych ymlaen.	Cofion
Cofion	(Enw)
(Enw)	

- Ailchwaraewch y darn sy'n dangos yr ystafell fwyta chwaethus a symudwch ymlaen i **ystafell y gweision a'r morynion**. Gofynnwch i'r disgyblion restru'r geiriau sy'n gysylltiedig â'r ystafell hon.

Gwiriwch y geiriau mae'r disgyblion wedi'u rhestru:

bwrdd
plât, platiau
cylllell, cyllyll
fforc, ffyrc
llwy, llwyau
lamp, lampau
dreser
llun, lluniau
cwpan, cwpanau
llen, llenni

- Gofynnwch i'r disgyblion gymharu a chyferbynnu'r ystafell hon gyda'r ystafell fwyta chwaethus:

Ystafell y gweision a'r morynion	Yr ystafell fwyta
Doedd dim ... yn yr ystafell yma. Roedd ... yn yr ystafell yma. Roedd y bobl yn ...	Roedd ... yn yr ystafell fwyta. Doedd dim ... yn yr ystafell fwyta. Roedd y bobl yn ...

Gallen nhw gofnodi beth sy'n debyg ac yn wahanol ar ffurf diagramau Venn hefyd.

- Chwaraewch y darn nesaf, sy'n dangos y gegin, a gofynnwch i'r disgyblion restru'r geiriau sy'n gysylltiedig â'r gegin.

Yna, gellid cymharu'r rhestri.

- Gan nad oes sylwebaeth wedi ei hysgrifennu ar gyfer y darn hwn, gofynnwch i'r disgyblion ei hysgrifennu, e.e.
Dyma'r gegin.

Edrychwch ar y ...
Roedd y bobl yn ... yma.
Roedd y morynion yn ... yma.

Yna, gallech chi ailchwaru'r ffilm, gan ofyn i'r disgyblion ddarllen y sylwebaethau ar goedd fel bod yr hyn maen nhw wedi'i ysgrifennu'n cyfateb i'r hyn sy'n cael ei weld ar y ffilm.

- Chwaraewch y darn nesaf eto, sy'n dangos **yr ystafell ymolchi**, a gofynnwch i'r disgyblion restru'r geiriau sy'n gysylltiedig â'r ystafell honno.

bath
can dŵr, caniau dŵr
cadair
llenni

Gwiriwch y rhestri.

- Chwaraewch y darn nesaf, sy'n dangos **yr ystafell wely**, a gofynnwch i'r disgyblion restru'r geiriau sy'n gysylltiedig â'r ystafell honno.

gwely (metel / metal)
cwpwrdd
toiled (yn y cwpwrdd)
bath
pot
llenni
tywel, tywelion
lamp
llun, lluniau
mat
can dŵr

Gwiriwch y rhestri.

- Yna, gallai'r disgyblion gymharu a chyferbynnu eu hystafell wely eu hunain gyda'r ystafell wely Fictoraidd ond byddai angen i chi adolygu / cyflwyno geirfa briodol cyn gwneud y dasg hon, e.e.

gwely
cwpwrdd
cadair
bwrdd
desg
carped
mat
teganau
llun
poster
cyfrifiadur

Fy ystafell wely i	Yr ystafell wely Fictoraidd
Mae ... yn fy ystafell wely i. Does dim ... yn fy ystafell wely i.	Roedd ... yn yr ystafell wely. Doedd dim ... yn yr ystafell wely.

Unwaith eto, gellid cofnodi hyn ar ffurf diagram Venn.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu brawddegau neu baragraffau byr er mwyn cofnodi sut mae'r ystafelloedd **yn debyg** neu **yn wahanol**, e.e.

Yn debyg:

Yn fy ystafell wely i, mae ... ac yn ystafell wely Oes Fictoria, roedd ... hefyd.

Yn wahanol:

Yn fy ystafell wely i, mae ... ond yn ystafell wely Oes Fictoria, roedd ...

- Gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth am fywyd y cartref Fictoraidd. Gallai grwpiau ganolbwyntio ar agweddau gwahanol, e.e. dillad, bwyd, gweithgareddau hamdden a.y.b. Gallen nhw ysgrifennu nodiadau ac yna gellid sefydlu grwpiau newydd sy'n cynnwys disgyblion sydd wedi astudio agweddau gwahanol. Yna, gallai'r disgyblion gyfnewid gwybodaeth.
- Gallai'r disgyblion wneud gweithgareddau amrywiol mewn perthynas â bywyd y cartref yng nghyfnod Fictoria, e.e. gallen nhw
 - wneud llyfrau lloffion
 - chwarae gemau parlwr
 - gwnïo sampler
 - dysgu ac adrodd cerdd
 - gwrando ar gerddoriaeth Fictoraidd a gwerthuso'r darnau
 - chwarae darn ar y piano
 - astudio celf Fictoraidd a gwerthuso'r darnau
 - paratoi pryd Fictoraidd a.y.b.
- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 23** er mwyn crynhoi:
Disgrifiwch gartref y bobl gyfoethog yn Oes Fictoria.

Dylai'r disgyblion ddweud cymaint â phosib am gartref pobl gyfoethog yn ystod y cyfnod Fictoraidd, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Os yw'n briodol, gallen nhw siarad am beth roedd y bobl hyn yn ei fwyta / yn ei wneud yn eu cartrefi, ond bydd hyn yn dibynnu ar eu hymchwil bersonol.
- Yna, gallen nhw ysgrifennu am fywyd yn ystod y cyfnod neu am agwedd benodol ar fywyd y cyfnod a gellid cynnwys eu darnau, ynghyd â delweddau ac arteffactau perthnasol yn yr arddangosfa Fictoraidd.
- Gallai'r disgyblion ofyn am farn a mynegi barn am y tŷ Fictoraidd a welir ar y DVD.
- Wedyn, dylid cyflwyno'r llyfr **Byw yn Oes Fictoria**. Mae hanner cyntaf y llyfr yn crynhoi cynnwys yr uned hyd yma ond mae cartrefi Fictoraidd eraill yn cael eu disgrifio tua diwedd y llyfr.

Tra byddan nhw'n darllen y llyfr, anogwch y disgyblion i ganolbwyntio ar y delweddau ac i ateb y cwestiynau.
- Gallech chi gyflwyno **Cerdyn Siarad 24**:
Disgrifiwch yr ystafell yma. Sut oedd y bobl yn byw?

Dylai'r disgyblion ddweud cymaint â phosib am y gegin a welir yn y llun, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Os yw'n briodol, gallen nhw siarad hefyd am beth roedd y bobl yn ei fwyta / yn ei wneud, ond bydd hyn yn dibynnu ar eu hymchwil bersonol.
- Gellid gwneud mwy o waith mewn perthynas â bywyd y gweithwyr / y bobl dlawd yn y wyrchw yn ystod y cyfnod Fictoraidd, a gellid seilio llawer o hyn ar ddelweddau o archifau lleol, o bosib.

- Yna, gallai'r disgyblion baratoi disgrifiadau / disgrifiadau ffeithiol / cyflwyniad PowerPoint er mwyn cyfleu bywyd yn ystod y cyfnod Fictoraidd, gan ddefnyddio'r patrymau canlynol:
Roedd rhai pobl yn gweithio'n galed yn Oes Fictoria.
Roedden nhw'n byw mewn ...
Yn y tŷ, roedd ...
Doedd dim ... yn y tŷ.

Roedd y bobl yn gwisgo ...
Roedden nhw'n bwyta ...
Roedden nhw'n hoffi ...
a.y.b.

Roedd y bobl dlawd iawn yn byw yn y wyrchw.
Yn y wyrchw roedd ...
Doedd dim ... yn y wyrchw.
Roedd y bobl yn gwisgo ...
Roedden nhw'n bwyta ...
Roedden nhw'n gweithio'n galed. Roedden nhw'n ...
a.y.b.
- Gallai'r disgyblion gydweithio er mwyn creu modelau o ystafell yng nghartref teulu cyfoethog ac ystafell yng nghartref teulu tlotach. Gallen nhw benderfynu beth maen nhw'n mynd i'w wneud:
Beth wyt ti eisiau gwneud?
Dw i eisiau gwneud yr ystafell ... – dw i'n defnyddio'r bocs yma.
Dw i eisiau gwneud bwrdd / cadair.
Dw i eisiau gwneud lle tân.
a.y.b.

Tra byddan nhw'n gweithio, dylai'r disgyblion ddisgrifio yn Gymraeg beth maen nhw'n ei wneud:
Dw i'n gwneud ...
Dw i'n defnyddio ...
a.y.b.

Ar ôl iddyn nhw orffen eu modelau, gallai'r disgyblion greu eu hystafelloedd Fictoraidd a gellid eu cynnwys yn yr arddangosfa Fictoraidd.

Uned 3: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Nod:

- Adolygu cynnwys ffeithiol yr uned
- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau
Roedden ni’n ... Syrthiodd e/o

Yr amser gorffennol

Patrymau	Prif eirfa
Roedd hi’n greulon. Roedd hi’n gas. Roedd yr athrawes yn greulon. Roedd yr athrawes yn gas. Beth oedd yn yr ysgol? Roedd ... Doedd dim ... Beth oedd y plant yn wneud ...? Roedd y plant yn ... Roedden nhw’n ... Beth oedd yr athrawes yn wisgo? Roedd yr athrawes yn gwisgo ...	

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydy hi yma? Ydy. / Nac ydy. Wyt ti’n iawn? Ydw. / Nac ydw. Beth wyt ti eisiau? Sut mae gwneud crempog? Beth wyt ti’n feddwl o’r grempog? Ble mae Bob? Gorchmynion Helpwch Tom. Eraill Does neb yma. Dw i eisiau bwyd. Mae angen ... Rhaid ...	athrawes creulon cas ysgol Fictoraidd gwrando gwisgo tŷ Fictoraidd ystafell fwyta ystafell y gweision a’r morynion cegin cegin fach pantri ystafell ymolchi ystafell wely crempog, crempogau powlen llwy sbatwla clorian gogr chwisg blawd llaeth / llefrith wyau cymysgu

	chwisgo planhigyn sâl torri allan peintio gludo syrthio
--	---

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti'n iawn? Ydw. / Nac ydw.; [Hefyd: **Ydych chi'n iawn? Ydyn. / Nac ydyn.**]

Beth wyt ti eisiau? Dw i eisiau ...; [Hefyd: **Beth ydych chi eisiau? Rydyn ni eisiau ...**]

Sut mae gwneud ...?

Helpwch ... i ...

Pardwn?

Beth wyt ti'n feddwl o(r) ...? [Hefyd: **Beth ydych chi'n feddwl o(r)...**]

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas rhan hon y DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi'n cofio?** (Uned 3, Rhan 5) fesul rhan, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf, hyd at y man lle mae'r disgyblion yn cael eu gwahodd i ymateb:

Eich tro chi nawr. Beth oedd yn yr ysgol Fictoraidd?

Roedd ...

Dylai'r disgyblion restru'r eitemau a oedd i'w gweld yn yr ysgol Fictoraidd:

Roedd ... yn yr ysgol.

Gallech chi ofyn i'r disgyblion restru beth oedd ddim i'w weld yn yr ysgol Fictoraidd hefyd:

Doedd dim ...

Adran 2

- Chwaraewch yr ail adran hyd at y man lle mae'r disgyblion yn cael eu gwahodd i ymateb: **Eich tro chi nawr. Beth oedd y plant yn wneud yn yr ysgol Fictoraidd?**

Gofynnwch i'r disgyblion drafod a chofnodi beth roedd y disgyblion yn ei wneud yn yr ysgol Fictoraidd.

Roedd y plant yn ...

Roedden nhw'n ...

Adran 3

- Chwaraewch yr adran nesaf, lle mae Tom yn cyfeirio at y tŷ Fictoraidd yr ymwelodd ag e.

Stopiwch y DVD ar ôl i'r cwestiwn ymddangos:

Eich tro chi nawr. Pa ystafelloedd oedd yn y tŷ?

Gofynnwch i'r disgyblion restru'r ystafelloedd oedd yn y tŷ.

Adran 4

- Yn yr adran hon, gofynnir i'r disgyblion helpu Tom i wneud crempog.
Blant, helpwch Tom i wneud crempog. Barod?

I ddechrau, rhaid iddyn nhw restru'r offer sydd ei angen:

Mae angen:

Yna, rhaid iddyn nhw restru'r cynhwysion ac, yn olaf, rhaid iddyn nhw roi cyfarwyddiadau.

Adran 5

- Nod yr adran hon yw gorffen yr uned ar nodyn doniol.

- Yna, gellid cyflwyno'r ffeithlen **Gêm Fictoraidd**.

Ar ôl trafod y cynnwys, gallai'r disgyblion ysgrifennu cyfarwyddiadau'r gêm:

Rhaid dewis cownter.

Rhaid taflu chwech.

Rhaid symud y cownter.

Ar ôl glanio ar neidr, rhaid ...

Ar ôl glanio ar ysgol, rhaid ...

a.y.b.

- Gallai'r disgyblion ddyfeisio gêm sy'n debyg i'r gêm Indiaidd sy'n cael ei disgrifio ar y daflen darllen, h.y. gallen nhw greu bwrdd chwarae ar y cyfrifiadur a chynnwys ar y sgwariau lle mae ysgolion enghreifftiau o ymddygiad derbyniol, ac, ar y sgwariau lle mae nadroedd, enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol, e.e.

Ymddygiad derbyniol	Ymddygiad annerbyniol
rhannu	cweryla
helpu	bod yn gas
bod yn ffrind da	bod yn greulon
siarad yn neis	bwlio
chwarae'n neis	dwyn
diolch	cicio

Yna, gallen nhw ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer y gêm hon.

- Yn dilyn y cyfeiriadau at gemau a oedd yn boblogaidd yn ystod cyfnod Fictoria, gallai'r disgyblion wneud ymchwil i weithgareddau hamdden yn ystod y cyfnod, gan wneud nodiadau a chyfnodid gwybodaeth:

Roedd pobl yn mwynhau chwarae ...

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 25** i orffen yr uned.
Siaradwch am bobl Oes Fictoria. Rhaid i chi ddweud 5 peth.

Gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn, ynghyd ag unrhyw ymadroddion perthnasol sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dylai'r disgyblion siarad am gyfnod Fictoria. Dylen nhw ddweud pum brawddeg o leiaf.

Uned 4

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Llafaredd

Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a hynny mewn gwaith pâr a gwaith grŵp.

Maen nhw'n rhoi gwybodaeth ffeithiol wrth iddyn nhw holi'i gilydd am oriau agor a chau amryw siopau. Maen nhw'n mynegi barn mewn perthynas â raps Tom, y llyfrau a'r DVD ac maen nhw'n chwarae rôl mewn siop. Gofynnir iddyn nhw ddisgrifio beth mae Tom yn ei wisgo a gofynnir iddyn nhw gyfnewid gwybodaeth.

Maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gadair goch, e.e. gofyn i **Ferched Beca** am fanylion personol ac am eu profiadau. Yn ogystal, gofynnir i'r disgyblion drafod beth maen nhw'n ei ddysgu o'r delweddau a'r ffotograffau.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrando'n ofalus ar y ffilm ac i nodi'r prif bwyntiau mewn dulliau amrywiol, e.e. drwy wneud gwaith llafar, drwy ysgrifennu ac ateb cwestiynau mewn cwis a thrwy gwblhau gridiau. Yn ogystal, gellid rhoi crynodeb o ran o'r ffilm i'r disgyblion, gyda pheth ohono'n **gywir** a pheth yn **anghywir**. Yna, byddai angen iddyn nhw nodi'r camgymeriadau ar ôl gwyllo'r ffilm. Gallai'r disgyblion ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i ddeunyddiau darllen amrywiol, e.e. gwybodaeth am Dr Barnardo, drama o'r enw **Merched Beca**, sy'n golygu darllen ar goedd ac actio, a chwedl fodern yn nhraddodiad y Stori Celwydd Golau, sef stori sy'n gor-ddweud ac sy'n cynnwys digwyddiadau sy'n annhebygol o ddigwydd. Gofynnir iddyn nhw ymateb i graff a'i ddehongli ac i ddarllen cardiau a'u rhoi yn eu trefn gywir. Yn ogystal, gellid creu cardiau cwestiynau a sylwadau yn Rhan 2 a gallai'r disgyblion eu darllen ar goedd yn ystod gwaith llafar.

Ysgrifennu

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ysgrifennu rhestri, rap (y gallan nhw ei berfformio), deialogau y gellid eu cynnwys mewn arddangosfa o'r enw **Yn y Siop Elusen** a chwestiynau y gellid eu gofyn mewn cwis. Gofynnir iddyn nhw ysgrifennu dehongliad ac eglurhad o graff ac i ysgrifennu disgrifiad. Mae'r gwaith ar **Ferched Beca** yn rhoi cyfleoedd i lunio bwrdd stori, gan gynnwys testun, i greu cartŵn o'r digwyddiadau, gan gynnwys testun, ac i ysgrifennu darn mwy estynedig ar ffurf erthygl nodwedd neu gyfweiliad ar gyfer papur newydd cyfoes. Yn ogystal, gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth am berson hanesyddol, rhywun o gyfnod Fictoria efallai, ac ysgrifennu amdano/amdani. Gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer cynhyrchu compost ac i ysgrifennu Stori Celwydd Golau fodern yn Rhan 5.

Saesneg

Gofynnir i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Ferched Beca, i wneud nodiadau ac i rannu gwybodaeth. Bydd hyn yn golygu chwilio drwy wefannau Saesneg, darllen llyfrau Saesneg ac, efallai, astudio deunydd archifol Saesneg.

Yn ogystal, gofynnir iddyn nhw ysgrifennu stori celwydd golau ar ôl darllen y llyfr **Compost Arbennig**. Gellid gwneud hyn drwy gyfrwng y Saesneg os dymunir.

Mathemateg

Gellid defnyddio adnoddau a gweithgareddau mathemategol er mwyn adolygu rhifau hyd at 100 yn Gymraeg. Yna, gofynnir i'r disgyblion ddefnyddio'r rhifau hyn wrth iddyn nhw gyfrifo faint mae'r planhigyn wedi tyfu rhwng mis Hydref a mis Mawrth drwy ddehongli gwybodaeth ar ffurf graff. Gofynnir iddyn nhw hefyd i egluro cyfraddau'r tyfiant mewn Cymraeg syml.

Gofynnir iddyn nhw ddarllen, deall a chyfnewid gwybodaeth sydd mewn amserlenni ac felly rhoddir cyfleoedd iddyn nhw adolygu'r amser.

Mae arian yn cael ei adolygu yn yr uned hon a gofynnir i'r disgyblion wneud gwahanol symiau o arian drwy ddefnyddio nifer penodol o ddarnau arian.

Yn rhan 2, gofynnir i'r disgyblion gyfrifo faint mae eitemau sydd ar y sêl mewn siop yn costio gan fod y prisiau wedi gostwng 10%. Gellid addasu hyn er mwyn cyfrifo prisiau sydd wedi gostwng 20%, 25%, 50% a.y.b.

Gwyddoniaeth

Gofynnir i'r disgyblion ystyried pam mae maint y pot wedi dylanwadu ar gyfradd tyfiant y planhigyn. Gallai hyn arwain at drafodaeth ar y ffactorau sydd eu hangen er mwyn sicrhau tyfiant iach. Yn rhan 4, mae Tom a Beca'n ymweld â chanolfan ailgylchu, lle mae bwyd a llystyfiant yn cael eu troi'n gompust.

Mae'r broses o wneud compust yn y cartref yn cael ei egluro a gallai'r disgyblion wneud compust yn yr ysgol. Gellid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â gwneud compust, e.e. dysgu am y micro-organebau sy'n troi'r gwastraff yn gompust.

Daearyddiaeth

Mae'r disgyblion wedi dysgu'r pwyntiau canlynol ar y cwmpawd eisoes:

Gogledd

De

Gorllewin

Dwyrain.

Mae pwynt arall ar y cwmpawd yn cael ei gyflwyno yn yr uned hon, sef **De-orllewin**.

Os yw'n berthnasol, gallai'r disgyblion wneud gwaith pellach, gan gynnwys gwaith map, er mwyn gweld beth sydd i'w weld yn y rhan hon o Gymru, e.e.

Mae mynyddoedd / traeth / Tyddewi / Abergwaun yn y de-orllewin.

Gellid defnyddio'r gwaith ar wneud compust fel sail ar gyfer trafodaeth ar sut y gallwn ni wella'r amgylchedd drwy aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau a fyddai, fel arall, yn cael eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi.

Hanes

Mae cerdyn darllen **Dr Barnardo** yn annog disgyblion i ymchwilio i ddiwedd y 19eg ganrif ac mae'n rhoi gwybodaeth sylfaenol am Dr Barnardo. Gallai'r disgyblion chwilio am wybodaeth am ffigur hanesyddol arall, o'r cyfnod Fictoraidd o bosib, ac ysgrifennu amdano / amdani.

Mae'r ddrama **Merched Beca** yn canolbwyntio ar y protestiadau yn erbyn y tollbyrth yn ne-orllewin Cymru yn y 1830au a gellid gwneud mwy o waith mewn perthynas â'r pwnc hwn.

Wrth iddyn nhw wneud y gwaith hwn, mae'r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau er mwyn ymchwilio i'r cyfnod, gan gynnwys deunyddiau ysgrifenedig ac arteffactau.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion greu darn o waith celf ar ôl darllen y ddrama **Merched Beca**. Byddai cynhyrchu *collage* yn effeithiol iawn gan fod y testun yn benthyg ei hun i ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a gwadau gwahanol.

Gallen nhw dynnu lluniau i fynd gyda'u gwaith ysgrifenedig ac mae cyfleoedd i greu darnau celf diddorol a gwreiddiol iawn i gyd-fynd â'u straeon celwydd golau (Rhan 5).

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃** am batrymau iaith y gellid eu defnyddio wrth wneud y gwaith celf a gwerthuso'r gwaith.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion gynllunio a chynhyrchu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth o'r enw **Yn y Siop Elusen**, a allai arwain at gynhyrchu modelau, posteri, taflenni a.y.b. i'w cynnwys ynddi. Gallen nhw uwchraddio dillad sydd wedi cael eu prynu mewn siop elusen hefyd.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion greu eu **Siop Elusen** eu hunain, gan gynllunio 'brand' ar ei chyfer. Gallen nhw hefyd gynhyrchu eitemau i'w gwerthu ynddi, e.e. cacennau a bisgedi, modelau amrywiol, lluniau, posteri a.y.b.

Gallai'r disgyblion gynllunio bwrdd stori er mwyn adrodd stori **Merched Beca** a gallen nhw gynllunio a gwneud modelau o anifeiliaid a phypedau y gallen nhw wedyn eu defnyddio er mwyn adrodd y stori.

Mae'r cerdyn darllen **Compostio** yn cynnwys gwahanol gamau yn y broses o wneud compost, gan ddechrau gyda lleoli bin compost mewn man priodol. Gallai'r disgyblion ymchwilio i finiau compostio ac yna cynllunio'u biniau compostio ar gyfer yr ysgol. Gallen nhw hefyd ddylunio posteri, taflenni a.y.b. er mwyn dangos sut y gall pobl gynhyrchu compost.

Addysg gorfforol

Gallai'r disgyblion ddyfeisio symudiadau rap yn Rhan 1. Gallen nhw greu dawns Merched Beca hefyd, gan gyfleu dicter a phrotestiadau'r ffermwyr.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion fynegi barn am y raps mae Tom yn eu perfformio yn Rhan 1 ac yna ysgrifennu a pherfformio eu rap eu hunain.

Gallen nhw ddewis neu gyfansoddi darn o gerddoriaeth er mwyn cyfleu Terfysgoedd Beca yn ogystal a gellid defnyddio'r darn fel sail ar gyfer y ddawns y cyfeirir ati uchod.

TGCh

Gallai'r disgyblion gynllunio a chynhyrchu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth o'r enw **Yn y Siop Elusen**. Felly, gallen nhw greu neu chwilio am logos a delweddau priodol ynghyd â dylunio posteri a thaflenni a.y.b.

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn chwilio am wybodaeth am Dr Barnardo, Terfysgoedd Beca a chymeriadau hanesyddol arall. Gallen nhw chwilio am ddelweddau a gwybodaeth mewn perthynas â biniau compost hefyd. Yn ogystal, gallen nhw ddylunio posteri a thaflenni a.y.b. er mwyn dangos sut y gall pobl wneud compost.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae Rhan 3 yn canolbwyntio ar Derfysgoedd Beca a gallai'r disgyblion wneud ymchwil pellach a fyddai'n rhoi gwybodaeth hanesyddol bwysig am Gymru.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Gellid defnyddio'r gwaith sy'n gysylltiedig â gwneud compost fel sail ar gyfer trafod sut y gallwn ni wella'r amgylchedd drwy ail-ddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau a fyddai, fel arall, yn cael eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi. Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ystyried defnyddio darn priodol o dir yr ysgol arw gyfer compost ac yna defnyddio'r compost mewn potiau a thybiau neu yng ngardd yr ysgol a.y.b.

(Sylwer: rhaid bod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch wrth weithio gyda chompost a phridd a.y.b.)

Datblygu Meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith disgyblion eraill.

Gofynnir i'r disgyblion ystyried pam y mae maint y potyn wedi dylanwadu ar gyfradd tyfiant Bob a sut y gall y cymeriadau ddatrys y broblem. Gofynnir iddyn nhw roi cyfres o ddelweddau a datganiadau sy'n disgrifio'r broses o wneud compost yn eu trefn yn ogystal.

Datblygu Cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny, sicrhau cynnydd a pharhâd.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, maen nhw'n cael nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i ddod o hyd i wybodaeth a'i dethol, ac i ymateb i'r hyn sy'n cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd ac yna i'w chyflwyno mewn dull priodol, gan wneud defnydd priodol o feddalwedd. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg at sawl pwrpas.

Datblygu rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu'u sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau amrywiol a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar unrhyw gyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 4: Rhan 1 – Problem!

Nodau:

- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon, e.e.
 - rhifau Cymraeg hyd at 100
 - mesur drwy gyfrwng y Gymraeg: **Rhaid mesur o’r pwynt yma.; Sawl centimetr? ... centimetr.**
 - yr amser: dyddiau’r wythnos; **Pryd mae’r ... yn agor / cau?; Am ...**
 - gofyn am bethau yn Gymraeg: **Ga i ... os gwelwch yn dda?; Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.**
 - amser amherffaith y ferf: **Roedd Bob yn ... centimetr ...**
- Cyflwyno’r ymadrodd **ym mis ...**
- Dechrau creu arddangosfa o’r enw **Yn y Siop Elusen**

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
wedi tyfu Dydy e / o ddim wedi tyfu. Mae Bob wedi tyfu. Rwyd ti wedi tyfu. Dydy ... Dydy e / o ddim yn gallu ... Dydy e / o ddim yn sâl. Dydy e / o ddim yn tyfu. Dydy e / o ddim wedi tyfu. ym mis ... ym mis Hydref ym mis Tachwedd ym mis Rhagfyr ym mis Ionawr ym mis Chwefror ym mis Mawrth Mae angen pot mwy. Mae angen arian. mwy o bridd Pryd mae’r siop yn agor? Mae’r siop yn agor am ... Pryd mae’r siop yn cau? Mae’r siop yn cau am ...	rhyfedd dim ond llawer felly siop elusen bron

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy’n bod? Beth wyt ti’n wneud? Dw i’n mesur. Beth ydy’r broblem? Beth ydy’r sŵn? Ydy Bob yn sâl? Ydy. / Nac ydy. Wyt ti’n sâl? Ydw. / Nac ydw. Sawl centimetr?	cywir pot, potiau rhy fach rhy fawr prynu dillad llyfrau gemau pensiliau bwyd dydd Sul

Wyth deg un centimetr. Ga i fesur? Cei. / Na chei. Ble mae'r papur graff? Pam? Dw i ddim yn gwybod. Oes pot yn y Pod-antur Cymraeg? Oes. / Nac oes. Pa siop? Pa siop ydy hi? Beth am edrych ar y we? Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ... Wyt ti eisiau dod i'r siop? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. Gorchmynion Arhosa. Sefa. Paid symud. Rhaid mesur o'r pwynt yma. Rhaid mynd i'r siop. Ebrill Mae Bob yn 91 centimetr. Roedd Bob yn 75 centimetr. Mae'n ddrwg gen i. = Mae'n flin 'da fi.	dydd Llun dydd Mawrth dydd Mercher dydd Iau dydd Gwener dydd Sadwrn bron (almost)
--	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth sy'n bod?

Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... [Hefyd: **Beth ydych chi'n wneud?; Rydyn ni'n ...**]

Sawl centimetr? Wyth deg un centimetr.

Ga i (fesur)? Cei. / Na chei.

Beth ydy'r sŵn?

Beth ydy'r broblem?

Mae angen ...

Oes ... yn y cwpwrdd?

Beth am edrych ar y we?

Faint o'r gloch ydy hi?; Mae hi'n

Pryd mae'r ... ?

Beth ydy'r sŵn?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch fod Bob yn cael ei fesur ar ddechrau'r darn nesaf o ffilm ac felly eich bod chi'n mynd i adolygu rhifau a mesur cyn ei wyllo.

Adolygwch y rhifau hyd at 100, gan ddefnyddio adnoddau mathemategol a gweithgareddau neu drwy chwarae Bingo, efallai. Mae rhestr o rifau ar gael yn adran fathemateg y ddogfen

Patrymau Iaith P-aC₃.

- Adolygwch fesur drwy gyfrwng y Gymraeg:
Ydych chi'n cofio?
Beth ydy How many centimetres? yn Gymraeg?
Sawl centimetr?

Yna, gellir gwneud amryw weithgareddau mesur yn yr ystafell ddosbarth.

DRAFT

- Dangoswch y ffilm **Problem!** (Uned 4, Rhan 1). Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin siarad, wrth i'r cymeriadau geisio dyfalu pam nad yw Bob wedi tyfu llawer ac mae Tom yn dweud, **Dydy e ddim yn tyfu.**
- Chwaraewch y darn eto ond y tro hwn gofynnwch i'r disgyblion wrando am rif a chofnodi'r rhif hwnnw.

Cymharwch nodiadau.

- Adolygwch fisoedd y gaeaf yn Gymraeg, yn benodol:
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr
Ionawr
Chwefror
Mawrth

Tynnwch sylw at yr ymadroddion:

ym mis Hydref
ym mis Tachwedd
a.y.b.

- Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion godi llaw bob tro maen nhw'n clywed un o'r ymadroddion hyn.
- Cyflwynwch y daflen **Graff i ddangos faint mae Bob wedi tyfu**

Tynnwch sylw at fisoedd y flwyddyn (**Hydref – Mawrth**) ar echelin X a gofynnwch i'r disgyblion ddweud y rhifau sydd ar echelin Y yn Gymraeg.

Gofynnwch:

Faint oedd Bob ym mis Hydref?

Yna gofynnwch i'r disgyblion ofyn cwestiynau tebyg i'w gilydd:

Faint oedd Bob ym mis Tachwedd?
a.y.b.

Gan ddefnyddio'r graff, gofynnwch iddyn nhw weithio allan faint mae Bob wedi tyfu yn ystod y cyfnod hwn a gofynnwch iddyn nhw weithio allan:

Faint mae Bob wedi tyfu rhwng mis Hydref a mis Tachwedd?
Mae Bob wedi tyfu ... centimetr.
a.y.b.

Yna, gallai'r disgyblion ofyn ac ateb y cwestiynau hyn mewn parau.

Cymharwch yr atebion. Yna, gofynnwch i'r disgyblion egluro'u canfyddiadau:

Mae Bob wedi tyfu ... centimetr rhwng ... a ...
Rhwng mis ... a ..., mae Bob wedi tyfu ...

Gofynnwch i'r disgyblion beth mae'r graff yn ei ddangos mewn perthynas â chyfradd y tyfiant – mae wedi arafu ers mis Ionawr. Gofynnwch i'r disgyblion am resymau posibl am hyn a chwaraewch y ffilm eto os bydd angen fel eu bod nhw'n gwrandao am yr ateb:

Mae'r pot yn rhy fach.

Gofynnwch iddyn nhw geisio egluro pam mae maint y pot yn chwarae rhan mor bwysig yn nhyfiant y planhigyn. (Does dim digon o le i'r gwreiddiau dyfu. Hefyd, mae angen mwy o faetholion ar y planhigyn wrth iddo dyfu, yn union fel y mae angen mwy o faetholion ar berson wrth iddo dyfu o'i gymharu â phan oedd yn faban. Felly, mae angen mwy o bridd arno, ac felly mae angen pot mwy.)

- Dangoswch y darn nesaf, lle mae Tom yn rapio, gan orffen gyda'r gair **problem**.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall beth yw'r broblem:

Mae'r pot yn rhy fach.

Mae Bob yn rhy fawr.

- Gallech chi ganolbwyntio ar rap Tom yn yr adran hon:

Rhy fach ... rhy fawr ...

Rhy fach ... rhy fawr ...

Rhy fach ... rhy fawr ...

Mae'r pot yn rhy fach ac mae Bob yn rhy fawr.

Rhy fach ... rhy fawr ...

Problem!

Defnyddiwch y patrwm a gyflwynwyd yn Uned 3 er mwyn gofyn am eu barn am y rap

Beth wyt ti'n feddwl o'r rap?

Beth ydych chi'n feddwl o'r rap?

Mae'r rap yn grêt / wych.

Mae'r rap yn ddoniol.

Mae'r rap yn ddiddorol.

Mae'r rap yn hwyl.

Mae'r rap yn ofnadwy.

Mae'r rap yn wirion / dwp.

Dydy'r rap ddim yn dda iawn.

Dw i'n hoffi'r rap achos mae e'n / o'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r rap achos mae Tom yn ddoniol.

Dw i'n hoffi'r rap achos dw i'n hoffi rapio.

Dw i'n hoffi'r rap achos dw i'n mwynhau rapio.

Dw i ddim yn hoffi'r rap achos mae e'n / o'n wirion / dwp.

Os yw'n briodol, gallech chi gyflwyno'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y rap yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y rap yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y rap yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y rap yn hwyl.

Dw i'n meddwl bod rap yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod rap yn cwl.

Dw i'n meddwl bod y rap yn wirion / dwp.

Gofynnwch i'r disgyblion addasu'r rap, e.e. drwy newid y bedwaredd linell – fel ei bod yn cyfeirio at bethau sydd yn yr ystafell ddosbarth, e.e.

Mae'r bat yn rhy fach ac mae'r bêl yn rhy fawr.

(h.y. bat ping pong a phêl fawr e.e. pêl y traeth, pêl-droed)

Mae'r cap yn rhy fach ac mae Sam yn rhy fawr.

(h.y. het baban wedi'i rhoi ar ben un o'r bechgyn)

Mae'r plât yn rhy fach ac mae'r melon yn rhy fawr.

(h.y. plât a ddefnyddir ar gyfer chwarae yn y tŷ bach twt (yn y Cyfnod Sylfaen) a melon mawr)

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r raps ac yna'u perfformio.

- Cyn chwarae'r rhan nesaf, adolygwch y cwestiwn:

Oes pot yn y ... / ar y ... / tu ôl i'r ... / o dan y ...?

drwy guddio pot mewn mannau gwahanol yn yr ystafell. Gallai'r disgyblion ofyn y cwestiwn uchod er mwyn ceisio dod o hyd iddo.

Yr atebion yw:

Oes, mae pot yn y ... / ar y ... / tu ôl i'r ... / o dan y ...

Nac oes, does dim pot yn y ... / ar y ... / tu ôl i'r ... / o dan y ...

Gellid defnyddio **Mae'n flin 'da fi.** (De Cymru) / **Mae'n ddrwg gen i.** (Gogledd Cymru) yn yr atebion negyddol uchod hefyd.

Gellid cuddio a chwilio am blanhigion / blodau artiffisial o wahanol faint hefyd, gan ddefnyddio'r un patrymau, ond y tro hwn, pan fydd y potiau'n cael eu darganfod, gellid gofyn i'r disgyblion osod y planhigyn / blodyn yn y pot gan ddweud ydy'r pot yn

rhy fach

rhy fawr

neu'n

iawn

- Chwaraewch ran nesaf y ffilm hyd at ddiwedd 'rap' nesaf Tom:

Does dim pot yn y Pod.

Does dim pot yn y Pod.

Does dim pot yn y Pod.

Does dim pot yn y Pod-antur Cymraaaaaaaaaaaaaaaaaaeg!

Pa siop? Pa siop? Pa siop?

Sgriiiiiiiiiiiiiiiiiiiiin?

Yna, gallai'r disgyblion addasu'r 'rap' hwn fel ei fod yn cyfeirio at eitemau neu bethau sydd ddim yn yr ystafell ddosbarth – **yn yr ystafell, e.e.**

Does dim ci yn yr ystafell.

Does dim teigr yn yr ystafell.

Does dim eliffant yn yr ystafell.

Does dim llew yn yr ystafeeeeeeeeeeeeeeeeeeeeell!

- Yna, gallai'r disgyblion ystyried sut y gallai Tom a Beca ddatrys y broblem, e.e.

Mae angen pot ond does dim pot yn y Pod-antur Cymraeg.

Beth am ...?

- Chwaraewch ran nesa'r ffilm, lle mae'r cymeriadau'n trafod yr angen i fynd i brynu pot newydd, gan benderfynu mynd **yfory**. Stopiwch y ffilm ar ôl i Bob ddweud, "Yipee!". Pan fydd y cymeriadau'n ystyried

Pa siop?

gallech chi stopio'r ffilm a gofyn i'r disgyblion am eu hawgrymiadau:

Rhaid cael pot i Bob. Pa siop?

Beth am ...?

Gofynnwch i'r disgyblion restru syniadau yn eu grwpiau a chymharu nodiadau wedyn.

Mwy na thebyg y byddwch yn cael enwau siopau ac archfarchnadoedd lleol a.y.b. ond gallech chi awgrymu:

canolfan arddio

siop elusen

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall pa siop y bydd y cymeriadau ar y ffilin yn ymweld â hi – **Pa siop?**

Siop elusen.

Gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw wedi deall beth sy'n cael ei werthu yn y **siop elusen**.

Rhestrwch eu hawgrymiadau ar y bwrdd gwyn.

Chwaraewch y darn eto a gwnewch yn siŵr eu bod nhw wedi rhestru popeth.

- Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion sefydlu eu **siop elusen** eu hunain yn yr ystafell ddosbarth / yn yr ysgol / mewn digwyddiad codi arian ac yna chwarae rôl drwy ofyn am bethau yn y siop honno. Yn ogystal, gallen nhw wneud modelau, lluniau, cacennau ac amryw eitemau eraill i'w gwerthu yn y siop elusen.

Gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n cofio sut i ofyn am bethau yn Gymraeg, e.e. pe baen nhw'n mynd i'r siop hon, sut bydden nhw'n gofyn am gap:

Dw i eisiau cap os gwelwch yn dda.

Gallech chi ddatblygu'r patrwm hwn ychydig drwy gyflwyno:

Dw i eisiau prynu cap os gwelwch yn dda.

Ga i gap os gwelwch yn dda?

Cei. / Na chei.

Dyma chi.

Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi – does dim cap yn y siop.

Faint ydy'r cap?

Dwy bunt.

Adolygwch sut i gyfeirio at bunnoedd yn Gymraeg ...

dw y bunt

tair punt

pedair punt

... a sut i gyfeirio at geiniogau:

dw y bunt pum deg ceiniog

pum punt pum deg ceiniog

saith punt naw deg ceiniog

a.y.b.

Yn ogystal, gallech chi ddefnyddio'r rhifau a gafodd eu hadolygu ar ddechrau'r uned gyda'r gair **ceiniog**, e.e.

pum deg naw ceiniog

chwe deg saith ceiniog

a.y.b.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 26:**

A: Rwyf ti'n gweithio yn y siop elusen.

B: Rwyf ti eisiau prynu pethau yn y siop.

Gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa hon, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw ymadroddion eraill sy'n gyfarwydd. Yna, gallen nhw addasu'r sefyllfa a gofyn am eitemau gwahanol sydd ar gael mewn siopau elusen a gallen nhw 'berfformio' eu deialogau o flaen grwpiau eraill. Gallen nhw ysgrifennu'r deialogau hyn a'u cadw'n ddiogel er mwyn eu cynnwys fel rhan o'r arddangosfa, **Yn y Siop Elusen**.

- Chwaraewch y darn sy'n canolbwyntio ar oriau agor y siop elusen eto.

Adolygwch

Pryd mae ... yn agor?

Pryd mae ... yn cau?

Am ...

Mae ... yn agor / cau am ...

Chwaraewch y darn eto, ond y tro hwn, gofynnwch iddyn nhw wrando'n ofalus ar yr amser mae'r siop yn agor / cau ar ddyddiau penodol. Gellid gwneud y gweithgaredd hwn ar ffurf cwis, h.y. gallech chi ofyn y cwestiwn uchod ar ôl rhannu'r disgyblion yn dimau. Chwaraewch y darn priodol a rhowch bwyntiau am ateb cywir.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 27:**
A: Rwyf ti'n gweithio yn siop Bargeinion Bendigedig. Rhaid i ti ateb cwestiynau B.
B: Rwyf ti eisiau gwybod pryd mae'r siop yn agor ac yn cau. Gofynna i A.

Gan weithio mewn paruau, dylai Partner B ofyn cwestiynau i Partner A a chofnodi'r atebion mewn grid tebyg i hwn:

Bargeinion Bendigedig Oriaiau agor						
Sul	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 28**, sy'n weithgaredd tebyg, ond bod rôl A a B wedi eu cyfnewid:
A: Rwyf ti eisiau gwybod pryd mae siop Pethau Da yn agor ac yn cau. Gofynna i B.
B: Rwyf ti'n gweithio yn siop Pethau Da. Rhaid i ti ateb cwestiynau A.

Gan weithio mewn parau, dylai Partner A ofyn cwestiynau i Partner B a chofnodi'r atebion mewn grid tebyg i hwn:

Pethau Da Oriaiau agor						
Sul	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn

Yna, gallai'r disgyblion greu eu harwyddion eu hunain, a fydd yn dangos enw siop a'r oriau agor. Gellid defnyddio'r rhain i ofyn am a rhoi gwybodaeth.

- Chwaraewch ran ola'r ffilm. Gan fod yr adran hon yn cyfeirio at **arian**, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 29**, sy'n dangos nifer o ddarnau o arian:
Faint o arian sy yn y llun?
Gwnewch symiau gyda'r arian.

Mewn parau, gofynnwch i'r disgyblion ateb y cwestiwn cyntaf ac yna i ddefnyddio rhai o'r darnau arian er mwyn gwneud symiau gwahanol. Gellid rhoi'r darnau sy'n cael eu dangos ar y cerdyn i'r disgyblion cyn i'r gweithgaredd hwn ddechrau yna, pan fydd un partner wedi dyfeisio swm, gallai ddweud wrth y partner arall sut i gyrraedd y swm hwnnw, e.e.

Tair punt tri deg ceiniog:

Punt ... adio dwy bunt ... adio dau ddeg ceiniog ... adio deg ceiniog.

- Chwaraewch y ffilm eto er mwyn adolygu a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'r DVD yn grêt / wych.

Mae'r DVD yn ddoniol.

Mae'r DVD yn ddiddorol.

Mae'r DVD yn hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae e'n / o'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae Tom yn ddoniol.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos mae'n ddiflas iawn.

Os yw'n briodol, gallech chi gyflwyno'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn hwyl achos mae Tom yn ddoniol.

Uned 4: Rhan 2 – Yn y siop

Nodau:

- Cyflwyno canrannau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. **deg y cant; Mae deg y cant i ffwrdd.**
- Adolygu gofyn am bethau yn Gymraeg a thrin arian
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i ddim yn gallu gweld. Mae deg y cant i ffwrdd. Ga i hwn os gwelwch yn dda? Cewch. / Na chewch. Rydych chi'n anghywir. Tala'r arian.	sêl dal

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble ydyn ni? Rydyn ni tu allan i siop. Wyt ti eisiau help? Ydw. / Nac ydw. Beth sy yn y ffenest? Beth am fynd i mewn? Syniad da. Ble mae'r potiau? Ble mae Tom? Ydy e/o wrth y dillad? Ydy. / Nac ydy. Beth wyt ti'n feddwl o(r) esgidiau? Dw i ddim yn hoffi'r (esgidiau). Faint ydy'r (lori)? Dwy bunt. Beth ar y ddaear wyt ti'n wisgo? Ga i fag os gwelwch yn dda? Cewch. / Na chewch. Beth sy'n bod? Gorchmynion Edrycha. Tyrd efo fi. = Dere gyda fi. Eraill Mae'n ddrwg gen i. = Mae'n flin 'da fi. Does dim pris. Gawn ni weld.	doniol dillad llyfrau gemau pensiliau lliw llenni dail blodau ffrind yna dwy bunt tair punt pedair punt arian = pres planhigyn lliwgar anghywir rhy fach rhy fawr rhy binc rhy felyn pot pi-pi perffaith

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau help? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.

Beth sy yn y ...?

Edrycha (ar y ...). [Hefyd: **Edrychwch (ar y llun yma).**

Beth am ...?

Ble mae ...?

Ydy e'n / o'n / hi'n ...? Ydy./ Nac ydy.
Beth wyt ti'n feddwl o'r ...?; Mae'n ...; Dw i'n meddwl bod y ... yn ...
Perffaith!

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Yn y siop** (Uned 4, Rhan 2), lle mae'r cymeriadau'n mynd i mewn i'r siop, yn edrych o gwmpas ac yn trafod prisiau rhai o'r eitemau. Stopiwch y ffilm ar ôl iddyn nhw edrych ar y llyfr.

- Gofynnwch gwestiynau cyffredinol i'r disgyblion er mwyn gweld faint maen nhw wedi'i ddeall, e.e.

Ble mae Beca a Tom?

Beth ydy enw'r siop?

Yn y siop, ble mae Bob?

Pwy sy yn y siop?

Beth sy yn y siop?

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu eu cwestiynau eu hunain, yn seiliedig ar y rhan hon o'r ffilm a gellid gofyn y cwestiynau hyn mewn cwis.

- Gofynnwch i'r disgyblion restru beth sydd yn y siop:

Beth sy yn y siop?

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?

- Ar ôl mynd drwy'r eitemau sydd wedi eu rhestru, gallech chi chwarae'r darn eto a gofyn iddyn nhw ychwanegu at eu rhestr drwy ddisgrifio'r eitemau, e.e.

esgidiau du a gwyn

esgidiau streipiog du a gwyn

- Tynnwch sylw at yr arwydd yn y ffenest sy'n cyfeirio at y sêl ac eglurwch yr ymadrodd

Mae deg y cant i ffwrdd.

Adolygwch y cysyniad mathemategol, gan ddefnyddio adnoddau priodol, e.e.

Beth ydy deg y cant o ddau ddeg?

Beth ydy deg y cant o bedwar deg?

Beth ydy deg y cant o gant?

a.y.b.

Sylwer: mae treigladd meddal ar ôl o.

Paratowch labeli, e.e.

£2.00

£3.00

£4.00

a.y.b. a gofynnwch i'r disgyblion faint fyddai'r symiau hyn pe bai gostyngiad o 10%:

Faint? Mae deg y cant i ffwrdd.

Chwaraewch y darn eto a stopiwch y ffilm bob tro mae Tom yn tynnu sylw at y ffaith fod 10% oddi ar y pris.

Gofynnwch i'r disgyblion roi'r pris cywir.

- Cyn chwarae'r darn nesaf, eglurwch fod Tom yn mynd i'r ystafell newid i drïo dillad ymlaen. Adolygwch y geiriau ar gyfer dillad a rhai ansoddeiriau. Yna gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu beth mae'n ei wisgo ac i ysgrifennu disgrifiad byr, e.e.

Beth mae Tom yn wisgo?

Mae Tom yn gwisgo ...

**Mae e'n / o'n gwisgo ...
crys coch gyda ffriliau
crys T lliwgar
trowsus oren llachar
het fawr binc
cap bach glas**

Anogwch nhw i ddefnyddio'r patrwm iaith:
Dw i'n meddwl bod Tom yn gwisgo ...

Gofynnwch i'r disgyblion ddweud wrth bartner beth maen nhw'n dychmygu mae Tom yn ei wisgo. Yna, gall y partner geisio tynnu llun beth sy'n cael ei ddisgrifio. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddyn nhw wrando'n ofalus a gofyn am fwy o fanylion, e.e.

Pa liw?

Ydy e'n / o'n ...?

Ydy'r ... yn ...?

Gofynnwch i'r disgyblion ddal eu lluniau i fyny a'u disgrifio:
Dyma Tom. Mae e'n / o'n gwisgo ...

- Chwaraewch y darn nesaf ond stopiwch cyn gynted ag y byddwch chi'n clywed y cwestiwn:
Beth ar y ddaear wyt ti'n wisgo?

Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio'r dillad. Trafodwch pa ddisgrifiad oedd yr un agosaf at y dillad a welir ar y sgrin.

- Chwaraewch weddill y darn hwn - hyd at y man lle mae Bob yn cael ei achub.
- Gallai'r disgyblion actio'r sefyllfa a welir ar y sgrin mewn grwpiau o 3 - hyd at y man lle mae Tom yn sylweddoli'n ddramatig fod Bob wedi cael ei werthu, e.e.

Cwsmer: **Dw i eisiau hwn os gwelwch yn dda.**

Ga i hwn os gwelwch yn dda?

Faint ydy hwn?

Cynorthwydd: **Punt pum deg.** (neu swm arall)

Tom: **Ble mae Bob?**

a.y.b.

Gallen nhw berfformio'r sefyllfa o flaen y dosbarth / grwpiau eraill a gallen nhw roi marciau i'w gilydd am gynnwys / actio dramatig a.y.b.

- Yna, gallen nhw actio'r sefyllfa lle mae Beca a Tom yn ceisio prynu Bob yn ôl. Unwaith eto, gellir newid y patrymau a gellir amrywio'r swm mae'n rhaid ei dalu.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion drafod faint o elw mae'r wraig wedi'i wneud drwy werthu Bob yn ôl i Tom a Beca.

- Chwaraewch y darn olaf – hyd at ddiwedd y ffilm.

Gallai'r disgyblion actio'r sefyllfa hon yn union fel y mae hi ar y ffilm neu gallen nhw newid lliw a chynllun y pot a.y.b.

Gan ddefnyddio'r cardiau siarad isod gallai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfaoedd a ddisgrifir. Dylen nhw gofio tynnu 10% oddi ar y pris fel y bo'n briodol.

Cerdyn Siarad 30:

A: Rwy'ti mewn siop elusen. Rwy'ti eisiau prynu sawl peth.

B: Ti ydy'r siopwr.

Cerdyn Siarad 31:

A: Ti ydy'r siopwr mewn siop elusen.

B: Rwy'ti ti mewn siop elusen ac rwy'ti ti eisiau prynu anrheg i ffrind.

- Yna, gallai'r disgyblion uwchraddio dilledyn sydd wedi ei brynu mewn siop elusen. Byddai hyn yn golygu cynllunio'r uwchraddiad a dewis defnyddiau addas cyn dechrau ar y gwaith.

Dylen nhw siarad cymaint o Gymraeg â phosib tra byddan nhw'n gweithio, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau sydd i'w gweld yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.

- Chwaraewch y ffilm drwyddi eto er mwyn adolygu a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?
Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'r DVD yn grêt / wych.

Mae'r DVD yn ddoniol.

Mae'r DVD yn ddiddorol.

Mae'r DVD yn hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae e'n / o'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae Tom yn ddoniol.

Dw i ddim yn hoffi'r DVD achos dw i ddim yn hoffi siopa.

Os yw'n briodol, gallech chi gyflwyno'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos mae'r siop yn ddiddorol iawn.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn hwyl achos mae Tom yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiflas iawn achos dw i ddim yn hoffi siopa.

Dw i'n meddwl bod y stori'n wirion / ddwl.

- Yna, gellid cyflwyno a darllen y ffeithlen **Dr Barnardo**. Er bod peth o'r eirfa newydd yn cael ei chyflwyno ar y cerdyn, nid yw pob gair yn cael ei egluro er mwyn meithrin darllenwyr annibynnol. Felly, dylid annog y disgyblion i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar y cerdyn ynghyd â'r cyd-destun i geisio dyfalu ystyr geiriau fel **stryd / strydoedd, begian a gwteri**. Dylid eu hannog hefyd i ystyried eu tebygrwydd i'r geiriau Saesneg.

Dylai'r disgyblion chwilio am wybodaeth yn y darn, llenwi'r bylchau a darllen y cerdyn ar goedd.

- Gan fod y darn hwn yn adolygu patrymau sylfaenol sy'n cael eu defnyddio wrth ysgrifennu am rywun yn y gorffennol, e.e.

Roedd ...

Roedd e'n/o'n ...

mae'n rhoi'r 'arfau' angenrheidiol i'r disgyblion fedru ysgrifennu am bobl o'r gorffennol. Gallen nhw gyfeirio hefyd at y llyfrau darllen am y Tuduriaid ym Mhecyn 2 ac am bobl o gyfnod Fictoria ym Mhecyn 3 er mwyn cael enghreifftiau eraill. Felly, gellid gofyn i'r disgyblion ysgrifennu am gymeriad arall o'r gorffennol, e.e. o'r cyfnod Fictoraidd, gan y byddai hyn yn atgyfnerthu'r gwaith a wnaed yn Uned 3.

Uned 4: Rhan 3 – Pridd

Nodau:

- Cyflwyno stori **Merched Beca** drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Atgyfnerthu'r defnydd o amser amherffaith y ferf: **Roedd ...; Roedden nhw'n ...**
- Parhau gyda'r brif stori – diwallu anghenion y planhigyn
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i'n hapus i fynd. Mae angen bwced a rhaw. Un o Ferched Beca ydw i. Roedd dyn rhyfedd yn y cae. Roedd e'n / o'n gwisgo dillad merch. Roedd e'n / o'n rhyfedd iawn. Pwy oedd e / o? Pwy ydy Merched Beca? Rwy't ti'n gywir. Pwy oedd Merched Beca? Dynion oedden nhw ond roedden nhw'n gwisgo fel merched. Roedden nhw'n protestio. Roedd rhaid talu i fynd drwy'r gatiau. Rhaid gwneud rhywbeth.	stori hir nôl Merched Beca cae de-orllewin Cymru hen ddillad protestio rhywbeth gât, gatiau

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydych chi'n feddwl o'r siop? Ble mae'r pot? Wyt ti'n barod? Beth sy'n bod? Dydy Bob ddim yn gallu sefyll. Oes pridd yn y pot? Oes. / Oes, mae pridd yn y pot. / Nac oes. / Nac oes, does dim pridd yn y pot. Pa fferm? Ble mae'r fferm? Yng Nghymru. Beth am aros yma? Pwy wyt ti? ... ydw i Ga i help os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Gorchmynion Sefa. Eraill Roedd y siop yn ... Mae angen pridd. Dw i'n teimlo'n ofnus. Dw i ddim eisiau aros yma.	perygus menig pridd anhygoel amser maith yn ôl Oes Fictoria actio drama yn grac / yn flin / yn ddig

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydych chi'n feddwl o'r ...? [Hefyd: **Beth wyt ti'n feddwl o'r ...?**]

Ydych chi'n barod?; Wyt ti'n barod?

Beth sy'n bod?

Oes ... yn y ...?

Ga i help os gwelwch yn dda? Cei.; Na chei.

Beth wyt ti eisiau? Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Anhygoel!

Wyt ti eisiau clywed stori ...? [Hefyd: **Ydych chi eisiau clywed stori ...?**]

Esgusodwch fi.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Pridd** (Uned 4, Rhan 3) hyd at y man lle mae Beca'n gadael y Pod-antur Cymraeg.

- Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall beth sy'n digwydd:

Beth sy'n digwydd?

Ble mae Beca'n mynd?

Pam mae Beca'n mynd i Efailwen?

Ydy Tom yn mynd?

Pam dydy Tom ddim yn mynd?

Ydy Bob yn mynd?

Yn ogystal, gellid ysgrifennu'r cwestiynau hyn ar ddarn o gerdyn a gallai'r disgyblion eu gofyn i'w gilydd – byddai hyn yn golygu darllen ar goedd.

Gallen nhw ysgrifennu eu cwestiynau eu hunain hefyd a gellid eu gofyn mewn cwis.

- Tynnwch sylw at yr ymadrodd:

De-orllewin Cymru

[Byddan nhw'n gyfarwydd â **De Cymru** a **Gorllewin Cymru** mwy na thebyg.]

Gofynnwch iddyn nhw edrych ar fap o Gymru ac enwi trefi a phentrefi gwahanol yn ne-orllewin Cymru. Yn ogystal, gallen nhw roi cyfeirnodau grid i'w partneriaid er mwyn cynorthwyo'u partneriaid i ddod o hyd iddyn nhw.

- Chwaraewch y darn nesaf, lle mae Beca'n dod ar draws un o Ferched Beca – hyd at y man lle mae hi'n dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Ydych chi'n cofio?

Beth oedd y dyn yn wisgo?

Sut oedd Beca'n teimlo?

Eglurwch fod y person hwn yn un o Ferched Beca – grŵp o ddynion o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd yn gwisgo fel merched pan oedden nhw'n protestio yn erbyn tollbyrth a'r taliadau annheg.

Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am y bobl hyn, gan gynnwys delweddau, ac i wneud nodiadau. Yna, gallen nhw gyfnewid gwybodaeth.

- Eglurwch y byddan nhw'n clywed Sgrin yn darllen o lyfr yn y darn nesaf. Cyn chwarae'r darn, fodd bynnag, cyflwynwch y geiriau canlynol:

de-orllewin

calch

marchnad

**ffordd
tollborth
talu
gât, gatiau
ceffyl
buwch**

Efallai y bydd geiriau eraill na fydd y disgyblion yn eu deall yn y darn ac felly eglurwch y dylen nhw ddefnyddio'r delweddau i'w helpu i ddeall ac nad oes angen iddyn nhw ddeall pob gair pan fyddan nhw'n gwrandao neu'n darllen - dylen nhw geisio deall hanfodion y stori.

- Chwaraewch y darn nesaf – hyd at y man lle mae Sgrin wedi gorffen darllen y stori. Bydd angen i chi ei chwarae sawl gwaith cyn cyflwyno'r gweithgaredd isod.
- Gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus ar gyfres o ddatganiadau a naill ai cytuno neu anghytuno gyda'r hyn sy'n cael ei ddweud. Gallan nhw naill ai ysgrifennu **Cytuno** neu **Anghytuno** ar fyrddau gwyn bach / eu hoffer electronig a'u dangos ar ôl pob datganiad neu gallan nhw ysgrifennu **Cytuno** ar un cerdyn ac **Anghytuno** ar gerdyn arall a dangos y rhain fel y bo'n briodol.

Unwaith eto, gellid cyflwyno'r datganiadau hyn ar ddarn o gerdyn fel bod un o'r disgyblion yn eu darllen i'r grŵp:

Y datganiadau:

Amser maith yn ôl ...:

Roedd dynion yn protestio. (✓)

Roedd y dynion yn mynd i'r farchnad. (✓)

Roedd rhaid talu i fynd drwy'r gât. (✓)

Roedd y dynion yn grac. (✓)

Roedd y dynion yn gwisgo fel plant bach. (✗)

Roedd y dynion yn gwisgo fel merched. (✓)

Roedd y dynion yn torri'r gatiau. (✓)

- Darllenwch y ddrama **Merched Beca** gyda'r disgyblion – a thynnwch sylw at y delweddau. Trafodwch y rhain, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru yng nghefn y llyfr.

Gofynnwch i'r disgyblion wneud bwrdd stori, gan gynnwys delwedd a brawddeg / brawddegau - er mwyn adrodd y stori.

- Yna, gallai'r disgyblion wneud cyfres o weithgareddau. Gallen nhw:
 - ysgrifennu darnau ffeithiol am Derfysgoedd Beca, gan ddefnyddio ffurfiau **roedd**:
Roedd ffermwyr yn talu i fynd drwy'r gatiau.
Roedd y ffermwyr yn grac.
Roedd y ffermwyr yn protestio.
Roedden nhw'n torri'r gatiau.
 - creu dawn Merched Beca - er mwyn cyfleu ymosodiadau ar dollborth efallai
 - cyfansoddi darn o gerddoriaeth, gan ddefnyddio offerynnau taro er mwyn cyfleu'r ymosodiad
 - tynnu llun neu gyfres o luniau ynghyd â thestun (yn debyg i sribed cartŵn) er mwyn adrodd y stori
 - cynllunio a gwneud modelau, e.e. ceffylau, gwartheg, ceirt, pobl, tollbyrth, a.y.b. Gellid defnyddio'r rhain er mwyn cyfleu diwrnod marchnad neu ymosodiad ar dollborth
 - cynllunio a gwneud pypedau. Gellid defnyddio'r rhain i adrodd y stori.
 - actio'r ddrama.

Awgrymir mwy o weithgareddau yng nghefn y llyfr.

DRAFT

Wrth i'r disgyblion wneud y gwaith celf, dylen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud yn Gymraeg ac yna dylen nhw werthuso'u gwaith, gan ddefnyddio patrymau a restrir yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 32**:
Un o Ferched Beca wyt ti ac rwyt ti yn y gadair goch. Rhaid ateb cwestiynau'n grŵp.

Gan ddefnyddio'r patrymau sydd wedi eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw ymadroddion cyfarwydd eraill, dylai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa yma.

- Yna, gallen nhw ysgrifennu erthygl / cyfweiliad am un o **Ferched Beca**, neu am yr ymgyrch yn gyffredinol, ar gyfer papur newydd cyfoes, gan gynnwys delwedd. Gan y byddan nhw'n ysgrifennu ar gyfer papur newydd cyfoes, bydd y rhan fwyaf o'r erthygl yn yr amser presennol, e.e.

Dyma ...

Mae e'n grac achos ... / Mae o'n flin achos ...

Rhaid talu i fynd ...

Mae e'n / o'n dweud, "Rhaid gwneud rhywbeth."

a.y.b.

Mae patrymau iaith sy'n addas ar gyfer cyfweiliad i'w gweld ar **Cerdyn Siarad 32**.

- Chwaraewch y darn olaf.

Uned 4: Rhan 4 – Compost

Nodau:

- Cyflwyno'r cysyniad o wneud compost drwy gyfrwng y Gymraeg
- Parhau â'r brif stori – diwallu anghenion y planhigyn
- Adolygu rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Rhaid cael pridd. Wyt ti'n hapus i fynd i ...? Mae'n drewi. Mae'n drewi'n ofnadwy. Maen nhw'n cymysgu'r bwyd a'r pethau gwyrdd. Maen nhw'n rhoi'r bwyd a'r pethau gwyrdd yn y bocs. Maen nhw'n symud y bwyd a'r pethau gwyrdd i focs arall. Maen nhw'n troi'r pridd.	mynd 'nôl aros drewi edrych o gwmpas pethau croen

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth am fynd i Gymru eto? Beth ydy hwn? Beth sy'n digwydd? Beth wyt ti'n ddefnyddio? Wyt ti eisiau dod? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. Wyt ti'n siŵr? Ydw. / Nac ydw. Ga i help os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Ble ydw i? Ble ar y ddaear ydw i? Ble mae'r siswrn? Wyt ti'n gwybod beth ydy hwn? Gorchmynion Ewch at y cylch coch. Gwranda. Arhosa yma. Eraill Dydy Bob ddim yn gallu sefyll. Ych a fi! Mae'n gynnes. Croeso 'nôl.	cae Merched Beca felly aros ffrwythau afal, afalau oren, orennau planhigyn, planhigion deilen, dail yma adre = gartre Eryri

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Helpa ni. [Hefyd: **Helpwch ni.**]

Ga i help os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch.

Wyt ti'n hapus i ...? [Hefyd: **Ydych chi'n hapus i ...?**]

Dim problem.

Wyt ti eisiau ...? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch. [Hefyd: **Ydych chi eisiau ...?**]

Wyt ti'n siŵr? Ydw. / Nac ydw. [Hefyd: **Ydych chi'n siŵr...?**; **Ydyn. / Nac ydyn.**]

Beth ydy hwn?

Ble mae'r ...?

Beth wyt ti'n ddefnyddio?; Dw i'n defnyddio ...; [Hefyd: **Beth ydych chi'n ddefnyddio? Rydyn ni'n defnyddio ...**]

Beth am ... ? (+ treigladau meddal); Syniad da!; Na, dw i ddim yn meddwl.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch nad yw Tom a Beca wedi llwyddo i gael pridd ar gyfer Bob a'u bod nhw'n bwriadu trio eto yn y darn hwn. Chwaraewch y ffilm **Compost** (Uned 4, Rhan 4) hyd at y man lle maen nhw'n rhoi Bob mewn pot newydd.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm. Ar ôl iddyn nhw roi eu hatebion arferol, gofynnwch iddyn nhw ymestyn eu barn drwy roi rhesymau, e.e.

Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm?

Beth ydych chi'n feddwl o'r ffilm?

Mae'r ffilm yn grêt / wych achos ...

Mae'r ffilm yn ddiddorol achos dw i'n dysgu am gompostio.

Mae'r ffilm yn hwyl achos mae Bob yn ddoniol.

Mae'r ffilm yn ddiflas achos dw i ddim yn hoffi dysgu am gompost.

Dw i'n hoffi'r ffilm achos mae hi'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r ffilm achos mae Tom yn ddoniol.

Os yw'n briodol, gallech chi gyflwyno'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddoniol achos mae Bob yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol achos dw i'n dysgu am gompostio.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn hwyl achos mae Bob yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiflas achos dw i ddim yn hoffi dysgu am gompost.

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio beth oedd yn cael ei gompostio ar y ffilm:

Ydych chi'n cofio?

Pa fwyd oedd yn y compost?

Beth arall oedd yn y compost?

a.y.b.

Cyn chwarae'r ffilm eto, eglurwch y geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r prif brosesau. Bydd y disgyblion wedi dod ar draws rhai o'r rhain mewn cyd-destunau gwahanol eisoes:

cymysgu (fe'i defnyddiwyd wrth baratoi bwyd a dilyn ryseitiai)

torri (fe'i defnyddiwyd wrth wneud gweithgareddau dylunio a thechnoleg)

rhoi (... mewn bocsys mawr) (fe'i defnyddiwyd wrth baratoi bwyd, dilyn ryseitiai a gwneud gweithgareddau dylunio a thechnoleg eraill)

symud (y bwyd a'r pethau gwyrdd i focsys eraill), (defnyddiwyd **symud** wrth wneud ymarferion addysg gorfforol)

troi'r (pridd) (defnyddiwyd **troi** wrth baratoi bwyd a dilyn ryseitiai, wrth ddilyn cyfarwyddiadau ac mewn sesiynau addysg gorfforol)

torri'r (pridd) (defnyddiwyd **torri** wrth wneud gweithgareddau dylunio a thechnoleg)

rhoi'r (pridd mewn bagiau), (defnyddiwyd **rhoi** wrth baratoi bwyd, dilyn ryseitiai a gwneud gweithgareddau dylunio a thechnoleg eraill).

Felly, er bod y darn yn ymddangos yn heriol, dangoswch fod y rhan fwyaf o'r geiriau wedi cael eu cyflwyno o'r blaen - ond mewn sefyllfaoedd gwahanol.

DRAFT

- Gwylwch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando am yr ymadroddion ar y dudalen flaenorol.
- Argraffwch yr ymadroddion canlynol ar gerdyn a'u torri allan:

Cymysgu'r bwyd a'r pethau gwyrdd.	Rhoi'r bwyd a'r pethau gwyrdd mewn bocsys mawr.
Symud y bwyd a'r pethau gwyrdd i focsys eraill.	Troi'r pridd.
Torri'r pridd.	Rhoi'r pridd mewn bagiau.
Dyna ni – pridd da.	Aros

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y geiriau a'u rhoi yn y drefn gywir – er mwyn dangos y camau yn y drefn gywir.

Yn gynta, ...

Yn ail, ...

Yn drydydd, ...

Yna, ... / wedyn, ...

Cymharwch y syniadau a gwylwch y ffilm eto er mwyn gwirio.

- Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu darn am:
Y ganolfan gompostio - sut i wneud compost

Eglurwch eu bod yn gyfarwydd â'r gair **canolfan** eisoes – lle maen nhw wedi clywed y gair o'r blaen?

canolfan hamdden / y ganolfan hamdden

Gofynnwch iddyn nhw ddyfalu ystyr **y ganolfan gompostio**.

Yna, dylen nhw ysgrifennu'r cyfarwyddiadau ar gyfer cynhyrchu compost, gan gynnwys delweddau lle y bo'n briodol. Gallen nhw edrych ar y wefan ganlynol er mwyn cael mwy o wybodaeth: <http://www.cwmenvironmental.co.uk>

Gellid defnyddio'r cardiau uchod er mwyn cynnig cefnogaeth a chymorth yn ôl yr angen:

Yn gynta, rhaid ...

Yn ail, rhaid ...

Yna, rhaid ...

- Chwaraewch weddill y ffilm, lle mae Beca'n egluro sut mae hi'n cynhyrchu compost gartref.

Ysgrifennwch y geiriau allweddol ar y bwrdd gwyn:

rhoi

croen

hen lysiau

hen ffrwythau

papur / cardbord

torri

rhoi ... yn y bocs bach / mawr

troi

aros

Yna, eglurwch eu bod nhw'n mynd i ddisgrifio mewn grwpiau sut mae Beca'n cynhyrchu compost. Chwaraewch y darn eto. Gall y disgyblion wneud nodiadau os ydyn nhw'n dymuno.

Gofynnwch :

Beth mae Beca'n ddefnyddio?

Sut mae hi'n gwneud compost?

Dylen nhw ysgrifennu'r prif gamau, gan weithio mewn grwpiau.

Yna, dylid cymharu nodiadau.

- Gofynnwch i'r disgyblion drafod beth y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwneud compost. Rhewch gridiau tebyg i'r un isod i'r disgyblion a gofynnwch iddyn nhw drafod a rhestru eitemau priodol ym mhob colofn.

Gallai **Cerdyn Siarad 33** gynnig cefnogaeth a gallai annog y disgyblion i ddefnyddio brawddegau yn hytrach na dim ond rhestru geiriau:

Beth ydych chi'n roi mewn compost?

Siaradwch am hyn a gwnewch restr hir.

Hen ffrwythau, hen lysiau ac ati	Papur ac ati	Dim ...!

Cymharwch y rhestri.

- Trafodwch pam y dylai pobl wneud compost – yn Saesneg neu Gymraeg fel y bo'n briodol. Yna, gallai'r disgyblion ddylunio a gwneud posteri / taflenni / gwybodaeth y gellir ei rhoi ar wefan yr ysgol sy'n dangos sut y dylai pobl wneud compost, e.e.

Compostio – mae'n dda i'r blaned!

Delweddau:

Sut i gompostio:

1. Rhaid rhoi hen ... a ... mewn bocs / bin bach.

(Delwedd o gynhwysydd bach sy'n cael ei ddefnyddio mewn ceginau ar gyfer gwneud compost)

2. Rhaid rhoi'r ... a'r mewn bin yn yr ardd.
3. Rhaid aros.
4. Mae ... a'r ... yn troi'n gompost da i'r ardd.

- Gellid egluro'r broses o wneud compost yn fanylach os yw'n briodol, h.y. y ffaith fod pryfetach a micro-organebau'n dadelfennu'r deunyddiau yn y bin compost.
- Gallech chi wneud eich tomen / bin compost eich hun mewn man addas ar dir yr ysgol, os yw'n briodol, a gallai'r disgyblion gynllunio'u bin compost eu hunain.

Eglurwch fod angen gosod y bin ar bridd fel bod y pryfetach, a'r mwydod yn benodol, yn gallu mynd i mewn iddo'n hawdd. Gallech chi egluro hefyd:

Rhaid cael lle cynnes – rhaid cael haul.

Rhaid cael ocsigen.

Rhaid cael dŵr.

neu

Mae angen lle cynnes – mae angen haul.

Mae angen ocsigen.

Mae angen dŵr.

Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith hwn, torrwch allan y cardiau sydd ar y cerdyn darllen **Compostio** a rhowch nhw wyneb i waered ar y bwrdd. Gofynnwch i'r disgyblion eu darllen yn ofalus a'u gosod yn y drefn gywir.

- Gallai'r disgyblion wneud posteri sy'n gofyn i ddisgyblion roi calonnau afalau, ffrwythau a llysiau gwastraff mewn biniau penodol, a gellid eu rhoi mewn mannau priodol o gwmpas yr ysgol, e.e.

Ydych chi'n cael ffrwythau i ginio?

Beth? Afalau? Orennau? Bananas?

Peidiwch taflu'r canol!

Delwedd o galon afal

Peidiwch taflu'r croen!

Delwedd o groen banana a chroen oren

Defnyddiwch y biniau compost!

Ydych chi'n defnyddio papur a chardbord?

Peidiwch taflu'r papur gwastraff.

Delwedd o ddarnau o bapur / cerdyn lliw

Defnyddiwch y biniau compost!

Uned 4: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Nod:

- Adolygu cynnwys ffeithiol yr uned
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Faint oedd Bob ym mis Hydref? Sawl centimetr? Wyth deg un centimetr. Pryd mae’r siop yn agor? Am ... Mae’r siop yn agor am ... Pryd mae’r siop yn cau? Am ... Mae’r siop yn cau am ... Faint ydy hwn? Punt pum deg (ceiniog). Ga i fag? Cewch. / Na chewch.	rhyfedd tyfu centimetr gwybod ar ddydd Llun ar ddydd Mawrth ar ddydd Mercher ar ddydd Iau ar ddydd Gwener ar ddydd Sadwrn ar ddydd Sul pris prynu ceiniog punt da da iawn ardderchog yn grac = yn ddig = yn flin
Eraill ym mis ... Dydy e / o ddim wedi tyfu. Roedd dynion yn ... Roedden nhw’n protestio.	

Trosglwyddo’r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti’n iawn? Ydw. / Nac ydw. [Hefyd: **Ydych chi’n iawn? Ydyn. / Nac ydyn.**]

Beth wyt ti eisiau? Dw i eisiau ... [Hefyd: **Beth ydych chi eisiau? Rydyn ni eisiau ...**]

Sut mae gwneud ...?

Helpwch ... i ...

Pardwn?

Beth wyt ti’n feddwl o(’r) ...? [Hefyd: **Beth ydych chi’n feddwl o(’r) ...?**]

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas rhan hon y DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi’n cofio?** (Uned 4, Rhan 5) fesul rhan, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Adolygwch y rhifau hyd at 100 cyn chwarae’r rhan gyntaf.

Dywedwch wrth y disgyblion am wrando’n ofalus tra byddan nhw’n gwylio’r darn oherwydd bydd cwis ar y diwedd.

Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf a gofynnwch i’r disgyblion geisio ateb cwestiynau Beca:

Faint oedd Bob ym mis ...?

Roedd Bob yn ...

Chwaraewch y darn eto os bydd angen fel bod y disgyblion yn gallu cofnodi'r rhifau ac yna ateb y cwestiynau.

Adran 2

- Chwaraewch yr ail ran. Stopiwch y ffilm ar ôl y cwestiwn bob tro os bydd angen a gofynnwch i'r disgyblion ymateb, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar yr amserlen.

Adran 3

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae'r cymeriadau'n ymweld â siop elusen. Dylai'r disgyblion wyllo'r darn cyntaf. Yna, pan fydd yr ail ddarn yn cael ei ddangos, dylen nhw geisio cofio'r gair/geiriau coll bob tro y bydd marc cwestiwn yn ymddangos ar y sgrin.

Adran 4

- Y dasg yn yr adran hon yw **Siaradwch am Ferched Beca.**

Dangoswch ymgais gyntaf Tom a stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin ofyn:
Ydy Tom 'yn dda', 'yn dda iawn' neu'n 'ardderchog'?

Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio:

Pwy sy'n meddwl bod Tom 'yn dda'? Dwylo i fyny.

Pwy sy'n meddwl bod Tom 'yn dda iawn'? Dwylo i fyny.

Pwy sy'n meddwl bod Tom 'yn ardderchog'? Dwylo i fyny.

Cyfrifwch y pleidleisiau:

Faint sy'n meddwl bod Tom 'yn dda'?

Faint sy'n meddwl bod Tom 'yn dda iawn'?

Faint sy'n meddwl bod Tom 'yn ardderchog'?

Dangoswch ail ymgais Tom a stopiwch y ffilm eto ar ôl i Sgrin ofyn y cwestiwn.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn ac, os yw'n briodol, am eu rhesymau – yn Saesneg neu yn Gymraeg:

Pwy sy'n meddwl bod Tom 'yn dda'? Pam?

Pwy sy'n meddwl bod Tom 'yn dda iawn'? Pam?

Pwy sy'n meddwl bod Tom 'yn ardderchog'? Pam?

Tynnwch sylw at y dasg ar y diwedd:

Eich tro chi nawr.

Siaradwch am Ferched Beca.

Anogwch y disgyblion i ddweud cymaint â phosib am Ferched Beca. Gallen nhw ysgrifennu am Ferched Beca yn ogystal.

Adran 5

- Nod yr adran hon yw annog y disgyblion i roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â chynhyrchu compost.
- Dangoswch y ffilm.
- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu sylwebaeth ar gyfer y ffilm, gan ddefnyddio geiriau a'r ymadroddion a gyflwynwyd yn Rhan 4.
- Yna, ar ôl cymharu syniadau a sicrhau bod y cyfarwyddiadau'n gywir, recordiwch y disgyblion yn darllen y cyfarwyddiadau.

Adran 6

- Cyn cyflwyno'r llyfr **Compost Arbennig**, trafodwch y bwyd a welir yn y llyfr, e.e. sut mae'r bwyd yn tyfu (ar goed / planhigion / o'r ddaear), sut mae'n cael ei ddefnyddio, (e.e. ei fwyta'n amrwd, mewn pasteiod, ar bizzas, er mwyn gwneud bara a.y.b.)
Gallech chi wneud peth o'r gwaith hwn yn Gymraeg, e.e.

Beth ydy hon?

Coeden

Beth ydy'r rhain?

Coed.

Beth ydy hwn?

Planhigyn / Planhigyn tomato / Planhigyn pupur.

Beth ydy'r rhain?

Planhigion.

Wyt ti'n hoffi tomatos / pupur / pinafal?

Sut wyt ti'n bwyta tomatos / pupur / pinafal?

Wyt ti'n bwyta yd?

Sut wyt ti'n bwyta yd?

Ble wyt ti'n bwyta yd?

Eglurwch eich bod chi'n bwriadu darllen am

compost arbennig

planhigion arbennig.

Tynnwch sylw at y gair **arbennig**.

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried pam mae'r compost yn **arbennig**.

Adolygwch y canlynol hefyd:

hau

hadau

a chyflwynwch

pinafal, pinafalau

pupur, pupurau

india-corn

gwenith

Eglurwch mai chwedl fodern yn nhraddodiad y **Stori Celwydd Golau** ydy'r stori, h.y. stori sy'n gor-ddweud ac sy'n cynnwys digwyddiadau annhebygol – stori sydd wedi bod yn boblogaidd yng Nghymru ers canrifoedd.

- Cyflwynwch y llyfr. Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r llyfr?

Beth ydych chi'n feddwl o'r llyfr?

Mae'r llyfr yn grêt / wych.

Mae'r llyfr yn ddoniol.

Mae'r llyfr yn ddiddorol.

Mae'r llyfr yn hwyl.

Mae'r lluniau'n dda.

Mae'r lluniau'n lliwgar.

Mae'r lluniau'n ardderchog.

Mae'r stori'n wirion / ddwl.

Dw i'n hoffi'r llyfr achos mae e'n / o'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r lluniau achos maen nhw'n lliwgar.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn grêt / wych.
Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddoniol.
Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiddorol.
Dw i'n meddwl bod y llyfr yn hwyl.
Dw i'n meddwl bod y llyfr yn wirion / ddwl.

Trafodwch y cwestiynau a restrir yng nghefn y llyfr.

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y stori ar goedd neu ei hactio mewn grwpiau.

- Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu storïau tebyg mewn grwpiau. Trafodwch syniadau i ddechrau a rhowch eirfa yn ôl yr angen.

Ar ôl iddyn nhw ysgrifennu eu storïau, gofynnwch iddyn nhw dynnu lluniau neu greu darnau o gelf i fynd gyda'r gwaith.

Yna, gallen nhw ddarllen gwaith ei gilydd a gwerthuso gwaith celf ei gilydd.

- Gallai'r disgyblion baratoi bwyd sy'n cynnwys y cynhwysion sy'n cael eu crybwyll yn y llyfr neu yn eu gwaith.

Uned 5

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Llafaredd

Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol mewn amryw sefyllfaoedd mewn gwaith pâr a gwaith grŵp, e.e. wrth iddyn nhw wneud y tasgau sydd ar y **Cardiau Siarad**. Maen nhw'n gofyn cwestiynau ac yn rhoi gwybodaeth ffeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. yn y gadair goch ac wrth iddyn nhw ofyn am farn a gwybodaeth. Maen nhw'n mynegi barn mewn perthynas â'r DVD, Glan-Ilyn, llyfrau a.y.b. ac yn chwarae rôl mewn gwahanol sefyllfaoedd. Gofynnir iddyn nhw ddisgrifio modelau maen nhw'n eu creu ac i drafod cynnwys a delweddau mewn llyfrau a.y.b.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrandao'n ofalus ar y ffilm ac i nodi'r prif bwyntiau mewn dulliau amrywiol, e.e. drwy wneud gwaith llafar, drwy ysgrifennu ac ateb cwestiynau mewn cwis a thrwy gwblhau gridiau. Yn ogystal, gellid rhoi crynodeb o ran o'r ffilm i'r disgyblion gyda pheth ohono'n **gywir** a pheth yn **anghywir**. Yna, byddai angen iddyn nhw nodi'r camgymeriadau ar ôl gwyllo'r ffilm. Gallai'r disgyblion ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i ddeunyddiau darllen amrywiol, e.e. llyfr ffeithiol am ddŵr, chwedl Gymreig, deialogau a ffeithiau a diagramau. Gofynnir iddyn nhw gymharu eu bywyd gyda bywyd plentyn sy'n byw yn Uganda ac i roi cyfres o ddigwyddiadau sydd wedi cael eu cofnodi ar gardiau darllen yn y drefn gywir. Mae cyfleoedd i gwblhau grid a chymharu dwy chwedl maen nhw wedi'u darllen, h.y. **Dial!** (Rhan 2) a **Cantre'r Gwaelod** (Pecyn 2: Uned 6, Rhan 1).

Mae cyfleoedd hefyd i ddarllen ar goedd wrth i'r disgyblion ddarllen deialogau, eu bwletin tywydd eu hunain, cwestiynau am y ffilm sydd wedi cael eu hysgrifennu ar gerdyn, brawddegau sydd i'w rhoi yn y drefn gywir a sylwebaeth ffilm y gofynnir iddyn nhw ei hysgrifennu yn Rhan 4.

Anogir y disgyblion i ddarllen llyfrau sydd wedi cael eu hysgrifennu ar gyfer dysgwyr y Gymraeg, e.e. Non ap Emlyn, *O, mae hi'n wlyb!*, Awen, 2009, Atebol, 2011
Non ap Emlyn, *Heini! Rasio Gwahanol*, Atebol, 2012
Non ap Emlyn, gol. *Sgram!*, Awen 2008, Atebol, 2012

Mae cyfleoedd hefyd i ddarllen gwybodaeth ffeithiol sydd ar wefannau a deunyddiau printiedig mewn perthynas â chanolfan yr Urdd yng Nglan-Ilyn.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion lenwi gridiau, ysgrifennu rhestri, deialogau, hysbysebion a gwahoddiadau, negeseuon e-bost, llythyron a chwestiynau y gellid eu gofyn mewn cwis. Mae cyfleoedd i ysgrifennu posteri, taflenni a chyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd dŵr a deunyddiau i hyrwyddo Glan-Ilyn. Maen nhw'n ysgrifennu am ddigwyddiad yn y gorffennol, e.e. disgrifiad o ymweliad, ac mae cyfleoedd i ysgrifennu a pherfformio rap yn ogystal â cherddi dwli. Fe'u hanogir i ysgrifennu cerdd am y glaw ar ôl darllen cerdd o'r enw **Glaw**. Maen nhw'n ysgrifennu gwybodaeth ffeithiol wrth iddyn nhw ysgrifennu a gwneud diagramau sy'n portreadu'r cylchred dŵr a'r broses o botelu dŵr yn ogystal â sylwebaeth i gyd-fynd â darn o ffilm sy'n dangos beth mae Tom yn ei wneud yn y bore a sut mae'n gwastraffu dŵr.

Mae'r llyfr **Dial!** yn rhoi cyfleoedd i greu bwrdd stori a fydd yn cynnwys testun, i greu cartŵn o'r digwyddiad, a allai gynnwys testun, ac i addasu'r chwedl, a thrwy hynny greu stori gwbl newydd.

Saesneg

Gofynnir i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Uganda a chadwraeth dŵr, gwneud nodiadau a chyfnewid gwybodaeth. Bydd hyn yn golygu chwilio drwy wefannau a llyfrau Saesneg.

Mathemateg

Gellid defnyddio adnoddau a gweithgareddau mathemategol er mwyn adolygu'r rhifau hyd at 100 yn Gymraeg. Yna, gofynnir i'r disgyblion ddefnyddio'r rhifau hyn wrth gyfrifo sawl gwydraid o ddŵr / cwpanaid o de a.y.b. mae aelodau'r dosbarth yn yfed bob dydd.

Mae arian yn cael ei adolygu yn yr uned hon mewn perthynas â'r siop yng Nglan-llyn.

Mae cyfleoedd i lunio holiaduron ar gyfer darganfod faint o ddŵr / pop / sudd ffrwythau / te / coffi a.y.b. mae aelodau'r dosbarth yn yfed bob dydd ac mae cyfleoedd hefyd i lunio graffiau er mwyn dangos y canlyniadau. Yna, gellid dehongli'r graffiau hyn mewn ffordd syml a gellid cymharu'r canlyniadau gan ddefnyddio

**mwyr
llai.**

Yn yr un modd, gellid llunio holiaduron a'u defnyddio er mwyn darganfod sut mae disgyblion yn defnyddio dŵr neu er mwyn cymharu dŵr sydd â blas arno a.y.b.

Gellid gwneud mwyr o waith mewn perthynas â chanrannau yn dilyn y cyfeiriadau at ganrannau yn y gyfrol **Dŵr – Y Ffeithiau!**.

Gwyddoniaeth

Mae'r uned hon yn canolbwyntio'n bennaf ar **Ddŵr** a'i bwysigrwydd i'r ddynoliaeth ac i blanhigion. Dangosir rhai o fanteision yfed dŵr ar y ffilm a gofynnir i'r disgyblion ystyried pa ffactorau sydd eu hangen cyn y gall planhigyn dyfu'n iach. Yn ogystal, gofynnir iddyn nhw feddwl pam mae'r planhigyn yn gwywo ar y ffilm. Felly, rhoddir cyfleoedd iddyn nhw ddysgu am ddŵr ac i gynnal arbrofion perthnasol, e.e. sut mae dŵr yn cael ei gludo drwy goesyn planhigyn, y broses ffotosynthesis, hau hadau a gofalu am blanhigion drwy ddyfrio rhai ond peidio â dyfrio'r lleill.

Cyfeirir at y tri math o ddŵr – hylif, solet a nwy – yn y gyfrol **Dŵr – Y Ffeithiau!** ac awgrymir bod disgyblion yn cymryd rhan mewn arbrawf gwyddonol.

Mae cyfeiriadau at law a'r tywydd, at y gylchred dŵr, storio dŵr o dan y ddaear a'r broses o botelu dŵr.

Mae gwastraffu dŵr a chadwraeth dŵr yn cael eu trafod a gallai'r disgyblion greu deunyddiau sy'n hyrwyddo gwneud defnydd cyfrifol o ddŵr.

Gellid trafod ailgylchu ar ôl tynnu sylw'r disgyblion at y symbol ailgylchu ar y botel ddŵr blastig ar y ffilm.

Daearyddiaeth

Adolygir pwyntiau'r cwrmpawd yn y bwletinau tywydd ac mae hinsawdd Cymru'n cael ei chymharu gyda hinsawdd Uganda yn y gyfrol **Dŵr – Y Ffeithiau!**. Mae'r gyfrol hon yn cyfeirio at blentyn sy'n byw yn Uganda a gellid gwneud mwyr o waith mewn perthynas â'r wlad (lleoliad, gwybodaeth gyffredinol, baner), y bobl a.y.b. Gallai'r disgyblion gymharu a chyferbynnu eu bywyd gyda bywyd plentyn sy'n byw yn Uganda:

**Dw i'n mynd i'r ysgol.
Dw i'n cael dŵr o'r tap.**
a.y.b.

**Dydy ... ddim yn mynd i'r ysgol.
Mae ... yn cario dŵr bob dydd.**

Anogir y disgyblion i ddarllen yr adran ar *Marathon des Sables* (Marathon y Tywod) yn *Heini! Rasio Gwahanol** a gallai hyn arwain at waith pellach ar Ddiffeithdir Sahara a'r hinsawdd boeth, sych.

*Non ap Emlyn, *Heini! Rasio Gwahanol*, Atebol, 2012

Hanes

Gellid adolygu gwaith ar bobl oes Fictoria a wnaed yn Uned 3 wrth i'r disgyblion gyfeirio at gawodydd ac ymolchi.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion chwilio am idiomau am y tywydd sy'n gysylltiedig ag ieithoedd gwahanol (e.e. sut y byddai rhywun yn cyfleu **Mae'n bwrw hen wragedd a ffyn** yn Ffrangeg / Sbaeneg / Eidaleg a.y.b.) a gallen nhw dynnu lluniau er mwyn cyfleu'r idiomau hyn yn weledol. Yna, gellid ffilmio ac animeiddio'r rhain a gallen nhw gael eu dangos mewn arddangosfa sy'n dwyn y teitl **Tywydd Od**.

Gallai'r disgyblion gynhyrchu darn o waith celf ar ôl darllen y chwedl **Dial!**, e.e. byddai *collage* yn hynod o effeithiol gan fod y testun yn benthyg ei hun i ddefnyddio deunyddiau a gweadau gwahanol.

Gallen nhw dynnu lluniau i gyd-fynd â'u gwaith ysgrifenedig yn ogystal â gwneud diagramau i drafod y cylchred dŵr a'r broses o botelu dŵr.

Ceir rhestr o'r patrymau iaith y gallai'r disgyblion eu defnyddio wrth iddyn nhw wneud gwaith celf a'i werthuso yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC3**.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion drefnu arddangosfeydd o'r enw **Tywydd Od** neu **Dŵr!**. Gallai'r un olaf gynnwys gwahanol fathau o chwaraeon dŵr yn ogystal â modelau o fwystfilod (gweler Rhan 2). Gallen nhw wneud model o delyn hefyd, a'i rhoi ar fodel o lyn.

Gallai'r disgyblion wneud pypedau bysedd a gellid defnyddio'r rhain i adrodd chwedl Llyn Tegid neu gellid eu defnyddio mewn sefyllfaoedd chwarae rôl.

Gallen nhw ddylunio bwrdd stori er mwyn adrodd chwedl **Dial!**.

Yn ogystal, gallen nhw gynllunio poteli dŵr / labeli ar gyfer poteli dŵr a gallen nhw ailgylchu poteli a deunyddiau eraill er mwyn gwneud gwrthrych megis bwgan brain.

Addysg gorfforol

Gallai'r cyfeiriad at barti sydd yn y gyfrol **Dial!** arwain at sesiwn dawns a gellid portreadu'r chwedl gyfan drwy gyfres o symudiadau dawns, e.e. hwyl y parti, y plas yn cael ei foddi a'r diwedd glo trist.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion fynegi barn am y raps mae Tom yn eu perfformio yn Rhan 1 ac yna ysgrifennu a pherfformio eu raps eu hunain. Gallen nhw gyfansoddi – a chanu – cân sy'n addas i'w chanu yn y gawod hefyd.

Gellid chwarae a gwerthuso cerddoriaeth telyn a cherddoriaeth draddodiadol o Gymru. Yn ogystal, wrth iddyn addasu eu chwedlau a chyflwyno cerddorion gwahanol i'w straeon, gallen nhw gael cyfle i wrando ar ddarnau gwahanol o gerddoriaeth, a fyddai'n cynnwys offerynnau gwahanol.

Gallai'r disgyblion gyfansoddi a gwerthuso darnau o gerddoriaeth sy'n cyfleu agweddau penodol ar y chwedl **Dial!** a gellid defnyddio'r rhain fel cyfeiliant ar gyfer y dawnsiau a grybwyllwyd uchod.

Gallen nhw chwilio am gerddoriaeth sy'n addas ar gyfer y parti maen nhw eu hunain yn ei gynllunio a thrafod y gerddoriaeth yna.

TGCh

Gallai'r disgyblion chwilio am idiomau sy'n gysylltiedig â'r tywydd mewn ieithoedd gwahanol a gellid eu ffilmio a'u hanimeiddio gan ddefnyddio meddalwedd priodol. Gallen nhw baratoi a chyflwyno bwletin tywydd y gellid ei ffilmio hefyd.

Mae cyfleoedd i gynhyrchu arddangosfeydd dosbarth ar y thema **Tywydd Od, Dŵr a Llyn Tegid**, a allai gynnwys fersiwn o chwedl Llyn Tegid sydd wedi'i dylunio'n hardd. Yn ogystal, gallen nhw baratoi a

DRAFT

chyflwyno cyflwyniad PowerPoint am wersyll Glan-Ilyn a chwarae rôl a chyfweld disgybl sy'n aros yng ngwersyll yr Urdd.

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn chwilio am wybodaeth am Uganda, gwersyll yr Urdd yng Nglan-Ilyn a gwybodaeth am ddŵr. Yn ogystal, gallen nhw ddylunio posteri, taflenni a.y.b. er mwyn perswadio pobl i ofalu am yr amgylchedd drwy beidio â gwastraffu dŵr.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae Rhan 2 yn canolbwyntio ar Lyn Tegid a gwersyll yr Urdd yng Nglan-Ilyn, sy'n rhoi cyfleoedd i ddarllen a dysgu am fudiad yr Urdd.

Mae Rhan 3 yn dangos ffatri potelu dŵr yn Ne Cymru.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Gallai'r disgyblion chwilio am idiomau am y tywydd mewn ieithoedd gwahanol a thrwy hynny godi ymwybyddiaeth o ieithoedd eraill a dulliau eraill o feddwl a.y.b.

Anogir y disgyblion i ystyried o ddifrif sut maen nhw'n defnyddio dŵr ac i feddwl am ddulliau ymarferol o'i arbed.

Anogir y disgyblion i gymharu a chyferbynnu eu bywyd gyda bywyd plant sy'n byw yn Uganda neu mewn gwledydd eraill sy'n dioddef o brinder dŵr.

Datblygu Meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned hon, e.e. drwy ysgrifennu rhestr o eiriau maen nhw wedi'u dysgu eisoes a'u hailddefnyddio, ynghyd â throsglwyddo patrymau iaith sy'n gyfarwydd iddyn nhw eisoes i sefyllfaoedd newydd. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith disgyblion eraill.

Gofynnir iddyn nhw gynllunio parti dosbarth ac i gymharu a chyferbynnu dwy chwedl maen nhw wedi'u darllen.

Datblygu Cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes, ac felly mae'n sicrhau dilyniant a pharhad.

Prif nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, maen nhw'n cael nifer o gyfleoedd i wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw, i gyflwyno gwybodaeth – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i ddod o hyd i wybodaeth a'i dethol, ac i ymateb i'r hyn sydd wedi ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a'i chyflwyno mewn dull priodol, gan wneud defnydd priodol o feddalwedd. Fe'u hanogir i ddefnyddio technoleg at sawl pwrpas, e.e. ffilmio bwletinâu tywydd a.y.b.

Datblygu Rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu'u sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, drwy gasglu gwybodaeth mewn dulliau amrywiol, gan gynnwys holiaduron, a thrwy gyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar unrhyw gyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 5: Rhan 1 – Dŵr

Nodau:

- Cyflwyno thema'r uned hon, h.y. **Dŵr**
- Adolygu'r tywydd a chyflwyno tri ymadrodd newydd: **Mae hi'n pistyllio.**; **Mae hi'n bwrw glaw yn drwm.**; **Mae hi'n bwrw hen wragedd a ffyn.**
- Adolygu'r defnydd o **Bydd hi'n ...** a chyflwyno patrwm newydd yn y dyfodol: **Byddi di'n ...**
- Adolygu'r defnydd o **Paid**
- Gwneud gweithgareddau mathemategol, e.e. adolygu rhifolion, defnyddio holiaduron a llunio a dehongli graffiau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Bydd hi'n pistyllio. Bydd hi'n bwrw glaw yn drwm. Bydd hi'n bwrw hen wragedd a ffyn. Mae glaw / dŵr yn bwysig. Mae ... angen dŵr. Mae e/o angen dŵr. Mae blodau / planhigion / anifeiliaid / pobl angen dŵr. Byddi di'n teimlo'n well. Wyt ti'n teimlo'n well? Mae e'n / o'n swnio fel pantio. Dos i nôl ... / Cer i nôl ...	pistyllio yn bwysig ymbarél teimlo'n well corff croen meddal golchi'r corff pantio nôl

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti'n hoffi'r glaw? Ydw. / Nac ydw. Wyt ti'n siŵr? Ydw. / Nac ydw. Wyt ti wedi blino? Ydw. / Nac ydw. Wyt ti'n gallu clywed sŵn? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi'n gallu clywed sŵn? Ydyn. / Nac ydyn. Ydy'r sŵn yn dod o'r drôr / cwpwrdd? Ydy. / Nac ydy. Ydy'r pridd yn sych neu'n wlyb? Mae'r pridd yn sych. Beth ydy'r sŵn? Dw i ddim yn gwybod. Pam mae Bob yn pantio? Gorchmynion Yfa. Yfa ddŵr. Yfa'r dŵr. Paid chwerthin. Paid cysgu. Teimla'r pridd. Eraill Mae hi'n bwrw glaw yng Nghymru. Does dim dŵr yn y jwg. Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi.	heddiw y bore yma y prynhawn yma y gogledd y de y gorllewin y dwyrain eli i lawr i fyny rownd a rownd igam ogam cywir yn sych yn wlyb pridd jwg

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Pardwn?

Beth sy'n bod?

Yfa ddŵr. Byddi di'n teimlo'n well.

Mae ... yn dda i chi.

Wyt ti wedi blino?; [Hefyd: **Ydych chi wedi blino?**]

Wyt ti'n siŵr?

Mae'n ddrwg gen i. / Mae'r flin 'da fi.

Wyt ti eisiau mwy o ... ? (+ treigladd meddal)

O ble mae'r sŵn yn dod?; Beth ydy'r sŵn?

Beth ydy'r broblem?

Dos i nôl ... / Cer i nôl ...; [Hefyd: **Ewch i nôl ...**]

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai thema'r uned hon yw **Dŵr**:
Rydyn ni'n mynd i ddysgu am ddŵr.
- Dechreuwch drwy adolygu'r tywydd yn Gymraeg:
 - yn y presennol: **Mae hi'n ...**
 - yn y gorffennol: **Roedd hi'n ...**
 - yn y dyfodol: **Bydd hi'n ...**

Gan ddefnyddio **Bydd hi'n ...**, driliwch ymadroddion sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn y dyfodol.

Eglurwch fod y darn nesaf yn dangos y bwletin tywydd a bod tri ymadrodd newydd yn cael eu cyflwyno:

pistyllio

bwrw glaw yn drwm

bwrw hen wragedd a ffyn

Er mwyn cael ychydig o hwyl, peidiwch â chyfieithu **bwrw hen wragedd a ffyn** cyn i'r disgyblion wyllo'r darn, ond eglurwch mai idiom yw'r ymadrodd - tebyg i "raining cats and dogs" yn Saesneg. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am ddelweddau eraill y gallen nhw'u defnyddio i ddisgrifio glaw trwm yn gyffredinol ac yna gofynnwch iddyn nhw ddyfalu ystyr **hen wragedd a ffyn** wrth iddyn nhw wyllo (mae'n cael ei animeiddio ar y sgrin).

Chwaraewch ran gyntaf y ffilm **Dŵr** (Uned 5: Rhan 1). Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin egluro pam mae dŵr yn bwysig ac mae e'n dangos ffotograffau o bobl yn defnyddio dŵr mewn ffyrdd gwahanol. Yna, mae'n gofyn:

O ble mae'r dŵr yn dod?

Mae e'n ateb ei gwestiwn ei hun drwy ddweud:

O'r glaw, ac felly mae'r glaw'n bwysig.

- Tra bydd y disgyblion yn gwrandao, gofynnwch iddyn nhw godi llaw bob tro y byddan nhw'n clywed yr ymadroddion newydd.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi llwyddo i weithio allan ystyr **hen wragedd a ffyn**.

Yna, gofynnwch:

Sut bydd y tywydd heddiw?

Sut bydd y tywydd y bore yma?

Sut bydd y tywydd y prynhawn yma?

Sut bydd y tywydd yfory?

Bydd hi'n bwrw glaw / pistyllio / bwrw glaw yn drwm / bwrw hen wragedd a ffyn.

- Gellid cyflwyno'r gyfrol *O, mae hi'n wlyb* ar ôl gwneud hyn.
Non ap Emlyn, *O, mae hi'n wlyb*, Awen, 2009; Atebol, 2011, t.7

Gallai'r disgyblion ddarllen am y cawodydd rhyfedd o losin / fferins, nadredd, adar a physgod a gallen nhw chwilio ar y rhyngwrwyd am enghreifftiau eraill, os yw'n briodol. Yna, gallen nhw ysgrifennu bwletin tywydd sy'n sôn am dywydd rhyfedd - **Tywydd Od**, e.e.

Y bore yma, bydd hi'n bwrw siocled yn ... (enw'r pentref / tref lle mae'r ysgol.)

Y prynhawn yma, bydd hi'n ...

a.y.b.

Yna, gallai'r disgyblion dynnu lluniau i gyd-fynd â'u bwletin a gellid egluro'r rhain i aelodau eraill y grŵp.

- Gallai'r disgyblion chwilio am idiomau tywydd mewn ieithoedd eraill a'u cofnodi a thynnu lluniau i'w cyfleu yn weledol, e.e. sut byddai rhywun yn cyfleu **mae'n bwrw hen wragedd a ffyn** yn Ffrangeg / Sbaeneg / Eidaleg a.y.b. Os yw'n briodol, gellid ffilmio'r rhain a'u hanimeiddio.
- Yn ogystal, gallai'r disgyblion chwilio drwy wefannau perthnasol am wybodaeth am y tywydd yn y dyfodol agos ac ysgrifennu bwletin y gallen nhw'i ddarllen ar goedd o flaen y dosbarth / grŵp. Gellid ffilmio hyn. Gellid rhoi mapiau gwag i aelodau eraill y dosbarth / grŵp i'w llenwi gyda delweddau priodol yn seiliedig ar y rhagolygon.
- Yna, gallech chi gyflwyno'r gerdd *Glaw* o'r gyfrol *Sgram!*
Non ap Emlyn (gol.), *Sgram!*, Awen, 2008, Atebol, 2012, t.84

Gallai'r disgyblion ysgrifennu cerddi tebyg neu gallen nhw siarad am y delweddau sydd ar y dudalen, a chynnig rhesymau pam mae'r gerdd yn gorffen gyda'r llinell:

"Diolch am y glaw!"

- Gallai hyn arwain yn naturiol at ystyried y cwestiwn:
Pam mae glaw yn bwysig?

Gallai'r disgyblion drafod hyn mewn grwpiau, gan ddefnyddio'r patrymau canlynol:

Mae glaw yn helpu ...

Mae angen glaw i ...

Mae ... angen dŵr.

- Gallai'r disgyblion gymharu'u hawgrymiadau gyda sylwadau Sgrin ar y ffilm:
Mae blodau angen dŵr.
Mae planhigion angen dŵr.
Mae anifeiliaid angen dŵr.
Mae pobl angen dŵr.

- Gofynnwch i'r disgyblion
Ydych chi'n cofio?
Sut mae'r bobl ar y ffilm yn defnyddio dŵr?
Maen nhw'n brwsio dannedd.
pysgota
golchi dwylo
nofio

- Cyn symud ymlaen i'r darn nesaf, gofynnwch i'r disgyblion restru cynifer o eiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â dŵr â phosib o fewn 2 funud, e.e.
Meddylwch am eiriau dŵr.
Gwnewch restr – mewn dwy / dau funud.
Barod?

Gallen nhw restru:

- berfau neu weithgareddau megis

yfed
golchi
ymolchi
brwsio dannedd
nofio
deifio
padlo
sblasio a.y.b.

- enwau neu eiriau am wrthrychau megis

bath
gwydr
tap
bwced
cwpan
mwg a.y.b.

Gofynnwch:

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?
Sawl gair? / Faint o eiriau?
Beth ydy'r geiriau?

Tra bydd y disgybl / grŵp yn darllen y geiriau sydd ar y rhestr ar goedd, dylai'r disgyblion eraill wirio'u rhestri a rhoi llinell drwy'r geiriau sy'n cael eu henwi.

Ar y diwedd, cymharwch y geiriau sydd ar ôl ar restr pawb a rhowch 5 pwynt am bob gair.

Gofynnwch:

Sawl marc? / Faint o farciau?

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 34**.
Sut ydych chi'n defnyddio dŵr?
Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion ddweud cymaint â phosib am y ffordd maen nhw'n defnyddio dŵr, gan ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn.

- Sefydlwch grwpiau gwahanol a gofynnwch i'r disgyblion ddweud wrth y grwpiau newydd sut mae aelodau'r grwpiau cyntaf yn defnyddio dŵr. Bydd **Cerdyn Siarad 35** o gymorth:
Sut mae ... yn defnyddio dŵr?
Siaradwch am hyn.

Unwaith eto, dylen nhw ddweud cymaint â phosib, gan annog a helpu'i gilydd a defnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn.

- Gofynnwch i'r disgyblion lunio a defnyddio holiaduron er mwyn darganfod pryd maen nhw'n yfed yn ystod y dydd, e.e.
amser codi
amser brecwast
amser snac
amser chwarae
amser cinio
amser mynd allan
amser darllen
amser mynd adre(f)
amser te
amser swper
amser gwely

Yn ogystal, gallech chi gyflwyno

ar ôl

ar ôl chwarae

ar ôl chwarae pêl-droed

ar ôl rhedeg

ar ôl neidio

cyn

cyn cinio

cyn mynd i'r gwely

cyn cysgu

e.e.

Enw:

Amser	Beth:	Pam:
amser brecwast amser snac amser chwarae amser cinio amser mynd allan a.y.b.		

Wyt ti'n yfed amser ...?

Ydw. / Nac ydw.

Beth wyt ti'n yfed amser ...?

Dw i'n yfed ...

Pam wyt ti'n yfed ...?

Dw i'n yfed ... achos ...

... dw i'n hoffi ... yn fawr.

... mae ... yn dda i fi / i ti / i chi.

Gallech chi gyflwyno'r ymadrodd:

Mae syched arna i.

Gofynnwch i'r disgyblion gymharu'r canfyddiadau mewn grwpiau er mwyn llunio graffiau, e.e.

Pwy sy'n yfed amser ...?

Sawl un sy'n yfed amser ...? / Faint sy'n yfed amser ...?

Yna, gallai'r disgyblion egluro'r graffiau i grwpiau eraill, e.e.

Mae ... plentyn yn yfed amser ...

Mae mwy o blant yn yfed amser ... nag amser ...

Mae llai o blant yn yfed amser ... nag amser ...

Sylwer: Efallai y bydd y ddau batrwm diwethaf yn newydd ond bydd y disgyblion wedi dod ar draws **mwyr o** a **llai o** eisoes.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion wneud gwaith ymchwil er mwyn gweld faint o ddŵr y dylen nhw ei yfed bob dydd. Gallech chi ofyn iddyn nhw lenwi bylchau yn y brawddegau hyn:

Rhaid yfed litr bob dydd.

Rhaid yfed gwydraid bob dydd.

- Tynnwch sylw at gwestiwn ac ateb Sgrin ar ddiwedd yr adran hon:

O ble mae'r dŵr yn dod?

O'r glaw, ac felly mae'r glaw'n bwysig.

- Os yw'n briodol, gellid datblygu'r gwaith hwn ymhellach er mwyn egluro'r cylchred dŵr a gellid defnyddio'r llyfr **Dŵr – Y Ffeithiau!** er mwyn atgyfnerthu'r cysyniad. Fodd bynnag, bydd angen egluro'r gair **anweddu** ymlaen llaw a dylech chi sicrhau bod y disgyblion yn gyfarwydd â'r broses o anweddu.

Edrychwch ar y llun / diagram.

Dyma'r haul.

Dyma'r môr – dyma'r dŵr.

Dyma'r mynydd.

Mae'r dŵr yn codi.

Mae'r dŵr yn anweddu.

Dyma'r cymylau.

Mae'r cymylau'n symud. Maen nhw'n mynd dros y mynydd.

Mae hi'n oer dros y mynydd.

Mae'r cymylau'n oeri.

Mae hi'n bwrw glaw.

Mae'r glaw yn syrthio i'r ddaear.

Mae'r dŵr yn mynd 'nôl i'r môr.

Mae'r dŵr yn codi ...

a.y.b.

Gallech chi gyflwyno **cyddwyso** neu **troi'n ddŵr** os yw'n briodol.

Mae mwyafrif y geiriau yn y darn hwn wedi cael eu cyflwyno a'u defnyddio o'r blaen, e.e. cafodd **codi** ei gyflwyno mewn perthynas â chodi o'r gwely (Gweler y gyfrol **Dydd Sadwrn** (P-aC₂ Uned 3, Rhan 3). Mae **symud** wedi cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun ymarfer corff ac mewn gweithgareddau amrywiol eraill. Yma, mae'r geiriau'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun gwyddonol.

Yna, gallai'r disgyblion wneud mwy o waith mewn perthynas â'r cylchred dŵr gan wneud diagramau a'u labelu yn Gymraeg.

- Chwaraewch y rhan nesaf, sy'n dangos pam mae dŵr yn dda i ni, gan ddechrau pan fydd Tom yn dweud,
O, dw i wedi blino.
Stopiwch y ffilm ar ôl i Beca ddweud:
Mae yfed dŵr yn dda i ti.
ac mae Tom yn cytuno drwy ddweud,
Yfa ddŵr a byddi di'n teimlo'n well.
- Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando'n ofalus am ymadroddion sy'n disgrifio sut mae Tom yn teimlo a beth mae e eisïau.

Yna, gofynnwch gwestiynau er mwyn adolygu'r cynnwys:

Sut mae Tom yn teimlo?

Mae Tom wedi blino.

Beth mae Tom yn wneud?

Mae Tom yn yfed dŵr.

Sut mae Tom yn teimlo wedyn?

Mae Tom yn teimlo'n well.

Beth mae Tom eisïau?

Mae Tom eisïau bwyd.

Beth mae Tom yn wneud?

Mae Tom yn yfed dŵr.

Sut mae Tom yn teimlo wedyn?

Mae Tom yn teimlo'n well.

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio beth yw *It will ... / It will be ...* yn Gymraeg, e.e. *It will rain / It will be raining* (a adolygwyd ar ddechrau'r uned hon):

Bydd hi'n ...

Gofynnwch iddyn nhw ddyfalu beth yw ystyr y canlynol – tynnwch sylw at y rhagenw **di**:

Byddi di'n ...

Tynnwch sylw penodol at y patrymau:

Yfa ddŵr.

Byddi di'n teimlo'n well.

- Cyflwynwch y cerdyn darllen **Byddi di'n teimlo'n well**.
Gofynnwch i'r disgyblion actio'r sefyllfaoedd hyn ac yna, mewn paru, i ysgrifennu neu actio sefyllfaoedd tebyg, e.e.

Ymarfer Corff

A: Beth wyt ti'n wneud?

B: Dw i'n rhedeg ... a neidio ... a dawnsio ... a sgipio ... a ...

A: Sut wyt ti'n teimlo?

B: Dw i'n boeth iawn.

A: Wyt ti eisiau diod?

B: Ydw, os gwelwch yn dda.

A: Dyma ti. Dŵr. Yfa ddŵr a byddi di'n teimlo'n well.

Teimlo'n sâl

A: O, dw i'n sâl.

B: Beth sy'n bod?

A: Dw i'n boeth iawn, iawn a dw i'n teimlo'n sâl.

B: Wyt ti eisiau diod?

A: Ydw, os gwelwch yn dda.

B: Dyma ti. Dŵr. Yfa ddŵr a byddi di'n teimlo'n well.

Gellid datblygu'r sefyllfa hon ymhellach os yw'r disgyblion yn gyfarwydd â'r ymadroddion Cymraeg am anhwylderau gwahanol.

- Er mwyn datblygu'r gwaith hwn, gallai'r disgyblion ddarllen yr adran **Marathon poeth** yn y gyfrol *Heini! Rasio Gwahanol** ar ôl darllen yr ail ddeialog ar y cerdyn darllen. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am *Marathon des Sables* (Marathon y Tywod, a gynhelir yn Niffeithdir Sahara) yn ogystal â gwybodaeth sylfaenol am Ddiffeithdir Sahara. Gellid gwneud mwy o waith fel y bo'n briodol. Er enghraifft, mewn gweithgaredd yn y gadair goch, gellid holi un o'r disgyblion sy'n chwarae rôl un o'r rhedwyr am ei g/chefndir.

* Non ap Emlyn, *Heini! Rasio Gwahanol*, Atebol, 2012 (yn enwedig tudalennau 19-21)

- Yna, gallai'r disgyblion ddylunio a chynhyrchu posteri / taflenni / cyflwyniad PowerPoint sy'n seiliedig ar eu deialogau ac sy'n cynghori'r disgyblion i yfed dŵr. Gallen nhw ddefnyddio ymadroddion eraill hefyd e.e.

Wyt ti'n teimlo'n boeth?

Wyt ti wedi blino?

Wyt ti eisiau bwyd?

Wyt ti eisiau diod?

Yfa ddŵr. Byddi di'n teimlo'n well.

Mae dŵr yn dda i ti.

Mae dŵr yn ffantastig.

Rhaid yfed ... litr / gwydraid bob dydd.

- Chwaraewch y rhan nesaf, sy'n cyflwyno rhai o fanteision iachusol yfed dŵr, hyd at y man lle y clywir sŵn pantio rhyfedd yn y Pod-antur Cymraeg ac mae Tom yn mynd i chwilio am Bob - ar ôl i'r cymeriadau sylweddoli mai Bob sy'n gwneud y sŵn.

Os yw'n briodol, gallech chi adolygu rhannau'r corff gyda'r disgyblion a gellid chwarae gemau amrywiol, e.e.

Mae Simon yn dweud ...

Pwyntiwch at eich pen

wyneb

braich / breichiau

coes / coesau

troed / traed

llaw / dwylo

bys / bysedd

trwyn

llygaid

clust / clustiau

ceg

bol / bola

Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar ba rannau o'r corff sydd wedi cael eu cyflwyno eisoes.

Cyflwynwch y geiriau

corff

croen

meddal

tu mewn

Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion:

Pam mae dŵr yn dda?

Mae dŵr yn helpu'r croen / corff.

Mae dŵr yn golchi'r corff – tu mewn.

Gallai'r disgyblion wneud mwy o waith mewn perthynas â'r defnydd o ddŵr yn y corff fel y bo'n briodol.

- Chwaraewch weddill y darn.
Gallech chi stopio'r ffilm ar ôl i Tom ofyn **Pam mae Bob yn frown?**. Gofynnwch i'r disgyblion am eu syniadau, e.e.
Pam mae Bob yn frown?
Mae Bob angen dŵr. / Mae Bob eisiau dŵr.
Rhaid cael dŵr.
Does dim dŵr.
Mae Bob / y pridd yn sych.

Drwy gynnal arbrofion amrywiol gyda hadau, planhigion a blodau wedi'u torri, gellid gwneud mwy o waith er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod angen dŵr ar blanhigion, e.e.

- Gellid hau dwy set o hadau. Dylai'r disgyblion ddyfrio un set yn rheolaidd ond ddylen nhw ddim dyfrio'r set arall o gwbl. Yna, gallen nhw gymharu'r hadau.
- Gellid cymharu dau blanhigyn mewn potiau, gyda'r naill wedi'i ddyfrio'n rheolaidd a'r llall heb ei ddyfrio o gwbl.
- Gellid rhoi blodyn wedi'i dorri, megis carnasiwn gwyn, mewn jar o ddŵr sy'n cynnwys lliw bwyd neu inc er mwyn dangos bod y dŵr lliw neu'r inc yn cael ei 'sugno' i fyny'r coesyn, gan effeithio ar liw'r blodyn.
a.y.b.

Gellid egluro proses ffotosynthesis yn syml, e.e.

Mae planhigyn angen ...

- **golau'r haul**
- **dŵr**
- **carbon deuocsid**

i wneud bwyd.

Gallech chi gyfeirio at y diagram sydd yn y gyfrol **Dŵr – Y Ffeithiau!** er mwyn dangos y broses.

- Yna, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn rhan hon yr uned ynghyd â'r eirfa a'r patrymau iaith sydd wedi eu hadolygu, gallai'r disgyblion ysgrifennu taflenni / llyfrynau / taflenni gwybodaeth ar y pwnc, **Mae dŵr yn bwysig**. Gallen nhw chwilio am fwy o wybodaeth, wrth gwrs, yn ogystal â defnyddio patrymau eraill maen nhw wedi'u dysgu.
- I grynhoi, chwaraewch y ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'r DVD yn grêt / wych.

Mae'r DVD yn ddiddorol achos dw i wedi dysgu llawer.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i'n mwynhau dysgu am ddŵr.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i wedi dysgu llawer.

Mae'r DVD yn ddiflas achos dw i ddim yn mwynhau dysgu am ddŵr.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiflas achos dw i ddim wedi dysgu llawer.

Uned 5: Rhan 2 – Glan-llyn

Nodau:

- Datblygu'r defnydd o ansoddeiriau a chymariaethau, e.e. **Bwystfil mawr du, cas. Mae o fel dinosor enfawr.**
- Rhoi gwybodaeth am wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn
- Rhoi cyfleoedd i gynllunio modelau 3D drwy gyfrwng y Gymraeg, h.y. cynhyrchu bwystfil o glai
- Cyflwyno chwedl Gymreig draddodiadol sy'n gysylltiedig ag ardal Y Bala ac annog y disgyblion i ysgrifennu straeon newydd sy'n seiliedig arni
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i'n cytuno. Beth mae e'n / o'n ddweud? Dw i ddim yn siŵr. Pa fath o fwystfil? Bwystfil mawr, cas. Bwystfil enfawr – fel crocodeil. Bwystfil mawr du, cas. Mae o fel dinosor enfawr.	afon fach afon fawr rhaeadr rhaeadr arall nôl ger canŵio cas drewllyd smotiog

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble mae'r afon fawr? Gawn ni fynd i Gymru? Cewch. / Na chewch. Pam mae'r llyn yma'n hwyl? Beth am fynd i Lan-llyn i nôl dŵr? Syniad da. Beth sy'n bod? Wyt ti'n barod? Ydw. / Ydw, dw i'n barod. / Nac ydw. / Nac ydw, dw i ddim yn barod. Gorchmynion Edrychwch. Paid â phoeni. Bydda'n ofalus. /Bydda'n ofalus iawn. Eraill Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi. Rhaid cael dŵr i Bob.	afon llyn glân hyfryd cwch bwced aros tu allan wrth gwrs bwystfil crocodeil dinosor hipopotamws

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dw i'n cytuno

Edrycha (ar y ...). [Hefyd: **Edrychwch (ar y ...).**]

Ble mae'r ...?

Beth am ...?

Dw i ddim yn siŵr.

Bydda'n ofalus.; [Hefyd: **Byddwch yn ofalus.**]

Pa fath o ... ? (+ treigladd meddal)

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Glan-Ilyn** (Uned 5, Rhan 2) hyd at y man lle mae Sgrin yn cau ar ôl i ni weld creadur rhyfedd yn y llyn. Gallech chi egluro fod yna sibrydion ffantasiol sy'n sôn bod bwystfil yn byw yn Llyn Tegid – yn union fel y mae sibrydion am fwystfil yn Loch Ness. Gallech chi drafod hyn.

Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion wedi deall y cynnwys drwy ofyn nifer o gwestiynau, neu, gallai'r disgyblion ysgrifennu eu cwestiynau eu hunain yn seiliedig ar y ffilm a gellid eu gofyn mewn cwis, e.e.

Ble mae Tom yn mynd?

Glan-Ilyn / i Lan-Ilyn

Pam mae Tom yn mynd i Lan-Ilyn?

Achos mae Bob angen dŵr.

I nôl dŵr i Bob.

Ydy Beca'n mynd?

Nac ydy. (Mae Beca'n aros yn y Pod-antur Cymraeg.)

Ble mae Glan-Ilyn?

Ger y Bala, yng Ngogledd Cymru.

Beth ydy enw'r llyn?

Llyn Tegid.

- Chwaraewch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar y rhan sy'n sôn am Lan-Ilyn. Mewn grwpiau, gofynnwch iddyn nhw restru geiriau sy'n gysylltiedig â Glan-Ilyn. Yna, gofynnwch

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?

Sawl un? / Faint?

Gwrandewch ar syniadau'r grwpiau a rhestrwch y geiriau ar y bwrdd gwyn. Pan fydd y disgyblion yn darllen y geiriau sydd ar eu rhestri ar goedd, dylai'r disgyblion eraill wirio'u rhestri a rhoi llinell drwy'r geiriau sy'n cael eu crybwyll.

Ar y diwedd, cymharwch y geiriau sydd ar ôl ar restr pawb a rhowch 5 pwynt am bob gair. Gofynnwch:

Sawl marc? / Faint o farciau?

- Yna, gallai grwpiau o ddisgyblion ymweld â gwefan Glan-Ilyn er mwyn casglu cymaint o wybodaeth â phosib am y ganolfan. Gallech chi roi gwybodaeth ysgrifenedig i grwpiau eraill, e.e. taflenni, hysbysebion a.y.b. a gofyn iddyn nhw gasglu gwybodaeth sydd yn y deunyddiau hyn. Dywedwch wrthyn nhw am ganolbwyntio ar y delweddau yn benodol.

Yna, gallai'r disgyblion ateb y cwestiynau hyn yn Gymraeg – naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig:

Ble mae Glan-Ilyn?

Beth sy yng Nglan-Ilyn?

Rwyt ti'n mynd i Lan-Ilyn.

Beth wyt ti eisiau gwneud yno?

Beth wyt ti eisiau gwisgo yno?

Beth wyt ti eisiau bwyta yno?

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 36**.
Rydych chi'n mynd i Lan-Ilyn.
Beth ydych chi eisiau gwneud / bwyta / gwisgo?
Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion drafod beth maen nhw eisiau'i wneud yn ystod eu hymweliad â Glan-Ilyn, gan ddefnyddio'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu ynghyd â gwybodaeth o'r ffilm.

Yn ogystal, gallen nhw drafod beth fydden nhw'n ei bacio ar gyfer yr ymweliad, e.e.

Rhaid pacio ... achos dw i eisiau ... yng Nglan-Ilyn.

- Dangoswch y darn sy'n dangos y siop yng Nglan-llyn a gofynnwch i'r disgyblion ateb y cwestiwn **Beth ydych chi'n gallu gweld yn y siop?**

Yna, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 37**:

A: Rwyf ti yn y siop yng Nglan-llyn. Beth wyt ti eisiau?

B: Rwyf ti'n gweithio yn y siop yng Nglan-llyn. Siaradwch.

Mae'r cerdyn hwn yn adolygu gwaith a gyflwynwyd eisoes mewn perthynas â gofyn am bethau / siopa a dylid annog y disgyblion i ddweud cymaint â phosib yn eu sgysiau.

Dylen nhw gyfnewid rôl ar ôl cwblhau'r dasg.

- Yna, gallai'r disgyblion gynllunio a chynhyrchu deunyddiau ar gyfer hyrwyddo Glan-llyn, e.e. taflenni, posteri, cyflwyniad PowerPoint, cyfweiliad radio (efallai gyda rhywun sy'n aros yno). Gallen nhw gynnwys:

gwybodaeth gyffredinol:

Ble mae Glan-llyn?
Beth sy yng Nglan-llyn?
Beth mae'n bosib gwneud yng Nglan-llyn?
Yng Nglan-llyn, mae'n bosib...
Pa fath o fwyd sy yng Nglan-llyn?

iaith berswadiol, e.e.

Mae'n hwyl.
Mae'n ffantastig.
Mae'n wych.
Mae'n gyffrous.
Mae'n anturus.

ffurfiau gorchmynnol, e.e.

Dewch i ...

ffurfiau cwestiwn, e.e.

Beth am ddod i ...?

ffurfiau cwestiwn a gorchmynnol:

Ydych chi'n mwynhau ...?
Wel, dewch i Lan-llyn achos mae'n hwyl!

sylwadau gan bobl sy'n aros yno:

Dw i'n hapus iawn yng Nglan-llyn achos ...
Mae Glan-llyn yn ... achos ...

a.y.b.

- Chwaraewch weddill y ffilm ond cyn gwneud hynny, eglurwch wrth y disgyblion fod yna sôn bod bwystfil yn byw yn Llyn Tegid. Enw'r bwystfil yw **Tegi** (atgoffwch y disgyblion am yr enw Cymraeg am y llyn - **Llyn Tegid**.)

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion chwilio ar y we am erthyglau am **Tegi** ynghyd â delweddau ohono.

Tra byddan nhw'n gwyllo'r ffilm, gofynnwch i'r disgyblion wrando am ddisgrifiadau o'r bwystfil. Dyma rai geiriau allweddol y dylid eu cyflwyno ymlaen llaw:

bwystfil
enfawr
cas
drewllyd
smotiog
ych a fi

- Ar ôl gwyllo'r ffilm, cymharwch ddisgrifiadau'r plant ar y ffilm a'u rhestru ar y bwrdd gwyn. Tynnwch sylw at y ffaith fod disgrifiadau'r plant ar y ffilm yn amrywio. Dangoswch sut mae

nifer o ansoddeiriau'n cael eu defnyddio ar ôl ei gilydd er mwyn ceisio rhoi disgrifiad bywiog ac anogwch y disgyblion i ddefnyddio mwy nag un ansoddair wrth ddisgrifio, os oes modd. Gallech chi ddangos delweddau o anifeiliaid, bwystfilod a.y.b. er mwyn ymarfer hyn os yw'n briodol.

Yn ogystal, gallech chi ysgrifennu disgrifiad o fwystfil, sibrwd y disgrifiad wrth un o'r disgyblion a gofyn iddo / iddi newid y disgrifiad ychydig cyn sibrwd y disgrifiad wrth ddisgybl arall, e.e.

Bwystfil mawr ... du ... cas. Mae o fel dinosor enfawr.

➤ **Bwystfil mawr ... coch ... cas. Mae o fel dinosor enfawr.**

➤ **Bwystfil mawr ... du ... cas. Mae o fel camel enfawr.**

Yna, gallai'r disgyblion sibrwd y disgrifiad wrth ei gilydd mewn grŵp, gan newid un elfen bob tro. Pan fydd pawb wedi cael tro, dylai'r disgybl olaf ddisgrifio'r bwystfil ar goedd er mwyn gweld sut mae'r disgrifiad wedi newid.

- Dywedwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i greu model 3D o **Tegi**.

Dylen nhw ddechrau drwy gynllunio bwystfil ac yna labelu ac egluro'u cynllun:

pen mawr

coes, coesau hir

braich, breichiau byr

corff enfawr

cynffon smotiog

troed, traed drewllyd

Dyma ... (enw'r bwystfil newydd)

Mae e'n / o'n fawr / enfawr / ddu / llwyd / smotiog a.y.b.

Mae e / o fel crocodeil / camel / dinosor.

Gallen nhw naill ai seilio'u cynlluniau a'u modelau ar y disgrifiadau sydd ar y ffilm neu greu bwystfil cwbl newydd. Yna, cyflwynwch y geiriau allweddol isod:

clai

rholio

mowldio

taro

gwneud siâp

tynnu

pinsio

Dangoswch sut y gellir defnyddio'r geiriau'n ymarferol:

Dyma'r clai – clai du.

Dw i'n defnyddio clai du.

Dw i'n rholio'r clai.

Dw i'n mowldio'r clai.

Dw i'n taro'r clai.

Dw i'n gwneud siâp (dinosor) gyda'r clai.

Dw i'n tynnu'r clai ... yma ... ac yma ... ac yma ...

Dw i'n taro'r clai eto.

Dw i'n gwneud coes.

Dw i'n gwneud pen mawr.

Dw i'n gwneud cynffon hir.

a.y.b.

Gofynnwch i'r disgyblion wneud eu modelau ac i ofyn i'w gilydd:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Wyt ti'n mwynhau gwneud model?

Ydw. Dw i'n mwynhau gwneud model. / Nac ydw. Dw i ddim yn mwynhau gwneud model.

Beth ydy enw'r bwystfil?

... (yr enw)

Yna, gellid rhoi cyfleoedd iddyn nhw werthuso'r gwaith, gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau sydd yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.

- I adolygu, chwaraewch y ffilm drwyddi eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am Lan-Ilyn:
Beth wyt ti'n feddwl o Lan-Ilyn?
Beth ydych chi'n feddwl o Lan-Ilyn?

Mae Glan-Ilyn yn grêt / wych.

Mae Glan-Ilyn yn gyffrous.

Mae Glan-Ilyn yn hwyl.

Mae Glan-Ilyn yn llawn antur.

Dw i'n meddwl bod Glan-Ilyn yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod Glan-Ilyn yn gyffrous.

Dw i'n meddwl bod Glan-Ilyn yn hwyl.

Dw i'n meddwl bod Glan-Ilyn yn llawn antur.

Dw i eisiau mynd i Lan-Ilyn achos ...

- Yna, gellid cyflwyno'r llyfr **Dial!**. Eglurwch fod y llyfr yn cynnwys chwedl sy'n gysylltiedig â Llyn Tegid, sy'n debyg i chwedl arall maen nhw wedi'i darllen, sef chwedl Cantre'r Gwaelod (Pecyn 2, Uned 6, Rhan 1).
- Os ydych chi'n dymuno, gallech chi gyflwyno'r stori drwy ddilyn y camau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett*
 - Gwnewch fap stori.
 - Defnyddiwch y map stori y tro nesaf y byddwch chi'n adrodd y stori a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddangos yn yr ystafell ddosbarth.
 - Gofynnwch i'r disgyblion wneud mapiau stori unigol.
 - Adroddwch y stori bob dydd fel bod y disgyblion yn ei dysgu'n raddol.
 - Penderfynwch, fel dosbarth, pa symudiadau, ymadroddion a.y.b. rydych chi'n mynd i'w defnyddio er mwyn cyfleu'r stori.
 - Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gwahoddwch nhw i adrodd y stori gyda chi.
 - Wrth iddyn nhw ddod yn fwy hyderus, gallai grwpiau adrodd y stori, e.e. merched, bechgyn, grwpiau sy'n eistedd o gwmpas byrddau a.y.b.
 - Gellid sefydlu cylchoedd stori, gyda'r disgyblion yn adrodd y stori i'w gilydd ac yn helpu'i gilydd yn ôl yr angen.
 - Gallai'r disgyblion feimio golygfeydd penodol hefyd.
 - Gallen nhw actio golygfeydd penodol, e.e. gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 38: Rydych chi yn y parti yn y palas ac rydych chi'n gweld llawer o bobl yno. Siaradwch â'r bobl.**
Byddai hyn yn rhoi cyfle gwyh i adolygu patrymau a gyflwynwyd eisoes oherwydd gallai'r disgyblion ddewis beth i siarad amdano wrth iddyn nhw gymdeithasu yn y parti, e.e. manylion personol, hobiau, pethau maen nhw'n hoffi / ddim yn hoffi, cerddoriaeth, barn am y parti a.y.b.
 - Efallai y gallen nhw actio'r stori yn ystod gwasanaeth yr ysgol, gan ddefnyddio props priodol.

* Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006
Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007

- Yn ogystal, gallen nhw gymryd rhan mewn sesiwn yn y gadair goch, e.e. gallai un o'r cymeriadau eistedd yn y gadair goch a gallai'r disgyblion ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol:
Pwy wyt ti?
Dafydd ydw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n hapus. / Dw i'n teimlo'n hapus.
Pam?
Achos dw i'n mwynhau'r parti.
Dw i'n drist. / Dw i'n teimlo'n trist.
Pam?
Achos mae'r palas o dan y dŵr.
Beth wyt ti eisiau bwyta yn y parti?
Dw i eisiau bwyta ...
Ble mae'r delyn?
Ar y llyn / dŵr.
Ble mae'r bobl?
O dan y dŵr.
- Gallai'r disgyblion wneud *collage* er mwyn cyfleu golygfeydd gwahanol o'r chwedl neu bypedau, e.e. pypedau bysedd / pypedau ffyn er mwyn cyfleu'r cymeriadau. Gellid defnyddio'r rhain wedyn mewn gweithgareddau chwarae rôl.
- Gallen nhw wneud bwrdd stori a fyddai'n golygu defnyddio sgiliau TGCh.
- Pan fydd y disgyblion yn gwbl gyfarwydd â'r stori, gellid eu gwahodd i'w haddasu, e.e. gallen nhw newid:
 - o enwau'r cymeriadau
 - o y bwyd / diod yn y parti
 - o yr offeryn sy'n cael ei chwarae **Dw i eisiau rhywun i ganu'r piano / fflwt / sacsoffon / chwarae'r drymiau yn y parti.**
 - o y sgwrs yn ystod y parti
 - o yr anifail sy'n galw ar y cerddor i adael y parti.
- Gallai'r disgyblion wneud map o'u stori newydd. Yna, dylen nhw ailadrodd y stori bob dydd a symud ymlaen i gylchoedd stori a pharau cyn mynd ati i ysgrifennu'r stori, gyda'ch cymorth chi ar y dechrau. Dylai'r disgyblion ysgrifennu a darlunio'u gwaith yn briodol.
- Wrth iddyn nhw wneud y gwaith yma, gallai'r disgyblion drefnu parti. Byddai hyn yn golygu:
 - o ysgrifennu rhestr o fwyd a diod
 - o paratoi bwyd
 - o gweini bwyd
 - o dewis cerddoriaeth gefndirol addas
 - o cynllunio'r adloniant (e.e. canu, triciau hud, a.y.b.)
 - o dewis dillad addas
 - o cynllunio hysbysiadau neu wahoddiadau, ysgrifennu llythyr neu neges e-bost neu ffonio pobl i'w gwahodd i'r parti, e.e.

Hysbysiad

Sylwer: Nod yr hysbysiad isod yw annog y disgyblion i ysgrifennu i ofyn am fwy o wybodaeth, felly ychydig iawn o wybodaeth a roddir yma.

Bydd parti yn

ar

Ydych chi eisiau dod?

Ysgrifennwch at:

Gallai'r disgyblion ymateb drwy ysgrifennu negeseuon e-bost, llythyron ac ati i ddweud y bydden nhw'n hoffi mynd i'r parti ond gallen nhw ofyn am fwy o wybodaeth hefyd, e.e.

Ble mae'r parti?

Beth sy'n digwydd yn y parti?

Pa fwyd sy yn y parti?

Oes gemau?

Oes adloniant?

Beth mae pobl yn wisgo i'r parti?

Gwahoddiad:

PARTI – GWYCH!

Wyt ti eisiau dod i barti?

Pryd:

Ble:

Bydd ...*

Ateb (✓): **Ydw, dw i eisiau dod.**
 Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn gallu dod.
 Mae'n flin 'da fi, dw i ddim yn gallu dod.

*Bydd y disgyblion yn gyfarwydd â'r defnydd o **Bydd** gan fod y ffurf wedi ei chyflwyno mewn perthynas â'r tywydd. Yma, mae'r gair yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyfleu *There will be*, e.e.

Bydd bwyd a diod flasus a gemau a ...

E-bost:

Oddi wrth:

At:

Pwnc:

Annwyl ...

Wyt ti eisiau dod i barti yn ... ar ...?

Bydd ... yn y parti.

Cofion

.....

Galwad ffôn:

A: **Wyt ti eisiau dod i'r parti?**

B: **O, ydw os gwelwch yn dda. Ble mae'r parti?**

A: **Yn (y palas.)**

B: **Pryd?**

A: **Dydd Sadwrn - am wyth o'r gloch.**

B: **Beth fydd yn digwydd yn y parti?**

A: **Bydd ...**

Bydd bwyd blasus a diod...

Bydd Dafydd yn canu'r delyn.

- Gallai'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth telyn a mynegi barn. Yn ogystal, gallen nhw wrando ar gerddoriaeth addas ar gyfer parti a dewis darnau priodol, neu gallen nhw gyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth er mwyn cyfleu golygfeydd gwahanol yn y stori, e.e. hwyl y parti o'i gymharu gyda'r tristwch ar y diwedd.
- Gallen nhw gymryd rhan mewn gwahanol fathau o ddawnsio fel rhan o'r dathliad, e.e. dawnsio disgo, dawnsio gwerin Cymreig a.y.b. Gellid creu symudiadau dawns er mwyn cyfleu golygfeydd gwahanol yn y chwedl hefyd, e.e. dawnsio bywiog yn ystod y parti, symudiadau llyfn i gyfleu'r dŵr yn boddi'r palas a symudiadau trist i gyfleu diwedd y stori.
- Gofynnwch i'r disgyblion ydy'r chwedl yn eu hatgoffa nhw am chwedl arall a ddarllenwyd ganddyn nhw ym Mhecyn 2 (**Cantre'r Gwaelod**, (Pecyn 2, Uned 6, Rhan 1)).

Gallech chi rannu'r disgyblion yn grwpiau (A a B) a gofyn i'r ddau grŵp ddarllen un o'r llyfrau hyn. Yna, gallech chi ofyn iddyn nhw lenwi'r golofn briodol mewn grid tebyg i'r un isod, h.y. byddai disgyblion Grŵp A, sy'n darllen **Dial!**, yn llenwi Colofn 2 a byddai disgyblion Grŵp 2, sy'n darllen **Cantre'r Gwaelod**, yn llenwi Colofn 3.

	Dial!	Cantre'r Gwaelod
Ble mae'r stori'n digwydd?		
Pwy ydy'r cymeriadau?		
Oes parti?		
Beth sy yn y parti?		
Beth sy'n digwydd yn y parti?		
Beth sy'n digwydd ar y diwedd?		

Yna, gallech chi sefydlu grwpiau neu barau newydd (Grŵp C) sy'n cynnwys disgyblion o grŵp A a B uchod. Dylai'r disgyblion a oedd yng Ngrŵp A yn wreiddiol ofyn i'r disgyblion a oedd yng Ngrŵp B yn wreiddiol am chwedl **Cantre'r Gwaelod** er mwyn cwblhau'r grid. Dylai disgyblion Grŵp B wneud yr un peth gyda disgyblion Grŵp A.

Yna, gallen nhw gymharu a chyferbynnu'r chwedlau, e.e.

Mae Dial! yn digwydd ger Y Bala ond mae Cantre'r Gwaelod yn digwydd ger Aberystwyth.

Mae parti yn Dial! ac mae parti yn Cantre'r Gwaelod.

Mae pobl yn bwyta, yfed ac yn cael hwyl yn y parti yn Dial! ac yn y parti yn Cantre'r Gwaelod.

Mae'r dŵr yn dod dros y palas ac mae'r dŵr yn dod dros Gantre'r Gwaelod.

Yn ogystal, gallech chi ofyn iddyn nhw pa un yw eu hoff stori:

Dw i'n hoffi ... achos ...

Mae'n well gen i* stori Dial! na stori Cantre'r Gwaelod achos dw i'n hoffi ... / dw i ddim yn hoffi ...

Mae'n well gyda fi* stori Dial! na stori Cantre'r Gwaelod achos dw i'n hoffi ... / dw i ddim yn hoffi ...

- Sylwer : Efallai y bydd **Mae'n well gen i* ... / Mae'n well gyda fi ...** yn ymadrodd newydd iddyn nhw.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion ysgrifennu datganiadau sy'n gysylltiedig â'r llyfr ar gardiau gyda rhai ohonyn nhw'n gywir a rhai'n anghywir. Gellir eu casglu a'u rhoi wyneb i waered ar y bwrdd ac yna, yn eu tro, gallai'r disgyblion ddewis cerdyn, darllen y datganiad ar goedd ac yna byddai'n rhaid i'r disgyblion ddweud ydy'r datganiad yn un **Cywir** neu **Anghywir**.

Uned 5: Rhan 3 – Dŵr mewn potel

Nodau:

- Atgyfnerthu disgrifio a defnyddio nifer o ansoddeiriau gyda'i gilydd
- Atgyfnerthu'r defnydd o ffurfiau'r amser gorffennol drwy adolygu: **Roedd ...; Gwelais i ...; Clywais i ...** a chyflwyno ffurfiau newydd: **Ble est ti? Es i i ...; Beth welaist ti? Gwelais i ...; Beth wnest ti ...? Siaradais i ...;**
- Dysgu am y broses o botelu dŵr drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Roedd bwystfil yn y llyn. o dan y ddaear i mewn i'r ddaear drwy'r creigiau Mae'n bwysig ailgylchu poteli plastig.	Twt lol! y tro yma tap peipen, y beipen dŵr pur dŵr iach O'r diwedd! ffatri

Yr amser gorffennol

Ble est ti? Es i i ...
Beth welaist ti? Gwelais i ...
Beth wnest ti? Siaradais i gyda'r plant.
Gwelais i ...

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble ydw i? Ble mae'r bwced? Oes bwystfil enfawr yma? Oes. / Oes, mae bwystfil enfawr yma. / Nac oes. / Nac oes, does dim bwystfil enfawr yma. Pa fath o sŵn? Pa fath o fwystfil? Pa liw? Beth ar y ddaear wyt ti'n wneud? Ga i fynd? Beth am fynd i dde Cymru? Beth sy'n digwydd? Wyt ti eisiau dŵr? Gorchmynion Dewch gyda fi. Rhaid cael dŵr. Eraill Mae Bob angen dŵr. Mae hi'n bwrw glaw dros y mynyddoedd.	bwystfil mawr enfawr llyn nôl y tro yma ger mynydd, mynyddoedd potel, poteli llawer o (+ treigladd meddal) symbol ailgylchu

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Oes ... yma?

Pa liw?

Ble mae'r ...?

Edrycha ar y ...

Dewch gyda fi.

Beth sy'n digwydd?

Beth sy'n bod?

Defnyddio'r amser gorffennol

Cyflwynwyd y ffurfiau canlynol ym Mhecyn 1 a 2:

Ble est ti?

Es i i ...

Beth welaist ti?

Gwelais i ...

Beth gest ti?

Ces i ...

Cyflwynir ffurf newydd yma:

Beth wnest ti?

I ateb y cwestiwn hwn, gallwch chi ychwanegu **-ais** at fôn y ferf, e.e.

bwyta: bwytais i

canu: canais i

cerdded: cerddais i

clywed: clywais i

darllen: darllenaais i

dawnsio: dawnsiaais i

gweld: gwelais i

gwylio: gwyliais i

peintio: peintiaais i

rhedeg: rhedais i

siarad: siaradaais i

yfed: yfais i

Defnyddiwch y rhain gymaint â phosib yn yr ystafell ddosbarth fel bod y disgyblion yn ymgyfarwyddo â nhw, e.e. gallech chi ofyn **Beth wnest ti?** ar ôl pob egwyl ac amser cinio neu gallech chi ofyn **Beth wnest ti heddiw?** ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Yn ogystal, gallech chi ofyn y cwestiynau canlynol ar adegau priodol:

Beth gest ti i ginio?

Beth gest ti amser snac?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Dŵr mewn potel** (Uned 5, Rhan 3) hyd at y man lle mae Tom yn dweud **O, diar!** ar ôl iddo sylweddoli ei fod wedi gadael y dŵr yng Nglan-Ilyn.
- Tynnwch sylw at ffurfiau'r amser gorffennol:
Tom, ble est ti?
Es i i Lan-Ilyn.
Beth welaist ti?
Gwelais i ...
Beth wnest ti?
Siaradais i gyda'r plant ...
Es i i'r llyn i nôl dŵr ond ...

Dylech chi ymarfer y ffurfiau hyn gyda'r disgyblion a chyflwyno **Cerdyn Siarad 39**.
Siaradwch am drip.

Gallai'r disgyblion siarad am ymweliad ysgol neu deulu neu gallen nhw ddychmygu eu bod wedi ymweld â rhywle neu eu bod wedi bod i ddigwyddiad arbennig (e.e. eisteddfod / chwaraeon

a.y.b.). Dylech chi adolygu'r ffurfiau holi sy'n gyfarwydd iddyn nhw eisoes, cyflwyno **Beth wnest ti?** a drilio 4-5 o'r berfau mwyaf defnyddiol uchod. Gellir cyflwyno geiriau eraill yn raddol yn ôl yr angen.

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu am eu hymweliad. Atgoffwch nhw i fynegi barn yn yr amser gorffennol:

Roedd e'n / o'n wych.

ffantastig

anhygoel

a.y.b.

- Chwaraewch y darn nesaf hyd at y man lle mae Beca'n gadael y Pod-antur Cymraeg. Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall beth sy'n digwydd – chwaraewch y darn eto yn ôl yr angen.

Gofynnwch:

Ble mae Beca'n mynd?

I Trap / Ger Trap.

Ble mae Trap?

Yn ne Cymru.

Ble mae'r dŵr?

O dan y ddaear.

a.y.b.

Ar y llaw arall, gellid ysgrifennu'r cwestiynau hyn ar gerdyn fel bod y disgyblion yn cael cyfle i'w darllen ar goedd wrth iddyn nhw eu gofyn i'w gilydd.

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu eu cwestiynau eu hunain yn seiliedig ar y ffilm ac yna'u gofyn mewn cwis.

Adolygwch y wybodaeth sy'n egluro pam mae'r dŵr o dan y ddaear, gan ddefnyddio'r diagram sydd yn y gyfrol **Dŵr – Y Ffeithiau!** i atgyfnerthu'r wybodaeth. Yna, gallai'r disgyblion wneud diagramau tebyg ac egluro'r broses yn Gymraeg.

- Gallech chi ddangos poteli dŵr mwynol i'r plant a thynnu sylw penodol at y gair *mineral*, gan egluro bod y dŵr yn casglu mwynau wrth iddo lifo drwy'r creigiau. Gellid gwneud mwy o waith mewn perthynas â hyn a gellid blasu mathau gwahanol o ddŵr mwynol, gan fynegi barn amdany'n nhw:

Dw i'n hoffi'r dŵr yma.

Mae'n well gen i'r dŵr yma.

a.y.b.

- Gallai'r disgyblion berfformio'r rap a welir ar y ffilm a mynegi barn. Yn ogystal, gallen nhw gyfansoddi rap tebyg neu hyd yn oed gerdd dwli yn Gymraeg gan ddefnyddio'r odl **ap**, e.e.

rap

tap

Trap

cap

clap

map

sgrap (e.e. papur sgrap)

strap

e.e.

Dw i'n hoffi rap

am sgrap a strap

Dw i eisiau map

i fynd i Trap.

**Dw i'n gwisgo cap
gyda strap.**

**Mae papur sgrap
o dan y map.**

**Mae strap ar y cap
Clap! Clap!**

- Chwaraewch y rhan nesaf, lle mae Beca'n ymweld â ffatri potelu dŵr – hyd at y man lle mae hi'n gadael y ffatri.
- Torrwch allan y brawddegau a'r delweddau sydd i'w gweld ar y cerdyn darllen **Dŵr mewn Poteli** a'u rhoi ar fwrdd. Yna, gallai'r disgyblion ddarllen y brawddegau ar goedd a cheisio'u rhoi yn y drefn gywir fel eu bod yn adlewyrchu'r broses o botelu dŵr.

Yna, gallen nhw ysgrifennu brawddegau Cymraeg a gwneud diagramau i egluro'r broses.
Byddai hyn yn rhoi cyfle i adolygu:

Yn gynta(f), ...

Yn ail, ...

Yn drydydd, ...

Yna, ... /Wedyn, ...

- Gallai'r disgyblion flasau mathau gwahanol o ddŵr, e.e. dŵr pefriog a dŵr wedi'i flasau â ffrwythau, a byddai hyn yn rhoi cyfle i adolygu enwau ffrwythau ac atgyfnerthu mynegi barn a.y.b.

I ddechrau, gallech chi ofyn iddyn nhw flasau samplau gwahanol a dyfalu pa flas sydd wedi cael ei ychwanegu at y dŵr, e.e.

Potel 1 – pa flas?

mefus

grawnwin

oren

lemwn

Yna, gallech chi roi holiadur tebyg i'r un isod iddyn nhw a gofyn iddyn nhw roi marciau a mynegi barn am bob blas:

	Pa flas?	Marc allan o 10	Barn
Potel 1:			
Potel 2:			
Potel 3:			
Potel 4:			

e.e.

	Pa flas?	Marc allan o 10	Barn
Potel 1:	Mefus	8 neu 2	anhygoel ardderchog blasus da diflas ofnadwy ych a fi

Gallech chi ofyn

Sawl un / Faint sy'n hoffi dŵr potel 1?

a.y.b.

a gallai'r disgyblion wneud graffiau i ddangos y canlyniadau. Yna, gellid egluro'r graffiau hyn yn Gymraeg.

- Chwaraewch y rhan olaf.

Tynnwch sylw at ffurfiau'r amser gorffennol sy'n cael eu cyflwyno ar ddechrau'r rhan hon o'r uned ac ar ôl eu hadolygu, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 40**.

Beca wyt ti ac rwy'ti'n eistedd yn y gadair goch.

Rhaid ateb cwestiynau'r grŵp.

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgaredd yn y gadair goch, lle mae un ohonyn nhw'n cymryd rhan Beca ac mae'r lleill yn gofyn cwestiynau iddi, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn.

Gellid dilyn hyn gyda gwaith ysgrifennu, e.e. gallen nhw gymryd arnyn nhw mai nhw yw Beca ac anfon cerdyn post / llythyr at ffrind i sôn am yr ymweliad â'r ffatri potelu dŵr.

- Gan fod y cymeriadau ar y sgrin yn crybwyll cynllun y botel, gallai'r disgyblion gynllunio poteli dŵr neu labeli ar eu cyfer.
- Tynnwch sylw at y symbol ailgylchu a gofynnwch iddyn nhw:
Beth ydy hwn?
Symbol.
Ailgylchu.
Symbol ailgylchu.

Gofynnwch iddyn nhw restru ble arall maen nhw'n gweld y symbol hwn:

Ble ydych chi'n gweld y symbol yma? Gwnewch restr.

Cymharwch y rhestri:

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?

Sawl un? / Faint?

Gallai hyn arwain at drafodaeth ehangach am ailgylchu, e.e.

Beth ydych chi'n ailgylchu?

Dw i'n ailgylchu ..

Rydyn ni'n ailgylchu ...

Hefyd, gallai'r disgyblion wneud posteri er mwyn pwysleisio pa mor bwysig yw ailgylchu.

Gallech chi atgoffa'r disgyblion am y tŷ gwydr a wnaed o boteli plastig yn Uned 1, Rhan 1, ac os nad yw'r disgyblion wedi gwneud un eisoes, gallen nhw gynllunio a gwneud gwrthrych (e.e. cynhwysydd tair ochrog / cist / model (e.e. bwan brain) neu ddarn o gelf, gan ddefnyddio poteli wedi'u hailgylchu - ynghyd â deunyddiau eraill yn ôl yr angen.

Dylai'r disgyblion ddisgrifio yn Gymraeg beth maen nhw'n ei wneud tra byddan nhw'n gwneud y gwaith ac yna dylen nhw ei werthuso, gan ddefnyddio patrymau a restrir yn y ddogfen

Patrymau Iaith P-aC₃.

- Er mwyn adolygu ffurfiau'r amser gorffennol, gallech chi ofyn ar y diwedd:
Beth welaist ti ar y ffilm?
Gwelais i ...
Beth glywaist ti ar y ffilm?
Clywais i ...
Yna, gofynnwch iddyn nhw ofyn i'w gilydd.

Uned 5: Rhan 4 – Paid gwastraffu dŵr!

Nodau:

- Tynnu sylw at sut mae dŵr yn cael ei wastraffu ac annog y disgyblion i ystyried dulliau o arbed dŵr
- Adolygu'r amser yn Gymraeg: **wedi**; cyflwyno **i** + treigladd meddal
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae Bob wedi stopio. Rhaid bod yn ofalus gyda dŵr. Rhaid bod yn ofalus iawn gyda dŵr. Mae rhai pobl yn gwastraffu dŵr. Beth dw i eisiau i frecwast? Wyt ti'n cofio? Ydw, dw i'n cofio. Rhaid troi'r tap i ffwrdd. Rhaid ailgylchu dŵr. Paid gwastraffu dŵr. Paid taflu papur yn y toiled.	igian gartre (= adre yng Ngogledd Cymru) cawod gwastraffu tegell golchi'r llestri llenwi safio sbwng

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ... Beth ydy'r sŵn? Beth ar y ddaear ydy'r sŵn? Ble mae Tom? Pwy wyt ti? Oes dŵr yn y poteli? Beth am edrych? Pwy sy ar y ffôn? Beth wyt ti'n wneud yma? Wyt ti eisiau te neu goffi? Gorchmynion Esgusodwch fi. Rhaid golchi'r llestri. Eraill Dw i wedi blino. Dw i ddim yn deall. Does dim dŵr yn y poteli. Mae dŵr yn bwysig.	dŵr mwy o ddŵr ymolchi te coffi grawnwin afal golchi dail llwybr beic yn frwnt = yn fudr padlo brwsio dannedd yfory powlen

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ...

Esgusodwch fi.

Beth ydy'r sŵn? Beth ar y ddaear ydy'r sŵn?

Rhaid bod yn ofalus gyda (dŵr / siswrn / glud / 'r paent).

Dw i ddim yn deall.

Wyt ti'n cofio? Ydw, dw i'n cofio.; Nac ydw, dw i ddim yn cofio.

Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ...
Rhaid troi'r tap i ffwrdd.
Paid ...
Paid gwastraffu (dŵr / paent / glud / papur).

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Dechreuwch drwy adolygu'r amser yn Gymraeg – yr amser **wedi**'r awr:

Faint o'r gloch ydy hi?

Mae hi'n saith o'r gloch.

bum munud wedi saith
ddeg munud wedi saith
chwarter wedi saith
ugain munud wedi saith
bum munud ar hugain wedi saith
hanner awr wedi saith

Eglurwch fod yr amser cyn yr awr yn dilyn yr un patrwm, ond y dylid defnyddio **i** yn hytrach na **wedi**, e.e.

Mae hi'n bum munud ar hugain i wyth

ugain munud i wyth
chwarter i wyth
ddeg munud i wyth
bum munud i wyth

Sylwer: dilynir **i** gan dreigladd meddal fel arfer:

Mae hi'n bum munud ar hugain i ddeg

ugain munud i ddeuddeg
chwarter i dri
ddeg munud i bedwar
bum munud i bump

- Cyflwynwch yr ymadroddion canlynol cyn chwarae'r ffilm:
gartre (= **adre** yng Ngogledd Cymru)
cawod
ymolchi mewn cawod
- Chwaraewch y ffilm **Paid gwastraffu dŵr** (Uned 5, Rhan 4). Canolbwyntiwch ar y darn cyntaf hyd at y man lle mae Sgrin yn dangos y delweddau ac yn egluro bod problem gyda'r cyflenwad dŵr yn y Pod-antur Cymraeg.

Tra bydd y disgyblion yn gwrando, gofynnwch iddyn nhw godi llaw bob tro y byddan nhw'n clywed cyfeiriad at yr amser.

Ar ôl iddyn nhw wyllo'r ffilm, gofynnwch iddyn nhw:

Ydych chi'n cofio?

Faint o'r gloch ydy hi ar y ffilm?

Mae hi'n ...

Chwaraewch y darn eto fel bod y disgyblion yn gallu clywed y patrymau hyn eto. Gofynnwch iddyn nhw wrando hefyd am y geiriau sy'n egluro ble mae Tom.

Yna, gofynnwch iddyn nhw:

Ble mae Tom?

Mae e / o gartre / adre.

Pam mae Tom gartre / adre?

Achos mae e / o eisiau cawod.

Oes cawod yn y Pod-antur Cymraeg?

Oes.

Oes problem yn y Pod-antur Cymraeg?

Oes – mae problem gyda'r dŵr.
Does dim dŵr yn y Pod-antur Cymraeg.

- Chwaraewch y darn nesaf, ble rydyn ni'n gweld Tom yn gwastraffu dŵr – hyd at y man lle rydyn ni'n dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg.

Stopiwch y ffilm a thrafodwch beth mae Tom yn ei wneud yn y ffilm:

Beth mae Tom yn wneud?

Rhestrwch y berfau ar y bwrdd gwyn.

Torrwch allan y brawddegau sydd i'w gweld ar y cerdyn darllen **Gwastraffu Dŵr** a rhowch nhw ar y bwrdd. Bydd mwyafrif y geiriau yn gyfarwydd ond dylech chi adolygu'r eirfa sydd ar y cerdyn ac atgyfnerthu'r ymadrodd **gwastraffu dŵr** yn benodol. Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y brawddegau a'u rhoi yn y drefn a welwyd ar y ffilm.

Ar ôl iddyn nhw orffen, gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y dilyniant o frawddegau ar goedd.

Yn gynta(f), ...

Yn ail, ...

Yn drydydd, ...

Yna, ... / Wedyn, ...

Chwaraewch y ffilm eto, ond heb y sain, a gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu sylwebaeth ar ei chyfer. Efallai y bydd rhai disgyblion yn dymuno cynnwys yr amser:

Mae hi'n ... (+ treigladd meddal), **ac mae Tom yn ...**

Am ... (+ treigladd meddal), **mae Tom yn ...**

- Gofynnwch i'r disgyblion drafod a rhestru sut mae Tom yn gwastraffu dŵr. Byddai cyflwyno **Cerdyn Siarad 41** yma yn rhoi cymorth ar gyfer y dasg hon:
Sut mae Tom yn gwastraffu dŵr?
Siaradwch am hyn.

Cymharwch syniadau.

- Gallech chi ofyn i'r disgyblion ysgrifennu cyfres o gwestiynau'n ymwneud â'r ffilm, e.e.
Beth mae Tom yn wneud am saith o'r gloch?
Beth mae Tom yn wneud am ugain munud wedi saith?
Mae e'n / o'n ...
a.y.b.

Yna, gellid gofyn y cwestiynau hyn mewn cwis a gellid rhoi marciau am atebion cywir.

- Gallech chi ofyn i'r disgyblion siarad am beth maen nhw'n ei wneud ar adegau penodol, e.e.
Beth wyt ti'n wneud am ...?
Dw i'n ... am ...

Yna, gallai'r disgyblion adrodd yn ôl drwy ddweud beth mae eu cyd-ddisgyblion yn ei wneud:
Mae ... yn ... am ...

- Chwaraewch weddill y ffilm a gofynnwch i'r disgyblion geisio gweithio allan pa gyngor mae Beca'n ei roi i Tom mewn perthynas ag arbed dŵr.

Gallech chi gyflwyno'r ymadroddion canlynol ymlaen llaw:

cyflym

Rhaid troi'r tap i ffwrdd.

llenwi

Chwaraewch y ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio eto ar y cyngor.

Torrwch y brawddegau canlynol allan:

Rhaid cael cawod gyflym.
Rhaid troi'r tap i ffwrdd.
Paid taflu papur yn y toiled.
Paid llenwi'r tegell.
Rhaid golchi'r ffrwythau mewn powlen.
Rhaid troi'r tap i ffwrdd i ateb y ffôn.
Paid taflu dŵr glân. Beth am ddefnyddio'r dŵr i olchi'r llestri?
Rhaid defnyddio powlen fach.

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen drwy'r cyngor a rhoi'r cyfarwyddyd priodol gyferbyn â'r brawddegau sy'n disgrifio sut mae Tom yn gwastraffu dŵr (y brawddegau o'r cerdyn darllen a roddwyd yn eu trefn o'r blaen), e.e.

Mae Tom yn cael cawod hir ac mae o'n gwastraffu dŵr.	Rhaid cael cawod gyflym.
Mae o'n brwsio dannedd ac mae o'n gwastraffu dŵr.	Rhaid troi'r tap i ffwrdd.
Mae o'n taflu papur yn y toiled ac mae o'n gwastraffu dŵr.	Paid taflu papur yn y toiled.

Cymharwch y syniadau.

Yna, chwaraewch y ffilm eto er mwyn cymharu atebion y disgyblion gydag awgrymiadau Beca ar y ffilm.

- Nawr, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 42.**
Helpwch Tom i safio dŵr.

Gofynnwch i'r disgyblion roi cyngor i Tom ar sut y gallai arbed dŵr, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eirfa a phatrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

- Gan ddefnyddio'r ymadroddion hyn, gallai'r disgyblion greu defnyddiau sy'n rhoi cyngor mewn perthynas ag arbed dŵr, e.e. taflenni, posteri, sgript ar gyfer datganiad ar y radio, cyflwyniad PowerPoint.

Gallen nhw:
egluro:

Mae dŵr yn bwysig.
Mae gwastraffu dŵr yn ofnadwy.

rhoi cyngor ar sut i arbed dŵr:

Rhaid bod yn ofalus gyda dŵr.
Sut i safio dŵr ...:

- Gallai'r disgyblion wneud posteri i'w harddangos mewn mannau priodol yn yr ysgol, e.e.

yn y toiledau:

Paid / Peidiwch taflu pethau yn y toiled.

uwchben y sinciau:

Rhaid troi'r tap i ffwrdd.
Paid / Peidiwch gwastraffu dŵr.

- Er mwyn adolygu'r amser, gallech chi chwarae'r ddwy adran sy'n dangos faint o'r gloch mae Tom yn gwneud gweithgareddau gwahanol a gofyn i'r disgyblion gymharu'r ddwy adran, e.e.
Yn Ffilm 1, mae Tom yn gwneud brecwast am ... ond yn Ffilm 2, mae Tom yn gwneud brecwast am ...
- Chwaraewch y ffilm eto er mwyn adolygu. Gofynnwch i'r disgyblion:
Beth welaist ti ar y ffilm?
Gwelais i ...
Beth glywaist ti ar y ffilm?
Clywais i ...

Yna, gofynnwch iddyn nhw ofyn y cwestiwn hwn i'w gilydd.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm:
Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm?
Beth ydych chi'n feddwl o'r ffilm?

Mae'r ffilm yn grêt / wych achos ...

Mae'r ffilm yn ddiddorol achos dw i wedi dysgu am wastraffu dŵr.

Dw i'n hoffi'r ffilm achos mae hi'n ddoniol.

Dw i ddim yn hoffi'r ffilm achos mae'n ddiflas.

Os yw'n briodol, gallech chi adolygu'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol achos dw i wedi dysgu am wastraffu dŵr.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiflas achos dw i ddim yn gwastraffu dŵr.

Uned 5: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Aim:

- Adolygu geirfa a phatrymau a gyflwynwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Sut bydd y tywydd heddiw? Bydd hi’n braf / heulog / gynnes. Bydd hi’n stormus. Bydd hi’n bwrw glaw. Bydd hi’n bwrw hen wragedd a ffyn. Pa fath o fwystfil? Bwystfil mawr, du, cas, fel dinosor. Beth ydy’r arogl? Faint o’r gloch ydy hi? Mae hi’n ... Eraill Rhaid cael dŵr i Bob. Am (chwarter wedi saith) mae Tom yn ... Paid gwastraffu dŵr. Dyma’r mynyddoedd.	gogledd de dwyrain gorllewin bwystfil dinosor cas drewllyd enfawr smotiog llwyd ych a fi arogl mynydd, mynyddoedd i mewn i’r ddaear drwy’r creigiau o dan y ddaear

Trosglwyddo’r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Faint o’r gloch ydy hi? Mae hi’n ...

Dyma’r ...

Pa fath o ...?

Byddai’n ofalus (gyda ...)

Paid ...

Paid gwastraffu (dŵr / paent / glud / papur).

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch mai pwrpas yr adran hon ar y DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi’n cofio?** (Uned 5, Rhan 5) fesul rhan, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf.

Dylai’r disgyblion wrando ar y bwletin tywydd ac ateb y cwestiynau sy’n cael eu gofyn. Yna, gallen nhw ysgrifennu eu bwletin eu hunain, ynghyd â chwestiynau priodol.

Ar ôl darllen eu bwletinau ar goedd mewn grwpiau, gallen nhw ofyn cwestiynau a rhoi marciau am atebion cywir.

Adran 2

- Chwaraewch yr ail adran. Os oes rhaid, stopiwch y ffilm ar ôl pob cwestiwn a gofynnwch i’r disgyblion ddisgrifio’r bwystfil.

Yna, gallai'r disgyblion dynnu llun bwystfil a gofyn i ddisgyblion eraill ei ddisgrifio.

Pa fath o fwystfil?

Adran 3

Dylai'r disgyblion wrando ar yr adran sy'n disgrifio sut mae dŵr mwynol yn cael ei ffurfio. Wedyn, dylen nhw lenwi'r bylchau yn y brawddegau sy'n dilyn.

Adran 4

- Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i adolygu'r amser yn Gymraeg. Dylai'r disgyblion ddweud faint o'r gloch ydy hi ar y clociau.

Adran 5

- Yn yr adran hon, dylai'r disgyblion wyllo'r ffilm sy'n dangos beth mae Tom yn ei wneud ar wahanol adegau yn ystod y bore ac yna dylen nhw ateb y cwestiynau.
- I grynhoi'r uned, gellid cyflwyno'r gyfrol **Dŵr - Y Ffeithiau!**. Er bod rhai agweddau wedi cael eu cyflwyno eisoes mewn rhannau eraill o'r uned, mae'n cynnwys ffeithiau ac arbrofion diddorol eraill y gallai'r disgyblion eu gwneud.

Canolbwyntiwch ar y tudalennau lle mae Uganda'n cael ei chymharu â Chymru. Gallai'r disgyblion gymharu a chyferbynnu bywyd Afiya gyda'u bywyd nhw eu hunain, e.e.

Afiya	Fi
Mae Afiya'n byw yn Uganda.	Dw i'n byw yng Nghymru.
Dydy Afiya ddim yn mynd i'r ysgol.	Dw i'n mynd i'r ysgol.
Mae Afiya'n cario dŵr.	Dw i'n cael dŵr o'r tap.

Yn ogystal, gallen nhw ddarllen am Karabo a Lesotho eto (Pecyn 2, Uned 3, Rhan 5) oherwydd roedd rhaid iddi hi gario dŵr i'w chartref yn gynnar iawn yn y bore hefyd.

Gallai'r disgyblion chwilio am ragor o wybodaeth am Uganda, cyfnewid gwybodaeth a chreu arddangosfa am y wlad ac, efallai, ei chymharu â Chymru.

- Yna, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r llyfr?

Beth ydych chi'n feddwl o'r llyfr?

Mae'r llyfr yn grêt / wych.

Mae'r llyfr yn ddiddorol.

Mae'r lluniau'n dda.

Mae'r lluniau'n lliwgar.

Mae'r lluniau'n ardderchog.

Mae'r lluniau'n ddiflas.

Dw i'n hoffi'r llyfr achos mae e'n / o'n ddiddorol.

Dw i'n hoffi'r lluniau achos maen nhw'n lliwgar.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiflas.

- I orffen yr uned, gallech chi ofyn eto:
Beth welaist ti ar y ffilm?
Gwelais i ...
Beth glywaist ti ar y ffilm?
Clywais i ...

Gallech chi gyflwyno

Beth ddysgaist ti yn yr uned / yn y llyfr?

Anogwch nhw i roi ffeithiau, e.e.

Mae dŵr yn bwysig.

Rhaid bod yn ofalus gyda dŵr.

Mae dŵr yn solet, yn hylif ac yn nwy.

a.y.b.

Uned 6

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael rhagor o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Llafaredd

Anogir disgyblion i gyfathrebu ar lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd – mewn gwaith pâr a gwaith grŵp.

Maen nhw'n gofyn cwestiynau ac yn rhoi gwybodaeth ffeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. wrth iddyn nhw drafod beth sydd gan Gymru i'w gynig ar gyfer ymwelwyr ar **Cerdyn Siarad 44** ac wrth iddyn nhw ddisgrifio'r broses o wasgaru hadau.

Yn ogystal, maen nhw'n rhoi gwybodaeth bersonol am y ffordd maen nhw'n cadw'n heini a beth maen nhw'n mwynhau ei wneud ac maen nhw'n mynegi barn mewn perthynas â cherddoriaeth, dawnsio, llyfrau a.y.b.

Maen nhw'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd chwarae rôl sy'n gysylltiedig â'r cardiau siarad. Maen nhw'n rhoi cyfarwyddiadau mewn perthynas â pharatoi bwyd, cadw'n heini, dawnsio a chyfeirio'i gilydd o gwmpas yr ysgol. Maen nhw'n dyfalu ac yn mynegi syniadau am y lleoliadau mae Bob yn debygol o ymweld â nhw.

Mae cyfleoedd i wyllo a gwrandao'n ofalus ar y ffilm ac i nodi'r prif bwyntiau mewn dulliau amrywiol, e.e. drwy wneud gwaith llafar, drwy ysgrifennu ac ateb cwestiynau mewn cwis a thrwy gwblhau gridiau. Yn ogystal, gellid rhoi crynodeb o ran o'r ffilm i'r disgyblion gyda pheth ohono'n **gywir** a pheth yn **anghywir**. Yna, byddai angen iddyn nhw nodi'r camgymeriadau ar ôl gwyllo'r ffilm. Gallai'r disgyblion ysgrifennu am rannau penodol o'r ffilm yn ogystal.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i ddeunyddiau darllen amrywiol, e.e. llyfr ffeithiol am Gymru, stori am Bob, gwybodaeth am wasgaru hadau, rysâit a dyddiadur. Mae cyfleoedd hefyd i ddarllen gwybodaeth ffeithiol ar wefannau Cymraeg ac mewn deunyddiau printiedig am Gymru. Mae gweithgareddau sy'n ymwneud â'r deunyddiau darllen ar gael yng nghefn y llyfrau ac yn y canllawiau hyn.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion lenwi gridiau, ysgrifennu rhestr, cardiau post a ryseitiau yn ogystal â chwestiynau y gellid eu gofyn mewn cwis. Mae cyfleoedd i ysgrifennu posteri, taflenni a chyflwyniadau sy'n hyrwyddo Cymru hefyd ac anogir y disgyblion i ysgrifennu am ddigwyddiadau yn y gorffennol, e.e. yn eu dyddiaduron yn Rhan 6.

Gofynnir iddyn nhw ysgrifennu darnau ffuglen wrth ddychmygu sut y bydd y stori, **Bob, Druan!** yn gorffen. Gofynnir iddyn nhw ysgrifennu darnau ffeithiol am wasgaru hadau yn ogystal â deunyddiau ar gyfer hyrwyddo'r parciau cenedlaethol. Mae cyfleoedd i ysgrifennu darnau perswadiol, e.e. hysbysebion sy'n hyrwyddo Cymru a sgript ar gyfer hysbyseb sy'n hyrwyddo'r miwslî maen nhw wedi'i greu eu hunain yn Rhan 4 – gellid ffilmio hyn. Yn ogystal, gallai'r disgyblion ysgrifennu llyfr am yr ardal lle maen nhw'n byw – yn debyg i'r gyfrol **Dewch i Gymru!**

Saesneg

Gofynnir i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Gymru, y parciau cenedlaethol a Rwsia. Bydd hyn yn golygu chwilio drwy wefannau Saesneg, darllen deunyddiau hyrwyddo Saesneg a.y.b.

Mathemateg

Mae cyfleoedd i lunio holiaduron er mwyn darganfod pa rawnfwydydd mae'r dosbarth yn eu bwyta i frecwast a pha rai yw'r iachaf. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion lunio graffiau er mwyn cymharu'r gwahanol rawnfwydydd.

Yn ogystal, gallen nhw addasu rysât ar gyfer miwslï fel ei fod yn cynnwys digon o gynhwysion i wneud powlenaid o'r grawnfwyd ar gyfer chwech, wyth neu ddeg person a.y.b.

Gwyddoniaeth

Mae'r gwaith sy'n ymwneud â'r planedau ac a gyflwynwyd yn Uned 1 yn cael ei adolygu yn yr uned hon.

Gofynnir i'r disgyblion ystyried unwaith eto y ffactorau sy'n angenrheidiol cyn y gall planhigyn dyfu'n iach wrth iddyn nhw ddyfalu pam mae Bob yn gallu byw ar y Ddaear ond ddim ar blanedau eraill.

Cyflwynir amryw ddulliau o wasgaru hadau yn Rhan 3 a gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu darnau ffeithiol am y prosesau.

Trafodir grawnfwyd iach yn Rhan 4, lle mae Beca'n dewis bwyta grawnfwyd heb siwgr a halen oherwydd:

Mae gormod o halen a siwgr yn ddrwg i chi.

Yna, anogir y disgyblion i gymharu gwerth maeth grawnfwydydd drwy ddarllen y labeli gwahanol ar y pecynnau a llunio graffiau a.y.b.

Mae cyfleoedd i blannu blodau, planhigion, llwyni a phlanhigion llysiau ar ddiwedd Rhan 5.

Daearyddiaeth

Ceir cyfeiriadau at bwyntiau'r cwrmpawd - **gogledd Cymru a de Cymru** - ac anogir y disgyblion i adnabod nodweddion megis llynnoedd, mynyddoedd a.y.b. ar fap. Mae'r gyfrol **Dewch i Gymru!** yn cynnwys gwybodaeth am Gymru ac am barciau cenedlaethol Cymru. Ar ôl darllen y gyfrol, gallai'r disgyblion nodi'r lleoedd y cyfeirir atyn nhw yn y llyfr ar fap gwag o Gymru. Byddai hyn yn golygu defnyddio atlasau neu fapiau a chyfesurynnau er mwyn dod o hyd i leoliad y lleoedd hyn. Yna, gallen nhw gynnwys symbolau priodol, arlliwio a lliwiau er mwyn dangos beth sydd ar gael yn y lleoedd hyn, e.e. mynyddoedd, afonydd, llynnoedd, cestyll, henebion, rheilffyrdd, ogofâu, parciau cenedlaethol a.y.b.

Gallai'r disgyblion chwarae gêm lle maen nhw'n meddwl am le yng Nghymru, yn rhoi cliwiau sy'n disgrifio'r lle – fel mae Bob yn ei wneud yn Uned 1, Rhan 1 – ac yna'n gofyn i'r grŵp ddyfalu enw'r lle neu'r ardal.

Hanes

Mae rhai o nodweddion hanesyddol Cymru'n cael eu cynnwys yn y gyfrol **Dewch i Gymru!** a gallai'r gyfrol hon arwain at ymchwil bellach mewn perthynas â chestyll, y Celtiaid / Castell Henllys, Pentre Ifan, y Tuduriaid a.y.b.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion wneud mapiau o Gymru, posteri, baneri sy'n gysylltiedig â'r gwledydd gwahanol y cyfeirir atyn nhw yn yr uned hon ynghyd â delweddau i gyd-fynd â'r darnau ffeithiol y byddan nhw'n ysgrifennu. Gallen nhw gynnwys delweddau yn eu ryseitiau ac mewn darnau ysgrifenedig eraill yn ogystal.

Mae rhestr o'r patrymau iaith y gallai'r disgyblion eu defnyddio wrth iddyn nhw wneud gwaith celf ac wrth iddyn nhw werthuso'r gwaith i'w gweld yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC₃**.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion ddylunio a chynhyrchu taflenni a phosteri a.y.b. i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaid ar ôl gwylïo'r ffilm ar gyfer Rhan 1 a darllen y gyfrol **Dewch i Gymru!**.

Mae cyfleoedd i gynllunio gwisgoedd neu fflôts carnifal a'u disgrifio yn Gymraeg.

Yn Rhan 2, mae cyfleoedd i baratoi prydau syml, e.e. salad, bwydydd gyda reis a.y.b. ac yn Rhan 4, mae'r cymeriadau'n gwneud miwsli. Anogir y disgyblion i addasu'r rysâit hon.

Addysg gorfforol

Ar ôl darllen am y carnifal yng Nghaerdydd, gallai'r disgyblion ddyfeisio symudiadau dawns sy'n addas ar gyfer gorymdaith carnifal. Yna, gallen nhw berfformio'r ddawns hon ar fuarth yr ysgol / yn neuadd yr ysgol, gan wisgo dillad lliwgar.

Mae cyfleoedd i astudio, ymarfer a pherfformio dawnsiau Rwsiaidd yn Rhan 3 a gallai hyn arwain at wneud astudiaeth o ddawnsiau sy'n perthyn i ddiwylliannau eraill, e.e. y ddawns Iddewig, Hava Nagila, y ddawns Sbaenaidd, y Fflamenco a.y.b.

Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn symudiadau cadw'n heini ac i ddyfeisio symudiadau newydd y gallai'r disgyblion eu harddangos.

Cerdd

Gallai'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth jazz neu gerddoriaeth y Caribî ar ôl darllen am y carnifal yn Rhan 1 a gallen nhw fynegi barn am y gerddoriaeth hon. Os yw'n briodol, gellid chwarae cerddoriaeth bandiau dur hefyd gan roi sylw penodol i'r offerynnau. Yn ogystal, gallen nhw ddewis cerddoriaeth addas ar gyfer eu dawns garnifal / gorymdaith. (Gweler uchod.)

Clywir cerddoriaeth o wledydd eraill yn Rhan 2 a gallai'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth o amryw wledydd, gan nodi'r offerynnau a mynegi barn.

TGCh

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn chwilio am wybodaeth am leoedd yng Nghymru a dylunio posteri, taflenni a.y.b. i hyrwyddo Cymru.

Maen nhw'n cael eu hannog i chwilio am ddelweddau sy'n dangos gwasgaru hadau ac i chwilio am fwy o wybodaeth am Rwsia.

Gallen nhw ffilmio hysbyseb sy'n hyrwyddo'r miwsli maen nhw wedi'i greu a gallen nhw ffilmio'r ardal lle maen nhw'n byw gan ddefnyddio'r iaith sydd yn y gyfrol, **Dewch i Gymru!**

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae Rhan 1 yn canolbwyntio ar Gymru ac mae'n cyflwyno gwybodaeth ddaearyddol, hanesyddol a diwylliannol. Yn Rhan 2, mae cyfleoedd i ddysgu anthem genedlaethol Cymru.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae ieithoedd a diwylliannau eraill yn cael eu cyflwyno yn yr uned hon a gellid gwneud gwaith pellach er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ieithoedd a diwylliannau gwahanol.

Datblygu meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned, e.e. drwy ysgrifennu rhestri o eiriau maen nhw wedi'u dysgu eisoes a'u hailddefnyddio, ynghyd â throsglwyddo patrymau iaith sy'n gyfarwydd iddyn nhw eisoes, i sefyllfaoedd newydd.

Gofynnir iddyn nhw ddwyn i gof leoedd mae'r Pod-antur wedi ymweld â nhw mewn pecynnau blaenorol ac i geisio dyfalu ble yng Nghymru y bydd Bob yn mynd ar ei deithiau.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau dilyniant a pharhâd.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill ac i ymateb iddyn nhw – ar lafar ac yn ysgrifenedig – ac i ddethol gwybodaeth ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd ac i'w chyflwyno mewn dull priodol, gan wneud defnydd o feddalwedd priodol. Fe'i hanogir i chwilio am wybodaeth ar y rhyngrwyd a'i chyflwyno mewn fformat addas gan ddefnyddio meddalwedd priodol. Fe'i hanogir i ddefnyddio technoleg ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau, e.e. er mwyn ffilmio'u hardal.

Datblygu rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhif yn yr uned hon drwy gasglu gwybodaeth mewn dulliau amrywiol, gan gynnwys holiaduron a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar unrhyw gyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 6: Rhan 1 – Ble mae Bob?

Nodau:

- Hyrwyddo Cymru fel gwlad anturus, hardd, hanesyddol a modern a rhoi cyfleoedd i'r disgyblion greu deunyddiau hyrwyddo
- datblygu'r sgil o weithio mewn pâr / grŵp drwy gyfrwng y Gymraeg drwy atgyfnerthu, o fewn cyd-destun gwahanol, y patrwm: **Beth wyt ti'n feddwl?; Dw i'n meddwl bod Bob yn ...**
- Cyflwyno elfen o hwyl a dirgelwch i stori Bob
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Paid siarad yn wirion. Paid siarad dwli. Dydy planhigyn ddim yn gallu symud. Mae Bob wedi mynd. Fy ffrind i. Dyma ble roedd Dewi Sant yn byw ac yn pregethu. Mae Bob yn gallu byw ar y Ddaear achos ...	Twt lol! yn rhywle ar unwaith o blaned i blaned uchel botymau siocled syrffio gwylio'r adar marchogaeth ar y traeth ocsigen golau

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy'r sŵn? Dw i ddim yn gwybod. O ble mae'r sŵn yn dod? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ... Beth sy'n bod? Dim byd. Beth ydy enw'r blaned? Beth wyt ti'n feddwl? Dw i ddim yn siŵr. Ydy ... yn y cwpwrdd / drôr? Ydy. / Nac ydy. Ble ydw i? Beth sy'n digwydd? Gorchmynion Tyrd / Dere. Meddyliwch am y cliwiau. Edrycha ar y llyfr yma. Eraill Dw i ddim yn gallu ... Dydy e / o ddim ... Dw i'n meddwl bod ... Mae'n flin 'da fi. / Mae'n ddrwg gen i.	chwilio ffeindio Ble? Sut? Pam? Pryd? cwestiwn neges teithio cael hwyl llun llyfr Yr Wyddfa Eryri lwcus mynydd, mynyddoedd afon, afonydd llyn, llynnoedd mefus trênn bach Sir Benfro Tyddewi cliwiau castell Stadiwm y Mileniwm Y planedau planed goch Mae hi'n oer ... Mae hi'n sych ...

	Mawrth planed wyrddlas cylchau Wranws dŵr Mae hi'n gynnes. ddim yn rhy oer ddim yn rhy boeth golau y ddaear
--	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy'r sŵn?

O ble mae'r sŵn yn dod?

Beth sy'n bod?

Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... [Hefyd: **Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ...**]

Tyrd yma ar unwaith. (Gogledd Cymru); **Dere yma ar unwaith.** (De Cymru); **Dewch yma ar unwaith.** (Gogledd a De Cymru)

Ydy ... yn y cwpwrdd / yn y drôr?

Beth ydy enw'r blaned?

Meddyliwch am y cliwiau.

Beth wyt ti'n feddwl?; Beth ydych chi'n feddwl?

Edrycha ar y ...; Edrychwch ar y ...

Mae'n ddrwg gen i. (Gogledd Cymru); **Mae'r flin 'da fi.)** (De Cymru)

Beth sy'n digwydd?

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y darn cyntaf, sef **Ble mae Bob?** (Uned 6, Rhan 1), lle mae Bob yn teithio o blaned i blaned, cyn mynd i'r Ddaear, hyd at y man lle mae Sgrin, Tom a Beca'n ystyried ble yng Nghymru y bydd e'n mynd. Stopiwch y ffilm ar ôl i Sgrin feddwl am hyn a dweud:
Dw i ddim yn siŵr.

Wrth wyllo, stopiwch y ffilm pan fydd planedau gwahanol yn cael eu disgrifio er mwyn adolygu'r gwaith a gyflwynwyd yn Uned 1 a gofynnwch i'r disgyblion ystyried y cliwiau ac i ymateb i'r cwestiwn:

Ble mae e / o?

Mae e / o ar blaned ...

Yna, dangoswch yr ateb cywir fel bod y disgyblion yn gallu gweld ydyn nhw wedi llwyddo i ddatrys y cliwiau ac wedi dewis y planedau cywir.

- Adolygwch y ffurfiau negyddol drwy dynnu sylw at y patrymau canlynol:
Dydy e / o ddim yma.
Dydy e / o ddim yn gallu symud.
Dydy planhigyn ddim yn gallu symud.

a gofynnwch:

Pam dydy Bob ddim eisiau mynd i blaned Mawrth?

Pam dydy Bob ddim eisiau mynd i blaned Wranws?

Pam mae Bob eisiau mynd i'r Ddaear?

- Tynnwch sylw at ffurf y cwestiwn:
Beth wyt ti'n feddwl?

Mae'r cwestiwn hwn wedi cael ei gyflwyno eisoes mewn perthynas â mynegi barn am y DVD, am lyfrau ac am leoedd. Yma, gofynnir i'r disgyblion ddyfalu i ble mae Bob yn mynd. Gofynnwch iddyn nhw restru lleoedd posibl yng Nghymru, e.e. lleoedd maen nhw wedi ymweld â nhw, lleoedd maen nhw wedi dod ar eu traws ym mhecynnau'r Pod-antur Cymraeg, neu leoedd yn yr ardal leol a.y.b.

Yna, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 43**:

I ble yng Nghymru mae Bob yn mynd tybed?
Siaradwch am hyn.

Dylai pob disgybl awgrymu dau le mae Bob yn mynd iddyn nhw yng Nghymru, gan roi rheswm, e.e.

Dw i'n meddwl bod Bob yn mynd i Lan-llyn achos mae e'n / o'n mwynhau canwio a dringo.

Dw i'n meddwl bod Bob yn mynd i Gastell Henllys* achos mae e'n / o'n hoffi dysgu am y Celtiaid achos maen nhw'n ddiddorol.

* Cyfeiriwyd at Gastell Henllys ym Mhecyn 1, Uned 2.

Gofynnwch i'r disgyblion ddweud wrthoch chi beth mae aelodau eraill y grŵp wedi awgrymu.

Felly, bydd angen iddyn nhw newid **Dw i'n meddwl ... i Mae ... yn meddwl:**

Mae ... yn meddwl bod Bob yn mynd i ...

Cyflwynwch y llyfr **Dewch i Gymru!** – neu ran ohono. Gallech chi edrych ar adrannau penodol a gofyn i'r disgyblion wneud gwaith penodol mewn perthynas â'r adrannau hyn, e.e.

(a) Mae Cymru'n gyffrous. (tudalen 4)

Gallech chi ofyn am ymateb y disgyblion:

Wyt ti'n mwynhau mynd i garnifal?

Ydych chi'n mwynhau mynd i garnifal?

Pryd?

Ble?

Gallen nhw gynllunio gwisg neu fflôt ar gyfer carnifal, gan ddisgrifio'r cynllun yn Gymraeg.

Beth am wneud gwisg / fflôt?

Gallen nhw wrando ar gerddoriaeth y Caribî, cerddoriaeth band dur neu jazz, mynegi barn am y gerddoriaeth a siarad am yr offerynnau:

Beth am wrando ar fiwsig jazz?

Beth am wrando ar fiwsig band dur?

Wyt ti'n hoffi'r miwsig?

Pam?

Pa offerynnau wyt ti'n gallu clywed?

Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed?

- Gallai hyn arwain at greu symudiadau dawns sy'n addas ar gyfer gorymdaith carnifal, e.e.

I'r chwith – chwech

I'r dde – pump

Syth ymlaen – pedwar

Igam-ogam ... ac eto ...

Rownd a rownd ...

Gyda'n gilydd ...

Symud fel neidr

a.y.b.

Yna, ar ôl dewis cerddoriaeth addas, gallai'r disgyblion berfformio'r ddawns hon ar fuarth yr ysgol neu yn neuadd yr ysgol, gan wisgo gwisgoedd lliwgar.

(b) Mae Cymru'n gyffrous. (tudalen 5)

Gallech chi ofyn i'r disgyblion ymateb:

Wyt ti'n mwynhau beicio / canŵio / caiacio ...?

Ydych chi'n mwynhau beicio / canŵio / caiacio ...?

Pryd?

Ble?

Gyda pwy?

Pam?

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu am y gweithgaredd hwn.

(c) Mae Cymru'n hardd. (tudalennau 6-7)

Gallai'r disgyblion edrych ar wefannau'r parciau cenedlaethol er mwyn casglu gwybodaeth, e.e. **Ffeindiwch dri darn o wybodaeth am y parciau cenedlaethol.**

Gallen nhw rannu'r wybodaeth – yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol ac yna gallen nhw ddylunio a chynhyrchu deunyddiau sy'n hyrwyddo'r parciau cenedlaethol neu ysgrifennu cerdyn post at ffrind. I wneud hyn, gallen nhw addasu a defnyddio llawer o'r iaith sydd i'w gweld ar y tudalennau hyn:

Annwyl ...

Dw i'n aros yn ...

Mae'n hardd / ddiddorol.

Mae'r bywyd gwyllt yn wych / hardd / ddiddorol / arbennig.

Ddoe, es i i ... a gwelais i ...

Hwyl fawr!

Hefyd, gallai'r disgyblion drafod y cwestiynau sy'n cael eu rhestru ar waelod tudalen 6 ac sy'n cyfeirio yn ôl at Uned 1 yn y pecyn yma.

Gellid gwneud gweithgareddau tebyg mewn perthynas â gweddill y llyfr.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu darnau perswadiol, e.e. hysbysebion i hyrwyddo Cymru, neu gallen nhw ysgrifennu llyfr am eu hardal nhw eu hunain – yn debyg i'r llyfr **Dewch i Gymru!**

- Gan ddefnyddio **Cerdyn Siarad 43** eto, gallai'r disgyblion weithio allan i ble yng Nghymru y bydd Bob yn mynd, gan ganolbwyntio ar ddau le penodol sy'n cael eu crybwyll yn y llyfr. Dylen nhw roi rhesymau dros eu dewis.
- Chwaraewch weddill y ffilm a gwiriwch oes rhai o'r disgyblion wedi cyfeirio at y mannau sy'n cael eu crybwyll ar y ffilm yn eu trafodaethau uchod.

Ar ddiwedd y darn hwn, gallai'r disgyblion drafod beth allai fod yn digwydd i Bob – yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Beth sy'n bod? Beth wyt ti'n feddwl?

Mae Bob yn syrthio.

Dw i'n meddwl bod Bob yn syrthio.

Cymharwch y syniadau a gorffennwch gyda:

Gawn ni weld.

- Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau am y ffilm a'r llyfr ar gyfer cwis, e.e. **Beth mae Bob yn wneud yn Llandudno?**
Beth mae Tom / Beca'n mwynhau gwneud yn Sir Benfro?
Beth mae Bob yn weld yn ...?
a.y.b.
- Gallen nhw chwilio am fwy o wybodaeth am y lleoedd sy'n cael eu crybwyll yn y llyfr neu ar y ffilm.

Yna, gallai'r disgyblion wneud y dasg sydd ar **Cerdyn Siarad 44**, gan seilio'u gwaith ar y wybodaeth sydd yn y llyfr ac ar eu hymchwil eu hunain:

Mae dau ffrind post yn siarad ar linc fideo:

A: Rwyf ti'n byw yng Nghymru. Ateba gwestiynau B.

B: Rwyf ti'n byw yn Awstralia ac rwyf ti eisiau gwybod beth sy yng Nghymru.

- Gallai'r disgyblion nodi lleoliad y mannau y cyfeirir atyn nhw yn y llyfr hwn ar fap gwag o Gymru, a fyddai'n arwain at ddefnyddio atlasau neu fapiau a chyfesurynnau er mwyn dod o hyd i'r mannau. Gallen nhw gynnwys symbolau priodol ar y map, e.e. arlliwiau a lliwiau er mwyn dynodi beth sydd i'w weld yn y mannau hyn, e.e. mynyddoedd, afonydd, llynnoedd, cestyll, cofebion, rheilffyrdd, ogofâu, parciau cenedlaethol a.y.b.
- Ar ôl trafod beth sydd yng Nghymru, gallai'r disgyblion ddylunio a chynhyrchu deunyddiau i hyrwyddo Cymru, e.e. poster, taflenni, cyflwyniad PowerPoint a.y.b. Gallai'r rhain gynnwys mapiau a delweddau. Gallen nhw ddefnyddio nifer o'r patrymau sy'n cael eu rhestru yn y llyfr, e.e.
Mae Cymru'n gyffrous.
Mae Cymru'n hardd.
Mae Cymru'n ddiddorol.
Mae Cymru'n hen.
Mae Cymru'n fodern.
Dewch i Gymru!

- I adolygu, chwaraewch y ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth dydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'r DVD yn grêt / wych.

Mae'r DVD yn ddoniol.

Mae'r DVD yn ddiddorol.

Mae'r DVD yn hwyl.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae e'n / o'n ddoniol.

Dw i'n hoffi'r DVD achos mae Bob yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn hwyl.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiflas achos mae'r stori'n wirion.

- I orffen y rhan hon o'r uned, gallech chi ofyn:

Beth welaist ti ar y ffilm?

Gwelais i ...

Beth glywaist ti ar y ffilm?

Clywais i ...

Beth ddysgaist ti yn yr uned / yn y llyfr?

Dysgais i am Gymru.

Uned 6: Rhan 2 – Bob, druan!

Nodau:

- Parhau â stori Bob mewn arddull ysgafn a chyflwyno'r ymadrodd **druan!**
- Datblygu'r defnydd o amser amherffaith y ferf: **Roedd y planhigyn ...; Roedd e'n canu ...** a.y.b.
- Dysgu cytgan anthem genedlaethol Cymru
- Codi ymwybyddiaeth o ieithoedd a diwylliannau eraill
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Brysia. Dw i'n trio ... Dyma'r newyddion. Roedd y planhigyn yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd e'n canu ... Roedd e'n gwisgo ... Roedd y planhigyn yn sgrechian. Roedd y ddau ddyn yn gwisgo ... Daeth dau ddyn ... Pleidiol wyf i'm gwlad. Beth oedden nhw'n wisgo? Beth ydy'r rhif ffôn? Y rhif ffôn ydy ... Ffoniwch ...	bwletin newyddion heddlu oferôls balaclafas gwlad arbennig gwerthu

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble mae Bob? Beth sy'n bod? Beth am wrando ar y bwletin eto? Syniad da. Gawn ni wrando ar y bwletin eto? Cewch wrth gwrs. / Na chewch. Sawl dyn? Pwy ydych chi? Beth am fynd allan i nôl pizza? Gorchmynion Yfa ddŵr a byddi di'n teimlo'n well. Arhoswch – un funud. Edrychwch. Rhaid helpu Bob. Dim sŵn! Symuda. Eraill Dydy e ddim yn gallu symud. Wela i di. Pardwn?	planhigyn mawr, gwyrdd, rhyfedd baner dail cliwiau hadau llawer o arian Croeso 'nôl.

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ble mae ...?

Beth am ...?

Beth sy'n bod ar (Bob)?

Sawl ...?

Arhoswch.

Dim sŵn!

Cyfarwyddiadau gam wrth gam

- Dechreuwch drwy gyflwyno'r stori, **Bob, Druan!**. Prif nod y llyfr hwn yw cyflwyno elfen o hwyl i'r gwersi, ond gan fod Bob yn canu anthem genedlaethol Cymru, gellid ei dysgu i'r disgyblion, neu gellid dysgu'r cytgan o leiaf.

Ar ôl i'r disgyblion ddarllen y stori, gallen nhw drafod beth fydd yn digwydd nesaf:

Beth sy'n digwydd nesa? Beth wyt ti'n feddwl?

Mae Tom / Beca'n dod i helpu Bob.

Mae Bob yn neidio allan o'r ffenest.

Dw i'n meddwl bod Tom / Beca'n dod i helpu Bob.

Dw i'n meddwl bod Bob yn neidio allan o'r ffenest.

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu diwedd i'r stori ac i ddarllen eu hawgrymiadau ar goedd.

Dywedwch:

Gawn ni weld.

- Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall y cyfeiriadau at hadau ac, os bydd angen, adolygwch y wyddoniaeth sy'n gysylltiedig â ffurfio hadau. Yn y stori hon, nid yw'r amser i Bob ffurfio hadau wedi cyrraedd eto (mae'r hadau'n werthfawr iawn!).
- Chwaraewch y ffilm, **Bob, druan!** (Uned 6, Rhan 2) drwyddi ac yna gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm?

Beth ydych chi'n feddwl o'r ffilm?

Mae'r ffilm yn ddoniol achos

Mae'r ffilm yn hwyl achos

Mae'r ffilm yn wirion achos ...

Dw i'n hoffi'r ffilm achos mae hi'n

Dw i'n hoffi'r ffilm achos mae Bob yn

Os yw'n briodol, gallech chi adolygu'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddoniol achos mae Bob yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn hwyl achos mae Bob yn ddoniol.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn wirion / ddwl achos

- Ar ôl i'r bwletin gael ei chwarae, mae Beca'n crynhoi'r cliwiau. Stopiwch y ffilm bob tro mae hi'n gofyn cwestiwn a gofynnwch i'r disgyblion ateb. Yna, chwaraewch y ffilm er mwyn gweld ydy'r disgyblion wedi rhoi'r ateb cywir.
- Gofynnwch i'r disgyblion helpu Beca a Tom i ddod o hyd i Bob drwy grynhoi'r wybodaeth. Gofynnwch iddyn nhw wrando ar y bwletin eto ac yna i gwblhau'r grid hwn.

Ble oedd Bob?	
Sawl dyn?	
Beth oedd y dynion yn wisgo?	
Beth ydy'r rhif ffôn?	

Atebion:

Yn Stadiwm y Mileniwm; 2 ddyn; oferôls gwyn a balaclafas du; 0976 333

- Yna, gallai'r disgyblion weithio mewn grwpiau i sgriptio apêl sydd i'w ddarlledu er mwyn ceisio dod o hyd i Bob. Gallen nhw ddisgrifio'r digwyddiadau sy'n arwain at Bob yn cael ei gipio, disgrifio'r dynion ac yna rhoi'r rhif ffôn. Gellid ffilmio hyn.
- Chwaraewch y darn sy'n cynnwys y bwletin newyddion eto, h.y.

Mae'r heddlu'n chwilio am ddau ddyn. Maen nhw'n cario planhigyn mawr, gwyrdd, rhyfedd.
 Roedd y planhigyn yn Stadiwm y Mileniwm, yng Nghaerdydd, ac roedd e'n canu'r anthem, "Hen Wlad fy Nhadau" ...
 Yn sydyn, daeth dau ddyn i fyny at y planhigyn, rhoi baner Cymru dros y dail, ac yna rhoi'r planhigyn mewn car.
 Roedd y planhigyn yn sgrechian.
 Roedd y ddau ddyn yn gwisgo oferôls gwyn a balaclafas du.
 Os ydych chi'n gweld y ddau ddyn, ffoniwch yr heddlu. Y rhif ffôn ydy:
 0976 333

- Eglurwch fod bwletin anghywir wedi cael ei ddarlledu ar sianel arall a gofynnwch i'r disgyblion ei gywiro.

Llungopiwch y bwletin ar y dudalen nesaf a gofynnwch i'r disgyblion ei ddarllen yn ofalus er mwyn dod o hyd i saith camgymeriad yn y darn a'u cywiro:

Y newyddion

Mae'r heddlu'n chwilio am dri dyn. Maen nhw'n cario planhigyn mawr, gwyrdd, rhyfedd.

Roedd y planhigyn yn Stadiwm y Mileniwm, yn Llanelli, ac roedd e'n canu'r anthem – "God Save the Queen".

Yn sydyn, daeth tri dyn i fyny at y planhigyn, rhoi baner Cymru dros y dail ac yna rhoi'r planhigyn mewn lori.

Roedd y planhigyn yn sgrechian.

Roedd y tri dyn un gwisgo oferôls du a balaclafas gwyn. Os ydych chi'n gweld y tri dyn, ffoniwch yr heddlu. Y rhif ffôn ydy:

0976 444

- Chwaraewch ddechrau'r darn eto, lle mae Sgrin yn ceisio cael newyddion am leoliad Bob. Canolbwyntiwch ar y cyfarchion mewn gwahanol ieithoedd ac ar y gerddoriaeth yn y cefndir a gofynnwch i'r disgyblion oes ganddyn nhw unrhyw syniad beth yw'r ieithoedd hyn ac o ble mae'r gerddoriaeth yn dod.

Yna, gallech chi addysgu rhai ymadroddion yn Ffrangeg / Sbaeneg / Rwsieg / Eidaleg. Yn ogystal, gallech chi wrando ar gerddoriaeth o'r gwledydd hyn, neu o wledydd eraill, gan ofyn i'r disgyblion ddweud beth yw'r offerynnau cerdd ac i ddweud eu barn.

Gallai cyflwyno **Cerdyn Siarad 45** roi cymorth a chefnogaeth i'r disgyblion wrth iddyn nhw wneud y gweithgaredd hwn:

Gwrandewch ar y miwsig.

O ble mae'r miwsig yn dod?

Beth ydych chi'n feddwl o'r miwsig?

- Yn dilyn y cyfeiriadau at fwyd yn yr uned yma, gallai'r disgyblion wneud bwydydd penodol, e.e. salad, bwyd Tsieineaidd syml sy'n cynnwys reis neu gyrrï, neu gellid cynnal sesiwn blasu bwyd, a fyddai'n arwain at fynegi barn.

Sylwer: Dylai'r disgyblion olchi'u dwylo, gwisgo ffedogau a dilyn arferion hylendid priodol wrth drin bwyd.

Gellid defnyddio **Cerdyn Siarad 46** i gefnogi'r gwaith hwn:

Sut mae gwneud salad?

Siaradwch am hyn.

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu rysâit ar gyfer eu bwyd, gan ddefnyddio'r ffurfiau gorchmynnol, neu **Rhaid ...** a dilyn templed y rysâit sydd ar y cerdyn darllen, **Crempogau**, (Uned 3, Rhan 1).

- I orffen y rhan hon o'r uned, gallech chi ofyn:
Beth welaist ti / welest ti ar y ffilm?
Gwelais i ...
Beth glywaist ti ar y ffilm?
Clywais i ...

Uned 6: Rhan 3 – Hadau a dawns

Nodau:

- Cyflwyno gwybodaeth am wasgaru hadau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cyflwyno dawns draddodiadol o Rwsia drwy gyfrwng y Gymraeg
- Atgyfnerthu **Beth wyt ti'n feddwl o ...? Dw i'n meddwl bod ...**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae hadau yn y ffrwythau. Bydd planhigion newydd yn tyfu. Rhaid rhoi'r hadau yn y pridd. Sut mae'r hadau'n mynd i'r pridd? Mae rhai hadau'n teithio yn y gwynt. teithio ar y dŵr arnofio teithio ar anifeiliaid byrstio Maen nhw'n glanio ar y pridd. Mae pobl yn hau hadau. Rhaid cael dŵr. pridd golau ocsigen gwres ddim yn rhy oer ddim yn rhy boeth Beth am ddawnsio gyda'n gilydd? Bydd o'n mynd i Gymru.	arnofio cario ffwr saff Rwsia

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy hwn? Beth sy'n digwydd? Ga i weld eto? Cei, wrth gwrs. / Na chei. Ga i glywed y miwsig eto? Pa fiwsig? Y miwsig o Rwsia. Beth am ddawnsio? Ble wyt ti'n mynd? Beth mae Tom yn wneud? Wyt ti eisiau trio'r ddawns? Gorchmynion Edrycha ar y ffrwythau. Eraill Mae'n flin 'da fi. / Mae'n ddrwg gen i. Mae'n gyffrous. Mae'r miwsig yn dechrau'n araf. Yna, mae'r miwsig yn gyflym. Dw i wedi blino. Mae e / o wedi blino. Dw i'n meddwl bod y ddawns yn gyffrous.	hadau ffrwythau afal oren tomato grawnwin melon llawer o hadau fel y Ddaear y ddau ddyn oferôls gwyn balaclafas du dŵr mwynhau smart ardderchog anhygoel

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy hwn?

Beth sy'n digwydd?

Edrycha ar y ... [Hefyd: **Edrychwch ar y ...**]

Cywir.

Un funud os gwelwch yn dda. (De Cymru); **Un munud os gwelwch yn dda.** (Gogledd Cymru)

Gwranda.; [Hefyd: **Gwrandewch.**]

Beth wyt ti'n wneud?; [Hefyd: **Beth ydych chi'n wneud?**]

Beth wyt ti'n feddwl o'r ...?; [Hefyd: **Beth ydych chi'n feddwl o'r ...?**]

Cyfarwyddiadau gam wrth gam:

- Chwaraewch y ffilm **Hadau a dawns** (Uned 6, Rhan 3) hyd at y man lle mae Sgrin yn dweud wrth Tom a Beca fod rhaid iddyn nhw aros hyd at yfory cyn mynd i'r Ddaear:
Ond dim heddiw – beth am fynd yfory?

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio'r gair am *seeds* – **hadau** – (a gyflwynwyd yn Uned 1) a gofynnwch iddyn nhw beth sy'n digwydd ar y DVD. Efallai y bydd angen i chi chwarae'r darn sawl gwaith er mwyn iddyn nhw ddeall.

Gofynnwch i'r disgyblion:

Pa liw ydy hadau'r afal?

oren
grawnwin
tomato
melon

Yna, gallech chi ofyn iddyn nhw am ffrwythau a hadau eraill, gan ddangos enghreifftiau fel y bo'n briodol.

Eglurwch fod Bob wedi cynhyrchu ffrwythau/hadau erbyn hyn a'i fod yn dechrau eu gwasgaru nhw.

Cyflwynwch / adolygwch y geiriau canlynol:

pridd
byrstio
anifeiliaid
pobl
dŵr
gwynt

ac eglurwch:

Mae hadau'n teithio ar anifeiliaid.

Mae hadau'n teithio ar y dŵr.

Mae hadau'n teithio yn y gwynt.

Mae rhai ffrwythau'n byrstio.

Gwylwch y ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall sut mae hadau'n cael eu gwasgaru.

- Cyflwynwch y cerdyn darllen **O'r Ffrwyth i'r Pridd** er mwyn atgyfnerthu'r patrymau a'r eirfa.
- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 47** er mwyn atgyfnerthu'r dulliau gwahanol o wasgaru hadau:
Sut mae'r hadau'n mynd o'r ffrwyth i'r pridd?
Siaradwch am hyn.

- Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu darnau ffeithiol sy'n egluro sut mae hadau'n cael eu gwasgaru a gallen nhw dynnu lluniau neu chwilio am ddelweddau addas ar y rhyngwyd.
- Dangoswch weddill y ffilm.
- Tynnwch sylw at y dillad mae Tom a Beca'n eu gwisgo a gofynnwch i'r disgyblion eu disgrifio, e.e. mewn cwis, efallai:
Beth mae Tom yn wisgo?
Beth mae Beca'n wisgo?

Eglurwch fod y cymeriadau'n gwisgo gwisg draddodiadol genedlaethol Rwsia ac nad yw Rwsiaid yn gwisgo'r dillad hyn bob dydd. Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio gwisg genedlaethol Cymru.

Yna, gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth am Rwsia, e.e. y faner, lleoliad y wlad, y brifddinas a.y.b.:

Tynnwch lun y faner.
Ble mae Rwsia ar y map?
Beth ydy arian Rwsia?
Beth ydy prifddinas Rwsia?
Ydy Rwsia yn y Cylch Arctig?
Pa iaith mae pobl Rwsia yn siarad?
Sut mae'r tywydd yn yr haf?
Sut mae'r tywydd yn y gaeaf?
etc.

- Canolbwyntiwch ar y ddawns.

Ar ôl ei gwyllo, gallai'r disgyblion fynegi eu barn, e.e.

Beth wyt ti'n feddwl o'r ddawns?
Beth ydych chi'n feddwl o'r ddawns?

Mae'r ddawns yn gyffrous.
Dw i'n hoffi'r ddawns achos mae hi'n

Os yw'n briodol, gallech chi gyflwyno'r patrwm:

Dw i'n meddwl bod y ddawns yn gyffrous.
Dw i'n meddwl bod y ddawns yn hwyl.
Dw i'n meddwl bod y ddawns yn ddiflas achos ...

Yna, gallen nhw geisio dawnsio'r ddawns – neu ddawns debyg iddi.

- Yna, canolbwyntiwch ar ddawns Beca. Gofynnwch i'r disgyblion fynegi barn ac yna gallen nhw berfformio'r ddawns – neu ddawns debyg.

Gofynnwch i'r disgyblion berfformio'r ddwy ddawns yr un pryd, fel mae Tom a Beca'n ei wneud ar y ffilm, gyda'r bechgyn yn dawnsio dawns Tom, a'r merched yn dawnsio dawns Beca, efallai.

Gallech chi gyflwyno dawnsiau sy'n bwysig i ddiwylliannau eraill yn ogystal, e.e. y ddawns Iddewig, *Hava Nagila*, y ddawns Sbaenaidd, y *Fflamenco* a.y.b. a gallai'r disgyblion fynegi eu barn am y dawnsiau hyn a'u perfformio. Ar y diwedd, gallen nhw ddweud:

Dw i wedi mwynhau.
Dw i wedi mwynhau dawnsio. Mae'r ddawns yn wych.

- I orffen y rhan hon o'r uned, gallech chi ofyn:
Beth welaist ti ar y ffilm?

**Gwelais i ...
Beth glywaist ti ar y ffilm?
Clywais i ...**

**Beth ddysgaist ti yn yr uned?
Dysgais i am hadau.
Dysgais i ddawns o Rwsia.**

Uned 6: Rhan 4 – Paratoi

Nodau:

- Cymryd rhan mewn ymarferion addysg gorfforol / cadw'n heini drwy gyfrwng y Gymraeg
- Paratoi brecwast iach drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae syched arna i. Dyma ble wyt ti. Mae e'n / o'n dda i chi. Maen nhw'n dda i chi. Does dim halen yn y grawnfwyd. Does dim siwgr yn y grawnfwyd. Mae gormod o halen a siwgr yn ddrwg i chi. Dw i ddim yn gallu gweld. Mae'n hawdd. Mae'r miwsli yma'n dda iawn ond mae'r miwsli yma'n well.	cryf, yn gryf yn heini rhesins miwsli egni bricyll coconyt

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n cadw'n heini. Pam wyt ti'n cadw'n heini heddiw? Beth am gadw'n heini gyda fi? Iawn. Barod? Ble mae'r bwyd? Beth sy yn y drôr yma? Beth wyt ti'n fwyta? Beth am roi ffrwythau yn y miwsli? Gorchmynion Rhaid gwisgo dillad chwaraeon. Rhaid gwisgo treinyrs. Rhaid rhoi'r uwd yn y bowlen. Rhaid rhoi'r rhesins yn y bowlen. Rhaid cymysgu. Eraill Dw i eisiau bwyd. Does dim ...	i'r chwith i'r dde i lawr dau ddyn oferôls gwyn balaclafas du dŵr bwyd cawod rhwgell cwpwrdd O'r diwedd! uwd ffrwythau ffrwythau sych bacwn (cig moch) wy, wyau sosej, sosejis tomato, tomatos grawnfwyd gormod powlen llaeth / llefrith yma

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

I'r chwith / dde ...

I lawr ... [Hefyd: **I fyny ...**]

Ble mae'r ...?

Beth wyt ti'n wneud?; [Hefyd: **Beth ydych chi'n wneud?**]

Beth am ... (+ treigladd meddal)?; **Syniad da.**; **Na, dw i ddim yn meddwl.**

Rhaid (gwisgo dillad chwaraeon).

Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ...

Beth sy yn y (cwpwrdd)?

Mae ... yn dda i chi.

Mae gormod o ... yn ddrwg i chi.

Beth wyt ti'n fwyta?

Rhaid defnyddio ...

Mae ... yn dda iawn ... ond mae ... yn well.

Awgrymiadau gam wrth gam:

- Eglurwch eich bod chi'n mynd i wyllo darn o ffilm sy'n dangos Tom yn **cadw'n heini**.
Rydyn ni'n mynd i edrych ar y ffilm. Mae Tom yn cadw'n heini ar y ffilm.

Cyn dangos y ffilm, gofynnwch :
Sut ydych chi'n cadw'n heini?

Adolygwch eiriau megis
neidio
rhedeg
cerdded
nofio
chwarae pêl-droed
chwarae rownderi
a.y.b.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 48**.
Sut ydych chi'n cadw'n heini?
Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion drafod y cwestiwn hwn gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eirfa a phatrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Ar ôl iddyn nhw orffen, gofynnwch **Sut mae Tom yn cadw'n heini? Gawn ni weld.**

- Dangoswch y ffilm, **Paratoi** (Uned 6, Rhan 4) hyd at y man lle mae Tom a Beca yn gorffen eu hymarfer ac yn yfed dŵr.
- Gallai'r disgyblion ysgrifennu nifer o gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm ac yna gallen nhw ofyn cwestiynau i dimau eraill mewn cwis, e.e.
Beth mae Tom yn wneud?
Sut mae Tom yn cadw'n heini?
Mae e'n / o'n rhedeg.
Mae e'n / o'n symud i fyny ac i lawr / i'r chwith ac i'r dde.
Beth mae Tom yn wneud ar ôl cadw'n heini?
Beth ydy'r gair Cymraeg am ...?
- Os nad yw'r pwnc wedi codi yn ystod y cwis, gofynnwch i'r disgyblion restru beth mae Tom a Beca'n wisgo ar gyfer eu sesiynau cadw'n heini:
Beth mae Tom / Beca yn wisgo?

Pa liw ydy crys T Tom?

Pwysleisiwch:

Rhaid gwisgo dillad chwaraeon i gadw'n heini.

Pam?

Achos rydyn ni'n chwysu.

Yna, gofynnwch **Beth ydy dillad chwaraeon?**

Gofynnwch iddyn nhw restru geiriau **dillad chwaraeon** mewn munud.

- Chwaraewch y darn eto a gwiriwch yr atebion, ond y tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion wrando am eiriau sy'n gysylltiedig â'r sesiynau cadw'n heini, e.e.

I'r chwith ...

I'r dde ...

I lawr ...

... a rhedeg.

Rheda ...

Cerdda'n gyflym ...

Neidia a ... clapia

Plyga ...

Rheda ...

Stopia.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu hawgrymiadau a'u rhestru ar y bwrdd gwyn.

- Yna, gallai'r disgyblion ffurfio grwpiau er mwyn dyfeisio'u rhaglenni ymarfer eu hunain. Gallen nhw ddangos sut i wneud yr ymarferion a'u dysgu i grwpiau eraill. Beth sy'n bwysig yw eu bod nhw'n defnyddio'r Gymraeg fel dull naturiol o gyfathrebu wrth wneud hyn.
- Chwaraewch ran nesa'r ffilm a thynnwch sylw at y ffaith fod Beca'n darllen y pecynnau grawnfwyd yn ofalus wrth iddi ddewis beth i'w fwyta:

Does dim halen a does dim siwgr yn y grawnfwyd.

achos

Mae gormod o halen a siwgr yn ddrwg i chi.

Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddod â phecynnau grawnfwyd gwag i'r dosbarth er mwyn iddyn nhw gymharu faint o siwgr a halen sydd ym mhob grawnfwyd a gwneud rhestr o rawnfwydydd iach / llai iach.

Gallen nhw lenwi holiaduron neu gridiau, e.e.

Faint o siwgr sy yn ...?

Faint o halen sy yn ...?

Gellid cofnodi'r canfyddiadau ar ffurf graffiau a gellid egluro'r rhain mewn dull syml. Yna, gellid cymharu'r grawnfwyd:

Mae ... yn well na ... achos mae llai o siwgr yn ... nag yn ...

- Gwyliwch weddill y ffilm drwyddi a chanolbwyntiwch ar y ffordd mae'r cymeriadau'n gwneud **miwslï**.
- Cyflwynwch y cerdyn darllen **Miwsli**.

Gallai'r disgyblion wneud eu miwslï eu hunain, gan ychwanegu cynhwysion newydd ac addasu'r rysâit fel y mynnan nhw.

Sylwer: Dylai'r disgyblion olchi'u dwylo, gwisgo ffedogau a dilyn arferion hylendid priodol wrth drin bwyd.

Yna, gellid rhannu'r miwsli a gallai'r disgyblion fynegi barn ar fiwsli ei gilydd.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 49** er mwyn adolygu a sicrhau eu bod wedi deall:

Sut mae gwneud miwsli?

Siaradwch am hyn.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu'r rysait drwy ddilyn y templed sydd ar yr adnodd darllen

Crempogau, (Uned 3, Rhan 1) a defnyddio'r ffurfiau gorchmynnol neu **Rhaid** Gallen nhw feddwl am enw newydd ar gyfer eu miwsli hefyd.

Yna, gallen nhw ysgrifennu sgript ar gyfer hysbysebu'r miwsli, e.e. gallen nhw feddwl am:

- leoliad yr hysbyseb, e.e. yn yr ysgol / yn y cartref / ar y traeth / yn y Pod-antur Cymraeg

- beth sy'n digwydd yn yr hysbyseb, e.e. Mae'r plant yn cysgu ... / Mae'r plant yn deffro / diuno ...

- esboniad ynglŷn â pham mae eu miwsli'n iach, e.e. **Does dim halen a does dim siwgr yn y grawnfwyd** achos

Mae gormod o halen a siwgr yn ddrwg i chi.)

- disgrifiadau o'r blas, e.e. **Mae'n flasus / anhygoel / wych / fendigedig.**

Os yw'n briodol, gellid ffilmio'r gwaith hwn a'i ddangos i grwpiau eraill.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion wneud gweithgareddau mathemategol sy'n gysylltiedig â'r rysait, e.e. faint o gynhwysion byddai eu hangen pe baen nhw'n gwneud miwsli ar gyfer 4 / 6 / 10 person a.y.b.?

Faint o uwd?

Faint o ffrwythau?

a.y.b.

- I orffen y rhan hon o'r uned, gallech chi ofyn:

Beth welaist ti ar y ffilm?

Gwelais i ...

Beth glywaist ti ar y ffilm?

Clywais i ...

Beth ddysgaist ti yn yr uned?

Dysgais i sut i wneud miwsli.

Uned 6: Rhan 5 – Mynd adre

Nodau:

- Dod â stori Bob i ben
- Adolygu cyfarwyddiadau
- Adolygu'r amser gorffennol
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
I ble yng Nghymru ydyn ni'n mynd? Dw i'n meddwl bod Bob yn cuddio'r map. Pam mae angen hwn? Dw i wedi cael digon. Diolch byth!	goglais offer digon

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn. Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw. Ble mae'r dŵr? Dw i ddim yn gwybod. Ble mae "adre"? Wyt ti eisiau mynd adre? Ydw. / Nac ydw. Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Beth ydy'r sŵn? O ble mae'r sŵn yn dod? Beth sy'n bod? Wyt ti'n clywed? Ydw. / Nac ydw. Gorchmynion Edrycha yn y pridd. Ewch i'r sgrin nesa. Brysia – yn dawel. Tyrd. / Dere. Byddwch yn ofalus. Cerddwch ymlaen – chwech Trowch i'r chwith. Trowch rownd a rownd. Paid siarad yn wirion. Paid siarad dwli. Rhaid ateb y cwestiynau. Rhaid plannu Bob yn y pridd. Plannwch Bob. Rhaid gwneud twll. Rhaid rhoi Bob yn y pridd. Rhaid rhoi pridd o gwmpas Bob. Rhaid rhoi dŵr i Bob. Eraill Mae Bob yn hapus achos mae e'n mynd adre.	map pridd rhyfedd Pardwn? Croeso. Yn gynta ... cylch coch rhaw fforch can dŵr rhoi dŵr i ... (h.y. dyfrio) drwy o dan at y adar planhigyn deg mil o bunnau bwystfil enfawr drewllyd Ych a fi! rhy sych rhy dywyll twll

Does dim map yn y pridd. Dim problem. Pob lwc! Does dim bwystfil yn y llyn.	
--	--

Trosglwyddo'r patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn.; Wyt ti'n barod? Ydw. / Nac ydw.

Ble mae'r ...?

Dw i ddim yn gwybod.

Does dim ... yn y ...

Wyt ti eisiau mynd adre? Ydw. / Nac ydw.; Ydych chi eisiau mynd adre? Ydyn. / Nac ydyn.

Beth ydy hwn?; Beth ydy'r rhain?

Beth ydy'r sŵn?

O ble mae'r sŵn yn dod?

Rhaid ateb y cwestiynau.

Rhaid gwneud y tasgau.

Pob lwc!

Yn dawl.

Byddwch yn ofalus. [Hefyd: Bydda'n ofalus.]

Beth sy'n bod?

Pardwn?

Cyfarwyddiadau gam wrth gam:

- Dangoswch y ffilm **Mynd adre** (Uned 6, Rhan 5) yn ei chyfanrwydd. Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn.

Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm / stori?

Beth ydych chi'n feddwl o'r ffilm / stori?

Mae'r ffilm / stori yn hapus achos ...

Mae'r ffilm / stori yn gyffrous achos

Mae'r ffilm / stori yn ddiflas achos ...

Mae'r ffilm / stori yn ... achos dw i ddim yn hoffi ...

Dw i'n meddwl bod y ffilm / stori yn gyffrous achos ...

Dw i'n meddwl bod y ffilm / stori yn ddiflas achos ...

Dw i'n meddwl bod y ffilm / stori yn ofnadwy achos ...

Mae Josh a Bert yn ddoniol iawn.

Mae Josh a Bert yn rhyfedd.

- Canolbwyntiwch ar yr adrannau lle mae cyfarwyddiadau'n cael eu rhoi a gofynnwch i'r disgyblion wrando amdany'n nhw:

Cerddwch ymlaen chwech.

Trowch i'r chwith ... yna cerddwch ymlaen pump.

Trowch rownd a rownd ac yna cerddwch ymlaen tri deg – drwy'r gât ... heibio i'r coed mawr ac at y llyn.

Adolygwch roi cyfarwyddiadau yn Gymraeg, e.e.

Ewch i'r chwith ...

Ewch i'r dde ...

Ewch syth ymlaen ...

Ewch heibio i'r ...

Ewch o dan y ...

Ewch o flaen y ...
Ewch drwy'r ...

Mewn parau, gofynnwch i'r disgyblion drefnu llwybr penodol ar dir yr ysgol. Yna, dylen nhw wneud map sy'n dangos y llwybr ac sy'n egluro'r cyfarwyddiadau. Dylid rhoi hwn i bâr arall o ddisgyblion a dylai'r pâr hwnnw ddilyn y map a'r cyfarwyddiadau er mwyn gweld i ble mae'r llwybr yn eu cymryd.

- Canolbwyntiwch eto ar yr adran lle mae Beca'n galw ar y 'bwystfil' sydd yn y llyn:

Wyt ti yno?
Wyt ti'n fawr?
Wyt ti'n enfawr?
Wyt ti'n ddrewllyd?
Wyt ti'n ych a fi?

Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall beth sy'n cael ei ddweud a gofynnwch iddyn nhw pa gwestiynau eraill y gallai hi fod wedi eu gofyn. Cadwch yn glir o'r ymadrodd, **Oes gen ti ...?** / **Oes gennych chi?** os nad ydych chi wedi cyflwyno'r patrwm hwn eisoes:

Wyt ti'n goch?
Wyt ti'n ddu?
Wyt ti'n wyn?
Wyt ti'n wyrdd?

Sylwer: Mae ansoddair yn treiglo ar ôl **yn** neu **'n**.

Gallen nhw ofyn:

Wyt ti'n hoffi nofio?
Wyt ti'n mwynhau byw yn y llyn?
Wyt ti'n bwyta pobl?
Wyt ti'n dod allan o'r llyn?
Wyt ti'n gallu rhedeg?
Wyt ti'n gallu cerdded?
Wyt ti'n gallu dringo?
Wyt ti'n gallu neidio?

a.y.b.

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu 5 cwestiwn yr un ac yna i gymharu beth maen nhw wedi'i ysgrifennu.

- Canolbwyntiwch ar y rhan lle mae Tom yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol:

Rhaid gwneud twll.
Rhaid rhoi Bob yn y twll.
Rhaid rhoi pridd o gwmpas Bob.
Rhaid rhoi dŵr i Bob.

Yna, gallai'r disgyblion blannu blodau neu blanhigion, llwyni neu blanhigion llysiau gwahanol yng ngardd yr ysgol / mewn cafnau a.y.b., gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau hyn wrth wneud hynny.

- Cyflwynwch y gyfrol **Dyddiadur Bob**.

Tynnwch sylw at y label sydd ar ddechrau'r llyfr a rhowch labeli tebyg i'r disgyblion, e.e.

Enw:	
Cyfeiriad:	
Rhif ffôn:	
Oed:	
Hobiau:	
Hoff fwyd:	
Hoff ddiod:	
Hoff liw:	

Gofynnwch iddyn nhw lenwi'r labeli hyn gyda gwybodaeth am eu partner. Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 50** er mwyn cynnig cymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen.

A: Gofynna gwestiynau i dy bartner di i lenwi'r ffurflen.

B: Ateba'r cwestiynau.

Mae'r dasg hon yn adolygu llawer o'r gwaith a wnaed mewn pecynnau ac unedau blaenorol.

- Bwriad y dyddiadur yw annog y disgyblion i ysgrifennu am ddigwyddiadau yn y gorffennol ar ffurf cofnod mewn dyddiadur.

Tynnwch sylw at ffurfiau'r gorffennol sydd wedi eu cyflwyno eisoes a chyflwynwch rai newydd, gan ddangos eu bod i gyd yn dilyn yr un patrwm – sef maen nhw'n gorffen gydag **-ais** neu **-es**. Gweler tud. 15. yn y dyddiadur.

Gofynnwch i'r disgyblion sôn wrth ei gilydd am 5 peth a wnaethon nhw yn ddiweddar, gan ddefnyddio ffurfiau'r amser gorffennol. Os yw'n briodol, gallech chi ofyn iddyn nhw fynegi barn hefyd, gan ddefnyddio **roedd**, e.e.

Es i i Aberystwyth. Roedd e'n / o'n wych.

Bwytais i salad i swper. Roedd e'n / o'n flasus.

Darllenwch y darn o'r dyddiadur sydd ar dudalen 12 a thynnwch sylw at ffurfiau'r amser gorffennol a'r geiriau cyswllt. Yna, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu darn tebyg ar gyfer eu dyddiadur, gan ddefnyddio ffurfiau'r amser gorffennol sydd ar dudalen 15.

- Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi ymadroddion a welir yn y dyddiadur sy'n cyfleu teimladau.

Dw i'n ...	Dw i'n teimlo'n ...
Dw i'n hapus.	Dw i'n teimlo'n hapus.
Dw i'n drist.	Dw i'n teimlo'n drist.
Dw i'n ofnus.	Dw i'n teimlo'n ofnus.
Dw i'n grac / flin.	Dw i'n teimlo'n grac / flin.
Dw i'n nerfus.	Dw i'n teimlo'n nerfus.
Dw i'n unig.	Dw i'n teimlo'n unig.
Dw i'n sâl.	Dw i'n teimlo'n sâl.
	Dw i'n teimlo'n gyffrous.
	Dw i'n teimlo'n wych.
	Dw i'n teimlo'n ddiflas.
	Dw i'n teimlo'n ofnadwy.

Yna, mewn gêm ar gyfer tîm, gofynnwch iddyn nhw feimio teimladau gwahanol fel bod eu tîm yn gallu dyfalu sut maen nhw'n teimlo.

- I orffen, gofynnwch iddyn nhw ddyfalu beth fydd yn digwydd ym Mhecyn 4 y Pod-antur Cymraeg:
Beth sy'n digwydd nesa?
Beth sy'n digwydd ym Mhecyn 4?
Mae Tom a Beca'n mynd i ...
Mae Tom a Beca'n teithio i ...
Mae Tom a Beca'n gweld ...
Mae Tom a Beca'n bwyta ...

Gofynnwch iddyn nhw ddewis pedair brawddeg ac i gymharu syniadau.